

Agenda – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:	I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 3 – Y Senedd	Fay Bowen
Dyddiad: Dydd Llun, 14 Ionawr 2019	Clerc y Pwyllgor
Amser: 13.30	0300 200 6565
	SeneddArchwilio@cynulliad.cymru

- 1 **Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**
(13.30)
- 2 **Papur(au) i'w nodi**
(13.30 – 13.45)
 - 2.1 **Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio (RIFW): Llythyr gan Lywodraeth Cymru (29 Tachwedd 2018)**
(Tudalen 1)
 - 2.2 **Diogelwch Cymunedol yng Nghymru: Gwybodaeth ychwanegol gan Lywodraeth Cymru**
(Tudalennau 2 – 7)
 - 2.3 **Craffu ar Gyfrifon 2017–18: Gwybodaeth ychwanegol gan Amgueddfa Cymru**
(Tudalennau 8 – 10)
 - 2.4 **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Rheoli effaith Brexit ar y Rhaglen Datblygu Gwledig**
(Tudalennau 11 – 50)
 - 2.5 **Adroddiad(au) Archwilydd Cyffredinol Cymru: Aeddfedrwydd llywodraeth leol o ran y defnydd o ddata**
(Tudalennau 51 – 102)
 - 2.6 **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru: Datganoli Cyllidol yng Nghymru**
(Tudalennau 103 – 160)
- 3 **Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru: Ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad y Pwyllgor**
(13.45 – 14.15) (Tudalennau 161 – 167)



PAC(5)-01-19 Papur 2 – Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru

4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

(14.15)

Eitemau 5, 6, 7, 8 a 9

5 Perthynas Llywodraeth Cymru â Pinewood: Trafod yr adroddiad drafft

(14.15 – 14.45)

(Tudalennau 168 – 198)

PAC(5)-01-19 Papur 3 – Adroddiad drafft

6 Rheoli apwyntiadau cleifion allanol ar draws Cymru: Trafod y papur cwmpasu

(14.45 – 15.00)

(Tudalennau 199 – 201)

Papur briffio

7 Menter Atal Twyll Genedlaethol: Trafod y papur cwmpasu

(15.00 – 15.15)

(Tudalennau 202 – 203)

PAC(5)-01-19 Papur 4 – Papur cwmpasu

8 Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

(15.15 – 15.30)

(Tudalennau 204 – 260)

Papur briffio gan y Gwasanaeth Ymchwil

PAC(5)-01-19 Papur 5 – Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru

9 Adroddiad(au) Archwilydd Cyffredinol Cymru: Blaenraglen waith

(15.30 – 16.00)

(Tudalennau 261 – 283)

PAC(5)-01-19 Papur 6 – Blaenraglen Waith Archwilydd Cyffredinol Cymru

Tracey Burke

Cyfarwyddwr Cyffredinol / Director General
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Education and Public Services Group



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Nick Ramsay AC
Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

29 Tachwedd 2018

Annwyl Mr Ramsay,

Yn dilyn fy llythyr atoch dyddiedig 21 Mai ynghylch Cronfa Buddsoddi Cymru mewn Adfywio, ysgrifennaf i roi diweddariad i chi.

Fel y gwyddoch, mae achos cyfreithiol wedi'i gychwyn yn erbyn Rheolwyr Cronfa Lambert Smith Hampton ac Amber am dorri contract ac esgeuluster proffesiynol. Gallaf gadarnhau bod barnwr wedi'i benodi i lywio'r achos ac mae amserlen wedi'i phennu gan y llysoedd.

Gobeithio y byddwch yn deall mai ychydig iawn y gallaf ei ddweud am y broses gyfreithiol ar hyn o bryd ond mae'n dda gennyf ddweud ein bod yn parhau i fynd ar drywydd yr achos yma yn egniol ac er budd y cyhoedd. Rydw i hefyd yn hapus i'ch sicrhau y byddwn yn rhoi adroddiad pellach i'r Pwyllgor am unrhyw ddatblygiadau o bwys i ddatrys y mater dan sylw.

Yn gywir

Tracey Burke



Parc Cathays • Cathays Park
Caerdydd • Cardiff
CF10 3NQ

Ffôn • Tel 0300 0258047
tracey.burke@gov.wales
Gwefan • website: www.wales.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding

Tudalen y pecyn 1



Briff Technegol ar Ddiogelwch Cymunedol i Aelodau'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Derbyniwyd y cwestiynau canlynol cyn cyfarfod i ddiweddaru aelodau'r Pwyllgor ar 12 Tachwedd 2018, a darparwyd atebion arfaethedig.

1. Beth fu'r prif welliannau o ran rheoli a chyflawni Diogelwch Cymunedol yng Nghymru ers adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn 2016?

- Yn gyntaf, dylid ailadrodd pwysleisio bod diogelwch cymunedol yn faes sy'n parhau i achosi heriau sylweddol. Mae cymhlethdod cyflawni swyddogaethau datganoledig yn erbyn cymwyseddau heb eu datganoli yn rhywbeth sy'n effeithio ar bethau ar bob lefel, yn wleidyddol ac ar lefel swyddogol.
- Felly, mae'n hanfodol ymgymryd â dull cyfannol o weithredu'r system cyfiawnder troseddol yma yng Nghymru, lle y gall Llywodraethau weithio gyda'i gilydd er mwyn gwneud ein cymunedau yn fwy diogel ac rydym eisiau symud i ffwrdd o'r strwythurau cyffredol a mabwysiadu strwythur sy'n addas at y diben. Felly, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i archwilio sut y byddai system gyfiawnder wahanol yn gweithredu yng Nghymru ac rydym wedi dechrau'r drafodaeth hon gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Mae Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi yng Nghymru wedi datblygu ar y cyd **Fframwaith i gefnogi newid cadarnhaol i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu yng Nghymru**. Diben y **Fframwaith** yw gwella gwasanaethau ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o ymuno â'r system cyfiawnder troseddol neu sydd eisoes yn rhan ohoni. Bydd y Fframwaith hefyd yn hybu cydweithio parhaus er mwyn lleihau ymhellach nifer y troseddwyr sy'n ymuno â'r system cyfiawnder troseddol, cefnogi troseddwyr i beidio ag aildroseddu a chadw cymunedau'n ddiogel.
- Mae Bwrdd y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel wedi nodi mai Troseddau Difrifol a Threfnedig a gweithgareddau 'llinellau cyffuriau' a thrais difrifol cysylltiedig yw'r flaenoriaeth fwyaf i'r holl bartneriaid ac ardaloedd o fewn Cymru a chytunwyd mai dyma fydd y ffocws ar unwaith o ran datblygu a gweithredu'r Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel mewn partneriaeth agos â rhaglen Camau Cynnar Gyda'n Gilydd Cronfa Trawsnewid yr Heddlu dan arweiniad Iechyd Cyhoeddus Cymru.

2. Gan ystyried y cyfnod o amser rhwng nodi problemau a datblygu'r cynllun gweithredu ar y cyd, pryd ydych chi'n rhagweld y bydd dinasyddion Cymru yn gweld gwelliant pendant mewn gwasanaethau diogelwch cymunedol?

- Rydym eisoes wedi cymryd camau pendant – sefydlwyd meysydd gwaith niferus o dan y Rhaglen Cymunedau Mwy Diogel ac maent yn parhau i fynd rhagddynt. Ymhlith rhai o'r meysydd hyn, a fydd yn cael effaith sylweddol ar ddinasyddion Cymru mae:
 - Ymgorffori ymagwedd "iechyd y cyhoedd" tuag at wraidd ein rhaglen, gan gadw at gytundeb partneriaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas ag asiantaethau plismona a chyfiawnder troseddol ledled Cymru, gan sicrhau bod Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) yn cael eu cydnabod a bod achosion o weithio mewn partneriaeth ar ddiogelwch cymunedol yn ystyried arferion a gaiff eu harwain gan drawma;

- Cydweithio rhwng Llywodraeth Cymru a Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i ddatblygu glasbrintiau cyfiawnder penodol ar gyfer pobl ifanc a menywod sy'n troseddu;
- Gwaith parhaus i alinio agweddau penodol ar ddiogelwch cymunedol yn Llywodraeth Cymru gan gynnwys; camddefnyddio sylweddau, trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, cydlyniant cymunedol a chyfiawnder ieuenctid, diogelwch, tai ac iechyd;
- Sefydlu ffrwd waith i oresgyn y rhwystrau amrywiol a nodwyd a phroblemau mewn perthynas â rhannu data am bartneriaethau, datblygu a dadansoddi data;
- Sefydlu dull mwy integredig a chydweithredol o ddeall cryfderau a gwendidau'r asiantaethau sy'n ymwneud â lleihau aildroseddu yn well drwy edrych ar sut y gallant gydweithio i wella'r "system gyfan" yn hytrach nag elfennau unigol ohoni;
- Gweithio gydag awdurdodau lleol, heddluoedd a grwpiau Troseddau Difrifol a Threfnedig (i enwi dim ond tri) i adfywio diogelwch cymunedol. Er enghraifft, gweithio gyda Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Casnewydd a Chomisiynydd Heddlu a Throseddau Gwent i ymdrin â'r bygythiad o weithgareddau llinellau cyffuriau sydd wedi ymsefydlu yn ardaloedd Pill, Ringland ac Always. Caiff proffiliau problemau lleol eu datblygu ar gyfer pob un o'r 22 awdurdod lleol.

3. Pryd y gallwn ddisgwyl gweld canllawiau penodol ar waith ar gyfer diogelwch cymunedol? Beth yw'r prif heriau o ran datblygu'r polisi hwn yn eich barn chi a sut y byddwch yn sicrhau ei fod yn cyfateb â blaenoriaethau'r Swyddfa Gartref?

- Mae'r heriau yn cydnabod y gwahaniaethau a'r amrywiadau sylweddol yn y dirwedd diogelwch cymunedol sy'n deillio o ddatganoli, a darparu gwasanaethau sydd heb eu datganoli o fewn tirwedd ddatganoledig.
- Mae hyn yn arbennig o amlwg o gofio'r ddibyniaeth ar wasanaethau datganoledig i gyflawni canlyniadau sydd heb eu datganoli. Dros y misoedd diwethaf, bu hyn yn amlwg iawn wrth ystyried datblygu a lansio nifer o bolisiau'r DU sy'n cael effaith uniongyrchol ar swyddogaethau datganoledig, ac rydym wedi bod yn gweithio'n galed gydag adrannau Llywodraeth y DU i sicrhau eu bod yn berthnasol ac yn briodol i Gymru. Ymhlith y rhain mae Strategaeth Trais Difrifol a Strategaeth Troseddau Difrifol a Threfnedig y Swyddfa Gartref a Strategaeth Dioddefwyr a Strategaeth Menywod sy'n Troseddu y Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Felly, yn ogystal â sicrhau bod y gwaith hwn yn cyfateb â blaenoriaethau'r Swyddfa Gartref, mae'r dasg hefyd yn gofyn i ni sicrhau bod strategaethau'r Swyddfa Gartref yn ystyried gofynion deddfwriaethol penodol Cymru, megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.
- Byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid diogelwch cymunedol ar ddechrau 2019, gan gynnwys heddluoedd, awdurdodau lleol a Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol i nodi eu gofynion ar gyfer canllawiau penodol sy'n diwallu anghenion Cymru, ac rydym yn disgwyl y byddwn wedi datblygu strategaethau canllawiau ar-lein erbyn haf 2020.

- Bydd y broses o ddatblygu'r canllawiau yn cael ei chyflawni ochr yn ochr â gwaith i ddatblygu adnodd hyfforddi ar-lein a chronfa ddata a rhwydwaith Cymru gyfan o arbenigedd ym maes diogelwch cymunedol. Nid ydym yn ymddiheuro am gymryd amser (hyd at 2020) i sicrhau bod y gwaith hwn yn gywir ac yn addas at y diben, gan gydnabod bod y deunydd yn dyddio'n fuan ac angen cael ei ddiweddarau'n barhaus.

4. Sut ydych chi'n bwriadu dangos eich perfformiad i ddinasyddion, er mwyn iddynt allu barnu a yw eich gwasanaethau diogelwch cymunedol yn gwella ai peidio?

- Bydd ein gwaith yn cael ei ddangos drwy adfywio'r gwaith ar ddiogelwch cymunedol a ymgorfforir mewn awdurdodau lleol mewn cydweithrediad â phartneriaid diogelwch cymunedol allweddol eraill i sicrhau gwasanaeth aml-asiantaeth cwbl gydlynol sy'n darparu atebion megis gwasanaethau ac atebion i broblemau lleol a rhanbarthol MASH fel y'u hamlinellwyd yn gynharach mewn perthynas â gweithgareddau llinellau cyffuriau yn ardal Casnewydd.
- Byddwn yn sicrhau bod cyfranogiad partneriaeth leol er mwyn darparu cymorth o ran 'sut' maent yn darparu diogelwch cymunedol – sy'n cynnwys ymgysylltiad a chyfranogiad dinasyddion. Bydd y canllawiau ar gyfer Cymru yn y pen draw yn darparu mwy o wybodaeth ac astudiaethau achos ar arferion effeithiol.
- Partneriaethau a phartneriaid lleol [nid Llywodraeth Cymru] ddylai fod yn gyfrifol am brofi eu bod yn perfformio'n well i ddinasyddion ym mhob ardal gan fod pob ardal yn wahanol ac yn meddu ar flaenoriaethau lleol gwahanol. Gallwn ddarparu cymorth, canllawiau a fframwaith strategol mwy defnyddiol sy'n seiliedig ar ganlyniadau yn hytrach na mewnbynnau/allbynnau (*bean counting*).

5. Beth yw'r prif risgiau y mae cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn eu hwynebu o ran gwella gwasanaethau diogelwch cymunedol a sut y maent yn cael eu rheoli a'u lleihau gan Lywodraeth Cymru a'i phartneriaid?

- Mae cymhlethdod a nifer y grwpiau a sefydliadau ar lefel ranbarthol a lleol yn golygu her sylweddol. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â'r partneriaid allweddol gan gynnwys CLIC a'r heddlu yng Nghymru, yn mapio'r sefydliadau gwahanol sy'n cyflawni drwy lens diogelwch cymunedol a byddant yn gweithio gyda hwy i nodi sut y gall y grwpiau hyn gyfateb neu gydlynu gweithgareddau yn well i sicrhau bod adnoddau yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf priodol, o gofio bod cyfyngiadau cyllid a blaenoriaethau cyllidebau cystadleuol yn parhau i fod yn risg barhaus a sylweddol.
- Data – ar hyn o bryd mae nifer o asiantaethau yn casglu data ond nid ydym wedi ein darbwylo eu bod yn casglu'r data cywir nac yn ei ddefnyddio yn y ffordd gywir. Ac yn aml, nid yw asiantaethau yn rhannu'r data ar sail asiantaethau lluosog. Rydym wedi sefydlu ffrwd waith a fydd yn ystyried y materion hyn ymhellach gyda'r nod o sefydlu cytundeb mewn perthynas â chasglu a rhannu data.
- Mae adnoddau, yn nhermau arian a staff rheng flaen, yn parhau i fod yn fater pwysig. Er bod cronfeydd penodol o gyllid grant gan y Swyddfa Gartref ac ati yn aml mae'r cyllid hwn ar gael am dymor byr ac nid yw'n edrych i'r dyfodol/yn canolbwyntio ar ganlyniadau neu atebion hirdymor. Byddwn yn gweithio gyda sefydliadau sydd wedi gwneud cynnig am, neu'n bwriadu gwneud cynnig am gyllid, gan gynnwys elfen gynaliadwyedd ar gyfer pryd y bydd cyllid y rhaglen yn dod i ben a sut y gallant fanteisio'r tudalen ar y pedwedd hynny.

- Gyda'r pwysau parhaus ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, byddwn hefyd yn gweithio gyda'r sefydliadau hyn a sefydliadau eraill i ystyried sut y gallant ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy clyfar neu wahanol. Bydd ymgysylltu ar lefel awdurdod lleol i ddatblygu 22 o broffiliau problem yn cyfrannu'n fawr at gyflawni hyn.
- Nid ydym yn ymwybodol o hyd o'r risgiau a ddaw yn sgil BREXIT, wrth i ni agosáu at 29 Mawrth 2019.

6. Sut yr ydych yn bwriadu ymdrin â'r broses o ddatganoli swyddogaethau plismona a chyfiawnder?

- Mae'n hanfodol ymgymryd â dull cyfannol o weithredu'r system cyfiawnder troseddol yma yng Nghymru, lle y gall Llywodraethau weithio gyda'i gilydd er budd gwneud ein cymunedau yn fwy diogel. Rydym eisiau symud i ffwrdd o'r strwythurau presennol a mabwysiadu strwythur sy'n addas at y diben. Felly, mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn cydweithio i archwilio sut y byddai system gyfiawnder wahanol yn gweithredu yng Nghymru ac rydym wedi dechrau'r drafodaeth hon gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder.
- Rydym eisiau gweld cydlyniant, eglurder a sefydlogrwydd yn ein system blismona a llywodraethu cyfiawnder ac atebolrwydd sy'n ddiffygiol ar hyn o bryd o ganlyniad i'r setliad gwael presennol a'r anghysondeb rhwng cyfrifoldebau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Dim ond ar ôl hynny y gallwn gyflawni canlyniadau gwell i ddiodefswyr, troseddwyr a chymunedau yng Nghymru.
- Yn ddiweddarach yr wythnos hon, bydd Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn rhoi tystiolaeth i'r Comisiwn Cyfiawnder lle mae'n debygol o ddweud ein bod eisiau gweld dull gweithredu gwahanol o ran polisi cyfiawnder yng Nghymru; system cyfiawnder troseddol sy'n canolbwyntio ar yr ardal leol, y teulu, adfer, cymorth, y gymuned. Mae angen inni gael dealltwriaeth well o'r rheswm y mae pobl yn ymuno â'r system cyfiawnder troseddol a pha fesurau ataliol y gallwn eu cymryd i'w hatal rhag dilyn y llwybr hwn.
- Gwelwn system sy'n seiliedig ar ymyrraeth gynnar ac atal; sy'n ystyried sut y gallwn ddargyfeirio pobl ymhellach o droseddau yn y lle cyntaf, ond lle y mae'n rhaid inni weithio gyda throseddwyr, gwneud hynny mewn ffordd gyfannol ac adferol gan sicrhau bod pawb sydd ynghlwm wrth droseddau a chyfiawnder yn ystyried yr amgylchiadau y tu ôl i'r drosedd ac nid y drosedd yn unig.
- Byddwn yn gweithio'n agos â Llywodraeth y DU, ar lefel Weinidogol a swyddogol, yn dilyn cyhoeddi adroddiad Comisiwn Thomas y flwyddyn nesaf ac os bydd hynny'n argymhell y dylid datganoli gwasanaethau plismona a chyfiawnder ymhellach i Gymru, byddwn yn cyflwyno'r achos cryfaf posibl o ran y termau ar gyfer diwygio a datganoli polisi cyfiawnder i Gymru ymhellach.

7. Pa ddulliau gweithredu ydych chi'n eu rhoi ar waith i gefnogi partneriaid i ymdrin ag ymgynghoriadau aneffeithiol ac aflwyddiannus yn y gorffennol (Tudalen 63 o Adroddiad yr Adolygiad)?

- Mae'r rhaglen yn cael ei datblygu ochr yn ochr â'r themâu allweddol o sicrhau ei bod (i) yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael ei harwain gan wybodaeth (ii) wedi'i chefnogi gan wybodaeth a sgiliau perthnasol (iii) yn defnyddio adnoddau cynaliadwy ac yn briodol (iv) yn ymgysylltu â dinasyddion ac yn eu cynnwys (v) yn atal ac yn ymyrryd cyn gynted â phosibl (vi) yn canolbwyntio ar welliannau a

manteision hirdymor. Byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu'n helaeth â dinasyddion i gyflawni'r canlyniadau hyn a datblygu fframweithiau canlyniadau cydweithredol effeithiol a mwy priodol i alluogi partneriaid/partneriaethau i fesur perfformiad a chanlyniadau yn well.

- Byddwn yn cynhyrchu cynnyrch perthnasol sy'n "canolbwyntio ar ddinasyddion" (e.e. pecynnau offer, canllawiau, astudiaethau achos a hyfforddiant).
- Byddwn yn anelu at ddileu unrhyw ddyblygu diangen o ran dulliau o ymgysylltu â dinasyddion (e.e. dulliau "Tell Us Once" ac "Ask Cardiff").
- Byddwn yn anelu at wella capasiti cyrff cyhoeddus a phartneriaethau i ymgysylltu, ymgynghori, cynnwys a hwyluso cyfranogiad.

8. Beth ydych chi'n bwriadu ei wneud i sicrhau cyllid mwy hirdymor ac wedi'i integreiddio'n well ar gyfer diogelwch cymunedol?

- Bydd y rhaglen yn ystyried sut i wneud defnydd mwy effeithiol o'r adnoddau a'r cyllid cyfyngedig, gan ganolbwyntio ar gryfhau'r broses o gynllunio gwasanaethau cydweithredol a threfniadau comisiynu sy'n dileu seilos a dyblygu ac yn canolbwyntio ar ddarpariaeth gwasanaethau cyhoeddus sy'n seiliedig ar yr ardal a'r bobl yn yr ardal honno.
- Er ein bod yn croesawu rhagor o arian (diwedd i gyni yn y sector cyhoeddus) rydym yn canolbwyntio mwy ar gynllunio a chomisiynu gwasanaethau cyhoeddus yn well yn seiliedig ar dystiolaeth a gwybodaeth well, sy'n canolbwyntio mwy ar atal ac ymyrryd yn gynnar ac ati.

9. Gan ystyried yr amrywiaeth eang o weithgareddau a nodir yn adran Y Ffordd Ymlaen o fewn yr Adolygiad o Gymunedau Mwy Diogel, sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu goruchwyllo a rheoli perfformiad a pha rôl ydych chi'n rhagweld y bydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei chwarae wrth graffu ar berfformiad?

- Bydd Bwrdd y Rhaglen o dan arweinyddiaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i oruchwyllo perfformiad y rhaglen a'r modd y caiff ei chyflawni. Penodwyd aelod o'r bwrdd yn Uwch Swyddog Ymchwil ar gyfer pob ffrwd waith a bydd yn atebol i'r Bwrdd a disgwylir i'r aelod hwnnw sicrhau cyflawniad ac adrodd arno i'r bwrdd.
- Yn ogystal, mae grŵp rheoli sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, CLILC a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddau yn cyfarfod yn fisol i sicrhau bod y rhaglen ar y trywydd cywir.
- Mae rhith-dîm sy'n cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, CLILC, Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau, y Swyddfa Gartref ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyfarfod yn fisol i adolygu a datblygu pob ffrwd waith unigol.
- Rydym yn agored i drafod a chytuno â'r Pwyllgor ar y rôl y mae'n rhagweld o ran craffu ar y rhaglen, gan gydnabod bod y broses o'i chyflawni yn un tymor canolig hyd 2020 ac na fydd modd ei chyflawni yn gyflym o gofio natur hanesyddol ac endemig y maes gwaith diogelwch cymunedol.

10. Pa gamau ydych chi'n bwriadu eu cymryd i gryfhau gweithgareddau ataliol ac ymyrryd yn gynnar?

- Fel y nodwyd eisoes, byddwn yn anelu at sicrhau dull mwy cydlynol o gomisiynu, ond hefyd rydym yn ceisio sicrhau bod gweithgareddau/cyflawni ar lefel leol a rhanbarthol a pholisi a strategaethau cenedlaethol yn cyfateb yn well ag ACEs, E.A.T., timau o amgylch y teulu, diogelu ac ymdrin â grwpiau bregus.

11. O gofio pwysigrwydd sicrhau bod pob partner yn chwarae ei ran, sut ydych chi'n bwriadu ymdrin â lefelau cymysg o ymgysylltu gan bartneriaid iechyd a pherthynas anghyfartal gyda phartneriaid a darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector, yn arbennig mewn perthynas â'r broses o gynllunio a chomisiynu?

- Byddwn yn ystyried hyn ymhellach wrth i'r rhaglen ddatblygu. Byddwn yn adolygu'r materion hyn ac yn darparu rôl arweiniol bendant a chryf.

Public Accounts Committee

PAC(5)-1-19 PTN3- 14 January 2019

Scrutiny of Accounts 2017-18

Additional Information from National Museum Wales regarding staff sickness absence

National Museum Wales Initiatives being implemented to address sick absence are focused to reducing the incidences of casual absences (i.e. short-term absences for minor ailments), and mental-health related absences. These include:

- Refresher training for managers in attendance management, in particular reminding them of Amgueddfa Cymru's policies and procedures and the need to carry out the return to work interview for all absences;
- HR Advisor monitors absences on a weekly basis to ensure that the return to work interview has been carried out. Where this has not happened, email reminders are sent. This is followed up by HR Officers;
- Trigger points have been tightened and are being closely monitored by the HR Advisor and HR Officers. From January 2019 staff members with three episodes of sick absence and/or 10 days sick absence in any rolling calendar year are invited to meet with their line manager and HR Officer to discuss their health and wellbeing and what support they might need to improve attendance;
- Following this meeting, cases are escalated under Amgueddfa Cymru's Capability Procedure if there is no improvement in attendance over a specified period of time;
- A Wellbeing Group has been established with Managers and Trade Unions working in partnership to address wellbeing issues. Their work is currently focused on mental health issues and menopause awareness.

- Amgueddfa Cymru participated in the Mind Workplace Index. The Wellbeing Group will develop an action plan to address any areas for improvement when results are received (these are expected in March)
- Stress Awareness and Resilience workshops have been held at all museums
- Mental Health First Aid training is offered to staff
- Yoga sessions have been piloted at the museum
- Mental Health Awareness training for Managers is being arranged for Quarter 4
- We offer an Employee Assistance Programme for all staff which provides confidential information and counselling
- Staff with mental ill health are referred to DWP's Able Futures for further support

Sickness days

- Days lost per employee for the 2017–18 financial year totalled 10.94 with 2.52 of these as a result of mental ill health.
- In the 2016–17 financial year, total days lost per employee as a result of sickness was 13.17 with 2.79 of these as a result of mental ill health.
- The absence rate for Quarter 1 and Quarter 2 for 2017–18 was 4.89%.
- The absence rate for Q3 2018–19 was 3.6%. This compares with 4.81% for the same period in the previous year.

The number of days available is calculated on the basis of individual work patterns, i.e. the number of working days per week (totalled for all staff) x the number of weeks in the quarter. The annual figure is the sum of the four quarters which gives the total number of available working days per annum. We do not adjust the figure for annual leave and public holidays. We use headcount as the basis for the calculation. Pool arrangements are not included in these calculations. The breakdown can be seen below.

	2017 - 18				
	Q1 Apr - Jun	Q2 Jul - Sep	Q3 Oct - Dec	Q4 Jan - Mar	Total
Est Act Sick days	1426.26	1721.80	1560.77	1836.02	6544.85
Calendar Days in Quarter	91.00	92.00	92.00	90.00	365.00
Weeks in Quarter	13.00	13.14	13.14	12.86	52.14
Est. Working Days Per Quarter	31253.91	32963.547	32429.40	32288.83	128935.69
% of Working Days Taken Sick	4.56%	5.22%	4.81%	5.69%	5.08%
Headcount at qtr start	572	606	595	599	593
Headcount at qtr end	603	598	601	611	603
Average	572.5	602	598	605	598
Average no of days lost	2.49	2.86	2.61	3.03	10.94

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Rheoli Effaith Brexit ar y Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Tudalen y pecyn 12

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad hwn yn unol â Deddfau Llywodraeth Cymru 1998.

Roedd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Alice Rushby, Daniel King, Jennie Morris, Adam Marshall, Lucy Evans, Mark Jeffs, Chris Pugh a Seth Newman dan arweiniad Richard Harries.

**Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

	Adroddiad cryno	6
1	Roedd Llywodraeth Cymru yn wynebu risg ariannol pe na byddai Llywodraeth y DU wedi diwygio telerau ei gwarant cyllid ar ôl Brexit	14
	Dechreuodd Llywodraeth Cymru drwy gymryd camau i gyflymu'r rhaglen i gael cymaint â phosibl o arian gan yr UE, ond yn ddiweddarach aeth i ddibynnu ar warant cyllid y DU	15
	Os bydd Cytundeb Ymadael, bydd cyllid yr UE yn parhau yn ddigyfnewid i raddau helaeth felly mae'r risg o golled sylweddol i Gymru yn fach iawn	20
	Roedd risg sylweddol i Gymru o fod ar ei cholled o ran cyllid mewn sefyllfa dim cytundeb tan i Lywodraeth y DU ymestyn ei gwarant yn ddiweddar iawn	20
2	Mae gan Lywodraeth Cymru brosesau rhwystrau a gwrthbwysau i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheolau caeth yr UE, ond mae angen iddi gryfhau ei phrosesau craffu a rheoli risg o ran y Cynllun Datblygu Gwledig yn gyffredinol	25
	Mae gan Lywodraeth Cymru brosesau rhwystrau a gwrthbwysau i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheolau caeth yr UE	26
	Mae lle i gryfhau prosesau goruchwyllo a rheoli risg y Cynllun Datblygu Gwledig cyffredinol	27

3	Nid yw'n glir hyd yma beth fydd yn disodli cronfeydd amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit ond mae Llywodraeth Cymru yn ceisio llunio'r ddadl	29
	Mae Llywodraeth y DU wedi nodi gweledigaeth fras ar gyfer amaethyddiaeth yn Lloegr a chyfnod trosglwyddo, ond mae'n cydnabod y bydd llywodraethau datganoledig yn penderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain	30
	Atodiadau	33
	Atodiad 1 – Dulliau archwilio	34
	Atodiad 2 – Rhestr o gynlluniau	35

Summary report

Crynodeb

- 1 Mae Polisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd yn darparu cyllid i gefnogi ffermwyr, cefn gwlad a chymunedau gwledig. Mae iddo ddau 'biler'. Mae Piler 1, o'r enw Cronfa Cyfarwyddo a Gwarantu Amaethyddiaeth Ewrop (EAGF) yn daliad cymhorthdal uniongyrchol i ffermwyr ac mae'n gyfanswm o ryw £211 miliwn¹ y flwyddyn. Cyflwynir Piler 2, o'r enw Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EAFRD), trwy Raglen Datblygu Gwledig a gynlluniwyd gan bob gweinyddiaeth yn y DU a'i gymeradwyo gan y Comisiwn Ewropeaidd. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar yr elfen hon o'r 'cyllid Datblygu Gwledig' o dan Gymunedau Gwledig - Rhaglen Datblygu Gwledig (Cynllun Datblygu Gwledig)².
- 2 Ers 2000, mae Cymru wedi bod yn gymwys am €1,143 miliwn (rhyw £972 miliwn) o gyllid Datblygu Gwledig yr UE. Mae Cymru yn gymwys am ryw £522 miliwn yn y cylch presennol sy'n ffurfio Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020, er yn sgil rheolau'r UE, byddai gan Gymru tan 2020 mewn gwirionedd i ymrwmo iddo³, a tan 2023 i wario a hawlio'r cyllid.⁴ Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyfrannu £252 miliwn ychwanegol o 'gyd-gyllid'⁵ sy'n golygu bod gwerth cyffredinol y rhaglen bresennol yn £774 miliwn.

1 At ddibenion yr adroddiad hwn rydym wedi defnyddio punnoedd drwyddi draw. Pan fo gwerthoedd ar gael mewn Ewro yn unig, rydym wedi defnyddio cyfradd gyfnewid gynllunio bresennol Llywodraeth Cymru – 0.85 punt i 1.00 Ewro. Bydd cyfraddau cyfnewid wedi amrywio dros amser, felly efallai bydd amrywiaeth yn yr un gwerthoedd a ddyfynnir yn rhywle arall.

2 gov.wales/docs/drah/publications/170705-wales-rdp-2014-2020-document.pdf

3 At ddiben yr adroddiad hwn, mae cyllid wedi'i rwymo i brosiect penodol yn dilyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru ac ar ôl i noddwr y prosiect lofnodi ei fod wedi derbyn y llythyr cynnig grant.

4 Mae'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn cynnwys dyraniadau blynyddol o gyllid ar draws cyfnod y rhaglen (2014-2020), sy'n dod i werth llawn y cronfeydd EAFRD. Ni cheir gwario mwy na'r dyraniadau blynyddol ond mae gan Lywodraeth Cymru dair blynedd arall (a elwir yn N+3 neu'r egwyddor dadneilltuo) o bob dyraniad pryd y cânt ymrwmo i, gwario a hawlio'r cyllid. Mae targedau N+3 yn gronnu ac yn codi bob blwyddyn i 100% o'r cyllid y mae'n rhaid ei wario erbyn 2023.

5 'Cyd-gyllid' yw'r cyllid domestig a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i gyflawni'r Cynllun Datblygu Gwledig yng Nghymru. Mae Rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd yn pennu canran uchaf a lleiaf o gyllid a gaiff ddod o'r Comisiwn Ewropeaidd, yn dibynnu ar y math o gyllid, y math o gynllun a lleoliad buddiolwr y cyllid. O fewn y paramedrau hyn, pennir union ganran y cyllid domestig a'r Comisiwn Ewropeaidd gan weinyddiaeth y DU, a'i chytuno gan y Comisiwn Ewropeaidd a'i nodi yn y Rhaglen Datblygu Gwledig.

- 3 Mae gan yr UE chwe blaenoriaeth gyffredinol ar gyfer y cyllid. Mae'r rhain wedi'u seilio ar 'feysydd pwyslais' a 'mesurau' cyffredinol yr UE a chaiff y blaenoriaethau eu cyflawni trwy'r rhain (**Blwch 1**). Mae Llywodraeth Cymru yn llunio dogfen Rhaglen Datblygu Gwledig sy'n nodi sut y bydd yn defnyddio'r cyllid i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Mae Llywodraeth Cymru yn sefydlu ystod o gynlluniau, a gall ffermwyr neu sefydliadau wneud cais iddynt. Mae pob cais llwyddiannus yn dod yn brosiect at ddibenion rheolau'r UE. Mae **Rhan 2** yr adroddiad hwn yn nodi'r broses yn fanylach.

Blwch 1 – Strwythur Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Blaenoriaethau'r UE

Mae Aelod-wladwriaethau a rhanbarthau yn llunio eu rhaglenni datblygu gwledig ar sail anghenion eu tiriogaethau ac yn sicrhau bod o leiaf pedwar o chwe blaenoriaeth **gyffredin yr EU** yn cael sylw:

- annog pobl i gyfnewid gwybodaeth ac i arloesi ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth, ac mewn ardaloedd gwledig;
- gwella dichonoldeb a chystadleurwydd pob math o amaethyddiaeth a hyrwyddo technolegau fferm arloesol a rheolaeth gynaliadwy o goedwigoedd;
- hyrwyddo cadwyni cyflenwi bwyd, lles anifeiliaid a rheoli risg mewn amaethyddiaeth;
- adnewyddu a gwella ecosystemau sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth a choedwigaeth;
- hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau â chynorthwyo'r gwaith o symud tuag at economi garbon isel, sy'n gallu gwrthsefyll effeithiau'r hinsawdd, yn y sectorau amaethyddiaeth, bwyd a choedwigaeth; a
- hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol, lleihau tlodi a datblygu'r economi mewn ardaloedd gwledig.

Blwch 1 – Strwythur Rhaglen Datblygu Gwledig 2014-2020

Meysydd Pwyslais	Caiff y blaenoriaethau datblygu gwledig eu rhannu i 'feysydd pwyslais'. Er enghraifft, mae'r flaenoriaeth ar effeithlonrwydd adnoddau yn cynnwys y meysydd pwyslais 'lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac amonia o fyd amaeth' a 'meithrin cadwraeth a dal a storio carbon ym maes amaethyddiaeth a choedwigaeth'. O fewn eu Cynllun Datblygu Gwledig, mae Aelod-wladwriaethau neu ranbarthau yn pennu targedau meintiol ar gyfer y meysydd pwyslais hyn. Maent wedyn yn nodi pa fesurau y byddant yn eu defnyddio i gyflawni'r targedau hyn a faint o gyllid a gaiff ei ddyrannu i bob mesur.
Mesurau'r UE	Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig yn nodi cyfres o fesurau sy'n deillio o'r Rheoliad Datblygu Gwledig i fynd i'r afael â blaenoriaethau a meysydd pwyslais yr UE. Cyfres o weithgareddau penodol neu fuddsoddiad yw mesur, e.e. buddsoddiad mewn asedau ffisegol.
Cynlluniau Llywodraeth Cymru	Caiff cynlluniau eu llunio gan Lywodraeth Cymru (neu aelod-wladwriaeth neu ranbarth arall) i fodloni mesurau'r UE. Mae cynllun i bob pwrpas yn fframwaith o weithgareddau a bennir gan Lywodraeth Cymru a'u bwriad yw cyflawni mesurau cyffredinol yr UE. Caiff y rhain eu trosi yn 'rheolau cynlluniau' a hysbyseb i unigolion neu sefydliadau i wneud cais am gyllid o dan y cynllun penodol.
Prosiectau'r Ymgeiswyr	Cyflwynir ceisiadau ar gyfer prosiectau penodol i Lywodraeth Cymru sy'n asesu'r gweithgareddau arfaethedig gan ddefnyddio rheolau'r cynllun ac yn derbyn neu'n gwrthod y prosiect.

CRONFEYDD AMAETHYDDOL

EWROP AR GYFER

DATBLYGU GWLEDIG



= £522 MILIWN



= £252 MILIWN



Trosglwyddo gwybodaeth ac arloesi*

- Arloesi a chydweithrediad
- Cysylltiadau ag ymchwil ac arloesi
- Dysgu gydol oes a hyfforddiant galwedigaethol



Cystadleurwydd

£97M

£65M

Cyfanswm y Gwariant Grant yr UE

- Perfformiad, ailstrwythuro a moderneiddio ffermydd
- Mynediad ffermwyr medrus/ifancach



Y gadwyn fwyd a rheoli risg

£87M

£53M

Cyfanswm y Gwariant Grant yr UE

- Integreiddio ac ansawdd y gadwyn amaeth-fwyd



Rheoli ecosystemau

£329M

£250M

Cyfanswm y Gwariant Grant yr UE

- Adfer, gwarchod a gwella bioamrywiaeth
- Rheoli dŵr
- Erydiad y pridd a rheoli'r pridd



Effeithlonrwydd adnoddau a'r hinsawdd

£68M

£40M

Cyfanswm y Gwariant Grant yr UE

- Buddsoddiad mewn effeithlonrwydd defnydd ynni
- Buddsoddiad mewn ynni adnewyddadwy a rheoli gwastraff
- Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac amonia
- Cadwraeth a dal a storio carbon




Cynhwysiant cymdeithasol a datblygiad lleol

£165M

£97M

Cyfanswm y Gwariant Grant yr UE

- Arallgyfeirio a chreu swyddi
- Gwell gwasanaethau/seilwaith
- Gwell TGCh



Cymorth technegol

£31M

£17M

Cyfanswm y Gwariant Grant yr UE

- Archwilio a rheolaethau
- Gwerthuso a monitro

*Noder: Ystyrir bod y flaenoriaeth hon yn drawstoriadol.

Mae'r dyraniad o dan flaenoriaethau 2 i 6 yn cyfrannu at gyflawniad targedau Blaenoriaeth 1.


Ffigurau yn seiliedig ar addasiad cyntaf y Cynllun Datblygu Gwledig sy'n bodoli ar adeg cyhoeddi, wedi'i drosi ar gyfradd gyfnewid o €1: £0.8

- 4 Ar 23 Mehefin 2016, pleidleisiodd y DU mewn refferendwm i adael yr Undeb Ewropeaidd. Ym mis Mawrth 2017, hysbysodd Llywodraeth y DU ei bwriad i adael yr UE. Yn unol â'r amserlen dwy flynedd a nodwyd o dan gyfraith yr UE, bydd y DU yn gadael yr UE am 11pm ar 29 Mawrth 2019.
- 5 Bydd effaith Brexit ar Gyllid Datblygu Gwledig yr UE yn dibynnu ar ba un a yw'r DU yn gadael yr UE â 'chytundeb' ai peidio. Mae cyfraith yr UE yn caniatáu i'r DU a'r UE gytuno ar 'Gytundeb Ymadael' sy'n nodi telerau ymadawiad y DU. Ym mis Mawrth 2018, cyhoeddodd y DU a'r UE fersiwn ddrafft o'r Cytundeb Ymadael. Roedd y fersiwn ddrafft o'r Cytundeb Ymadael yn nodi amryw o feysydd y mae'r DU a'r UE yn cytuno arnynt, yn ogystal â meysydd allweddol y maent yn anghytuno arnynt. Ymhlith y meysydd lle ceir cytundeb yw y bydd y DU yn parhau i fod yn rhan o Raglen Datblygu Gwledig 2014-2020 yr UE hyd ei diwedd.
- 6 Ar 14 Tachwedd 2018 cyhoeddodd y DU a'r UE Gytundeb Ymadael Drafft diwygiedig. Fodd bynnag, ar adeg drafftio'r cytundeb diwygiedig nid yw hyn wedi cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan yr UE na'r DU, a cheir cyfle y bydd y DU yn gadael yr UE heb Gytundeb Ymadael. Os ceir sefyllfa o ddim cytundeb, bydd yn rhaid i Gymru ddibynnu ar warant Llywodraeth y DU a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2016⁶, i gyflenwi cyllid yr UE ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd cyn i'r DU adael yr UE'. Wrth ddrafftio'r adroddiad hwn, tua diwedd mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn ymestyn ei gwarant o gyllid yr UE i gyflawni contractau'r Rhaglen Datblygu Gwledig a lofnodwyd cyn diwedd mis Rhagfyr 2020. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi ar lefel uchel y ddwy brif sefyllfa – 'cytundeb' a 'dim cytundeb'.

6 Ym mis Awst 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU warant gychwynnol i ariannu prosiectau a lofnodwyd cyn Datganiad Hydref y Canghellor. Daeth y cyhoeddiad ym mis Hydref 2016 cyn Datganiad yr Hydref ac estynnodd y warant i'r holl brosiectau a lofnodir cyn i'r DU adael yr UE.

Tudalen y pecyn 20

Arddangosyn 2 – Cytundeb Ymadael y DU/UE – y sefyllfaoedd cytundeb a dim cytundeb diweddaraf ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig yng Nghymru



- 7 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried a yw Llywodraeth Cymru yn rheoli'n effeithiol y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig yn sgil Brexit.
- 8 Mae Atodiad 1 yn nodi ein dulliau archwilio. Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y risgiau allweddol ar lefel uchel. Nid ydym wedi adolygu rheolaeth gyffredinol y rhaglen yn fanwl. Nid ydym ychwaith wedi adolygu ymateb ehangach Llywodraeth Cymru i'r risgiau a'r cyfleoedd yn sgil Brexit.
- 9 Mae'r adroddiad wedi'i strwythuro yn ôl y prif risgiau i gyllid a chyfleoedd yr UE yn sgil Brexit. Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r prif risgiau a chyfleoedd a'n casgliadau ni o ran sut y mae Llywodraeth Cymru yn eu rheoli.


Arddangosyn 3 – y risgiau a chyfleoedd allweddol o ran Cronfeydd Datblygu Gwledig yr UE yng Nghymru yn sgil Brexit

Risg/Cyfle	Casgliad
Risg allweddol: y bydd Cymru ar ei cholled yn sylweddol o ran cyllid.	Byddai Llywodraeth Cymru wedi wynebu risg ariannol pe na byddai Llywodraeth y DU wedi diwygio telerau ei gwarant cyllid ar ôl Brexit.
Risg allweddol: nad oes gan Lywodraeth Cymru drefn lywodraethu a rheoli cadarn ar waith i reoli'r Rhaglen Datblygu Gwledig yn effeithiol yn ystod y broses Brexit.	Mae gan Lywodraeth Cymru brosesau rhwystrau a gwrthbwysau i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheolau caeth yr UE, ond mae angen iddi gryfhau ei phrosesau craffu a rheoli risg y Cynllun Datblygu Gwledig yn gyffredinol.
Cyfle allweddol: cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd yn sgil rheoli'r gronfa EAFRD yng Nghymru ers blynyddoedd i unrhyw gynllun a ddaw yn ei lle.	Mae dyfodol cyllid amaethyddol ar ôl Brexit yn aneglur, ond mae Llywodraeth Cymru yn ceisio llunio dadl ac mae wedi nodi'r ffurf yr hoffai ei weld ar gyfer trefniadau yn y dyfodol.

- 10 Rydym yn gwneud yr argymhellion allweddol canlynol i Lywodraeth Cymru:
- a Dylid gwella'r trefniadau craffu presennol o ran rheoli a chyflawni'r Cynllun Datblygu Gwledig. Dylai fforwm craffu roi digon o sylw i ystyried y rhaglen yn fanwl gan aelodau gwybodus a chysylltiedig ar sail gwybodaeth glir a chywir. Yn arbennig, dylai adroddiadau ac ystyriaeth o 'ymrwymadau' fod yn glir.
 - b Dylid egluro a chofnodi trefniadau rheoli risg ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig fel bod swyddogion yn deall eu cyfrifoldebau ac i sicrhau bod yr holl risgiau o ran Cynllun Datblygu Gwledig, ac yn arbennig yng nghyd-destun Brexit, wedi'u nodi a'u rheoli'n briodol.
- 11 Yn ogystal â'r argymhellion a wnaed uchod, ceir hefyd faterion allweddol i'r Adran barhau i'w rheoli hyd yn oed ar ôl ymestyn y warant:
- a Ystyried newidiadau economaidd ehangach, gan gynnwys mewn cysylltiad â Brexit, ac addasu'r rhaglen mewn ymateb i hyn, pan fo angen;
 - b Cynyddu cyfraddau ymrwymiad, gweithio gyda noddwyr prosiectau posibl i fynd i'r afael â phryderon, gan gynnwys yr arian cyfatebol sydd ar gael.
 - c Cynyddu'r gyfradd wario trwy annog prosiectau i gyflwyno eu ceisiadau ar gyfer cyllid yr UE yn fwy prydlon;
 - ch Gweithio gyda buddiolwyr i leihau tanwariant y prosiectau a allai arwain at Gymru yn colli cyllid;
 - d Recriwtio a chadw staff ar adeg pan fo ansicrwydd sylweddol ynghylch rhai o'r swyddi yn yr Adran, a'r cynnydd posibl yn y llwyth gwaith o ganlyniad i gyflymu asesiadau prosiectau;
 - dd Cynnal prosesau rhwystrau a gwrthbwysu cadarn; a
 - e Sicrhau wrth drosglwyddo i unrhyw gynllun newydd yn lle'r cronfeydd datblygu gwledig, y cedwir arbenigedd yr Adran naill ai yn y rhaglen newydd neu yng ngwasanaeth cyhoeddus ehangach Cymru.

Rhan 1

Roedd Llywodraeth Cymru yn wynebu risg ariannol pe na byddai Llywodraeth y DU wedi diwygio telerau ei gwarant cyllid ar ôl Brexit



- 1.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried sut y mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn rheoli'r risg bod Cymru yn colli cyllid yr UE o ganlyniad i Brexit. Mae'n edrych yn arbennig ar sefyllfaoedd cytundeb neu ddim cytundeb ar gyfer Brexit. Yn y sefyllfa lle ceir cytundeb, rydym yn ystyried effaith y Cytundeb Ymadael drafft ac unrhyw risgiau gweddillol i gyllid yr UE. Yn y sefyllfa lle nad oes cytundeb, rydym yn edrych ar y risgiau sy'n gysylltiedig â gwarant flaenorol Llywodraeth y DU i gyllido prosiectau sydd wedi'u llofnodi pan fydd Brexit yn digwydd (29 Mawrth 2019) a chanlyniadau cyhoeddiad Llywodraeth y DU ar 24 Gorffennaf 2018 ei bod yn ymestyn y warant i ysgwyddo'r dyraniad llawn. Yn y sefyllfa lle na cheir cytundeb, rydym hefyd yn edrych ar sefyllfa cyllido ehangach y DU a'r risg bod yn rhaid i'r DU gyllido prosiectau y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'u hawlio gan yr UE.

Dechreuodd Llywodraeth Cymru drwy gymryd camau i gyflymu'r rhaglen i gael cymaint â phosibl o arian gan yr UE, ond yn ddiweddarach aeth i ddibynnu ar warant cyllid y DU

- 1.2 O dan reolau'r UE, mae gan Lywodraeth Cymru hyd at ddiwedd mis Rhagfyr 2023 i wario a hawlio'r dyraniad llawn o £522 miliwn o gyllid yr UE. Yn wreiddiol, bwriad Llywodraeth Cymru oedd ymrwymo'r holl gyllid i brosiectau a lofnodwyd erbyn mis Rhagfyr 2020 fel bod ganddi dair blynedd wedyn rhwng 2020 a 2023 i'w wario a'i hawlio'n ôl gan yr UE.
- 1.3 Yn dilyn refferendwm yr UE ym mis Gorffennaf 2016, cyflymodd Llywodraeth Cymru y broses ymrwymo er mwyn hawlio cymaint â phosibl o gyllid yr UE erbyn Brexit ym mis Mawrth 2019. Gwnaethant hyn drwy agor mwy o gynlluniau a chynyddu canran cyllid yr UE ar gyfer rhai cynlluniau.

- 1.4 O dan reolau'r UE, gall Llywodraeth Cymru bennu rhai o'r cyfraddau o ran cyfran cyllid yr UE. Mae uchafswm cyllid yr UE y ceir ei ddefnyddio ar gynlluniau yn amrywio rhwng 53% a 90% yn dibynnu ar leoliad y buddiolwr, y math o gyllid a'r gweithgaredd sy'n cael ei ariannu. Yn hytrach na phennu gwahanol gyfraddau cyllid ar gyfer pob cynllun, ar ddechrau'r rhaglen gosododd Llywodraeth Cymru gyfradd sylfaenol gychwynnol o 43% o gyllid yr UE ar draws yr holl gynlluniau a ariennir gan brif ffrwd Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig. Ar ôl ymarfer 'gwersi a ddysgwyd' yn dilyn y rhaglen flaenorol, ystyriodd fod cyfradd sylfaenol yn ddewis ag iddo lai o risg, o gofio y gall yr UE bennu cosbau ariannol sylweddol ar draws y rhaglen gyfan pe na chedwir at y cyfraddau cyllido a bennwyd. Yn 2016, mewn ymateb i ganlyniad y refferendwm, cynyddodd Llywodraeth Cymru gyfradd sylfaenol cyfradd gyllid yr UE o 43% i 53%. Hon oedd y gyfradd uchaf y gellid ei phennu ar gyfer pob hawliad. Caniateir cyfraddau uwch ar gyfer mesurau penodol o fewn rheoliadau'r Comisiwn Ewropeaidd, ond roedd Llywodraeth Cymru o'r farn bod parhau â chyfradd sylfaenol yn well er mwyn lleihau'r risg o bennu'r gyfradd anghywir a fyddai'n arwain at gosbau ariannol gan y Comisiwn Ewropeaidd.
- 1.5 Ym mis Hydref 2016, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei gwarant cyllid. Addawodd hyn y byddai'n darparu yr un cyllid â'r UE ar gyfer yr holl brosiectau yr oedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt ar adeg Brexit. Gallai Llywodraeth Cymru fod wedi parhau i gychwyn rhagor o gynlluniau a chynyddu cyfraddau cyllid yr UE ymhellach er mwyn cael gafael ar arian yr UE yn gyflymach, ond dewisodd beidio â gwneud hyn. Dewis Llywodraeth Cymru oedd y dylai'r Cynllun Datblygu Gwledig barhau i gael ei redeg dros yr amserlen a gynlluniwyd yn wreiddiol a dibynnu ar warant Llywodraeth y DU i'w ariannu. Ystyriodd Llywodraeth Cymru fod anawsterau o ran cyflymu'r rhaglen i hawlio mwy o gyllid yr UE. Nodir yr anawsterau hyn ym **MLwch 2** isod.

Blwch 2 – ffactorau y mae Llywodraeth Cymru yn eu nodi fel bod yn cyfyngu ar ei gallu i gyflymu'r Rhaglen Datblygu Gwledig ymhellach

Lleihad posibl ym maint y Cynllun Datblygu Gwledig

Ystyriodd Llywodraeth Cymru y byddai cynyddu cyfraddau cyd-gyllido yr UE ymhellach yn lleihau maint y rhaglen gyffredinol. Hynny yw, trwy hawlio cyllid yr UE ar gyfradd uwch, byddai pot yr UE yn gwagio ynghynt. Er y byddai gwerth pot yr UE yn parhau i fod yr un faint, byddai'r elfen gyd-gyllido gan Lywodraeth Cymru yn llai oherwydd y byddai'n cyfrannu cyfran lai i bob hawliad a delid.

Effaith gyffredinol hyn fyddai gwario llai o arian ar y Cynllun Datblygu Gwledig. Fodd bynnag, ni wnaeth Llywodraeth Cymru ystyried pa un a oedd ffyrdd eraill o wario'r un swm o arian y tu allan i'r Cynllun Datblygu Gwledig er mwyn sicrhau'r swm mwyaf posibl o arian gan yr UE a chynnal yr un lefel o fudd ar gyfer datblygu gwledig yng Nghymru.

Risg o reolaethau gwanach

Ystyriodd Llywodraeth Cymru fod risg gynyddol o amharu ar reolaethau ariannol mewnol ac y byddai cynlluniau yn llai cadarn neu hawliadau yn anghymwys. Gallai hyn, yn ei dro, fod wedi arwain at gosbau ac adfachiadau gan yr UE.

Prinder adnoddau staff

Mae diffyg niferoedd o fewn Uned Rheoli Cynlluniau Llywodraeth Cymru wedi amharu ar y gallu i agor a gweinyddu rhagor o gynlluniau. Ym mis Mawrth 2018, roedd ôl-groniad o 132 o brosiectau yn dal i fod ar y cam arfarnu.

Cyfyngiadau cystadleuaeth

O gofio gofyniad rheoleiddiol y rhaglen i fod yn gystadleuol, nid oes gan Lywodraeth Cymru unrhyw brosiectau dan ystyriaeth y gellir galw arnynt i ymrwymo cyllid yn gyflym.


Blwch 2 – ffactorau y mae Llywodraeth Cymru yn eu nodi fel bod yn cyfyngu ar ei gallu i gyflymu'r Rhaglen Datblygu Gwledig ymhellach

Cynllunio cyd-gyllido

Daw'r holl gyd-gyllido yn y rhaglen oddi wrth Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw'n ymrwymo i'w chyllideb gyd-gyllido am oes y rhaglen (gan gynnwys N+3 blynedd). Pennir cyd-gyllido yn flynyddol, ochr yn ochr â chyllideb ehangach Llywodraeth Cymru. Tueddir i swm y cyd-gyllido sydd ar gael aros yr un fath o un flwyddyn i'r llall ac nid yw'n gyson â'r patrymau y gwyddys amdanynt yn y rhaglen, lle mae gwariant yn isel yn y blynyddoedd cynnar ac wedyn yn codi'n ddiweddarach. Felly, y duedd yw tanwariant o'r cyd-gyllido yn gynnar yn y rhaglen ond fe ddaw'n rhwystr posibl yn ddiweddarach yn y rhaglen. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn anfodlon i agor cynlluniau newydd a fyddai'n parhau i'r dyfodol, heb sicrwydd y bydd y cyd-gyllido angenrheidiol ar gael.

1.6 Ym mis Mawrth 2018 roedd Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo bron i ddwy ran o dair o gyllid yr UE (£378 miliwn).

Arddangosyn 4 – sefyllfa cyllid 2014-2020 yr UE ar gyfer y Cynllun Datblygu Gwledig ar ddiwedd mis Mawrth 2018



Tudalen y pecyn 28

- 1.7 Roedd gan Lywodraeth Cymru gynlluniau i'w ymestyn i'r hyn yr oedd yn ei ystyried fel ymrwymiad o 100% o'r cyllid erbyn mis Mawrth 2019 a defnyddio gwarant cyllid y DU i'r eithaf. Cafodd holl gyllid yr UE ei ddyrannu i Gyrff Cyfryngol. Adrannau mewnol o Lywodraeth Cymru yw cyrff cyfryngol sydd â chyfrifoldeb rheoli dros gyflwyno cyfres o gynlluniau o dan y Cynllun Datblygu Gwledig. Roedd gan y Cyrff Cyfryngol gyfres o gynlluniau yn yr arfaeth gwerth £109 miliwn ac ni fyddai £83.9 miliwn o hyn wedi'i ymrwymo i brosiectau wedi'u llofnodi cyn mis Mawrth 2019. Ni wnaeth Llywodraeth Cymru geisio eglurhad o ba un a fyddai ymrwymiad o'r fath i adran fewnol heb brosiect wedi'i lofnodi yn sylfaen iddo yn bodloni telerau gwarant cyllid Llywodraeth y DU tan fis Tachwedd 2017.
- 1.8 Mae'n rhy gynnar i farnu effaith debygol y cyllid o ran y buddion y mae'n eu cyflawni a pha un a fydd y disgwyliadau neu'r targedau gwreiddiol yn cael eu cyrraedd. Mae Llywodraeth Cymru yn mesur ac yn adrodd ar gynnydd gan ddefnyddio amrywiaeth eang o fesurau manwl. Mae **Arddangosyn 5** yn nodi'r mesurau perfformiad allweddol y mae Llywodraeth Cymru yn adrodd ei bod wedi'u cyflawni erbyn diwedd mis Mawrth 2018.

Arddangosyn 5 – dangosyddion allweddol Llywodraeth Cymru ar gyfer y rhaglen EAFRD ar 31 Mawrth 2018

	Cynnydd	Targed
Yr arwynebedd ffisegol a gefnogwyd	689,186 hectar	688,000 hectar
Pobl mewn hyfforddiant	6,400	13,000
Daliadau amaethyddol a gefnogwyd	882	3,773

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

Os bydd Cytundeb Ymadael, bydd cyllid yr UE yn parhau yn ddigyfnewid i raddau helaeth felly mae'r risg o golled sylweddol i Gymru yn fach iawn

- 1.9 Os bydd y DU a'r UE yn cytuno ar y Cytundeb Ymadael drafft, yna bydd Cymru yn parhau i allu bod yn rhan o raglen 2014-2020 hyd ei diwedd o dan delerau'r Cytundeb Ymadael drafft. Yn unol â rheolau'r UE, mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau ar waith i ymrwymo holl gyllid yr UE i brosiectau a lofnodwyd erbyn mis Rhagfyr 2020 a gwario a hawlio'r holl gyllid erbyn diwedd y rhaglen yn 2023.
- 1.10 Hyd yn oed gyda Chytundeb Ymadael ar waith, gallai Cymru golli rhywfaint o'r cyllid os bydd prosiectau yn tanwario. Mae gan Lywodraeth Cymru y dewis i liniaru'r risg hon trwy orymrwymo'r cyllid. O gofio ansicrwydd cyllid yn y dyfodol, mae'n bosibl y bydd angen i Lywodraeth Cymru fod yn fwy gofalus ynghylch gorymrwymo, ac felly cynyddu'r risg o beidio â gallu mantoli ac ailddosbarthu'r tanwariant. Am bob 1% o werth cyllid yr UE sydd wedi'i danwario, byddai Cymru yn colli oddeutu £5.2 miliwn.

Roedd risg sylweddol i Gymru o fod ar ei cholled o ran cyllid mewn sefyllfa dim cytundeb tan i Lywodraeth y DU ymestyn ei gwarant yn ddiweddar iawn

O dan delerau blaenorol gwarant Llywodraeth y DU, roedd risg sylweddol y byddai Cymru ar ei cholled pe na byddai Cytundeb Ymadael ym mis Mawrth 2019

- 1.11 Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb ym mis Mawrth 2019, bydd cyllid yr UE i Gymru yn dod i ben. Dywedodd gwarant Llywodraeth y DU ym mis Hydref 2016 y byddai'n darparu'r cyllid ar gyfer 'pob prosiect strwythurol a buddsoddi' a lofnodwyd cyn i'r DU adael yr UE. Fel y nodwyd yn flaenorol, roedd y warant ar gyfer prosiectau a gymeradwywyd erbyn 29 Mawrth 2019 yn unig.

- 1.12 Roedd Llywodraeth Cymru wedi dyrannu holl gyllid yr UE i Gyrrff Cyfryngol, ac roedd disgwyl i hwn gael ei ddarparu gan warant Llywodraeth y DU. Ni fyddai £83.9 miliwn o hyn wedi ei ymrwmo i brosiectau unigol erbyn mis Mawrth 2019. Fel y nodwyd uchod, ni ddechreuodd Llywodraeth Cymru geisio eglurhad ynghylch pa un a fyddai telerau'r warant yn cynnwys defnyddio Cyrff Cyfryngol tan fis Tachwedd 2017. Lluniodd Llywodraeth y DU nodyn arweiniol drafft ar fanylion y warant ym mis Mehefin 2018 a chadarnhaodd hyn na fyddai ymrwymiad cyrrff cyfryngol wedi'i gynnwys yng nghwmpas y warant. O ganlyniad i hyn, roedd risg sylweddol y byddai Cymru wedi colli'r £83.9 oni bai fod Llywodraeth Cymru yn gallu datblygu cynlluniau newydd neu lofnodi prosiectau yn gyflym mewn cyfnod byr iawn.
- 1.13 Gallai Cymru fod wedi bod ar ei cholled hefyd o ganlyniad i ddiffyg hyblygrwydd i symud cyllid rhwng prosiectau a chynlluniau ar ôl Brexit. Mewn rhaglen mor fawr â hon, mae'n anorfod y bydd rhai prosiectau a chynlluniau yn gwario llai na'r disgwyl. O dan reolau'r UE, mae gan Lywodraeth Cymru rhywfaint o hyblygrwydd i ailgyfeirio tanwariant ar lefel prosiect neu gynllun i gynlluniau neu brosiectau eraill hyd at ddiwedd cyfnod y rhaglen. Fodd bynnag, nid oedd yn glir y byddai gwarant Llywodraeth y DU, a oedd yn ymwneud yn benodol â phrosiectau cymeradwy, yn caniatáu hyblygrwydd o'r fath i symud cyllid y tu hwnt i'r pwynt pryd y cymeradwywyd y prosiectau ac y sicrhawyd y cyllid. Felly, gallai Cymru fod wedi colli unrhyw danwariant.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth y DU wedi ymestyn y warant ac mae'r telerau newydd wedi lleihau'n sylweddol y risg o Gymru'n colli cyllid mewn sefyllfa dim cytundeb

- 1.14 Ym mis Chwefror 2018, lluniodd Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Llywodraeth y DU Bapur Gwyn ynghylch dyfodol amaethyddiaeth ar ôl Brexit. Cyfeiriodd y Papur Gwyn at ymrwymiad maniffesto Llywodraeth Geidwadol a nododd y byddai'n cadw'r un cyfanswm arian parod o gyllid ar gyfer y sector tan ddiwedd y senedd hon: mae hyn yn cynnwys holl gyllid yr UE a'r Trysorlys a ddarperir mewn cymorth i ffermydd o dan Piler 1 a Philer 2 y Polisi Amaethyddol Cyffredin presennol. Mae'r ymrwymiad hwn yn berthnasol i bob rhan o'r DU. O'i ystyried yn llythrennol, ymddengys bod y Papur Gwyn yn cynnig sicrwydd cyffredinol i Gymru y byddai'n cael y dyraniad llawn o dan y Cynllun Datblygu Gwledig presennol. Fodd bynnag, cadarnhaodd swyddogion Llywodraeth Cymru gyda Llywodraeth y DU ei fod ddim ond yn ymwneud â chyllid newydd ar ôl 2020, nid y cylch presennol. Felly, ar yr adeg honno roedd gwarant Llywodraeth y DU i ariannu prosiectau a gymeradwywyd erbyn mis Mawrth 2019 yn parhau i fod yn berthnasol.

- 1.15 Ar 24 Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei bod yn ymestyn ei gwarant o gyllid yr UE i gynnwys pob prosiect a lofnodwyd cyn diwedd mis Rhagfyr 2020. Fel y'i drafftwyd, mae'r estyniad hwn o'r warant yn lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio ag ymrwymo'r cyllid a thanwariant mewn sefyllfa dim cytundeb yn sylweddol. Fodd bynnag, daw'r union effaith yn fwy eglur wrth i Lywodraeth y DU nodi rhagor o fanylion am sut y bydd y warant yn gweithio'n ymarferol.
- 1.16 Ceisiodd adran Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru ynghyd â Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO) egluro dehongliad Llywodraeth y DU o'r warant. Mae **Blwch 5** yn nodi'r meysydd y mae WEFO wedi gofyn am ragor o fanylion amdanynt ar ran Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu llunio canllawiau diwygiedig ar yr estyniad i'r warant yn y dyfodol agos, ac rydym ar ddeall y bydd hyn yn ateb rhai o'r materion a godwyd. Yn y pen draw, penderfyniad Llywodraeth y DU yw cwmpas y warant.

Blwch 3 – meysydd allweddol y mae WEFO wedi gofyn am eglurhad yn eu cylch o ran gwarant Llywodraeth y DU

Hyblygrwydd i amrywio prosiect/cynllun

A fydd Llywodraeth y DU yn caniatáu amrywiadau i brosiectau y cytunwyd arnynt ac yr ymrwymwyd iddynt cyn 29 Mawrth 2019 a pharhau i ystyried bod yr elfennau sydd wedi'u hamrywio wedi'u cynnwys yn y warant?

Effaith ar gyllid arall

A all Llywodraeth y DU gadarnhau na fydd y warant yn effeithio ar unrhyw gyllid arall a glustnodwyd i Gymru?

Gwerth cyffredinol y warant

Sut a phryd y bydd Llywodraeth y DU yn penderfynu ar ba un a oes gwerth Sterling i'r terfyn uchaf ar ei gwarant?

Rheoliadau

Pa reoliadau presennol yr UE fydd Llywodraeth y DU yn disgwyl eu cadw a pha broses archwilio ac arolygu fydd ei hangen ar ôl Brexit?

Pwynt terfyn

A fydd Llywodraeth y DU yn ysgwyddo unrhyw symiau sydd yn y system ar adeg Brexit?

Cymorth technegol

A fydd Llywodraeth y DU yn parhau i ariannu staff WEFO a chostau hyfforddi, cyngor a chymorth eraill yn rhan o'r warant?

Mae risg ehangach i sefyllfa gyllid y DU mewn sefyllfa dim cytundeb

- 1.17 Er bod yr adroddiad hwn yn canolbwyntio ar y risgiau i Gymru, mae risg ehangach i sefyllfa ariannol y DU mewn sefyllfa dim cytundeb. Mewn sefyllfa dim cytundeb, byddai Llywodraeth y DU yn gwneud iawn am y bwlch yng nghyllid y rhaglen. Bydd maint y bwlch yn dibynnu'n rhannol ar faint o gyllid yr UE y gall Cymru (a rhannau eraill o'r DU) ei gael gan yr UE cyn Brexit. Er mwyn cael cyllid gan yr UE, mae'n rhaid i brosiectau wario'r arian yn gyntaf ac yna cyflwyno cais i Lywodraeth Cymru. Bydd Llywodraeth Cymru wedyn yn talu'r hawlydd ac yn cael y cyllid gan yr Undeb Ewropeaidd.
- 1.18 Ar ddechrau'r rhaglen nododd yr UE ei gyllideb gyllido gyffredinol i Lywodraeth Cymru mewn dyraniadau blynyddol o 2015 i 2020. Y dyraniadau hyn yw'r uchafsymiau y caiff Llywodraeth Cymru eu cael yn y flwyddyn honno. Mae'r rheol N + 3 wedyn yn caniatáu ar gyfer hawlio'r dyraniad am hyd at dair blynedd ar ôl hynny. Ar ôl y tair blynedd collir y cyllid hwnnw. Hyd yn hyn, mae Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd pob targed N + 3 ac ni chollwyd unrhyw gyllid.
- 1.19 Mewn rhaglen nodweddiadol, mae'n arferol i beidio â defnyddio'u dyraniadau blynyddol cyfan o fewn blwyddyn, ac i aelod-wladwriaethau ddefnyddio'r cyfnodau N + 3 i hawlio'u holl gyllid. Fodd bynnag, o gofio Brexit, ac mewn sefyllfa dim cytundeb, bydd yr amserlen hon ar gyfer hawlio cyllid yr UE yn cwtogi'n sylweddol i fis Mawrth 2019. Ar ddiwedd 2018, bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd wedi hawlio £192 miliwn (43%) o'r £445 miliwn o ddyraniadau cronus yr UE fydd ar gael iddi erbyn hynny. Mae bron yn sicr felly na fydd Cymru wedi gallu sicrhau cyfanswm dyraniad yr UE sydd ar gael iddi cyn i Brexit ddigwydd dri mis ar ôl hynny ym mis Mawrth 2019.
- 1.20 Ym **mharagraff 1.5** uchod nodir barn Llywodraeth Cymru bod anawsterau logisteg a risgiau ynghlwm wrth gyflymu'r rhaglen er mwyn sicrhau cymaint â phosibl o gyllid gan yr UE cyn Brexit. Roedd y rhain yn cynnwys cyfyngiadau posibl ar adnoddau Llywodraeth Cymru i gyflawni mwy o gynlluniau neu'r cyd-gyllid sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru.
- 1.21 Mae'n anodd bod yn gwbl sicr faint yn fwy y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi'i wario pe byddai wedi dewis cyflymu'r rhaglen, ond mae'n glir mewn sefyllfa dim cytundeb y bydd y cyllid y a fydd yn dod gan y DU, yn hytrach na ffynonellau'r UE, yn debygol o fod yn uwch o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth Cymru i beidio â chyflymu'r rhaglen.

Rhan 2

Mae gan Lywodraeth Cymru brosesau rhwystrau a gwrthbwysau i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheolau caeth yr UE, ond mae angen iddi gryfhau ei phrosesau craffu a rheoli risg o ran y Cynllun Datblygu Gwledig yn gyffredinol



- 2.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried y trefniadau sydd ar waith i:
- a sicrhau bod prosiectau yn defnyddio'r arian yn unol â rheolau'r UE yn unig; a
 - b monitro cynnydd â'r rhaglen gyffredinol.

Mae gan Lywodraeth Cymru brosesau rhwystrau a gwrthbwysau i sicrhau ei bod yn cydymffurfio â rheolau caeth yr UE

- 2.2 Mae'r ddogfen Rhaglen Datblygu Gwledig yn nodi sut y bydd Llywodraeth Cymru yn cyfateb ei blaenoriaethau â blaenoriaethau rhaglen gyllido yr UE. Wrth ddatblygu'r Rhaglen Datblygu Gwledig, mae Llywodraeth Cymru yn dewis pa 'fesurau' yr UE y bydd yn eu mabwysiadu a faint o'r cyllid sydd ar gael y bydd yn ei ddyrannu i bob un ohonynt. Pan fydd y ddogfen Rhaglen Datblygu Gwledig wedi'i chymeradwyo gan yr UE, bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu cynlluniau penodol i gyflawni'r gweithgareddau a amlinellir yn y Rhaglen Datblygu Gwledig. Mae'n rhaid i bob cynllun gyfateb yn uniongyrchol gydag o leiaf un o fesurau'r UE. Mae llawer o'r cynlluniau, fel Glastir, wedi eu hen sefydlu ac wedi eu cynnal o dan rowndiau blaenorol y cyllid. Mae pob cynllun yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth Weinidogol ac mae'n rhaid iddynt ddangos eu bod yn cyd-fynd ag egwyddorion yr UE ac amcanion Llywodraeth Cymru ei hun.
- 2.3 Mae gan bob cynllun ei gyfres ei hun o feini prawf. Ar gyfer y rhan fwyaf o gynlluniau, mae'n rhaid i ffermwyr neu sefydliadau wneud cais trwy fynegi diddordeb. Yna bydd swyddogion yn adolygu'r ceisiadau i benderfynu ar ba un a ydynt yn bodloni'r meini prawf. Mae Llywodraeth Cymru wedi symleiddio'r broses ymgeisio ac mae'n darparu cyfarwyddiadau a chanllawiau clir i ymgeiswyr. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cynnig llawer o gymorth gweinyddol i ddarparu ymgeiswyr.
- 2.4 Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio dysgu a defnyddio gwersi o raglenni blaenorol. Ar ôl cwblhau'r Cynllun Datblygu Gwledig diwethaf 2007-2013, cyfarfu Llywodraeth Cymru â nifer o randdeiliaid a chynnal ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu barn ar gryfderau a gwendidau'r rhaglen. Nododd hyn feysydd o arfer da y dylid parhau â nhw, a meysydd i'w gwella a gafodd eu cynnwys wrth lunio trefniadau'r Rhaglen Datblygu Gwledig bresennol. Roedd hyn yn cynnwys creu Uned Rheoli Cynlluniau i gysoni'r broses o sefydlu a gweinyddu ceisiadau a hawliadau, a symleiddio strwythur ariannol y rhaglen i wneud prosesau gweinyddu'r rhaglen yn haws ac yn fwy eglur.

- 2.5 O dan Reoliadau'r UE, mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gydymffurfio â chfres o safonau rheoli. Mae'r safonau hyn yn ymdrin ag amrywiaeth o faterion, gan gynnwys sicrhau y caiff cyllid yr UE ei ddyfarnu a'i wario dim ond ar bethau sy'n gymwys ym marn yr UE. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn adolygu rheolaethau Llywodraeth Cymru dros Gyllid Datblygu Gwledig bob blwyddyn i ddarparu sicrwydd ynghylch cydymffurfio â'r safonau gofynnol.⁷ Mae'r rheolaethau hefyd yn destun adolygiad rheolaidd gan yr UE. Os na all Llywodraeth Cymru ddangos bod ei rheolaethau yn bodloni safonau gofynnol yr UE, gallai arwain at gosbau ariannol wedi'u gorfodi gan yr UE.
- 2.6 Daeth Swyddfa Archwilio Cymru i'r casgliad yn 2015, 2016 a 2017 fod Llywodraeth Cymru ar y cyfan yn cydymffurfio â safonau rheoli y Gymuned Ewropeaidd. Yn 2016 a 2017 dywedodd Swyddfa Archwilio Cymru fod un maes i'w wella lle'r oedd swyddogion yn gwneud camgymeriadau gweinyddol wrth ddehongli rheolau cynlluniau ac wrth benderfynu ar gymhwysedd hawliadau am gyllid. Mewn ymateb i ganfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru, rhoddodd Llywodraeth Cymru gynllun gweithredu ar waith a oedd yn cynnwys hyfforddiant ac arweiniad i swyddogion. Bydd ein harchwiliad yn 2018 yn asesu pa un a fu'r cynllun gweithredu hwn yn llwyddiannus.

Mae lle i gryfhau prosesau goruchwyllo a rheoli risg y Cynllun Datblygu Gwledig cyffredinol

- 2.7 Nid yw trefniadau rheoli risg o ran y Cynllun Datblygu Gwledig wedi'u cydlynu, ac mae'r cyfrifoldebau wedi'u rhannu o fewn Llywodraeth Cymru. Yr Is-adran Datblygu Gwledig sy'n gyfrifol am reoli risgiau gweithredu, tîm cyswllt Brexit sy'n rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â rhyngwyneb Brexit â Llywodraeth y DU, ac Adran Gyllid Llywodraeth Cymru sy'n ystyried y risgiau ariannol. Nid oes unrhyw drefniadau rheoli risg canolog ar waith i dynnu'r holl risgiau sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Gwledig a Brexit ynghyd a nododd ein gwaith nad yw swyddogion yn deall y trefniadau yn llawn. Felly, mae'n bosibl nad yw risgiau allweddol yn cael eu cofnodi a'u hystyried. Er enghraifft, er bod swyddogion Llywodraeth Cymru yn deall rhai o'r risgiau sy'n gysylltiedig â gwarant Llywodraeth y DU, nid yw ystyriaethau manwl y risgiau i sefyllfa ariannol Llywodraeth Cymru a chyflawniad y Cynllun Datblygu Gwledig wedi'u cofnodi ar unrhyw un o'r cofrestrau risg perthnasol.

⁷ Mae Erthygl 5(3) a 6 Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (UE) Rhif 908/2014 yn nodi'r gofynion i aelod-wladwriaethau benodi 'Corff Ardystio' i archwilio cyfrifon eu cronfa amaethyddol flynyddol a'u rheolaethau mewnol ac adrodd eu canfyddiadau i'r Gymuned Ewropeaidd. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gweithio mewn consortiwm o archwilywyr y DU i ddarparu swyddogaeth Corff Ardystio i aelod-wladwriaeth y DU. Swyddfa Archwilio Cymru sy'n cyflawni elfen Llywodraeth Cymru yr archwiliad.

- 2.8 Mae Pwyllgor Monitro'r Rhaglen (PMRh), sy'n cynnwys aelodau a swyddogion annibynnol o'r UE, yn goruchwyllo'r rhaglen gyffredinol ochr yn ochr â rhaglen Cronfeydd Strwythuredig yr UE. Canfuwyd bod lefel y craffu ar Gyllid Datblygu Gwledig gan y PMRh yn gyfyngedig o'i gymharu â Chronfeydd Strwythurol yr UE.
- 2.9 Mae aelodau'r PMRh eu hunain wedi mynegi pryder ynghylch diffyg dealltwriaeth fanwl o Gyllid Datblygu Gwledig. Mae'r wybodaeth ariannol a rheoli am gynnydd y Cynllun Datblygu Gwledig y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i'r PMRh yn aneglur ac weithiau'n anghywir. Er enghraifft, defnyddir y term 'ymrwymiad' i ddisgrifio tair sefyllfa:
- ymrwymadau a wnaed i ffenestri Mynegi Diddordeb y cynllun a gweithgareddau eraill;
 - ymrwymadau i brosiectau sydd â contract â buddiolwr wedi'i lofnodi yn sylfaen iddynt; ac
 - ymrwymadau i brosiectau sydd â contract â buddiolwr wedi'i lofnodi yn sylfaen iddynt ac eithrio taliadau blynyddol sy'n cynnwys taliad y flwyddyn bresennol yn unig pan fydd hawliad wedi'i dderbyn (y diffiniad a ddefnyddir ar gyfer rhai o ffurflenni'r Gymuned Ewropeaidd).
- 2.10 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod rhai o gyfyngiadau'r PMRh i gynnig swyddogaeth graffu gadarn ar reolaeth a chyflawniad y Cynllun Datblygu Gwledig ac mae wedi cymryd camau i wella hyn. Mae wedi cynnig hyfforddiant i aelodau'r PMRh i'w helpu i gael gwell dealltwriaeth o Gyllid Datblygu Gwledig ond nid oes llawer o aelodau'r PMRh wedi manteisio ar hyn. Yn ddiweddar, mae hefyd wedi trefnu bod papurau'r PMRh ar gael i'r aelodau cyn cyfarfodydd er mwyn rhoi mwy o amser i'r aelodau ystyried cynnydd y Cynllun Datblygu Gwledig.

Rhan 3

Nid yw'n glir hyd yma beth fydd yn disodli cronfeydd amaethyddol yr Undeb Ewropeaidd ar ôl Brexit ond mae Llywodraeth Cymru yn ceisio llunio'r ddadl



- 3.1 Mae'r rhan hon o'r adroddiad yn ystyried cynlluniau sy'n dod i'r amlwg ar gyfer llenwi bwlch cronfeydd amaethyddol yr UE ar ôl Brexit. Nid yw'r adran hon yn rhoi sylwadau ynghylch rhinweddau'r cynlluniau. Ar adeg drafftio'r adroddiad hwn, mae Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnal ymholiad i'r cronfeydd a ddefnyddir yn lle cronfeydd yr UE, ac mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori Papur Gwyrdd 'Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru'⁸. Rydym wedi nodi safbwynt Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru ar ddyfodol cronfeydd amaethyddol ar adeg drafftio'r ddogfen. Yn y pen draw, mae'r cwestiwn ynghylch pa haen o lywodraeth sy'n gyfrifol am unrhyw gynllun sy'n cymryd lle'r UE, yn fater gwleidyddol a chyfansoddiadol y mae'n rhaid i Lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig eu datrys.

Mae Llywodraeth y DU wedi nodi gweledigaeth fras ar gyfer amaethyddiaeth yn Lloegr a chyfnod trosglwyddo, ond mae'n cydnabod y bydd llywodraethau datganoledig yn penderfynu ar eu blaenoriaethau eu hunain

- 3.2 Ym mis Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth y DU bapur ymgynghori⁹ yn nodi ei huchelgeisiau ar gyfer dyfodol ffermio a'r amgylchedd ar ôl i'r DU adael yr UE. Cyfeiriwyd yn y papur ymgynghori hwn at ymrwymiad maniffesto llywodraeth Geidwadol i ddarparu cyllideb flynyddol i weinyddiaethau datganoledig gynorthwyo ffermydd sy'n hafal i gyfanswm arian parod cyfartalog blynyddol y cymorth i ffermydd o dan y ddau biler ar draws rhaglen 2014-2020. Penderfyniad Llywodraeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig fydd penderfynu sut i wario'r arian hwnnw.
- 3.3 Nid yw'r papur yn cynnig sylwadau ynghylch lefel y cyllid ar ôl 2022. Hefyd, mewn tystiolaeth a gyflwynwyd gan y Gweinidog dros Amaethyddiaeth i'r Pwyllgor Materion Cymreig yn Nhŷ'r Cyffredin ym mis Mai 2018¹⁰ fe'i gwnaed yn glir nad yw cyfanswm lefel cyllid y DU ar gyfer cymorth amaethyddol ar ôl 2022 wedi'i gadarnhau hyd yma.

8 Llywodraeth Cymru, **Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru**, Gorffennaf 2018

9 Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, **Iechyd a Harmoni: Dyfodol bwyd, ffermio a'r amgylchedd mewn Brexit Gwyrdd**, Chwefror 2018.

10 Pwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, **Brexit: priorities for Welsh agriculture**, Gorffennaf 2018

- 3.4 Daeth ymgynghoriad Llywodraeth y DU i ben ar 8 Mai 2018 ac ers hynny mae wedi cyflwyno Bil Amaethyddiaeth sy'n nodi ei gweledigaeth ar gyfer polisi Amaethyddiaeth sy'n ei wneud yn wahanol i Bolisi Amaethyddol Cyffredin yr Undeb Ewropeaidd. Cafodd y Bil ei ailddarlleniad yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Hydref 2018. Er bod Llywodraeth y DU o'r farn y gallai ei gweledigaeth ar gyfer polisi Amaethyddiaeth yn y dyfodol weithio ar gyfer y DU gyfan, mae'n cydnabod bod gan Gymru bwerau i benderfynu ar ei blaenoriaethau ei hun yn sgil y datganoli. Fodd bynnag, cyfeiriodd y papur ymgynghori hefyd at y posibilrwydd o sefydlu fframweithiau cyffredin pan fo angen hynny er mwyn galluogi marchnad fewnol sy'n gweithredu'n dda ledled y Deyrnas Unedig, cydymffurfiaid â rhwymedigaethau rhyngwladol ac amddiffyn adnoddau cyffredin.
- 3.5 Yn ogystal â'r Bil Amaethyddiaeth, mae Llywodraeth y DU yn bwriadu datblygu Cronfa Ffyniant Gyfrannol y DU. Gall hyn fod yn berthnasol i gynlluniau nad ydynt yn rhai amaethyddol a gaiff eu hariannu ar hyn o bryd trwy'r Cynllun Datblygu Gwledig. Mae rhagor o fanylion am Gronfa Ffyniant Gyfrannol y DU ac ymateb Llywodraeth Cymru i hyn wedi'u cynnwys yn ein hadroddiad a gyhoeddwyd yn ddiweddar, **Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE**.¹¹ Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei gweledigaeth ar gyfer polisi amaethyddol yng Nghymru ar ôl Brexit ac mae'n dymuno i'r rheolaeth a'r cyllid cyfan gael eu datganoli.
- 3.6 Ym mis Chwefror 2018, amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig weledigaeth ar gyfer rheoli tir yng Nghymru yn y dyfodol, er mwyn mynd i'r afael â realiti economaidd, helpu i baratoi ar gyfer Brexit ac integreiddio defnydd tir ag uchelgeisiau ehangach Llywodraeth Cymru yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd. Maent wedi'u crynhoi yn gyfres o bum egwyddor (**Blwch 4**) i fod yn sylfaen i ddiwygio yng Nghymru.

Blwch 4 – egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer newid

- cadw ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill ar y tir
- mae cynhyrchu bwyd yn hollbwysig
- mae angen diwydiant rheoli tir ffyniannus a chadarn yng Nghymru, ni waeth beth fo natur Brexit
- bydd cymorth yn y dyfodol yn canolbwyntio ar gyflenwi nwyddau cyhoeddus ychwanegol
- dylai'r holl reolwyr tir gael defnyddio cynlluniau newydd

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

¹¹ **Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE**, paragraffau 3.2- 3.5.

- 3.7 Trwy ddefnyddio'r egwyddorion hyn fel sail, amlinellodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ei hun ar gyfer polisi amaethyddol ar ôl i'r DU adael yr UE ym mis Gorffennaf 2018, yn y ddogfen **Brexit a'n tir: Diogelu dyfodol ffermio yng Nghymru**. Mae'r cynigion yn gofyn am farn ar:
- rhaglen rheoli tir newydd sy'n cynnwys cynllun cydnerthedd economaidd a chynllun nwyddau cyhoeddus i weithredu yn lle'r Polisi Amaethyddol Cyffredin; a
 - sut y dylid cynllunio'r cynlluniau penodol a fydd yn darparu'r cymorth.
- 3.8 Mae'r papur yn nodi gwrthwynebiad Llywodraeth Cymru i unrhyw ostyngiad i'r cyllid o ganlyniad i ymadawiad y DU â'r UE, a fyddai'n amharu ar ei gallu i gefnogi'r gweithgareddau a ariennir ar hyn o bryd trwy'r EAFRD a'r EAGF. Mae Llywodraeth Cymru yn galw am system newydd wedi'i seilio ar reolau ar gyfer cyllid disodli, sy'n sicrhau bod dyraniad adnoddau o fewn y DU wedi'i seilio ar angen cymharol ac nid Fformiwla Barnett¹².
- 3.9 Wrth nodi ei syniadau ynghylch dyfodol cyllid amaethyddol, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio dysgu gwersi o'i phrofiad o reoli cronfeydd amaethyddol ar gyfer datblygu gwledig, ac mae'n cynnig cynllun trosglwyddo graddol i symud o'r hen gynlluniau i'r rhai newydd erbyn 2025. Mae papur polisi Llywodraeth Cymru yn glir nad yw polisi amaethyddol cyffredin yr UE yn gwneud digon i gyflawni'r canlyniadau gofynnol i Gymru ac mae'n amlinellu achos dros gymorth pwrpasol yng Nghymru. Mae'r papur hefyd yn amlinellu bod yn rhaid i fframweithiau'r DU yn y dyfodol (**paragraff 3.3**) gydnabod bod tir Cymru yn wahanol a bod ei chymunedau a'i sectorau yn wahanol, a bod yn rhaid caniatáu hyblygrwydd yn y polisïau fel eu bod yn adlewyrchu cyd-destun unigryw Cymru.
- 3.10 Mae Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â rhanddeiliaid i gael eu barn ar ei chynigion trwy ymgynghoriad ar-lein a chyfres o gyfarfodydd agored sy'n cael eu cynnal tan 30 Hydref 2018. Mae'n bwriadu cyflwyno manylion y cynigion erbyn gwanwyn 2019 a chyhoeddi deddfwriaeth erbyn diwedd tymor y Cynulliad.

¹² System o ddyrannu grantiau i Gymru, Gogledd Iwerddon a'r Alban yw Fformiwla Barnett. Ceir esboniad llawn yn ein **Canllaw i Gyllid Cyhoeddus Cymru**, Gorffennaf 2018

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio

Atodiad 2 – Rhestr o gynlluniau



Atodiad 1 – Dulliau archwilio

Adolygu dogfennau a dadansoddi data

Adolygwyd amrywiaeth eang o ddogfennau gan gynnwys:

- Canllawiau Llywodraeth Cymru
- Adolygiadau a gomisiynwyd yn annibynnol o'r Rhaglenni
- Archwiliadau'r Comisiwn Ewropeaidd
- Archwiliadau allanol Swyddfa Archwilio Cymru o gyfrifon a systemau rheoli Cronfeydd Amaethyddol
- Data ariannol a pherfformiad a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru
- Briffiau Gweinidogol
- Cofnodion o amryw o gyfarfodydd gan gynnwys Pwyllgor Monitro'r Rhaglen

Cyfweliadau

Rydym wedi trafod gweinyddiaeth y rhaglenni gydag uwch swyddogion Llywodraeth Cymru ac wedi cynnal cyfres o gyfweliadau i drafod y canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg ac egluro agweddau allweddol ar y rhaglenni.

Arsylwadau

Aethpwyd i gyfarfodydd Pwyllgor Monitro'r Rhaglen a chynnal arsylwadau ym mis Rhagfyr 2017 a mis Mai 2018.

Appendix 2 – Rhestr o gynlluniau

Cynllun	Diben
Cynllun Grant Busnes i Ffermydd	Helpu ffermwyr i wella perfformiad economaidd ac amgylcheddol eu daliadau amaethyddol. Mae'r grant yn darparu cyfraniad ariannol tuag at fuddsoddiadau cyfalaf mewn offer a pheiriannau.
Cynllun Grant Cynhyrchu Cynaliadwy	Helpu ffermwyr i ddatblygu busnesau fferm mwy cynaliadwy, proffidiol a chadarn. Mae'r grant yn darparu cyfraniad ariannol tuag at fuddsoddiadau cyfalaf mewn offer a chyfleusterau sy'n ymwneud â/ag: <ul style="list-style-type: none"> • Iechyd a lles anifeiliaid • Storio cynydau • Storio a thrin cynnyrch • Cynhyrchu ynni adnewyddadwy • Rheoli pridd a chnydau
Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Bwyd	Darparu cymorth i gynhyrchwyr cynnyrch amaethyddol sylfaenol a busnesau yng Nghymru sy'n cynnal gweithgareddau prosesu cam un a/neu cam dau
Cynllun Cydweithredu a Datblygu'r Gadwyn Gyflenwi	Cefnogi datblygiad cynhyrchion, arferion, prosesau a thechnolegau newydd ym maes amaethyddiaeth, coedwigaeth a'r sectorau bwyd.
Cynllun Rheoli Cynaliadwy	Cefnogi cydweithredu sy'n ceisio gwella adnoddau naturiol a'r buddion y maent yn eu darparu gan gynnwys lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a gwella cydnerthedd busnesau a chymunedau i wrthsefyll effeithiau'r newid yn yr hinsawdd.
Cronfa Datblygu Cymunedau Gwledig	Grantiau yn bennaf i sefydliadau cymunedol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau er mwyn helpu i ddiwallu anghenion lleol a chryfhau cymunedau.

Scheme	Purpose
Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Coed	Cefnogi gwelliannau mewn gwerth coedwigoedd, er enghraifft trwy alluogi gweithgareddau rheoli coetir, cynaeafu coed a/neu brosesu coed yn y goedwig neu ar raddfa fach.
Cynllun Cynllunio Coedwigoedd Cydweithredol	Cefnogi amrywiaeth o weithgareddau sy'n ceisio annog cynllunio a chreu coetiroedd llydanddail a chonwydd.
Partneriaeth Arloesi Ewrop yng Nghymru	Cefnogi datblygiad gwaith ymchwil ac arloesi ym maes amaethyddiaeth a choetiroedd.
LEADER	Cefnogi gwaith datblygu lleol a meithrin capasiti mewn cymunedau gwledig.
Cynllun Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi	Cefnogi datblygiad sector tir mwy proffesiynol, proffidiol a chydnerth sy'n targedu busnesau fferm a choedwigaeth.
Cynllun Buddsoddi mewn Busnesau Gwledig	Cefnogi prosiectau sy'n cynnig buddion amlwg i'r diwydiant bwyd a diod.
Glastir	Cynllun a luniwyd i gyflenwi nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol penodol sy'n ceisio mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd, trwy wella rheolaeth dŵr a rheoli a gwella bioamrywiaeth.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

**Grwp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol
Economy, Skills and Natural Resources Group**

Cyfarwyddwr Cyffredinol – Director General



**Llywodraeth Cymru
Welsh Government**

Mr Adrian Crompton
Auditor General for Wales
Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9LJ

20 December 2018

Dear Adrian

**Response to the Report of the Wales Audit Office on the Managing the Impact of Brexit
on the Rural Development Programme for Wales**

I welcome the publication of the above report and the findings set out within in. I am pleased to set out at Annex A the Welsh Government's response to the two recommendations contained within the report.

Yours sincerely

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Andrew Slade'. The signature is fluid and cursive, written over a light blue horizontal line.

ANDREW SLADE
Director General
Economy, Skills and natural Resources

Parc Cathays/Cathays Park
Caerdydd/Cardiff
CF10 3NQ

Recommendation 1

The current scrutiny arrangements for the management and delivery of the RDP should be improved. A scrutiny forum should allow sufficient attention for the detailed consideration of the programme by informed and engaged members based on clear and accurate information. In particular, the reporting and consideration of 'commitments' should be clear.

Response: Accepted

Welsh Government is in the process of thoroughly reviewing the scrutiny arrangements for the management and delivery of the RDP. Both the RDP Policy Board and RDP Management Board will be re-established, to ensure high level and operational level scrutiny is improved and consistent. We will consider how to more effectively support PMC members as part of this action to ensure their continued effective scrutiny.

This will be in place by the end of the current financial year.

Recommendation 2

Risk management arrangements for the RDP should be clarified and documented so that officers and departments understand their responsibilities and to ensure that all risks with the RDP, and in particular in the context of Brexit, are appropriately identified and managed.

Response: Accepted

Welsh Government are reviewing risk management process as part of the overall review of RDP governance arrangements. Officials in different parts of Welsh Government will contribute to the risk management process which will be overseen by the RDP Policy Board.

This will be in place by the end of the current financial year


In addition to the above actions, we will review the points raised in paragraph 11 of the report. This will be conducted as part of the overarching work to respond to the scrutiny and risk arrangements planned in recommendations 1 and 2.

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Aeddfedrwydd Ilywodraeth leol o ran y defnydd o ddata



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Tudalen y pecyn 52

Rwyf wedi paratoi a chyhoeddi'r adroddiad
hwn yn unol â Deddf Archwilio
Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Rheolwyd tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru gan
Nick Selwyn, ac roedd yn cynnwys Matt Brushett,
Philippa Dixon, Steve Frank, Martin Gibson, Gareth
Jones, Euros Lake a Sara Leahy.

**Archwilydd Cyffredinol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Cynnwys

	Cyflwyniad	6
	Adroddiad cryno	10
	Crynodeb	10
	Argymhellion	14
1	Mae gweledigaeth eglur ac arweinyddiaeth effeithiol yn helpu i greu'r diwylliant sy'n ofynnol i wneud y defnydd gorau o ddata, ond prin yw'r awdurdodau lleol sydd wedi canolbwyntio ar feithrin amgylchedd lle y gellir manteisio i'r eithaf ar y data sydd ganddynt	16
	Mae angen i arweinwyr yr awdurdodau wneud mwy i greu diwylliant data cryf	18
	Mae rheoli data fel ased corfforaethol yn helpu i gefnogi'r broses integreiddio, ond prin yw'r awdurdodau sydd wedi mabwysiadu safonau i helpu i ddatgloi'r potensial hwn	20
	Gyda'r twf mewn 'data mawr', mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn sicrhau cywirdeb eu gwybodaeth, ond mae ansawdd y data yn parhau i fod yn her barhaus i rai	22
	Gofynnir i ddinasyddion ddarparu'r un wybodaeth sawl tro wrth wneud ceisiadau am wasanaethau, ond nid yw awdurdodau yn integreiddio systemau rheoli i wella effeithlonrwydd data	23
2	Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn dda am gydymffurfio â rheoliadau diogelu data, ond nid ydynt bob amser yn rhannu'r data personol y maent yn eu casglu â phartneriaid	25

3	Nid yw awdurdodau lleol yn buddsoddi digon yn eu galluoedd rheoli data a'u sgiliau dadansoddi	31
4	Mae awdurdodau lleol yn defnyddio data i reoli perfformiad, ond mae bylchau a gwendidau yn golygu nad yw penderfyniadau bob amser yn seiliedig ar ystod lawn o dystiolaeth	35
	Mae dadansoddi perfformiad yn aml yn gyfyngedig	37
	Mae awdurdodau lleol yn cynyddu swm y data agored y maent yn ei gyhoeddi	38
	Nid yw prosesau gwneud penderfyniadau bob amser yn cael eu llywio gan waith dadansoddi neu werthuso data effeithiol	40
	Atodiadau	
	Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth	44
	Atodiad 2 – Geirfa	45
	Atodiad 3 – Arferion da wrth ddefnyddio data	46

Cyflwyniad


Mae awdurdodau lleol yn graddol ddatblygu diwylliant sy'n rhoi gwerth ar ddata ac yn eu defnyddio i'w llawn botensial er mwyn helpu i wella gwasanaethau a chanlyniadau

- 1 Mae twf strategaethau 'data mawr'¹ yn y sector preifat, ynghyd ag argaeledd 'data agored'², wedi bod yn ddigyffelyb yn ddiweddar, ac mae wedi chwyldroi'r ffordd y mae sefydliadau yn gwneud penderfyniadau. Gyda'r dechnoleg sydd ar gael heddiw, ynghyd â chyfradd y newid technolegol, mae prosesau gwneud penderfyniadau dan arweiniad data yn dod yn norm yn hytrach na'r eithriad. Fodd bynnag, a yw'r dull hwn yn ymestyn i awdurdodau lleol yng Nghymru?
- 2 Mae bod yn graff ac yn strategol wrth ddefnyddio data yn sicrhau llawer o fanteision i awdurdodau lleol, eu partneriaid, y cymunedau y maent yn gweithio ynddynt a'r dinasyddion y maent yn eu gwasanaethu. Mae gwneud gwell defnydd o ddata yn cefnogi awdurdodau i wneud penderfyniadau gwell a chyflymach. Mae hefyd yn galluogi awdurdodau i wneud y defnydd gorau o adnoddau trwy nodi gwastraff ac aneffeithlonrwydd, gan felly gynyddu cynhyrchedd. Yn bwysicaf oll, mae gwneud y defnydd gorau o ddata yn fuddiol i ddemocratiaeth gan ei fod yn cryfhau prosesau llywodraethu ac atebolrwydd.

- 1 Mae data mawr yn ymwneud â'r angen i wneud synnwyr o'r symiau helaeth o ddata y mae awdurdod lleol yn eu casglu – gan eu prosesu, eu dadansoddi, a manteisio arnynt er budd awdurdodau lleol, partneriaid a chymunedau. Mae data mawr yn cyfeirio at wybodaeth ddigidol sy'n enfawr ac yn amrywiol, ac mae hynny'n gofyn am dechnoleg ac arferion gorau i ddioli, prosesu, storio a dadansoddi.
- 2 Data agored yw'r syniad y dylai rhywfaint o ddata fod ar gael i bawb eu defnyddio a'u hailgyhoeddi fel y dymunant, heb gyfyngiadau o ran hawlfraint, patentau na dulliau eraill o reoli. Un o'r mathau pwysicaf o ddata agored yw data llywodraeth agored oherwydd mae sicrhau bod gwybodaeth y llywodraeth ac awdurdodau lleol ar gael i'r cyhoedd yn gallu hwyluso tryloywder, atebolrwydd a chyfranogiad y cyhoedd.

Tudalen y pecyn 56

Eitem 1 – Y rheswm pam y mae gwneud gwell defnydd o ddata yn bwysig ar gyfer awdurdodau lleol



- 3 Mae awdurdodau lleol yn eistedd ar ‘wythïen gyfoethog’ o ddata personol, ariannol a chymunedol a allai eu helpu i ddarparu gwasanaethau mwy effeithlon ac effeithiol. Er mwyn gwneud hyn, mae angen i awdurdodau lleol sicrhau bod ganddynt y blociau adeiladu cywir ar waith i ryddhau’r potensial data hwn, a hynny’n benodol o ran: safonau rheoli cytunedig, codio cyffredin, a’r diwylliant, yr arweinyddiaeth a’r sgiliau cywir. Mae manteision cysylltu a defnyddio data, a hynny yn yr awdurdodau lleol a chyda phartneriaid, yn heriol, ac mae angen i awdurdodau oresgyn rhai rhwystrau arwyddocaol os ydynt am wneud y defnydd gorau o ddata – **Eitem 2**.

Eitem 2 – Y rhwystrau sy’n golygu nad yw awdurdodau lleol yn gwneud gwell defnydd o ddata



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 4 O wybod am yr heriau hyn, mae'r astudiaeth hon yn asesu a oes gan lywodraeth leol y blociau adeiladu a'r diwylliant cywir ar waith i fanteisio ar y data³ sydd ganddo. Mae ein dulliau wedi cael eu pennu yn **Atodiad 1**.

- 3 Nid yw'r astudiaeth hon yn ymwneud â thechnoleg, meddalwedd na chaledwedd. Yn hytrach, mae'n astudiaeth o nodweddion allweddol sefydliad aeddfed sy'n defnyddio ac yn rhoi gwerth ar ddata er mwyn cynllunio a darparu gwasanaethau

Tudalen y pecyn 59

Adroddiad cryno


Crynodeb




- 5 Yn **Rhan 1** o'r adroddiad, rydym yn astudio'r dull strategol y mae awdurdodau lleol yn ei roi ar waith i wneud gwell defnydd o ddata. Roeddem wedi canfod nad yw awdurdodau lleol yn manteisio ar y symiau enfawr o ddata y maent yn eu casglu er mwyn gweithredu mewn modd mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Yn rhy aml, mae gwasanaethau a thimau yn cadw gwybodaeth mewn seilos ac yn ei defnyddio i un diben. Oherwydd nad oes gan awdurdodau safonau data corfforaethol, mae dyblygu gwybodaeth yn gyffredin a phrosesau integreiddio data yn aml yn wael. O ganlyniad, mae'n bosibl bod y potensial i aildefnyddio data yn cael ei anwybyddu. Yn oes y data mawr, mae chwalu seilos sefydliadol er mwyn ysgogi newid mewn diwylliant yn flaenoriaeth. Yn gyffredinol, nid oes gan yr awdurdodau weledigaeth eglur ar gyfer defnyddio data, ac nid yw'r arweinyddiaeth sy'n ofynnol i helpu i greu'r amgylchedd strategol cywir i fanteisio i'r eithaf ar ddata yn gyson bresennol.
- 6 Yn **Rhan 2**, rydym yn crynhoi gwaith diogelu data yr awdurdodau lleol a'r modd y maent yn mynd ati i rannu data â chyrrff cyhoeddus eraill. Gall awdurdodau lleol gasglu a chadw data personol a sensitif iawn i'w helpu i ddarparu eu gwasanaethau. Gall y data hyn gynorthwyo eu partneriaid, ond mae defnyddio a rhannu data yn weithgarwch cydbwysu anodd. Yn gyffredinol, canfuom fod gan awdurdodau drefniadau da ar waith i ddiogelu data, ond maent yn aml yn gochel rhag risgiau ac yn amharod i rannu gwybodaeth, er gwaethaf argaeledd dulliau cenedlaethol tebyg i Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru (WASPI). Mae angen i bartneriaid sector cyhoeddus wneud mwy i ddatgloi potensial llawn y data sydd ganddynt.
- 7 Yn **Rhan 3**, rydym yn archwilio a oes gan awdurdodau lleol y sgiliau a'r gallu i gasglu, rhannu a dadansoddi data. Un o elfennau allweddol aeddfedrwydd o ran y defnydd o ddata yw sicrhau bod staff yn hyddysg mewn dadansoddeg data fel y gallant ddefnyddio'r data y maent hwy, a phartneriaid, yn eu cadw i ddeall digwyddiadau, rhagfynegi senarios yn y dyfodol, a modelu galw posibl. Canfuom fod awdurdodau lleol yn cydnabod nad oes ganddynt bob amser y sgiliau cywir na'r gallu i wneud y defnydd gorau o ddata.

- 8 Yn **Rhan 4**, rydym yn ystyried pa mor effeithiol yw awdurdodau lleol o ran eu defnydd o'r data sydd ar gael i gytuno ar flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol a dyrannu adnoddau. Mae awdurdodau sydd â lefelau uchel o aeddfedrwydd data yn defnyddio data i dreialu dulliau fel y gallant ddysgu am yr hyn sy'n gweithio a sicrhau bod data agored ar gael mewn amser real i gefnogi ystod eang o sefydliadau i ddatblygu gwasanaethau a dulliau newydd. Canfuom fod awdurdodau lleol yn defnyddio data i adolygu perfformiad, ond bod bylchau a gwendidau yn y data a ddefnyddiant yn golygu nad yw penderfyniadau bob amser yn seiliedig ar yr ystod lawn o dystiolaeth. Yn gyffredinol, gall awdurdodau lleol ddeall perfformiad blaenorol, ond nid ydynt yr un mor ddeheuig o ran eu defnydd o ddata i helpu i rag-weld senarios posibl yn y dyfodol neu i fodelu'r senarios hynny.
- 9 Yn seiliedig ar y canfyddiadau hyn, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad **fod awdurdodau lleol yn graddol ddatblygu diwylliant sy'n rhoi gwerth ar ddata ac yn eu defnyddio i'w llawn botensial er mwyn helpu i wella gwasanaethau a chanlyniadau**. Trwy ein gwaith, rydym wedi nodi'r hyn a ystyriwn yn agweddau allweddol ar aeddfedrwydd data mewn llywodraeth leol, a nodir y rhain yn **Eitem 3**.




Eitem 3 – Aeddfedrwydd Data mewn llywodraeth leol

Mae'r Eitem yn nodi'r agweddau allweddol ar aeddfedrwydd data. Mae lefel 1 yn disgrifio sefydliad sydd â lefelau isel o aeddfedrwydd data, a lefel 3 sefydliad sydd â lefelau uchel o aeddfedrwydd data. **At ei gilydd, rydym wedi dod i'r casgliad fod y rhan fwyaf o awdurdodau yn cael eu nodweddu gan y disgrifyddion ar lefel 1 a lefel 2.**

Nodwedd Allweddol	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3
Arweinyddiaeth 	Mae arweinyddiaeth ar ddata a diwylliant sefydliadol yn annog dull sy'n gochel rhag risgiau, nad yw'n rhoi gwerth ar ddata nac yn ceisio gwneud y defnydd gorau posibl ohonynt.	Mae arweinwyr yn cydnabod gwerth symleiddio a gwella'r defnydd o ddata, a hynny yn yr awdurdod lleol ei hun a chyda phartneriaid. Nid yw'r diwylliant yn y rhan fwyaf o'r awdurdod wedi gwneud cynnydd o 'nodi' cyfleoedd i integreiddio a rhannu data i 'weithredu' ar hynny.	Mae gan y sefydliad ddiwylliant cryf o ran arweinyddiaeth, sy'n seiliedig ar dryloywder, ac sy'n rhoi gwerth ar ddata ac yn eu defnyddio i ategu penderfyniadau. Mae'r awdurdod yn rhannu data a barn yn agored â dinasyddion, partneriaid a rhanddeiliaid, gan nodi'r rhesymeg dros ddewisiadau. Rhoddir gwerth ar ddata a chânt eu defnyddio ledled yr awdurdod.

Nodwedd Allweddol	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3
<p>Safonau corfforaethol</p> 	<p>Mae gwasanaethau'n gweithredu'n annibynnol mewn seilos, ac yn diffinio eu gofynion data eu hunain. Nid oes gan yr awdurdod lleol safonau corfforaethol o ran y modd y dylai gwasanaethau gipio a defnyddio data, ac ychydig iawn o waith mewnol ac allanol a wneir mewn perthynas ag integreiddio neu rannu data.</p>	<p>Mae'r awdurdod lleol yn gwybod am y data penodol a gesglir gan wasanaethau, ac mae ganddo rai cronfeydd data cysylltiedig, ond mae'r broses rhwydweithio data wedi datblygu mewn modd sylfaenol. Nid oes gan yr awdurdod lleol safonau data, ac er bod prosesau rhannu ac integreiddio data ar waith, mae hyn yn digwydd mewn meysydd cul eu diffiniad.</p>	<p>Mae gan yr awdurdod lleol safonau data corfforaethol a strwythurau codio. Mae'r awdurdod lleol wedi nodi ei ofynion data hirdymor, ac mae'n symleiddio systemau i leihau dyblygu a gwella hygyrchedd. Caiff data eu hintegreiddio a rhoddir sylw i'r bylchau o ran codio pan gânt eu nodi.</p>
<p>Data cwsmeriaid integredig</p> 	<p>Mae defnyddwyr gwasanaethau yn aml yn gwneud sawl cais am wasanaethau neu gymorth. Mae dyblygu data yn gyffredin, ac mae rhai gwasanaethau yn dibynnu ar systemau â llaw sy'n defnyddio papur.</p>	<p>Mae dyblygu yn hysbys, ond nid yw bob amser yn cael sylw. Mae rhywfaint o safoni yn digwydd, fel arfer mewn perthynas â pharamedrau sefydledig, er enghraifft rhestrau eiddo, ond mae'n gyfyngedig. Mae'r rhan fwyaf o ddata wedi'u digido ond heb eu cysylltu.</p>	<p>Mae dinasyddion yn gwneud cais unwaith, ac mae gwasanaethau'n cael eu ffurfweddu i ddiwallu eu hanghenion. Mae'r data yn gwbl ddogidol ac yn cael eu glanhau'n rheolaidd i sicrhau eu bod yn gywir. Mae'r broses o rannu ac integreiddio data wedi datblygu'n dda. Mae'r achosion o ddyblygu yn cael eu lleihau cymaint ag a ellir.</p>
<p>Diogelu data</p> 	<p>Deallir a chydymffurfir â'r ddeddfwriaeth diogelu data, ond mae'n rhwystr i rannu data.</p>	<p>Deallir a chydymffurfir â'r ddeddfwriaeth diogelu data ac ni chaiff ei hystyried yn rhwystr i'r broses o wneud gwell defnydd o ddata.</p>	<p>Cydymffurfir â'r ddeddfwriaeth diogelu data, ac mae ei rhoi ar waith yn cefnogi'r awdurdod lleol i fynd ati mewn modd priodol i rannu data yn fewnol ac â chyrrff eraill.</p>

Tudalen y pecyn 62

Nodwedd Allweddol	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3
<p>Dadansoddeg data</p> 	<p>Mae buddsoddi mewn dadansoddeg data – dadansoddi yn ôl segmentau, rhag-weld a dadansoddi rhagfynegol – yn gyfyngedig. Prin yw'r gallu a'r sgiliau ar gyfer gwella'r defnydd o ddata. Ni fuddsoddir o gwbl mewn uwchsgilio staff, neu mae'r buddsoddiad yn brin iawn.</p>	<p>Cydnabyddir yr angen i feithrin sgiliau a gallu, ac i fuddsoddi mewn gwell defnydd o ddata, ond nid yw hyn bob amser yn cael sylw. Mae gwella capasiti ac uwchsgilio staff yn risgiau hysbys, ond mae'r cynnydd i fynd i'r afael â hyn yn araf neu'n gyfyngedig.</p>	<p>Mae staff wedi cael eu hyfforddi ym maes dadansoddeg data, ac mae gwasanaethau'n gwneud defnydd rheolaidd o ddata o ystod o ffynonellau i ddeall digwyddiadau, rhag-weld senarios yn y dyfodol a modelu'r galw posibl. Cydnabyddir a rhoddir gwerth ar ddadansoddeg data fel swyddogaeth graidd, ac mae'r adnoddau ar ei chyfer yn ddigonol.</p>
<p>Penderfyniadau dan arweiniad data</p> 	<p>Adroddir ar ddata a dadansoddir perfformiad. Mae ffocws y broses o adrodd ar berfformiad yn gyfyngedig i wybodaeth gwasanaethau'r awdurdod lleol, yn hanesyddol yn bennaf ac yn edrych yn ôl, ac nid yw'r adrodd yn digwydd mewn amser real. Yn anaml y defnyddir dadansoddiadau data.</p>	<p>Adroddir ar ddata a dadansoddir perfformiad. Mae'r awdurdod lleol yn canolbwyntio ar fonitro a mesur effaith. Mae pwysigrwydd dadansoddeg data yn tyfu ond nid yw wedi'i sefydlu na'i ddatblygu'n ddigonol yn y rhan fwyaf o wasanaethau.</p>	<p>Adroddir ar ddata a, thrwy werthuso perfformiad, cymerir camau unioni pan fo data yn amlygu bod angen newid cyfeiriad. Mae gan yr awdurdod lleol gofnod o gyflawniad o ran y defnydd o ddadansoddeg data i reoli gwasanaethau, ac mae'n canolbwyntio ar ddeall y galw yn y dyfodol.</p>
<p>Data agored</p> 	<p>Nid yw'r awdurdod lleol yn defnyddio data i gefnogi prosesau gwneud penderfyniadau mewn modd effeithiol. Mae data agored ac adroddiadau cyhoeddus yn gyfyngedig iawn.</p>	<p>Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data i ategu penderfyniadau, ond mae cyfyngiadau o ran ei gwmpas a'i ddadansoddiad yn gwanhau dewisiadau 'amser real'. Cynhyrchir data agored ond mae'r cwmpas yn gyfyngedig.</p>	<p>Mae prosesau gwneud penderfyniadau a ysgogir gan ddata wedi hen sefydlu ac yn cael eu derbyn fel y 'ffordd i wneud pethau'. Mae data agored ar gael mewn amser real ac mae amrywiaeth eang o sefydliadau yn defnyddio'r wybodaeth i ddatblygu cyfleoedd gwasanaeth a busnes newydd.</p>

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Argymhellion

- 10 Trwy ein hastudiaeth, rydym wedi gwneud yr argymhellion canlynol i gefnogi gwelliant.

Argymhellion

A1 Mae Rhan 1 o'r adroddiad yn amlygu pwysigrwydd creu diwylliant data cryf ac arweinyddiaeth eglur i wneud gwell defnydd o ddata. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:

- sicrhau bod ganddynt weledigaeth eglur sy'n trin data fel adnodd allweddol;
- sefydlu safonau a chodau data corfforaethol y mae pob gwasanaeth yn eu defnyddio ar gyfer eu data craidd;
- ymgymryd ag archwiliad i bennu'r data sy'n cael eu cadw gan wasanaethau ac i nodi unrhyw gofnodion a cheisiadau am wybodaeth dyblyg; a
- chreu cyfrif cwsmer integredig canolog fel porth i wasanaethau.

A2 Er ei bod yn bwysig bod awdurdodau'n cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol, mae Rhan 2 o'r adroddiad yn nodi'r angen iddynt hefyd rannu data â phartneriaid er mwyn sicrhau bod dinasyddion yn cael gwasanaethau effeithlon ac effeithiol. Er nad yw hyn yn golygu bod y ddeupeth hyn yn annibynnol ar ei gilydd, mae ansicrwydd ynghylch cyfrifoldebau diogelu data yn golygu nad yw rhai swyddogion yn rhannu data, hyd yn oed lle bo cytundeb mewn bodolaeth i roi gwybodaeth i bartneriaid. Rydym yn argymhell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:

- darparu hyfforddiant diweddarau i reolwyr gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gwybod pryd y gallant rannu data ai peidio, a'r math o ddata y gallant eu rhannu; ac
- adolygu a diweddarau protocolau rhannu data er mwyn sicrhau eu bod yn cefnogi gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data.

Argymhellion

A3 Yn Rhan 3 o'n hadroddiad, rydym yn dod i gasgliad bod adnoddau digonol a gallu digonol yn heriau parhaus. Fodd bynnag, heb uwchsgilio staff i wneud gwell defnydd o ddata, mae awdurdodau yn colli cyfleoedd i wella eu heffeithlonrwydd a'u heffeithiolrwydd. Rydym yn argymhell bod awdurdodau yn gwneud y canlynol:

- dynodi staff sydd â rôl yn y broses o ddadansoddi a rheoli data i gael gwared ar ddyblygu, ac i ryddhau adnoddau i feithrin a datblygu'r gallu i ddefnyddio data; a
- buddsoddi yn sgiliau dadansoddi, cloddio a segmentu data y staff, a chefnogi eu datblygiad.

A4 Mae Rhan 4 o'n hadroddiad yn amlygu bod gan awdurdodau ragor i'w wneud mewn perthynas â chreu diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, ac o ran datgloi potensial y data y maent yn eu cadw. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:

- gosod safonau adrodd ar ddata i sicrhau bod y safonau data gofynnol yn ategu'r broses o wneud penderfyniadau; a
- sicrhau bod mwy o ddata agored ar gael.


Rhan 1

Mae gweledigaeth eglur ac arweinyddiaeth effeithiol yn helpu i greu'r diwylliant sy'n ofynnol i wneud y defnydd gorau o ddata, ond prin yw'r awdurdodau lleol sydd wedi canolbwyntio ar feithrin amgylchedd lle y gellir manteisio i'r eithaf ar y data sydd ganddynt



1.1 Mae diwylliant data cryf a gwneud defnydd da o ddata wedi'u plethu â'i gilydd, ac ni all awdurdodau gael y naill heb y llall. Creu diwylliant lle mae Aelodau Etholedig, uwch-swyddogion a staff rheng flaen yn ystyried ac yn defnyddio data mewn modd gwahanol yw'r her allweddol sy'n wynebu awdurdodau o ran gwneud gwell defnydd o ddata. Wedi'u crynhoi yn **Eitem 4** y mae rhai o'r camau allweddol a nodwyd gennym o'n hastudiaeth sy'n helpu awdurdodau lleol i greu amgylchedd dan arweiniad data.

Eitem 4 – Creu amgylchedd dan arweiniad data



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Mae angen i arweinwyr yr awdurdodau wneud mwy i greu diwylliant data cryf

- 1.2 Mae awdurdodau lleol yn casglu llawer o ddata sy'n eu cefnogi i gynllunio a darparu ystod eang o wasanaethau. Fodd bynnag, ni ellir rhannu neu ailddefnyddio llawer o'r data a gesglir oherwydd eu bod yn cael eu cynnal mewn seilos. Mae ymchwil yn awgrymu na chaiff 90% o ddata anstrwythuredig fyth eu dadansoddi, gan olygu eu bod yn parhau mewn cyflwr 'tywyll', heb eu harchwilio; ac mae hyn yn wir er gwaethaf y ffaith bod sefydliadau yn buddsoddi adnoddau sylweddol i gasglu'r data hyn⁴. Mae uno a chyfuno data wedi bod yn broblem erioed ers bodolaeth cronfeydd data, ond mae swm y data a allai fod yn berthnasol ac sydd bellach ar gael yn filoedd o weithiau'n fwy. Bydd awdurdod lleol aeddfed yn symud o nodi manteision posibl y data, i ddefnyddio'r holl ddata wrth wneud dewisiadau, penderfyniadau a phennu newidiadau i'r gwasanaethau a ddarperir.
- 1.3 Gall fod yn anodd cysylltu data unrhyw awdurdod gan ei bod yn ofynnol i adrannau, gwasanaethau a thimau gyflwyno ffyrdd newydd o weithio yn lle prosesau hirsefydlog. Mae hefyd yn ofynnol i staff beidio â gochel cymaint rhag risgiau, a bod yn fwy parod i dderbyn y manteision y gall data eu cynnig ar gyfer cyd-weithwyr, partneriaid a dinasyddion. Mae diwylliant sefydliad yn cael effaith fawr ar y broses o wneud y gorau o botensial data, a gall fod yn rhwystr mawr i'r awdurdod lleol wneud defnydd llawn o'r data. Mae'r modd y caiff awdurdod ei sefydlu, y ffordd y mae gwasanaethau a staff yn gweithio, a dull uwch-arweinwyr o gydnabod a rhoi gwerth ar ddata, yn dylanwadu ar ddiwylliant. Er bod yna arweinwyr brwdfrydig yn yr awdurdod, sy'n gweld manteision posibl datgloi data, mae angen gwneud mwy.
- 1.4 Amlygodd y bobl a gyfwelwyd gennym fod chwalu rhwystrau a seilos yn niwylliant sefydledig awdurdod, sy'n aml yn gochel rhag risgiau, yn fater heriol, a bod cymorth gan benderfynwyr allweddol yn ofynnol ar ei gyfer. Yn benodol, nododd y cyfweleion fod staff rheng flaen yn hanfodol i'r llwyddiant, a bod angen iddynt ddeall pwysigrwydd eu rôl wrth gasglu data cwsmeriaid. Os na fydd yna ewyllys neu arweinyddiaeth yn pennu'r 'cywair' iawn 'ar y brig', yna bydd yn anodd i awdurdodau wneud y defnydd gorau o ddata.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Diwylliant o reoli seilos, amharoddrwydd i arloesi, a diffyg ymwybyddiaeth o'r modd y gellir defnyddio data”

Rheolwr Gweithredol

“Arweinyddiaeth a diwylliant a chydnabyddiaeth ffurfiol o rôl y data yn y sefydliad a ledled y sefydliad i gefnogi pob agwedd ar brosesau gwneud penderfyniadau gweithredol, tactegol a strategol”

Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth

- 1.5 Canfuom nad oes gan unrhyw awdurdod lleol uwch-swyddog dynodedig sy'n arwain ar ddata yn unig, heb orfod ysgwyddo cyfrifoldebau eraill. Trwy ein gwaith maes, canfuom fod rhai awdurdodau yn ystyried bod arweinyddiaeth ar ddata yn dechnegol ei natur, gan roi'r cyfrifoldebau i'r Pennaeth TGCh, neu ei bod yn cael ei llunio gan gydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth diogelu data, gyda'r Uwch-swyddog Risg Gwybodaeth yn arwain. Mae'r swyddogion hyn yn darparu safbwyntiau technegol ac arbenigol pwysig, ond nid ydynt yn aml yn 'eiriolwyr' a all gael dylanwad a chreu newid ar lefelau gwahanol ac mewn meysydd gweithgarwch gwahanol, yn enwedig o ran chwalu seilos ar aildefnyddio data mewn gwasanaethau sy'n delio'n uniongyrchol â chwsmeriaid.
- 1.6 Mae arweinyddiaeth effeithiol hefyd yn ymwneud ag uchelgais a meddu ar weledigaeth eglur ar gyfer data, a honno'n seiliedig ar ganlyniadau penodol sy'n cydnabod data fel adnodd allweddol, tebyg i gyllid a staff. Er gwaethaf pwysleisio bod gwneud gwell defnydd o ddata yn flaenoriaeth, mae yna ddiffyg gweledigaeth, strategaeth neu gynllun ym mwyafrif yr awdurdodau ar gyfer gwella data, ac nid ydynt yn mynegi'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella mewn modd eglur. Roedd nifer o gyfweleion yn teimlo bod hwn yn her arbennig o ddybryd oherwydd, heb weledigaeth a chynllun, roedd yn annhebygol y gellid datblygu a rhoi unrhyw gamau gweithredu pendant ar waith, a hyd yn oed yn llai tebygol y byddai yna welliannau.
- 1.7 Yn absenoldeb ffocws corfforaethol clir a chyson ar ddata, nododd swyddogion yr awdurdodau lleol fod camau gweithredu i wella, yn gyffredinol, yn cael eu rhoi yn nwylo gwasanaethau unigol i'w hyrwyddo, gan ei gwneud yn anodd pennu pwy sydd (neu a ddylai fod) yn arwain, ac sy'n atebol am gydlynu ymdrechion i wella'r defnydd o ddata. Yn ogystal, mae diffyg targedau a nodau ar gyfer gwella'r defnydd o ddata, sy'n hanfodol er mwyn dynodi'r hyn y mae awdurdod yn gobeithio ei gyflawni gyda gwell data, yn ei gwneud yn anodd mesur cynnydd a gwelliant. Mae hyn yn creu risg y bydd gwasanaethau'n ystyried materion sy'n ymwneud â data mewn modd gwahanol, a all arwain at ddyblygu camau gweithredu, neu ddim gweithredu o gwbl, a/neu atgyfnerthu anghysonderau a gwendidau wrth gasglu, rheoli a defnyddio data.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol ...

“Newid mewn diwylliant a'r amharodrwydd i rannu gwybodaeth ledled gwasanaethau”

Pennaeth TGCh

“Diwylliant, gan symud i ddefnyddio dirnadaeth o safbwynt a arweinir gan ddata yn hytrach na phrofiad”

Pennaeth Polisi

“Materion diwylliannol sy'n ymwneud â defnyddio data”

Aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol

Mae rheoli data fel ased corfforaethol yn helpu i gefnogi'r broses integreiddio, ond prin yw'r awdurdodau sydd wedi mabwysiadu safonau i helpu i ddatgloi'r potensial hwn

- 1.8 Er bod awdurdodau, ar y cyfan, yn eglur o ran y data y mae arnynt eu hangen i ddarparu gwasanaethau, nid yw llawer o awdurdodau wedi cynnal archwiliad data i bennu'r gofynion o ran data yn y dyfodol. Yn benodol, amlygodd Rheolwyr TGCh a Swyddogion Cydymffurfio faterion sy'n achos pryder, sef nad yw rheolwyr gweithredol yn ystyried eu hanghenion data ar gyfer y dyfodol, na chwaith yn nodi'r wybodaeth y maent yn ei chasglu sy'n gyffredin ledled gwasanaethau. Nododd llawer o ymatebwyr i'n hofferyn data nad yw integreiddio data ledled gwasanaethau yn gyffredin yn eu hawdurdodau, a hynny er bod gan yr awdurdodau y gallu i gydgysylltu data i gynnig gwell dirnadaeth, sy'n eu helpu i gyflwyno ymyraethau cynharach, llai costus.
- 1.9 Amlygodd Penaethiaid TGCh yn yr awdurdodau lleol, yn arbennig, risg barhaus fod awdurdodau lleol yn gwneud rhy ychydig i safoni eu data, ac nad ydynt eto yn defnyddio proses codio data gyffredin ledled gwasanaethau i wneud y gwaith integreiddio yn haws. Yn rhy aml, mae'r data a gesglir gan wasanaeth yn cael ei bennu gan weithwyr proffesiynol sy'n eglur eu meddwl o ran yr hyn y mae arnynt ei angen er mwyn cyflawni eu swyddogaethau, ond yn llai ymwybodol o (neu heb roi ystyriaeth i) fanteision corfforaethol/ cymunedol ehangach y data y maent yn eu casglu, a'r potensial i'w haildefnyddio. Felly, mae'r ffordd y caiff systemau data eu datblygu, y modd y mae gwybodaeth yn cael ei chodio, a'r diffyg safoni mewn meysydd data a ddefnyddir yn gyffredin (e.e. enwau personol, cyfeiriadau, ethnigrwydd, ac ati), yn gallu gwneud y broses o gysylltu a chydgyssylltu data yn llawer anos nag y mae angen iddi fod.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Systemau casglu data gwahanol nad ydynt yn siarad â'i gilydd, a diffyg dealltwriaeth o'r modd y gall y data a gesglir ar gyfer un maes gwasanaeth effeithio ar y broses o ddarparu gwasanaethau mewn mannau eraill”

Rheolwr Gweithredol

“Mae meysydd gwasanaeth gwahanol yn y Cyngor yn defnyddio systemau gwahanol, ac mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd sicrhau darpariaeth gydlynol ar gyfer y cyhoedd”

Rheolwr Gweithredol

“Mae yna gymaint o systemau pwrpasol ac ar wahân ar gael fel ei bod yn anodd gwybod pa ddata a gedwir ym mhle, a phwy sy'n eu cadw”

Rheolwr Gweithredol



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Er bod y Cyngor yn dda o ran cadw llawer iawn o ddata ... mae'r data'n aml yn cael eu cadw mewn systemau anodd eu cwestiynu ac, felly, ni ddefnyddir llawer o'r data a gedwir mewn modd effeithiol”

Rheolwr Gweithredol

“Safonau cyson wrth gasglu a defnyddio data”

Aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol

- 1.10 Er enghraifft, rhoddir cyfeirnodau gwahanol yn aml ar ddata eiddo a gesglir gan adrannau'r awdurdod. Mae rhai gwasanaethau yn defnyddio cyfeirnodau pwrpasol a grëwyd yn rhan o'r broses o roi'r system ar waith, mae rhai yn defnyddio cyfeiriadau mewn rhestrau strydoedd (a all fod yn anghyflawn neu'n rhannol yn aml), ac mae eraill yn defnyddio gogleddiadau/dwyreiniaid⁵. Yn achos pob un o'r rhain, gall y modd y cofnodir gwybodaeth amrywio. Felly, gall y broses o ddod â gwybodaeth a gedwir mewn systemau gwahanol at ei gilydd fod yn ddrud, ac yn un sy'n llyncu llawer o amser. Bydd yr awdurdodau lleol hynny nad ydynt yn gallu cydgysylltu a chydweddu cofnodion a gedwir yn y systemau TGCh gwahanol yn eu sefydliad eu hunain, hefyd yn ei chael hi'n anodd cydweithio â phartneriaid i integreiddio data.
- 1.11 Serch hynny, canfuom rai enghreifftiau cadarnhaol lle mae awdurdodau lleol yn ceisio safoni data i wella integreiddiad a dirnadaeth. Mae cod adnabod eiddo canolog Cyngor Dinas Casnewydd wedi galluogi'r awdurdod i gysylltu data'r gwasanaethau. Er nad yw hyn yn cwmpasu pob adran a phob maes gwaith, y mae, serch hynny, yn helpu'r awdurdod i ddwyn ynghyd wybodaeth o amrywiaeth o gronfeydd data gwahanol er mwyn cefnogi swyddogion sy'n darparu gwasanaethau rheng flaen. Yn yr un modd, mae Cyngor Sir Ddinbych yn defnyddio'i Restrau Tir ac Eiddo Lleol (LLPG) ar gyfer cyfeiriadau, sy'n helpu'r awdurdod i fapio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau, ynghyd â'u cwmpas. Yn gyffelyb, mae Cyngor Bro Morgannwg a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn integreiddio peth data gwasanaethau er mwyn helpu i adnabod yr aelwydydd hynny sy'n agored i niwed ac y mae arnynt angen cymorth, ond hefyd er mwyn targedu camau gweithredu lle bo yna ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- 1.12 Ar y cyfan, fodd bynnag, canfuom mai cyfyngedig oedd y dystiolaeth fod awdurdodau yn defnyddio safonau data corfforaethol, a bod y dulliau cyfredol o integreiddio data, gan fwyaf, yn fentrau untro a chynlluniau peilot a ddatblygwyd yn y gwasanaethau. Mae safonau data corfforaethol yn disgrifio a phennu'r modd i 'gofnodi data', a gallant helpu i chwalu seilos adrannol, gan wneud y broses integreiddio a dadansoddi yn haws. Daethom i'r casgliad bod peidio â datblygu a defnyddio system godio gyffredin yn gyfle a gollwyd, gan wneud integreiddio yn anos ac yn fwy costus.

5 Mae'r termau 'dwyreiniad' a 'gogleddiad' yn gyfesurynnau Cartesaidd daearyddol ar gyfer pwynt penodol. Mae dwyreiniad yn cyfeirio at y pellter a fesurir i'r dwyrain (neu'r cyfesuryn x), tra bo gogleddiad yn cyfeirio at y pellter a fesurir i'r gogledd (neu'r cyfesuryn y).

Gyda'r twf mewn 'data mawr', mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn sicrhau cywirdeb eu gwybodaeth, ond mae ansawdd y data yn parhau i fod yn her barhaus i rai

- 1.13 Nid yw'r cysyniad o ansawdd data, ynghyd â meddu ar brosesau rheoli cadarn i gofnodi data dibynadwy a chywir (gwasanaeth-benodol, ariannol a pherfformiad), yn newydd. Mae meddu ar ddata o ansawdd yn rhoi gwell dirnadaeth, ac mae'n rhan bwysig o ddull aeddfed o lywodraethu a gwneud penderfyniadau. Ar y llaw arall, gall data gwael eu hansawdd arwain at wneud penderfyniadau diffygiol a gwastraffu adnoddau, a gallant olygu bod pobl agored i niwed mewn perygl.
- 1.14 Mae rheoli ansawdd a chywirdeb data yn rhan annatod o reoli data, a dylai hyn gael ei roi ar waith ar wahanol gamau: yn ystod prosesau casglu data, cofnodi data, gwirio data a defnyddio data. Mae gwirio data i sicrhau cywirdeb fel arfer yn cynnwys gweithdrefnau awtomatig a llaw, ac mae'r rhain yn cwmpasu gwirio cyflawnrwydd cofnodion, cadarnhau cywirdeb hapsampl o wybodaeth, a chwilio am gofnodion dwbl. Gall dogfennu'r rheolaethau data yn fanwl ym mhob un o'r camau hyn helpu i gynnal yr ansawdd.
- 1.15 Er gwaethaf y gydnabyddiaeth fod ansawdd data yn bwysig, gall sicrhau bod popeth yn gywir fod yn heriol. Er bod awdurdodau lleol yn ystyried bod ansawdd data yn gwella, mae cywirdeb data⁶ yn parhau i fod yn her i rai sefydliadau. Cafodd problemau yn ymwneud â systemau nad ydynt yn effeithlon nac yn effeithiol i gadw a defnyddio data, cyfrif ddwywaith, cofnodion dyblygedig, a gwybodaeth anghyflawn a rhannol, eu hamlygu fel anawsterau parhaus o ran codi safonau data a'u cynnal. Mae yna hefyd ormod o anghysonderau rhwng systemau o hyd, sy'n cael effaith enfawr ar ansawdd ac adrodd, a all arwain at wneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddata anghyflawn neu anghywir. Mynegodd nifer o sefydliadau trydydd sector a chenedlaethol a gyfwelwyd gennym bryderon fod ansawdd data'r awdurdod lleol, yn ôl eu profiad, yn amrywio'n eang.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Mae angen sicrhau gallu digonol i ymgymryd â digon o brosesau sicrhau a rheoli ansawdd setiau data”

Rheolwr Gweithredol

“Sicrhau ansawdd, a pheidio â chadw data er mwyn cadw data. Dim ond yr hyn y mae arnom ei angen a ddylai fod gennym, ac ni ddylem wastraffu unrhyw adnoddau gwerthfawr yn cipio'r hyn sy'n ddiangen”

Rheolwr Gweithredol

6 Cywirdeb – dylai data fod yn ddigon cywir i'w diben bwriadedig. Y ffordd orau o sicrhau cywirdeb yw trwy gipio'r data mor agos at y gweithgarwch â phosibl. Dylai data gael eu cipio unwaith yn unig, er y gallai fod sawl defnydd iddynt.

Gofynnir i ddinasyddion ddarparu'r un wybodaeth sawl tro wrth wneud ceisiadau am wasanaethau, ond nid yw awdurdodau yn integreiddio systemau rheoli i wella effeithlonrwydd data



- 1.16 Gall lleihau dyblygu a chysylltu data helpu i sicrhau arbedion o ran systemau rheoli cynnwys⁷ a chostau cynnal⁸. Mae hefyd yn cynhyrchu gwybodaeth well ei hansawdd, ac yn cefnogi prosesau darparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau integredig. Mae 'Un casgliad, sawl defnydd' yn egwyddor werthfawr. Er bod awdurdodau lleol yn cydnabod bod yna achosion o ddyblygu yn bresennol, canfuom nad yw hyd a lled y dyblygu yn aml yn hysbys.
- 1.17 Nododd pob grŵp o swyddogion a ymatebodd i'n hofferyn data nad oedd eu hawdurdod lleol wedi dileu prosesau casglu data dyblyg, a bod y gwaith i symleiddio'r galw am wybodaeth yn gwneud cynnydd araf, ar ei orau. Nododd nifer nad yw cysylltu data a gedwir ar hen dechnoleg TGCh, a'r ddibyniaeth barhaus ar gronfeydd data papur i gasglu a rheoli data, yn helpu i nodi na lleihau achosion o ddyblygu.
- 1.18 Teimlai'r grwpiau eiriolaeth y buom yn siarad â nhw fod gwasanaethau cyhoeddus yn gofyn am ddata personol dro ar ôl tro, a hynny'n ddiangen, gan wneud cais am yr un wybodaeth sawl gwaith, er enghraifft: cyfeiriad, oedran ac aelodau'r teulu – gan greu 'blinder data' a pheri i bobl beidio â gwneud cais am wasanaethau, yn enwedig gan nad yw rhesymau'r awdurdodau lleol dros gasglu data bob amser yn eglur i ddinasyddion. Er enghraifft, canfu ein harolwg o ddinasyddion nad oedd 82% o'r ymatebwyr yn ymwybodol o reswm eu hawdurdod lleol dros gasglu cymaint o wybodaeth amdanynt, na'r hyn y mae'r awdurdod yn ei wneud gyda'r data y maent yn eu cadw amdanynt.

Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Dileu data dyblyg a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rheoli'n effeithiol yn y dyfodol”

Rheolwr Gweithredol

“Bydd gwneud defnydd effeithlon o ddata yn sicrhau ein bod yn casglu'r hyn sy'n ofynnol unwaith yn unig ac yn ei ddefnyddio mewn modd effeithiol ledled yr Awdurdod. Yn draddodiadol, mae gan bob maes gwasanaeth ei systemau data ei hun, ac mae'n anodd eu rhannu rhwng y naill â'r llall”

Pennaeth TGCh

“Datblygu systemau deallus sy'n integreiddio'r broses o gadw data rhwng adrannau, yn lleihau dyblygu, ac yn galluogi i ddata gael eu dadansoddi mewn modd effeithiol”

Rheolwr Gweithredol

- 7 Mae system rheoli cynnwys yn rheoli'r broses o greu ac addasu cynnwys digidol ac, yn nodweddiadol, yn cefnogi nifer o ddefnyddwyr mewn amgylchedd cydweithredol.
- 8 Mae gwasanaeth lletya yn lletya gwasanaeth neu wasanaethau penodedig i gwsmeriaid, sy'n cynnwys, gan amlaf, wefannau, ffeiliau data, delweddau a chynnwys tebyg. Mae gwasanaethau lletya yn aml yn cael eu contractio allan er mwyn lleihau costau a sicrhau bod yna weithdrefn adfer wedi trychineb ar waith yn achos methiant yn y system graidd.

1.19 Ar y cyfan, anghenion gweithwyr proffesiynol a gwasanaethau, nid dinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau, sy'n pennu'r modd y mae data'n cael eu casglu. Canfuom nad oes yr un awdurdod lleol yng Nghymru yn gweithredu cyfrif cwsmer sengl canolog, sy'n cysylltu pob gwasanaeth ag unigolyn. Mae gan rai awdurdodau byrth ar-lein ar gyfer gwasanaethau – er enghraifft Cyngor Gwynedd – ond nid oes unrhyw awdurdod wedi creu un cyfrif cynhwysfawr sy'n gosod y defnyddiwr yng nghanol y gwasanaethau y mae'n eu cael. Er enghraifft, mae Bwrdeistref Camden yn Llundain, trwy ei fynegai Preswylwyr Camden (CRI), yn integreiddio data ac yn cyfateb gwybodaeth o sawl ffynhonnell i ddarparu trosolwg cynhwysfawr a chysylltiedig o drigolion, eiddo a busnesau – gweler [Atodiad 3](#).

Rhan 2

Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn dda am gydymffurfio â rheoliadau diogelu data, ond nid ydynt bob amser yn rhannu'r data personol y maent yn eu casglu â phartneriaid



- 2.1 Yn aml, mae awdurdodau lleol yn geidwaid gwybodaeth sy'n bersonol a sensitif iawn. Maent yn trin pob math o ddata yn ddyddiol, sy'n cynnwys popeth o incwm i gofnodion iechyd a gofal manwl. Mae datblygiadau technolegol yn rhoi cyfleoedd i awdurdodau fanteisio ar y cyfoeth o wybodaeth sydd ganddynt, a hynny trwy gloddio, rhannu ac integreiddio data gyda phartneriaid. Fodd bynnag, mae defnyddio data yn y sector cyhoeddus yn weithgarwch cydbwysu anodd. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol ddiogelu gwybodaeth bersonol rhag cael ei chamddefnyddio, ond dylai hynny gael ei wneud mewn modd nad yw'n mygu arloesedd. O ganlyniad, mae llawer o sefydliadau'r sector cyhoeddus yn ymaflyd â manteision a risgiau rhannu gwybodaeth â sefydliadau eraill – **Eitem 5**.

Eitem 5 – Manteision a risgiau rhannu data â chyrrff cyhoeddus eraill

Mae rhannu data yn beth da...

- Mae'n helpu i lywio gwaith llunio polisi a gwella darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus
- Gall helpu chyrrff cyhoeddus i fod yn fwy effeithiol a chosteffeithiol
- Mae'n cefnogi data agored, ymchwil a'r economi sy'n seiliedig ar wybodaeth
- Mae'n creu amgylchedd tryloyw ac agored
- Gall arbed bywydau

Mae rhannu data yn beth gwael ...

- Mae rhannu'r data yn cynyddu'r risg y bydd gwybodaeth yn cael ei cholli neu ei chamddefnyddio
- Nid yw'r rheswm dros ddefnyddio'r data yn eglur
- Mae'n golygu bod unigolion yn colli rheolaeth, ac efallai na fyddant wedi cytuno i'w data gael eu rhannu
- Nid yw'r diben dros ddefnyddio'r data, na'r modd y caiff hynny ei wneud, bob amser yn eglur

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Mae angen i'r GDPR, Bil Diogelu Data y Deyrnas Unedig a Deddf yr Economi Ddigidol gael eu cysoni a'u defnyddio fel cyfleoedd yn hytrach na rhwystrau”

**Swyddog
Cydymffurfiaeth
Gwybodaeth**

“Gofynion y GDPR newydd a pharodrwydd y cyhoedd i ganiatáu i ddata gael eu rhannu”

**Corporate Management
Team member**

“New regulations (GDPR) coming into force... will be a challenge and current arrangements will require complete review”

Operational Manager

“Y GDPR ... ar yr union adeg yr ydym yn ceisio cyfuno data i'n helpu i ragfynegi galw ac ymyrryd yn gynnar, mae gan breswylwyr yr hawl i ddweud wrthym am anghofio'r hyn yr ydym yn ei wybod amdanynt!”

**Aelod o Dîm Rheoli
Corfforaethol**

- 2.2 Mae awdurdodau yn gwneud rhywfaint o gynnydd o ran trafod yr angen i rannu data ond, yn rhy aml, nid yw partneriaid posibl yn barod i gymryd rhan oherwydd pryderon ynghylch diogelu data. O ganlyniad i gyflwyno'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) ym mis Mai 2018, mae mwy o ffocws fyth wedi bod ar y tensiynau hyn.
- 2.3 Mae'r GDPR yn ei gwneud yn ofynnol i holl sefydliadau'r sector cyhoeddus ddeall y modd y maent yn rheoli preifatrwydd data am unrhyw un a ddsberthir yn ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd. Mae hyn yn cynnwys dinasyddion, cwsmeriaid, contractwyr, staff asiantaethau, gwirfoddolwyr a gweithwyr – unrhyw un sy'n ddinesydd yr Undeb Ewropeaidd ac y mae awdurdod lleol yn cadw data sy'n ymwneud â phreifatrwydd amdano. Mae'r rheoliad newydd yn golygu bod gan ddinasyddion lawer iawn mwy o hawliau a phwerau mewn perthynas â'r modd y mae eu data'n cael eu defnyddio, gyda dirwyon mawr yn cael eu rhoi am dorri'r rheoliad. Mae gan ddinasyddion hefyd y gallu i ofyn i awdurdod lleol ddarparu manylion am yr holl wybodaeth a gedwir amdanynt (sef yr hyn a elwir yn 'Cais am Fynediad at Ddata gan y Testun' neu SAR).
- 2.4 Mae llawer o'r newidiadau a gyflwynir gan y GDPR yn welliannau ar y rheoliadau preifatrwydd data cyfredol⁹, ond maent yn dal i fod yn heriau sylweddol. Mae'n ofynnol i awdurdodau ddod o hyd i'r holl ddata am 'bersonau', nid dim ond y mwyafswm ohonynt. Fel y nodwyd uchod, mae hyn yn heriol o wybod bod data yn cael eu cadw mewn seilos, mewn systemau gwahanol ac mewn fformatau gwahanol, gan gynnwys data a adawyd gan ddinasyddion sy'n defnyddio sianeli electronig a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae angen i awdurdodau hefyd 'ddeddfu caniatâd', gan ddiffinio'r hyn y byddant yn ei wneud gyda'r data, y sawl a fydd yn ymdrin â'r data, a pha elfennau ar y data y gellir eu defnyddio ai peidio. Bydd angen iddynt hefyd sicrhau bod ganddynt ddealltwriaeth eglur o ofynion a chyfyngiadau'r 'hawl i gael eu hanghofio'¹⁰.

9 Mae data personol hefyd yn cael eu llywodraethu gan ofynion Deddf Diogelu Data 2018, ac fe'u diffinnir yn y Ddeddf fel gwybodaeth sy'n ymwneud â tharddiad hiliol neu ethnig; barn wleidyddol, credoau crefyddol neu gredoau eraill; aelodaeth neu fel arall o undeb llafur; cyflwr corfforol neu feddyliol; bywyd rhywiol unigolyn, ac unrhyw drosedd a gyflawnwyd neu yr honwyd iddi gael ei chyflawni, neu'r penderfyniad neu'r ddeddfryd gan lys mewn unrhyw achos o'r fath.

10 O dan Erthygl 17 o'r GDPR, mae gan destunau data hawl pwysig i ddileu, sef yr hyn y cyfeirir ato weithiau fel 'yr hawl i gael eu hanghofio'.

2.5 Trwy ein hymchwil, canfuom fod awdurdodau lleol yn hyderus eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 ac yn gwneud cynnydd cyson wrth roi'r GDPR ar waith. Canfuom fod swyddogion:

- a fwy neu lai yn eglur o ran pa bryd ac ym mha amgylchiadau y gallant rannu data â chyrrff neu unigolion eraill;
- b yn gwybod eu bod yn gyfrifol am sicrhau bod y data'n cael eu prosesu yn unol â'r ddeddfwriaeth diogelu data, a pha reolaethau sydd gan eu hawdurdod dros ddata personol;
- c yn eglur ynghylch yr hyn y dylent ei wneud os bydd rhywbeth yn mynd o'i le wrth weinyddu a rheoli data; a hefyd

ch yn gwybod lle y mae cymorth ac arweiniad ar gael yn eu sefydliad mewn perthynas â rhannu data personol â chorff cyhoeddus arall.

2.6 Nodwyd nifer o heriau parhaus gennym hefyd, yn enwedig y gwrthwynebiad diwylliannol parhaus mewn rhai awdurdodau i rannu gwybodaeth. Mynegodd Penaethiaid Polisi a Rheolwyr Gweithredol sy'n gyfrifol am wasanaethau rheng flaen bryderon fod y ddeddfwriaeth diogelu data yn eu hatal rhag ymgymryd â phrosiectau y mae defnyddio data personol a sensitif yn rhan ohonynt. Dywedodd nifer hefyd fod diogelu data a'r GDPR yn eu hatal rhag rhannu gwybodaeth â phartneriaid. Nododd eraill fod cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth yn faich, bod iddi ormod o safonau a gofynion, a'i bod yn anghyson ag ymgyrch y polisi cyfredol i ddatblygu galluoedd 'data mawr' a sicrhau bod rhagor o 'ddata agored' ar gael ar-lein.

2.7 Yn bwysicaf oll, mae pryderon ynghylch diogelu data yn annog ymagwedd o ochel rhag risgiau a mygu arloesedd o ran y defnydd o ddata, a hynny oherwydd bod staff awdurdodau lleol yn ofni y byddant yn cael eu cosbi. Gall goblygiadau cyfreithiol mewn perthynas â gwallau data fod yn niweidiol iawn, ac nid yn unig i enw da'r sefydliad; gall hefyd olygu cosbau sifil mawr, erlyniad troseddol neu gyfreitha yn erbyn unigolion am iawndal.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Darbwyllo meysydd busnes ei bod yn bosibl rhannu data pan fo mesurau diogelu priodol ar waith, er mwyn cael gwared ar gamsyniadau na all 'eu' data nhw cael eu rhannu”

**Swyddog
Cydymffurfiaeth
Gwybodaeth**

“Gall cyfyngiadau o ran diogelwch TGCh a diogelu data atal data rhag cael eu rhannu”

Rheolwr Gweithredol

“Mae diogelu data ... yn cyfyngu ar brosesau rhannu data”

Aelod Etholedig

2.8 Mae **Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)** yn offeryn i helpu cyrff cyhoeddus i rannu gwybodaeth bersonol rhwng asiantaethau. Mae WASPI yn cwmpasu cyrff a sefydliadau cyhoeddus sy'n ymdrin yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch, atal troseddau a lles cymdeithasol, a gall helpu sefydliad i gyflawni ei gyfrifoldebau o ran diogelu data, ynghyd â chefnogi'r broses o gydweithredu ac integreiddio data rhwng gwasanaethau. Canfuom fod barn gymysg yn bodoli am fanteision WASPI. Er bod Swyddogion Cydymffurfiaeth Gwybodaeth, ar y cyfan, yn gadarnhaol ynghylch ei fanteision, roedd aelodau Timau Rheoli Corfforaethol a Phenaeithaid Polisi yn ei ystyried yn llai buddiol.

2.9 Canfuom hefyd nifer o faterion sy'n peri pryder. Mae WASPI wedi bod ar waith ers sawl blwyddyn, ond gall maint y cytundebau fod yn anneniadol, ac mae angen eu diweddarau. Ar ben hyn, er bod pob un o'r prif gyrff cyhoeddus yng Nghymru yn llofnodwyr, nododd nifer nad yw pob un o'r partneriaid, o'u profiad nhw, yn gweithredu yn unol â, neu yn 'ysbryd', WASPI. Fel llawer o'r ddeddfwriaeth diogelu data, mae rhai swyddogion yn trin WASPI fel rheswm arall dros atal y broses o ran rhannu data, yn hytrach nag fel galluogydd i rannu gwybodaeth, a hynny'n bennaf am nad yw staff rheng flaen bob amser yn hyderus ynghylch eu cyfrifoldebau cyfreithiol, a phryd y gallant rannu data ag eraill.

2.10 Nid yw natur cytundebau WASPI ynddynt eu hunain yn arbennig o ffafriol i rannu data, a hynny am fod yn rhaid bod yn eglur ynghylch yr hyn y dymunir ei gael/ rannu, a'r modd y bydd y data'n cael eu defnyddio, cyn rhoi cytundeb rhannu data ar waith. Yn aml, fodd bynnag, nid yw manteision rhannu data yn amlwg hyd nes bod y cytundeb ar waith. Yn olaf, mae materion TGCh, gan gynnwys dulliau diogel o drosglwyddo data a chydawnsedd systemau, yn parhau i fod yn her barhaus i rannu gwybodaeth i rai, ac yn dylanwadu ar ba mor dda, neu beidio, y mae WASPI yn gweithio.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Achosion posibl o dorri rheolau o ran y ddeddfwriaeth diogelu data”

Rheolwr Gweithredol

“Diogelu data – yn cael ei ddefnyddio fel esgus i atal data rhag cael eu rhannu”

Rheolwr Gweithredol

“Gan fod staff yn fwy ymwybodol o ddiogelu data, maent yn ei ofni ac yn ei weld yn rhwystr i rannu – mae angen i ni fynd ati i hyrwyddo mwy ar y ffaith bod diogelu data yn ffordd o rannu gwybodaeth o fewn fframwaith cyfreithiol, nid yn rhwystr”

**Swyddog
Cydymffurfiaeth
Gwybodaeth**

- 2.11 Mae hyd yn oed awdurdodau sy'n defnyddio WASPI ac sy'n ystyried ei fod yn gweithio'n dda, megis Cyngor Sir Ddinbych, wedi neilltuo amser i bennu a nodi'n eglur pa wybodaeth bersonol y gallant ei rhannu, a gall hyn gymryd amser maith i'w gael yn iawn. Mae'n amlwg, fodd bynnag, na fydd rhai unigolion yn rhannu gwybodaeth os nad ydynt yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth i wneud hynny. Nid oes amheuaeth nad yw neges gref gan arweinwyr yn gallu gwneud gwahaniaeth. Felly, mae i broblemau sy'n ymwneud â rhannu data rhwng cyrff cyhoeddus eu risgiau ymarferol, cyfreithiol a diwylliannol. At hynny, mae awydd staff awdurdodau lleol i rannu eu data yn amrywio, hyd yn oed mewn achosion lle mae'r data, gan fwyaf, yn anhysbys a heb fod yn sensitif.
- 2.12 Gyda hyn oll mewn golwg, a yw manteision rhannu data â phartneriaid yn gwrthbwysu'r risgiau? Fel y dywedodd un cyfwelai wrth grynhoi'r her, 'Ni fu farw neb trwy rannu gormod o ddata, ond mae yna ddigon o bobl wedi marw trwy beidio â'u rhannu.' Gall canlyniadau peidio â rhannu gwybodaeth fod yn eithafol, fel y barnwyd gan ganfyddiadau nifer o Adolygiadau Ymarfer Plant ac Achosion Difrifol¹¹, ac Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig (DHR)¹². Canfu'r rhain wendidau mewn prosesau rhannu gwybodaeth, a arweiniodd wedyn at golli cyfleoedd i ymyrryd¹³. Mae canfyddiadau'r adolygiadau hyn yn darparu achos argyhoeddiadol dros rannu gwybodaeth mewn ffordd gytbwys, resymol a chaniataol. Gall awdurdodau lleol a'u partneriaid, sydd wedi meistrolï'r ddeddfwriaeth, geisio lliniaru risgiau posibl a dechrau elwa ar fanteision defnyddio, integreiddio a rhannu eu data.

11 Cynhelir y rhain ar ôl i blentyn neu oedolyn bregus farw neu gael ei anafu'n ddifrifol dan amgylchiadau lle credir bod cam-drin neu esgeuluso wedi bod yn gysylltiedig â'r digwyddiad.

12 Cynhelir Adolygiadau o Ddynladdiadau Domestig pan fydd rhywun sy'n 16 oed neu'n hŷn yn marw o ganlyniad i drais, camdriniaeth neu esgeulustod gan berthynas, aelod yn y cartref neu rywun y bu mewn perthynas agos ag ef. Mae'r adolygiadau hyn yn edrych ar yr amgylchiadau a arweiniodd at y farwolaeth er mwyn galluogi gweithwyr proffesiynol i ddeall yr hyn a ddigwyddodd a'r hyn y mae angen ei newid er mwyn lleihau'r risg o rywbeth fel hyn yn digwydd eto.

13 Er enghraifft, canfyddiadau mis Chwefror 2015 Adroddiad Trosolwg Bwrdd Diogelu Plant De-ddwyrain Cymru ar blant a fu farw mewn tŷ mewn tŷ yn 2012.

Rhan 3


Nid yw awdurdodau lleol yn buddsoddi digon yn eu galluoedd rheoli data a'u sgiliau dadansoddi



- 3.1 Mae gan awdurdodau lleol adnodd enfawr o ran dirnadaeth, gwybodaeth a data, sydd â'r potensial i lywio effeithlonrwydd, dyrannu adnoddau mewn modd uniongyrchol, a gwella'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Bydd awdurdod lleol aeddfed yn defnyddio data i wella gwasanaethau a thrawsnewid ei sefydliad, a bydd ganddo staff ac Aelodau Etholedig sy'n defnyddio data mewn modd medrus a hyderus. Felly, mae meddu ar sgiliau dadansoddi data da i lywio a chyfarwyddo penderfyniadau ynghylch adnoddau yn elfen allweddol o ddull aeddfed o ddefnyddio data.

Mae dadansoddiadau data yn cyfeirio at y broses o groeswiro, glanhau, ad-drefnu a modelu data ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau. Mae dadansoddwyr data yn casglu, trefnu, prosesu a modelu data o ffynonellau gwahanol er mwyn dod i gasgliad. Mae dadansoddwyr yn gallu gwerthuso symiau mawr o ddata, boed yn ddata strwythuredig neu anstrwythuredig, ynghyd â pharatoi a chyflwyno data yn y ffurf gywir ar gyfer penderfynwyr ac i helpu i ddatrys problemau. Yn oes y data mawr, mae rôl dadansoddeg data yn bwysig i'r busnes.

- 3.2 Yn gyffredinol, nid oes gan awdurdodau lleol y sgiliau na'r gallu cywir i reoli data mewn modd effeithiol. Y maes gwannaf a'r her fwyaf arwyddocaol a nodwyd gennym oedd adnoddau sy'n lleihau a diffyg sgiliau, yn enwedig o ran rheoli a dadansoddeg data. Er gwaethaf cydnabod bod data amserol ac o ansawdd da yn bwysig i fusnes awdurdodau, nid oes gwerth cyson yn cael ei roi ar ddata fel adnodd allweddol tebyg i arian, pobl ac adeiladau.
- 3.3 Mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod recriwtio a chadw pobl sydd â'r sgiliau cywir yn her barhaus. Nododd nifer o gyfweleion fod toriadau yn y gyllideb yn trethu adnoddau a gallu, ac y gall awdurdodau gael cryn drafferth cynnal sgiliau TGCh ar brydiau. Yn gyffredinol, mae Penaethiaid TGCh a Pholisi awdurdodau lleol yn fwy negyddol ynghylch digonolrwydd adnoddau ar gyfer prosiectau rheoli data, gan dynnu sylw yn benodol at allu annigonol i gynnal uniondeb a chywirdeb cronfeydd data. Yn yr un modd, mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen iddynt wneud rhagor i nodi eu hanghenion data a gwybodaeth hirdymor penodol yn y dyfodol, ac i fapio'r gofynion o ran adnoddau yn erbyn y rhain.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Adnoddau! Mae angen rhagor o adnoddau o ran staff a thechnoleg i wneud y defnydd mwyaf effeithlon ac effeithiol o ddata”

Aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol

“Adnoddau – systemau gwael a gwydnwch annigonol ymhlith y grŵp staff”

Rheolwr Gweithredol

“Diffyg adnoddau i reoli a dadansoddi data yn iawn”

Pennaeth TGCh

3.4 Mae arferion datblygu staff da yn bodoli yn y maes hwn. Mae awdurdodau lleol sy'n amlgu lefelau uwch o aeddfedrwydd wrth reoli data, er enghraifft Cyngor Dinas Casnewydd, wedi integreiddio swyddogaethau corfforaethol hanfodol, er enghraifft llywodraethu gwybodaeth, gwella busnes a datblygu polisi. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi mesur y gallu cyfredol i ddadansoddi data, ac wedi nodi oddeutu 50 o weithwyr a ymgwymerodd â gwaith dadansoddi data yn rhan o'u dyletswyddau dyddiol. O ganlyniad, mae'r awdurdod lleol yn creu adnodd canolog i ddatblygu a gwella sgiliau a gallu staff er mwyn helpu i sefydlu prosesau gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, ac ennyn gwell dirnadaeth o alw cwsmeriaid am wasanaethau. Enghraifft arall yw'r strategaeth rheoli gwybodaeth a grëwyd gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Conwy a Sir Ddinbych, sy'n cael ei hystyried yn strategaeth dda. Mae'n canolbwyntio ar feithrin sgiliau a gallu mewn perthynas â data – gweler Atodiad 3 am ragor o fanylion.

3.5 Mae dogfennau a adolygir yn rhan o'n gwaith astudio yn aml yn amlgu'r ffaith bod polisïau rheoli data a gwybodaeth yn canolbwyntio ar dechnoleg TGCh – caledwedd a meddalwedd cyfrifiadurol, storfeydd cwmwl a thelathrebu integredig – ond nid digon ar wella'r defnydd o ddata a sgiliau dadansoddeg ymysg staff. Er bod y seilwaith TGCh a'r bensaerniaeth sy'n cysylltu systemau a data yn bwysig er mwyn rhannu data a'u holi, mae angen datblygu a gwella galluoedd staff awdurdodau lleol a'u hyddysgrwydd mewn data hefyd. Yn rhy aml, fodd bynnag, nid yw staff awdurdodau lleol yn cael eu hyfforddi yn unol â graddfa a chyflymder y newid technolegol a'r galw am ddadansoddeg data.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Gostyngiadau mewn lefelau staffio, a bylchau sgiliau – yn benodol staff sydd â gwybodaeth a dealltwriaeth dda o ran y systemau meddalwedd gwahanol a ddefnyddir i reoli data”

Rheolwr Gweithredol

“Meddu ar adnoddau i gipio ac yna ddadansoddi data i greu'r wybodaeth sy'n ofynnol i sicrhau gwasanaethau o ansawdd cynaliadwy”

Aelod o Dîm Rheoli Corfforaethol

“Deall pŵer data, a'r sgiliau i wneud defnydd da o ddata”

Aelod Etholedig

- 3.6 Er enghraifft, ni chanfuom fawr ddim tystiolaeth i ddangos bod awdurdodau lleol yn ymgorffori sgiliau data yn eu strategaethau gweithlu, ac mae lefelau gwael o hyddysgrwydd mewn data yn thema ailadroddus sy'n deillio o'n hofferyn data. Yn aml, nid yw staff nac aelodau etholedig yn hyderus wrth ddefnyddio'r data sydd ganddynt, yn enwedig gwybodaeth gan drydydd partion. Mae rhai awdurdodau lleol hefyd yn gweld dadansoddeg fel swyddogaeth arbenigwyr data, sydd y tu allan i fusnes craidd rheoli a chyflenwi gwasanaethau.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Prinder adnoddau a sgiliau ym maes dadansoddeg data”


Pennaeth Polisi

“Adnodd i gynnal data ar lefelau priodol o ran cywirdeb a diweddariadau er mwyn adlewyrchu'r elfennau hynny sydd wedi newid”

Rheolwr Gweithredol



Rhan 4

Mae awdurdodau lleol yn defnyddio data i reoli perfformiad, ond mae bylchau a gwendidau yn golygu nad yw penderfyniadau bob amser yn seiliedig ar ystod lawn o dystiolaeth



4.1 Mae gwneud penderfyniadau dan arweiniad data yn ddull o lywodraethu sy'n rhoi gwerth ar benderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata dilysadwy. Fodd bynnag, mae llwyddiant yn y dull gweithredu dan arweiniad data hwn yn dibynnu ar ansawdd y data a gesglir, effeithiolrwydd y broses o'u dadansoddi a'u dehongli, a'r prosesau a sefydlwyd i farnu effaith a pherfformiad. Mae **Eitem 6** yn crynhoi amodau allweddol awdurdod lleol aeddfed, sydd â diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data, yr ydym wedi'i nodi o'n hastudiaeth.

Eitem 6 – Creu diwylliant 'gwneud penderfyniadau dan arweiniad data'



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Mae'r gwaith o ddadansoddi perfformiad yn aml yn gyfyngedig

- 4.2 Nid yw hanfodion dulliau da ac aeddfed o graffu ar berfformiad awdurdodau lleol wedi newid, ac mae adolygu'r ystod eang o ddata sydd ar gael i farnu pa mor dda y mae gwasanaethau yn perfformio yn hanfodol. Mae canfyddiadau ein hastudiaeth yn amlygu bod rhai gwendidau hirsefydlog yn parhau o ran effeithiolrwydd trefniadau craffu awdurdodau lleol. Mae ansawdd a dibynadwyedd data yn parhau i fod yn bryder, yn enwedig o ran cysylltu ffynonellau lluosog a thynnu tystiolaeth ohonynt. Yn gyffredinol, mae roedd gan y rhanddeiliaid, megis cyrff ymchwil a grwpiau defnyddwyr gwasanaethau, a gyfwelwyd gennym farn negyddol am ansawdd a hygyrchedd prosesau adrodd ar berfformiad awdurdodau lleol. Nododd y cyfweleion ddefnydd gwael o feincnodi, a ffocws ar gynulleidfaoedd mewnol yn hytrach na rhai allanol wrth adrodd, sy'n ei gwneud hi'n anodd i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion farnu sut mae awdurdodau lleol yn perfformio.
- 4.3 Nododd rhai Aelodau Etholedig fod yr wybodaeth a ddaw i law yn aml yn gyfyngedig ei chwmpas, ac nad yw'n rhoi dirnadaeth ddigonol iddynt allu herio perfformiad. Nododd eraill fod swyddogion, dro ar ôl tro, yn gorlethu pwyllgorau craffu, gan ddarparu swmp o wybodaeth ond fawr ddim gwaith gwerthuso a dadansoddi defnyddiol ar y materion amlycaf. Mynegodd lleiafrif ymysg yr Aelodau Etholedig bryderon fod yr wybodaeth a ddaw i law yn cael ei 'thrin', neu'n wybodaeth rannol ei chwmpas, er mwyn osgoi newyddion drwg a gwaith craffu pellach.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Cael aelodau i ddeall y data. Fel aelod o'r Cabinet yr wyf yn dod gerbron y Pwyllgor Trosolwg ac nid wyf yn cael fy holi fel y dylwn, achos bod aelodau naill ai heb ddarllen yr adroddiadau neu heb eu deal”

Aelod Etholedig

“Mae'r awdurdod yn ddetholus iawn o ran y data y mae'n eu rhannu ag aelodau, a gall fod yn ochelgar pan ofynnir am ragor o fanylion”

Aelod Etholedig

“Y gallu i wahaniaethu rhwng data defnyddiol a data llai defnyddiol, a bod yn wybodus o ran y modd y dylid defnyddio'r data hynny i fesur perfformiad a llywio newid”

Aelod Etholedig

4.4 Adleisiodd y rhanddeiliaid a gyfwelwyd gennym y safbwyntiau hyn, gan ddweud eu bod yn pryderu nad yw'r data a ddefnyddir i gyfiawnhau penderfyniadau yn gadarn nac yn ddibynadwy. Er enghraifft, y cyfyngiadau o ran y data a ddefnyddir wrth asesu'r effaith ar gydraddoldeb, mater yr ydym wedi tynnu sylw ato dro ar ôl tro yn ein gwaith archwilio cenedlaethol mwyaf diweddar¹⁴. Mae prosesau adrodd cywir a gwaith craffu cytbwys, effeithiol yn allweddol i lywodraethu da. Er mwyn meithrin ymddiriedaeth y cyhoedd mewn data, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn adrodd mewn modd tryloyw a chywir, a bod Aelodau Etholedig yn sicrhau eu bod yn gweithredu mewn modd cyfrifol wrth herio gwasanaethau a chraffu ar berfformiad.

Mae awdurdodau lleol yn cynyddu swm y data agored y maent yn ei gyhoeddi

4.5 Mae data agored yn nodwedd bwysig o aeddfedrwydd data, a gall sicrhau bod gwybodaeth ar gael mewn amser real helpu ystod eang o sefydliadau i ddatblygu busnesau a gwasanaethau newydd. Gall data agored arwain at well prosesau rhannu data ledled sefydliadau ac ardaloedd daearyddol. Fodd bynnag, er bod data agored yn cefnogi prosesau gwneud penderfyniadau tryloyw, canfuom fod yna beth ffordd i fynd o hyd i argyhoeddi rhai fod data agored yn gyfle ac nid yn fygythiad. Er enghraifft, mynegodd rhai Aelodau Etholedig a swyddogion awdurdodau lleol bryder y gall data agored olygu bod rhai agweddau ar eu barn broffesiynol yn ddiangen.

14 Gweler adroddiadau'r Archwilydd Cyffredinol: **Sut mae Llywodraeth Leol yn rheoli galw – Digartrefedd ac Addasiadau Tai.**

- 4.6 Y canfyddiad ymhlith rhai grwpiau o ddefnyddwyr ac eiriolwyr a gyfwelwyd gennym yw bod awdurdodau lleol yn cymryd camau bach i'r cyfeiriad cywir i ddefnyddio data agored, a hynny er mwyn annog prosesau datblygu cynhyrchion neu wasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cwsmeriaid. Mae rhanddeiliaid o'r farn mai dim ond lle y gall awdurdodau lleol greu galw amdano a lle bo cronfa leol o weithredwyr addysgedig/medrus ar gael y gall data agored weithio. Roedd y trydydd sector a'r cyrff cynrychioliadol a gyfwelwyd gennym yn meddwl bod yna ddiffyg sgiliau mawr mewn sawl rhan o Gymru ar hyn o bryd i allu gwneud y gorau o ddata agored.
- 4.7 Serch hynny, mae argaeledd data agored yn cynyddu. Mae'r enghreifftiau'n cynnwys gwaith delio â'r cyhoedd yng Nghasnewydd, er enghraifft y porth gwybodaeth **Fy Nghasnewydd**¹⁵, sy'n cynnwys proffiliau manwl o'r wardiau. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn sicrhau bod data agored ar gael trwy ei wefan a'r porth **GwasanaethauFyNghyngor**¹⁶, sy'n cwmpasu sgoriau hylendid bwyd, lleoliadau a chyflwr henebion, lleoliadau asedau'r awdurdod, megis biniau graean, a dalgylchoedd ysgolion. Mae Heddlu De Cymru yn defnyddio adran cymdogaeth **EichArdal** i roi gwybod i bobl am droseddau a digwyddiadau yn eu hardal, ac i gael adborth. Mae pob tudalen yn cynnwys manylion cyfarfodydd yn y dyfodol, blaenoriaethau lleol, manylion am bob swyddog a Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu lleol, a dolen i dudalen Police.uk, sy'n darparu ystadegau troseddu a gyhoeddir gan y Swyddfa Gartref. Mae **Porth Data Agored**¹⁷ a **Siarter Data Agored** Camden yn arbennig o arloesol. Gweler **Atodiad 3** isod am ragor o fanylion am arferion da.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Cael aelodau i ddeall y data. A minnau'n aelod o'r Cabinet, rwy'n dod gerbron y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu, ac nid wyf yn cael fy nghwestiynu fel y dylwn am nad yw'r aelodau naill ai wedi darllen yr adroddiadau neu'n eu deall”

Aelod Etholedig

15 Gweler newport.gov.uk/iShare/mynewport

16 Gweler torfaen.gov.uk/MyCouncilServices

17 Gweler opendata.camden.gov.uk

Nid yw prosesau gwneud penderfyniadau bob amser yn cael eu llywio gan waith dadansoddi neu werthuso data effeithiol

4.8 Mae gwneud penderfyniadau dan arweiniad data yn elfen allweddol o aeddfedrwydd llywodraeth leol wrth ddefnyddio data. Mae ein meini prawf ar gyfer awdurdod lleol sydd â lefelau uchel o aeddfedrwydd data i'w gweld yn **Eitem 3 (Paragraff 9)** ar dudalennau 6 a 7), ac maent yn awgrymu bod y lefel uchaf o aeddfedrwydd yn bodoli lle y mae prosesau gwneud penderfyniadau dan arweiniad data wedi hen ymsefydlu ac yn cael eu derbyn fel y 'ffordd o fynd ati i wneud pethau'. Mae rhai nodweddion pwysig yn perthyn i'r sefydliadau hynny sy'n ymgorffori dull aeddfed o wneud penderfyniadau dan arweiniad data. Maent yn deillio o'r canlynol, ac wedi'u seilio arnynt:

- a arweinyddiaeth eglur;
- b polisïau, systemau a phrosesau cadarn;
- c digon o adnoddau a sgiliau sy'n esblygu; a hefyd
- ch prosesau dadansoddi, adrodd a gwerthuso da.

Mae ein gwaith yn amlygu bod yr holl amodau hyn yn ofynnol, a'u bod yn gysylltiedig ac yn gefnogol i'r naill a'r llall.



Yr her fwyaf o ran gwneud gwell defnydd o ddata yw'r canlynol...

“Ymddengys bod unrhyw ddangosyddion perfformiad a ddisgrifir yn rhai da yn cael eu disgrifio felly am fod y Cyngor yn gwneud gwaith gwyh. Ar y llaw arall, mae'r dangosyddion hynny sy'n amlygu nad ydynt yn gwneud yn dda yn ganlyniad, fel y dywedir wrthym, i awdurdodau lleol eraill yn cyflwyno gwybodaeth mewn ffordd wahanol, neu ddiffyg cyllid”

Aelod Etholedig

“Mae'r data, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â pherfformiad ysgolion, yn annibynadwy gan amlaf, ac fe'u cyflwynir fynychaf i aelodau heb iddynt fod yn destun unrhyw brofion ystadegol”

Aelod Etholedig

- 4.9 Trwy ein gwaith maes, canfuom fod Aelodau Etholedig, swyddogion a rhanddeiliaid, yn gyffredinol, yn cydnabod y gall data helpu awdurdodau lleol i bennu blaenoriaethau a gwneud gwell dewisiadau wrth gynllunio mentrau i gyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Fodd bynnag, yn achos mwyafrif yr awdurdodau, dim ond dechrau mynd i'r afael â'r holl ddata sydd ganddynt y maent, ynghyd â'r holl ffyrdd y gallent eu defnyddio i wella penderfyniadau a chanlyniadau. Ar y cyfan, rydym yn casglu bod gan awdurdodau lleol rywfaint o ffordd i fynd eto er mwyn creu diwylliant gwneud penderfyniadau dan arweiniad data.
- 4.10 Canfuom nad yw awdurdodau bob amser yn manteisio ar y cyfle i gysylltu setiau data fel y gallant gryfhau'r gwaith dadansoddi a sicrhau dirnadaeth fwy canolbwyntiedig, yn enwedig mewn perthynas â chysylltu data am gostau a pherfformiad i ddeall costau gweithgarwch craidd, er enghraifft penderfynu ar gais cynllunio neu gasglu bin sbwriel.
- 4.11 Wrth archwilio cynlluniau corfforaethol pob un o'r 22 o awdurdodau lleol, rydym wedi canfod bod yna rai diffygion cyffredin. Yn gyffredinol, mae gwaith meincnodi, dadansoddi data cymharol, a rhagfynegi yn wan. Mae gwybodaeth a data cymharol yn gyfyngedig, gyda fawr ddim cymariaethau â meysydd eraill na sefydliadau cymaradwy y tu allan i Gymru. Er enghraifft, prin yw'r gwaith dadansoddi rhagfynegol¹⁸, sy'n cynnwys amrywiaeth o dechnegau ystadegol i fodelu ffeithiau cyfredol a hanesyddol fel y gellir gwneud rhagfynegiadau ynghylch senarios yn y dyfodol. Yn yr un modd, ychydig o awdurdodau a gyfeiriodd at fwyngloddio data¹⁹ neu ddadansoddi yn ôl segmentau²⁰.
- 4.12 Yn gyffredinol, mae awdurdodau lleol yn parhau i ganolbwyntio ar wybodaeth reoli hanesyddol, ac yn cytuno nad oes digon o waith dadansoddi yn cael ei wneud ar ragamcanu galw nac ar amcangyfrif tueddiadau hirdymor mewn perfformiad. Mae'r gallu i gymharu ag eraill ac edrych i'r dyfodol yn offer rheoli pwysig, ond mae gallu cyfyngedig awdurdodau lleol a sgiliau annigonol mewn dadansoddeg data yn cyfyngu'r potensial i ddefnyddio data i fodelu a thrawsnewid gwasanaethau.

18 Mae gwaith modelu rhagfynegol yn helpu i nodi perthnasoedd, ymysg llawer o ffactorau, fel y gellir cynnal asesiad o risg neu botensial sy'n gysylltiedig â set benodol o amodau. Mae modelau rhagfynegol yn dadorchuddio patrymau mewn data hanesyddol a data trafodion i nodi cyfleoedd ar gyfer penderfynwyr.

19 Mwyngloddio data yw'r broses o ddarganfod patrymau mewn data mawr a thynnu gwybodaeth ohonynt i'w rhoi mewn strwythur dealladwy i'w ddefnyddio ymhellach.

20 Segmentu yw'r gweithgarwch o rannu marchnad, sydd fel arfer yn cynnwys cwsmeriaid a defnyddwyr gwasanaethau cyfredol a phosibl, i is-grwpiau (segmentau) sy'n seiliedig ar nodweddion cyffredin neu nodweddion a rennir, er enghraifft anghenion, diddordebau cyffredin, ffyrdd tebyg o fyw, neu hyd yn oed broffiliau demograffig tebyg, fel y gellir nodi'r twf posibl ac, o hynny, gynllunio ar gyfer newid a thargedu ymatebion yn well.

- 4.13 Gwelsom rai enghreifftiau o awdurdodau lleol yn dadansoddi data i wella gwasanaethau a gwneud penderfyniadau mwy gwybodus. Er enghraifft, mae Cyngor Dinas a Sir Abertawe wedi dadansoddi'r gwaith o gydgysylltu gwasanaethau cyflogaeth ac, o ganlyniad, wedi rhesymoli ac ailffocysu ei hymdrechion i gefnogi'r broses o greu swyddi. Yn yr un modd, mae Cyngor Sir Ddinbych yn defnyddio data i ddarparu dirnadaeth o anghenion dinasyddion wrth iddo ystyried amseroedd agor llyfrgelloedd a chynllunio llwybrau casglu gwastraff effeithlon. Yn gyffelyb, dadansoddodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ei ddata ar rwystrau ym maes gofal maeth, ac aeth ati i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol ac ymgyrchoedd recriwtio i gynyddu nifer y gofalwyr maeth.
- 4.14 Neges gyson o'n gwaith maes yw mai un o'r heriau mwyaf yw gwneud gwell defnydd o ddata 'byw' i reoli gwasanaethau, ond hefyd i werthuso perfformiad. Yn wahanol i wasanaethau brys, megis y gwasanaethau Heddlu a Thân ac Achub, sy'n dibynnu'n fwyfwy ar ddata byw i gyfeirio adnoddau ac ymateb yn gyflym i argyfyngau, dim ond weithiau y bydd awdurdodau lleol yn defnyddio gwybodaeth 'fyw' (er enghraifft, adborth ar y cyfryngau cymdeithasol) i addasu'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a sicrhau'r perfformiad gorau. Yn yr un modd, er bod awdurdodau yn defnyddio data i reoli adnoddau a phenderfynu arnynt, nid yw adroddiadau ariannol, yn aml, yn ddigon ystwyth i wneud penderfyniadau amser real, a hynny oherwydd yr oedi cyn cynhyrchu data cyllideb ar gyfer penderfynwyr. Mae gwneuthurwyr polisi cenedlaethol yn adleisio'r casgliadau hyn, gan nodi bod yna rai heriau sylweddol yn bodoli o ran y modd y gall llywodraeth leol wella ei defnydd o ddata²¹. Daethom i'r casgliad bod yna fwy y gall awdurdodau lleol ei wneud i greu amgylchedd gwneud penderfyniadau dan arweiniad data sy'n cefnogi'r broses o wella a thrawsnewid gwasanaethau.


21 Er enghraifft, Llywodraeth Cymru **Gwaelodlin digidol awdurdodau lleol yng Nghymru 2017**

Atodiadau

Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth

Atodiad 2 – Geirfa

Atodiad 3 – Arferion da wrth
ddefnyddio data



Atodiad 1 – Methodoleg yr astudiaeth

Offeryn Data – wedi'i gwblhau gan bob un o'r 22 o awdurdodau lleol sy'n cynnwys Tîm Rheoli Corfforaethol, Rheolwyr Gweithredol, Penaethiaid TGCh a Pholisi, Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth ac Aelodau Etholedig. Mae'r ymatebion i'n Hofferyn Data wedi'u nodi isod:

Y Grwpiau o Ymatebwyr	Y nifer a wahoddwyd	Y nifer a ymatebodd	Y ganran a ymatebodd
Aelodau'r Tîm Rheoli Corfforaethol	203	94	46%
Aelodau Etholedig	1,259	295	23%
Rheolwyr Gweithredol	851	434	51%
Y Swyddog Cydymffurfiaeth Gwybodaeth	22	13	59%
Y Pennaeth Polisi	22	14	64%
Y Pennaeth TGCh	23	14	61%
Cyfanswm	2,380	864	36%

Cyfweliadau cenedlaethol ag arweinwyr ym maes defnyddio data: Nesta UK, Nesta Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru, CLILC, Ofcom, Google UK, The Satori Lab, Pinacl Solutions, The Alliance for Useful Evidence, Canolfan Gwyddor Data UCL, StatsCymru, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Awdurdod Llundain Fwyaf, Brigâd Dân Llundain, a Chyngor Camden.

Cyfweliadau â grwpiau o ddefnyddwyr ac eiriolwyr, gan gynnwys: CVS Cymru, Gofalwyr Cymru, Sipsiwn a Theithwyr Cymru, Panel Defnyddwyr Ystadegau Trydydd Sector Cymru, a Phanel Dinasyddion Caerdydd.

Gwaith maes yng Nghyngor Sir Ddinbych, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen a Chyngor Bro Morgannwg.



Adolygu'r defnydd o ddata yng Nghynlluniau Lles Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.



Arolwg sampl o 750 o aelodau o'r cyhoedd ledled Cymru gyfan ynghylch eu hymwybyddiaeth o ddefnydd awdurdodau lleol o'r wybodaeth a gedwir amdanynt.

Atodiad 2 – Geirfa


- **Data:** gwybodaeth ffeithiol yw data, megis mesuriadau neu ystadegau, a ddefnyddir yn sail i waith rhesymu, trafod neu gyfrifo y gellir ei drosglwyddo neu ei brosesu.
- **Ystadegau:** niferoedd, data a gwybodaeth yw ystadegau, sef y sail a'r dystiolaeth sylfaenol ar gyfer penderfyniadau.
- **Gwybodaeth:** y ddirnadaeth ymarferol a feithrinir gan ymarferwyr i helpu i wneud y defnydd gorau o'r data a'r wybodaeth sydd ar gael er gwella'r broses o weithredu mandad y sefydliad.
- **Cudd-wybodaeth:** y strategaethau a'r technolegau a ddefnyddir gan sefydliadau i ddadansoddi data. Defnyddir y term yn aml gan yr Heddlu i olrhain a rhagfynegi troseddau, er mwyn eu hatal neu eu ffrwyno.
- **Tystiolaeth:** yn aml, data wedi'u dadansoddi yw tystiolaeth, a all helpu penderfynwyr i ddeall yr hyn sy'n gweithio, ym mha le, am ba reswm, ac ar gyfer pwy. Gall hefyd amlygu'r hyn nad yw'n gweithio, a golygu y gellir osgoi ailadrodd methiannau sefydliadau eraill trwy fynd ati i ddysgu am werthusiadau o raglenni aflwyddiannus.
- **Digido:** cyfleuster ar gyfer dinasyddion a busnesau i ymgysylltu ag awdurdodau lleol dros y Rhyngwlad, ac i staff ac Aelodau Etholedig gyflawni eu cyfrifoldebau gydag adnoddau cyfrifiadurol newydd a datblygol. Mae hefyd yn galluogi busnesau a dinasyddion i ymgysylltu â bywyd ar-lein gyda'r awdurdod lleol, a thu hwnt i'r awdurdod lleol.
- **Diogelu data:** ystyr data personol yw gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag unigolyn byw unigryw. Pan fo data personol yn cael eu prosesu, eu casglu, eu cofnodi, eu storio neu eu gwaredu, rhaid i'r gwaith gael ei wneud yn unol â thelerau'r Ddeddf Diogelu Data. Nod y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data yw rhoi rheolaeth i ddinasyddion a phreswylwyr dros eu data personol, ac mae'n berthnasol i 'reolwyr'/'brosewyr' data
- **Rhannu data:** mae'r broses o ddatgelu data o un sefydliad neu ragor i sefydliad trydydd parti, neu rannu data rhwng rhannau gwahanol o sefydliad i'w gweld yn [ICO data_sharing_code_of_practice.pdf](#).
- **Data mawr:** gall data mawr roi gwell dirnadaeth a chynorthwyo prosesau gwneud penderfyniadau, ond gallant fod yn anodd eu dadansoddi os defnyddir dulliau dadansoddi data traddodiadol.
- **Data agored:** Mae gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru yn rhoi mwy a mwy o ddata gwerthfawr yn y parth cyhoeddus, sy'n galluogi dinasyddion i ddarganfod mwy nag erioed o'r blaen am berfformiad gwasanaethau cyhoeddus, a dwyn cyrff cyhoeddus i gyfrif.
- **Dadansoddeg data:** y broses o groeswiro, glanhau, ad-drefnu a modelu data ar gyfer prosesau gwneud penderfyniadau.
- **Data personol:** gwybodaeth sy'n ymwneud â tharddiad hiliol neu ethnig; barn wleidyddol, credoau crefyddol neu gredoau eraill; aelodaeth neu fel arall o undeb llafur; cyflwr corfforol neu feddyliol; bywyd rhywiol unigolyn, ac unrhyw drosedd a gyflawnwyd neu yr honnwyd iddi gael ei chyflawni, neu'r penderfyniad neu'r ddedfryd gan lys mewn unrhyw achos o'r fath.


Atodiad 3 – Arferion da wrth ddefnyddio data

Nodwedd Allweddol	Enghreifftiau o arferion da
<p>Arweinyddiaeth</p> 	<p>Yr arweinyddiaeth genedlaethol ar ddata</p> <p>Mae Cynllun Gweithredu Digidol Llywodraeth Cymru 2017-2020 yn hyrwyddo data fel adnodd gwerthfawr, ac yn anelu at ddarparu arweinyddiaeth a rhagor o gymorth i arweinwyr digidol ledled Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun yn nodi'r angen i wella'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithredu, a hynny trwy wneud y canlynol: bod yn y fan lle mae'r dinasyddion; grymuso dinasyddion Cymru; a gwneud defnydd effeithlon o adnoddau trwy ddefnyddio technoleg ddigidol i sicrhau newid sylweddol yn ei allu i gyflawni'r nodau hyn. Mae'r cynllun yn darparu fframwaith i gyflawni hyn, ac mae'n seiliedig ar gael arweinwyr digidol ysbrydoledig a hyderus ar bob lefel, sgiliau newydd, cynnwys pobl yn y broses o ddatblygu polisiau a deddfwriaeth, a gwneud data'n agored yn ddiodyn.</p> <p>Datblygu arweinyddiaeth ar ddata i fod yn drawsnewid sefydliadol</p> <p>Mae Strategaeth Trawsnewid Digidol Cyngor Sir Caerfyrddin 2017-2020 yn cydnabod bod angen technoleg ddigidol briodol ar y cyngor er mwyn iddo arbed arian a gwella gwasanaethau, a hynny trwy gydweithio â phartneriaid a rhannu a defnyddio data o ansawdd da mewn modd di-dor. Mae'r Cyngor yn cydnabod bod meithrin hyder y cyhoedd mewn prosesau diogelu gwybodaeth cadarn, sy'n amddiffyn data dinasyddion a busnes rhag camddefnydd a bygythiadau seiber, yn ganolog i wella mynediad at wasanaethau a chefnogi'r symudiad tuag at greu data mwy agored.</p>
<p>Safonau Corfforaethol</p> 	<p>Meithrin y gallu i lywio diwylliant mwy cydweithredol</p> <p>Mae Sir y Fflint Ddigidol 2017-2022 yn amlinellu'r modd y bydd Gwybodaeth a Thechnoleg Ddigidol yn cael eu defnyddio i gefnogi Blaenoriaethau Gwella a chynlluniau strategol y Cyngor Sir dros y pum mlynedd nesaf. Yr hyn sy'n gwneud Sir y Fflint Ddigidol yn wahanol i strategaethau eraill yw'r ffocws ar wella'r seilwaith digidol lleol, ynghyd â sicrhau bod gan gwsmeriaid y sgiliau digidol i gyrchu gwasanaethau a gwybodaeth ar-lein. Mae hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaid, y trydydd sector a darparwyr hyfforddiant lleol i nodi a darparu hyfforddiant effeithiol ar gyfer cwsmeriaid, a hynny er mwyn sicrhau bod pobl yn manteisio ar wasanaethau digidol, a chefnogi cynhwysiant.</p>

Nodwedd Allweddol	Engbreiffiau o arferion da
<p>Data cwsmeriaid integredig</p> 	<p>Un 'Porth' i wasanaethau awdurdodau lleol</p> <p>Yn 2013, datblygodd Bwrdeistref Camden yn Llundain Fyngai Preswylwyr, gan gyfuno gwybodaeth o ffynonellau data lluosog yn y cyngor i greu un cofnod cyson am breswylwyr ledled y fwrdeistref, ynghyd â'r gwasanaethau yn y cyngor y maent yn eu defnyddio. Roedd Camden, fel pob awdurdod lleol, dan bwysau i gyflawni arbedion cost, ynghyd â sicrhau gwelliant parhaus i'w lefelau gwasanaeth a chyflawni ei amcanion cymdeithasol ar yr un pryd. Er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hyn, penderfynodd Camden gyfuno gwybodaeth a oedd mewn seilos cyn hynny i ffurfio cofnod cynhwysfawr o ymgysylltiad preswylwyr â'r gwasanaethau.</p> <p>Sylweddolodd Camden y gallai mabwysiadu ymagwedd 'meddwl trwy systemau' ei helpu i sicrhau na fyddai angen i breswylwyr a fyddai'n cofrestru eu manylion gydag un gwasanaeth – er enghraifft tai – roi'r un wybodaeth eto i wasanaethau eraill. Yn yr un modd, roedd y cyngor am rymuso ei staff ei hun i weithio mewn modd mwy effeithlon, a hynny trwy gasglu gwybodaeth yn awtomatig gan adrannau eraill.</p> <p>Cafwyd nifer o ganlyniadau cadarnhaol o greu'r Mynegai Preswylwyr, yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • helpu i nodi achosion o isosod tai cyngor yn anghyfreithlon, ynghyd â nodi achosion o dwyll mewn perthynas â derbyniadau i ysgolion, gan felly sicrhau bod adnoddau gwerthfawr yn mynd i'r preswylwyr sy'n gymwys ar eu cyfer; • galluogi'r tîm Gwasanaethau Etholiadol i gadw cofrestr gywir o etholwyr yn y fwrdeistref. Llwyddodd y Mynegai Preswylwyr i ddilysu 80% o'r data o'r gofrestr etholiadol (sy'n uwch na'r gyfradd o 50% gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, sydd fel rheol yn dilysu data etholiadol y cyngor); a • darparu gwybodaeth hanfodol i gefnogi hyb Diogelu Amlasiantaethol y Cyngor yn ei waith o nodi newidiadau yng nghyfansoddiad cartrefi lle mae plant agored i niwed yn byw.
<p>Diogelu Data</p> 	<p>Rhannu data mewn modd saff a diogel</p> <p>Mae Bwrdd Gwasanaethau Lleol Conwy a Sir Ddinbych wedi datblygu ystod o wybodaeth a pholisïau i annog prosesau rhannu data saff a diogel ymysg partneriaid cyfansoddol. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi adeiladu ar waith blaenorol y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, a bydd Strategaeth Gwybodaeth a Phecyn Cymorth Rhannu Gwybodaeth yn cael eu diweddarau. Mae'r deunydd hyfforddi yn canolbwyntio ar rannu data mewn modd cyfreithlon, cynnwys Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Personol Cymru, a datblygu ystod o brotocolau a chynhyrchion rhannu gwybodaeth. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn fwy abl i amlygu'r modd y mae wedi defnyddio data o ansawdd da i lunio ei flaenoriaethau strategol ar gyfer Lles Meddyliol Da ar gyfer Pobl Hŷn; Grymuso Cymunedol; a Gwydnwch Amgylcheddol. Cytunwyd ar drafodaeth realistig ar rôl y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, sef darparu arweinyddiaeth a gwaith craffu o fewn y strwythurau cyfredol, yn hytrach na rheoli prosiectau ac integreiddio prosesau cyflenwi gwasanaethau.</p>

Nodwedd Allweddol	Enghreifftiau o arferion da
<p data-bbox="135 501 363 533">Dadansoddeg data</p> 	<p data-bbox="406 501 879 533">Defnyddio data i dargedu gwaith atal</p> <p data-bbox="406 548 1310 1025">Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn atal tanau bwriadol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy gasglu, rhannu a defnyddio data a gwybodaeth i dargedu eu gwaith mewn meysydd a lleoliadau â blaenoriaeth. Mae Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cydweithio â phartneriaid megis yr heddlu a gwasanaethau cymdeithasol y cyngor i rannu data er mwyn sicrhau bod ymdrechion yn cael eu targedu mewn modd effeithiol. Caiff data am achosion tanau eu cipio trwy'r System Cofnodi Gwybodaeth genedlaethol (IRS). Dadansoddir y data hyn er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymyrryd a negeseuon diogelwch yn y dyfodol yn adlewyrchu'r perygl o dân yn digwydd, er enghraifft canllawiau ysgrifenedig ar gelcio, a rhoi cyngor diogelwch wedi'i deilwra i Gymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Dadansoddir gwybodaeth o Borth Data Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru mewn cyfarfodydd gorsafoedd a rheoli misol er mwyn monitro nifer y digwyddiadau, anafiadau a marwolaethau, a chynllunio adnoddau yn unol â hynny.</p> <p data-bbox="406 1041 1203 1104">Defnyddio data i feithrin galluoedd a rennir a sicrhau arbedion effeithlonrwydd</p> <p data-bbox="406 1120 1310 1440">Mae Heddlu Dyfed-Powys yn gwella'r ffordd y mae'n defnyddio data i wella'r gwaith o reoli asedau. Defnyddir ystod eang o ddata am ddiwyddiadau a galw i nodi'r lleoliadau gorau posibl ar gyfer gorsafoedd heddlu. Gall swyddogion yr heddlu edrych ar ddata am droseddau a pherfformiad ar lefel sir, ward a rhawd. Mae setiau data hefyd yn cael eu cyfuno fwyfwy, er enghraifft wrth integreiddio gwybodaeth am gostau a pherfformiad i ddeall perfformiad ac ailgyfeirio adnoddau. O ganlyniad, mae buddsoddiad yn cael ei gyfeirio at yr asedau mwyaf addas, ac eir ar drywydd cyfleoedd i osod gorsafoedd heddlu ochr yn ochr â gorsafoedd tân, ac i greu canolfannau penodol ar gyfer arbenigedd yr heddlu.</p> <p data-bbox="406 1456 742 1487">Gwella dadansoddeg data</p> <p data-bbox="406 1503 1310 2011">Mae Heddlu Dyfed-Powys yn cynyddu ei gapasiti a'i alluoedd i ddeall a dadansoddi data mewn modd mwy effeithiol. Mae enghreifftiau'n cynnwys dadansoddi data i gau rhai gorsafoedd heddlu hen ffasiwn, i gyd-leoli gorsafoedd heddlu â gorsafoedd tân, ac i greu canolfannau penodol ar gyfer arbenigedd yr heddlu. Mae uwch-reolwyr yn edrych am y brigoedd, y tueddiadau a'r rhagolygon yn y galw i ddyrannu adnoddau. Mae setiau data yn cael eu cyfuno fwyfwy, er enghraifft wrth integreiddio gwybodaeth am gostau a pherfformiad i ddeall perfformiad ac ailgyfeirio adnoddau. Mae prosesau cloddio data yn gwella, ac yn achos nifer cynyddol o setiau data, gall swyddogion yr heddlu edrych ar ddata am droseddau a pherfformiad ar lefel sir, ward a rhawd. Mae data dadansoddol bellach yn cael eu cysoni â materion gweithredol, megis diogelu a cham-drin domestig. Mae defnyddio data i broffilio twyll a throseddau cyfundrefnol yn helpu i gyfeirio adnoddau arbenigol, er enghraifft cefnogaeth wyddonol a seiberdroseddau. Mae Heddlu Dyfed-Powys yn ei ystyried ei hun yn sefydliad sy'n dyheu am ddata, ac mae'n cydnabod y meysydd lle mae angen i'w berfformiad wella.</p>

Nodwedd Allweddol	Engbreiffiau o arferion da
<p>Penderfyniadau dan Arweiniad Data</p> 	<p>Gwneud penderfyniadau dan arweiniad data i baratoi adnoddau</p> <p>Mae Brigâd Dân Llundain yn gweithredu o fwy na 100 o orsafoedd tân ledled Llundain, a dyma'r gwasanaeth tân ac achub prysuraf yn y Deyrnas Unedig. Datblygodd Brigâd Dân Llundain Offeryn Ymateb Dynamig (DCT) gyda darparwr sector preifat i gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau yng nghanolfannau rheoli'r gwasanaethau brys. Mae'r Offeryn Ymateb Dynamig yn helpu i wella'r sylw a roddir i ddigwyddiadau a risgiau, ac yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn modd mor effeithlon â phosibl. Ymateb dynamig yw'r broses o adleoli adnoddau sydd ar gael i gynnal safonau priodol o ymateb i risg ledled ardal. Mae meddalwedd yr Offeryn Ymateb Dynamig yn darparu cymorth gweledol amser real i gefnogi'r swyddog rheoli argyfyngau yn y gwaith o symud cerbydau ymateb brys.</p> <p>Integreiddio data i wella dirnadaeth ac i gynllunio ymatebion strategol</p> <p>Mae Awdurdod Llundain Fwyaf yn hyrwyddo'r broses o ddatblygu a defnyddio data agored. Mae Awdurdod Llundain Fwyaf yn gweld bod y cyfleoedd mwyaf ar gyfer data agored i'w cael trwy fodelu tywydd eithafol, rhagfynegi'r galw am adnoddau naturiol, gwella'r gwaith o fonitro ansawdd yr aer, defnyddio lleoedd parcio, a gwella gwybodaeth am gysylltiadau trafnidiaeth gyhoeddus ac argaeledd tai ac asedau cymunedol. Roedd prosiectau data agored cynnar Awdurdod Llundain Fwyaf yn cynnwys mynd i'r afael â phroblemau yn ymwneud â thai amlfeddiannaeth didrwydded, a lleihau nifer yr adeiladau hapchwarae mewn rhannau o Lundain a oedd â phobl hynod o agored i niwed. Mae Awdurdod Llundain Fwyaf bellach yn symud oddi wrth ei Bartneriaeth Data Bwrdeistrefol i hyb data sy'n seiliedig ar Academi Data San Francisco – gweler Academi Data, a hynny gyda'r nod o wella cysondeb ac ansawdd y broses o rannu data, rheoli data, delweddu, dadansoddi, a sgiliau data.</p>

Nodwedd Allweddol	Engbreiffiau o arferion da
<p>Data agored</p> 	<p>Defnyddio data agored i feithrin gallu cymunedol a llywio lles economaidd</p> <p>Mae Data Mill North yn brosiect cydweithredol a sefydlwyd yn wreiddiol i fynd i'r afael â'r galw cynyddol a'r adnoddau lleihaol yn Leeds. Y nod yw galluogi pobl a sefydliadau i archwilio'r perthnasoedd cymhleth gwahanol sy'n bodoli rhwng gwasanaethau a busnesau'r ddinas, a hynny trwy gasglu data agored o sawl ffynhonnell mewn un man i gynnig gwell dealltwriaeth nag erioed o'r blaen o waith y ddinas. Tri phrif flaenoriaeth y prosiect yw sicrhau gwelliant amlwg mewn iechyd a lles, llywio rhagor o dwf o ran tai a safonau tai, a gwella'r isadeiledd teithio a thrafnidiaeth. Erbyn hyn, Data Mill North yw'r unig storfa yn y rhanbarth lle y gall pob gwasanaeth cyhoeddus rannu data, dirnadaeth a gwybodaeth am ystod eang o bynciau; mae'r rhain yn cynnwys gwasanaethau cyhoeddus lleol, perfformiad busnes ac economaidd manwl, addysg i oedolion, a nifer mawr o setiau data a ffynonellau gwybodaeth am dai.</p> <p>Mae sylfaenwyr y prosiect yn gefnogwyr i Bencadlys y Sefydliad Data Agored (ODI), a sefydlwyd ym mis Tachwedd 2013. Mae ODI Leeds yn gweithio i ddod â gwerth cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd i Leeds, a hynny trwy wella hyddysgrwydd mewn data a meithrin sgiliau. Hyd yn hyn, mae'r prosiect wedi cynnal 668 o ddigwyddiadau, wedi codi £883 mil yn ychwanegol mewn cyllid, ac wedi helpu 228 o bobl i ddod o hyd i swyddi sy'n talu'n well. Mae'r holl ffynonellau data yn Swydd Efrog yn cael eu mapio ar hyn o bryd – gan gynnwys yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.</p>

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Paratowyd yr adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad
Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys
Gareth Lucey, Deborah Woods, Caitlin Smith ac Anwen Worthy, o
dan gyfarwyddyd Richard Harries.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Tudalen y pecyn 104

Cynnwys

	Adroddiad cryno	5
1	Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi gweithio'n effeithiol hyd yn hyn i weinyddu trethi datganoledig yng Nghymru	14
	Cafodd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ei sefydlu'n effeithiol i gasglu trethi datganoledig o 1 Ebrill 2018	15
	Ers 1 Ebrill 2018, mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi bod yn gweinyddu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi mewn modd priodol	22
	Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi cymryd camau priodol i'w alluogi i ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys gweithio gyda Thrysorlys Cymru pan fo hynny'n briodol, ac mae ganddo feysydd allweddol eraill i ganolbwyntio arnynt wrth iddo barhau i ddatblygu	28
2	Mae gan Drysorlys Cymru drefniadau priodol ar waith i dderbyn sicrwydd ynghylch y ffordd mae CThEM yn gweithredu cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC)	33
	Mae cynlluniau ar waith i basio'r cynnig Cymreig sydd ei angen i gyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC), gyda'r mwyafrif o ddeddfwriaeth y DU eisoes wedi cael ei phasio	34
	Mae Trysorlys Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y trefniadau llywodraethu i drosglwyddo'r cyfrifoldebau am gyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) i Gymru	35
	Mae Trysorlys Cymru yn ceisio sicrwydd priodol ynghylch prosesau CThEM ar gyfer nodi trethdalwyr Cymru	37
	Mae'r dulliau a ddefnyddir i ragfynegi cyllid sy'n daladwy i Gymru drwy gyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) yn briodol, ac mae Trysorlys Cymru yn ymchwilio i ffyrdd o wella data sylfaenol	40
	Nid yw cyfanswm y gost o weithredu cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) wedi cael ei derfynu hyd yn hyn	42
	Mae cynlluniau i ymgysylltu â'r cyhoedd yn glir ac yn gymesur ac yn nodi mesurau llwyddiant yn glir	46

Tudalen y pecyn 105

Atodiadau

Atodiad 1 – cefndir datganoli cyllidol yng Nghymru	50
Atodiad 2 – dulliau	53

Adroddiad cryno


Adroddiad cryno

- 1 Mae datganoli cyllidol yn cyfeirio at drosglwyddo rhai pwerau trethu a benthg o Lywodraeth y DU i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad Cenedlaethol) a Gweinidogion Cymru. Ar 1 Ebrill 2018, am y tro cyntaf ers dros 800 o flynyddoedd, dechreuwyd casglu trethi sy'n ymwneud â Chymru yn unig.
- 2 Mae **Atodiad 1** yn amlinellu'r prif ddatblygiadau deddfwriaethol a datblygiadau eraill a arweiniodd at ddatganoli cyllidol yng Nghymru. O dan Ddeddf Cymru 2014 a deddfwriaeth ddilynol ar gyfer Cymru, mae dwy dreth ddatganoledig bellach yn cael eu casglu yng Nghymru gan Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) – sef Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi. Yn dilyn pasio Deddf Cymru 2017, cadarnhawyd y byddai cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) hefyd yn berthnasol am y tro cyntaf o 6 Ebrill 2019, er y byddai'r rhain yn parhau i gael eu casglu gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (CThEM).

Effeithiau ar gyllid Llywodraeth Cymru

- 3 Mae datganoli cyllidol yn golygu y bydd cyfran uwch o'r gwariant cyhoeddus yng Nghymru yn cael ei chodi yn uniongyrchol oddi wrth drethdalwyr Cymru. Yn ei Chyllideb Ddrafft ar gyfer 2019-20, mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau y bydd 20% o gyfanswm ei gwariant (neu £3.5 biliwn) yn ystod y flwyddyn honno yn dod o refeniw a godir o drethi Cymru, gan gynnwys CTIC, Treth Trafodiadau Tir, Treth Gwarediadau Tirlenwi ac ardrethi annomestig cenedlaethol. Eglurir hyn yn **Arddangosyn 1** isod:

Arddangosyn 1: dadansoddiad o gyllid Llywodraeth Cymru



Nodyn:

1. Nid yw'r ffigurau ar gyfer cyllid gan Lywodraeth y DU yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) na gwariant Terfyn Gwariant Adrannol (DEL) anghyllidol

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Adroddiadau blaenorol Swyddfa Archwilio Cymru ar ddatganoli cyllidol a chwmpas yr adroddiad hwn

- 4 Cadarnhaodd Archwilydd Cyffredinol Cymru y byddai'n cynnal cyfres o adolygiadau o'r gwaith o weithredu datganoli cyllidol yng Nghymru. Mae wedi cyhoeddi dau adroddiad blaenorol. Cafodd ei adroddiad cyntaf (**Paratodau ar gyfer gweithredu datganoli cyllidol yng Nghymru**) ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2016, gydag adroddiad arall (**Datganoli cyllidol yng Nghymru: Diweddariad ar y paratodau ar gyfer gweithredu**) yn cael ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017. Mae'r ddau adroddiad ar gael ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.¹

¹ <http://www.audit.wales/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau>

- 5 Yn yr adroddiad yn 2016, daeth i'r casgliad fod Llywodraethu Cymru'n paratoi'n dda i dderbyn ei chyfrifoldebau o dan ddatganoli cyllidol, er bod heriau sylweddol yn parhau i fod mewn perthynas â rhoi cynlluniau manwl ar waith ar gyfer cyflawni prosiectau allweddol. Yn 2017, daeth i'r casgliad fod yr agenda diwygio cyllidol yng Nghymru wedi gwneud cynnydd yn y meysydd allweddol hyn. Fodd bynnag, roedd y rhaglen wedi cyrraedd cyfnod critigol gydag amserlen dynn ar gyfer cyflawni erbyn 1 Ebrill 2018.
- 6 Gwnaeth ein hadroddiad yn 2017 nodi hefyd y byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cynnal adolygiad arall yn ystod 2018 i asesu'r ffordd mae ACC yn gweithredu, i fonitro'r gwaith o weithredu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, ac i adolygu paratoadau ar gyfer CTIC o fis Ebrill 2019. Felly, mae'r adroddiad hwn yn cyflawni'r dibenion hyn, gan ateb dau gwestiwn:
- a **A yw ACC yn gweithredu'n effeithiol i weinyddu trethi datganoledig yng Nghymru?**
 - b **A oes gan Drysorlys Cymru drefniadau priodol ar waith i dderbyn sicrwydd ynghylch y ffordd mae CThEM yn gweithredu CTIC?**
- 7 Rhoddir crynodeb o'n canfyddiadau yn yr adolygiad hwn isod, gyda manylion ein dulliau archwilio'n cael eu rhoi yn **Atodiad 2**. Nid yw ein hadroddiad yn adolygu'r gwaith a gynhaliwyd gan CThEM i weithredu CTIC – mae'r mater hwn yn destun adroddiad arall gan y Swyddfa Archwilio Gwladol.

Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) yn gweithredu'n effeithiol i weinyddu trethi datganoledig yng Nghymru

- 8 Sefydlodd Llywodraeth Cymru Raglen Gyflawni ACC (y rhaglen) ym mis Tachwedd 2015, a oedd yn gweithio i lunio ac adeiladu ACC a'i systemau casglu trethi. Fel rhan o'i gwaith, sefydlodd y rhaglen Awdurdod Cynllunio Cysgodol ACC, i weithredu fel bwrdd cysgodi ar gyfer ACC. Gyda holl aelodau bwrdd ACC wedi'u penodi erbyn mis Medi 2017, roedd y bwrdd yn gallu cynnal ei gyfarfod ffurfiol cyntaf ar 18 Hydref 2017.
- 9 Er ei bod yn parhau i fod o dan reolaeth Llywodraeth Cymru, roedd y rhaglen yn adrodd i fwrdd ACC o fis Hydref 2017 i ddarparu diweddariadau ar gynnydd a datblygiadau allweddol wrth iddi weithio tuag at gasglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi o 1 Ebrill 2018. Daeth ACC i fodolaeth yn gyfreithiol ar 18 Hydref 2017 ac mae wedi bod yn casglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi ers 1 Ebrill 2018, gyda Llywodraeth Cymru yn cau'r rhaglen yn fuan wedyn.

10 Mae ein hadolygiad wedi dod i'r casgliadau canlynol:

- a cafodd ACC ei sefydlu'n effeithiol i'w ganiatáu i gasglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi o 1 Ebrill 2018, gan fodloni ei heriau allweddol:
- pasiodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yr holl ddeddfwriaeth a oedd ei hangen mewn pryd i sefydlu ACC a'i ganiatáu i gasglu trethi datganoledig;
 - cafodd Asesiad o Barodrwydd ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a Llythyr Cylch Gwaith a Dogfen Fframwaith gan Lywodraeth Cymru eu cadarnhau a'u rhoi ar waith;
 - cafodd strwythurau llywodraethu ACC eu sefydlu'n briodol;
 - gyda chymorth ei gyflenwyr, terfynodd ACC ei systemau digidol mewn pryd i gasglu trethi datganoledig o 1 Ebrill 2018;
 - gwnaeth ACC flaenoriaethu'r gwaith o recriwtio staff allweddol, gan sicrhau bod yr holl swyddi hanfodol yn cael eu llenwi cyn 1 Ebrill 2018;
 - roedd holl gost sefydlu ACC o fewn y gyllideb;
 - i raddau helaeth, roedd canllawiau gweithredol ACC ar waith ar 1 Ebrill 2018.
- b ers 1 Ebrill 2018, mae ACC wedi bod yn gweinyddu dwy dreth ddatganoledig mewn modd priodol:
- mae System Rheoli Trethi ACC wedi bod yn gweithio'n effeithiol ers 1 Ebrill 2018;
 - mae ACC wedi ymateb yn briodol i adborth mewnol ac allanol drwy wneud newidiadau perthnasol i'w brosesau a'i ganllawiau;
 - mae recriwtio wedi parhau ar gyflymder priodol er mwyn cynnal gweithrediadau ACC;
 - mae ACC wedi darparu hyfforddiant ar gyfer staff yn unol â chynllun y cytunwyd arno er mwyn cynnal gweithrediadau allweddol;
 - mae trefniadau priodol wedi cael eu gwneud i rannu data sy'n codi o drafodiadau Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi â rhanddeiliaid.

Tudalen y pecyn 110

- c mae ACC wedi cymryd camau priodol i'w ganiatáu i ymateb i ddatblygiadau posibl yn y dyfodol, gan gynnwys gweithio gyda Thrysorlys Cymru pan fo hynny'n briodol:
 - mae Trysorlys Cymru ac ACC wedi mabwysiadu strwythur cydlywodraethu ar gyfer datganoli cyllidol yng Nghymru sy'n caniatáu i'r ddau gorff nodi ac ymateb i ddatblygiadau posibl;
 - mae ACC wedi dylunio systemau a phrosesau hyblyg a fydd yn ei gynorthwyo i ymateb i newidiadau neu ddatblygiadau yn y dyfodol;
 - mae angen i ACC ystyried rhai materion pwysig wrth symud ymlaen wrth iddo ddatblygu ei Gynllun Corfforaethol tair blynedd.

11 Yn **Arddangosyn 2** isod, rydym yn amlinellu'r meysydd allweddol sydd angen sylw gan ACC wrth iddo barhau i ddatblygu.

Arddangosyn 2: meysydd allweddol y bydd ACC yn canolbwyntio arnynt


Maes sydd angen sylw	Manylion
Systemau digidol (paragraff 1.32)	Er mwyn galluogi ACC i gynyddu ei gapasiti digidol, bydd yn bwysig canolbwyntio ar greu partneriaethau strategol gyda chyflenwyr i sicrhau'r gwerth gorau am arian ar gyfer ei systemau digidol.
Recriwtio a chadw staff (paragraff 1.41)	Mae angen parhau i ddatblygu pobl a thimau mewn modd effeithiol i sicrhau y gall ACC barhau i recriwtio a chadw gweithlu o'r radd flaenaf. Fel rhan o hyn, mae angen i ACC werthuso canlyniadau rhaglenni dysgu a datblygu y mae'n eu datblygu neu eu comisiynu.
Trefniadau llywodraethu (paragraff 1.51)	Mae angen i ACC barhau i weithio mewn partneriaeth gyda Thrysorlys Cymru i sicrhau effeithiolrwydd y trefniadau cydlywodraethu sydd ar waith.
2019-2022 Corporate Plan (paragraff 1.59)	<p>Mae angen i ACC weithio i gadarnhau ei Gynllun Corfforaethol tair blynedd, y bydd yn rhaid iddo ystyried y meysydd canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diffinio ei ddiben • Nodi mesurau perfformiad • Dull ar gyfer ymdrin â 'risg treth' • Costio gweithgareddau ACC • Strategaeth ar gyfer datblygu a chymorth digidol • Datblygu polisïau gweithredu mewnol

Tudalen y pecyn 111

Mae gan Drysorlys Cymru drefniadau priodol ar waith i dderbyn sicrwydd ynghylch y ffordd mae CThEM yn gweithredu cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC)

- 12 Gyda CTIC yn cael eu cyflwyno o 6 Ebrill 2019, bydd trefniadau ar gyfer pennu cyfraddau treth incwm yng Nghymru yn newid. Ym mis Ionawr 2019, bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried cynnig ynghylch a ddylid amrywio'r cyfraddau treth incwm y mae trethdalwyr Cymru yn eu talu o fis Ebrill 2019 (yn syml, talwyr treth incwm sy'n byw yng Nghymru) neu a ddylid eu cadw ar yr un cyfraddau y mae trethdalwyr Lloegr a Gogledd Iwerddon yn eu talu (Senedd yr Alban sy'n cadarnhau'r cyfraddau treth incwm ar gyfer trethdalwyr yr Alban). Ni fydd y cyfraddau treth hyn yn berthnasol ond i incwm trethdalwyr Cymru nad yw'n seiliedig ar gynilion a difidendau.
- 13 Ar 6 Ebrill 2019, bydd Llywodraeth y DU yn gostwng pob un o'r tair cyfradd treth incwm (sylfaenol, uwch ac ychwanegol) a delir gan drethdalwyr Cymru ddeg ceiniog. Bydd tair cyfradd Cymru a gadarnhawyd gan y Cynulliad Cenedlaethol wedyn yn cael eu hychwanegu at gyfraddau is y DU. Bydd y cyfuniad o gyfraddau is y DU yn ogystal â chyfraddau Cymru yn pennu cyfanswm y gyfradd treth incwm y bydd trethdalwyr Cymru yn ei thalu, fel y dangosir yn **Arddangosyn 3**:

Arddangosyn 3: sut y bydd cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) yn cael eu cymhwysio



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 14 Bydd gan Gymru bwerau treth incwm sydd wedi cael eu datganoli yn rhannol yn unig. Yr unig bŵer a fydd gan Lywodraeth Cymru fydd y pŵer o bennu CTIC bob blwyddyn, ar ôl i Lywodraeth y DU dynnu deg ceiniog oddi ar bob cyfradd. Ni fydd ganddi'r pŵer i greu, diwygio neu dynnu bandiau treth incwm (h.y. y gyfradd sylfaenol, y gyfradd uwch a bandiau cyfradd ychwanegol). Ni fydd chwaith yn gallu diwygio unrhyw ryddhad neu lwfansau treth incwm a bennir gan Ganghellor y Trysorlys, megis y Lwfans Personol.
- 15 Yn ogystal, bydd CThEM yn parhau i gasglu'r holl dreth incwm sy'n daladwy yng Nghymru. Bydd Trysorlys EM wedyn yn talu'r gyfran a gesglir o dan CTIC i Gronfa Gyfunol Cymru bob blwyddyn. Mae hyn yn wahanol i'r ddwy dreth sydd wedi'u datganoli'n llawn, sef Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, y mae ACC wedi bod yn eu casglu'n annibynnol ers 1 Ebrill 2018.
- 16 Felly, ni ddylai trethdalwyr Cymru sylwi ar lawer o wahaniaeth yn y ffordd mae CThEM yn casglu eu treth incwm – ar wahân i'r ffaith y bydd eu cod treth yn dechrau ag 'C' – ac ni fydd angen iddynt gymryd unrhyw gamau uniongyrchol.
- 17 Mae ein hadolygiad wedi dod i'r casgliadau canlynol:
 - a mae cynlluniau ar waith i basio'r cynnig Cymreig sydd ei angen i gyflwyno CTIC, gyda'r mwyafrif o ddeddfwriaeth y DU eisoes wedi cael ei phasio:
 - mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth y DU sydd ei hangen i sefydlu ac i weithredu CTIC eisoes wedi cael ei phasio;
 - bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried cynnig ym mis Ionawr 2019 i gymeradwyo CTIC.
 - b Mae Trysorlys Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y trefniadau llywodraethu i drosglwyddo'r cyfrifoldebau am CTIC i Gymru:
 - mae CThEM wedi sefydlu prosiect i sefydlu CTIC ac mae Trysorlys Cymru yn mynychu Bwrdd y Prosiect;
 - mae Trysorlys Cymru yn defnyddio strwythur llywodraethu'r prosiect i ddylanwadu ar drafodaethau ac i godi materion sy'n peri pryder.
 - c Mae Trysorlys Cymru yn ceisio sicrwydd priodol ynghylch prosesau CThEM ar gyfer nodi trethdalwyr Cymru:
 - mae CThEM wedi sefydlu dulliau ar gyfer nodi trethdalwyr Cymru ac wedi'u rhannu â Thrysorlys Cymru;
 - mae Trysorlys Cymru wedi ceisio ac wedyn derbyn sicrwydd ynghylch y dulliau a ddefnyddir i nodi trethdalwyr Cymru.

Tudalen y pecyn 113

ch Mae'r dulliau a ddefnyddir i ragfynegi cyllid sy'n daladwy i Gymru drwy CTIC yn briodol, ac mae Trysorlys Cymru yn ymchwilio i ffyrdd o wella data sylfaenol:

- gwnaeth Trysorlys Cymru ragfynegi'r cyllid sy'n daladwy drwy CTIC ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 mewn pryd i'w gynnwys yng nghyllideb Llywodraeth Cymru;
- mae Prifysgol Bangor wedi darparu sicrwydd ynghylch y rhagolygon ar gyfer y cyllid sy'n daladwy drwy CTIC yn ystod 2019-20;
- mae Trysorlys Cymru yn defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael yn ei ragolygon ar gyfer CTIC ac mae'n ymchwilio i ffyrdd o wella'r data hwnnw ymhellach.

d Nid yw cyfanswm y gost o weithredu CTIC wedi cael ei derfynu hyd yn hyn:

- amcangyfrifir bod cyfanswm y gost o weithredu CTIC rhwng £7.7 miliwn a £9.7 miliwn, gyda'r rhan fwyaf o'r gost honno yn ymwneud â gweithgareddau CThEM;
- mae Trysorlys Cymru wedi ceisio cyngor a sicrwydd priodol ynghylch amcangyfrifon CThEM o gostau.

dd Mae cynlluniau i ymgysylltu â'r cyhoedd yn glir ac yn gymesur ac yn nodi mesurau llwyddiant yn eglur:

- mae Trysorlys Cymru a CThEM yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gyfathrebu ynghylch CTIC;
- bydd canlyniadau arolwg yn caniatáu i Drysorlys Cymru fesur ymwybyddiaeth y cyhoedd o CTIC dros gyfnod o amser, a chynllunio gweithgareddau cyfathrebu ar gyfer y dyfodol;
- mae mesurau i ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru yn rhesymol ac yn gydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau a chost.

18 Rydym yn nodi'r meysydd canlynol sydd angen sylw yn **Arddangosyn 4**, y bydd yn rhaid i Drysorlys Cymru eu hystyried wrth i brosiect CTIC symud yn ei flaen:

Arddangosyn 4: meysydd sydd angen sylw gan Drysorlys Cymru wrth i brosiect CTIC symud yn ei flaen

Maes sydd angen sylw	Manylion
Llywodraethu CTIC yn barhaus (paragraff 2.11)	Bydd yn rhaid i Drysorlys Cymru, mewn partneriaeth â CThEM, ddarparu strwythur llywodraethu priodol ar gyfer CTIC cyn i drethi ddechrau gael eu casglu ym mis Ebrill 2019.
Data i'w ddefnyddio wrth ragfynegi a chyllidebu (paragraff 2.31)	Bydd angen i Drysorlys Cymru weithio gyda CThEM i sicrhau mynediad at y data mwyaf amserol a chywir ar gyfer rhagfynegi CTIC. Bydd yn rhaid iddo hefyd ystyried defnyddioldeb ffynonellau data newydd posibl yn ei fodelau rhagfynegi, megis 'gwybodaeth amser real' gan CThEM pan fydd codau treth 'C' ar gyfer Cymru wedi cael eu lansio.
Costau gweithredu CTIC (paragraff 2.37)	Bydd angen i Drysorlys Cymru weithio gyda CThEM i gadarnhau cyfanswm cost derfynol y prosiect a thrafod trefniant ar gyfer rhannu costau â nhw a Llywodraeth yr Alban ar gyfer unrhyw gostau sy'n ymwneud â systemau treth incwm Cymru a'r Alban.
Ymgysylltu â'r cyhoedd (paragraff 2.53)	Bydd angen i Drysorlys Cymru barhau i fonitro effaith ei weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd, i fesur llwyddiant ei waith hyd yn hyn ac i dargedu cyfathrebiadau am CTIC yn y dyfodol.

Rhan 1

Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi gweithio'n effeithiol hyd yn hyn i weinyddu trethi datganoledig yng Nghymru



- 1.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad mewn tair rhan, ac yn edrych ar sut y cafodd ACC ei sefydlu, sut mae wedi gweinyddu'r ddwy dreth ddatganoledig ers 1 Ebrill 2018, a sut mae'n gallu ymateb i ddatblygiadau posibl yn y dyfodol.

Cafodd Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ei sefydlu'n effeithiol i gasglu trethi datganoledig o 1 Ebrill 2018

Gwnaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru basio'r holl ddeddfwriaeth a oedd ei hangen i sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) a'i ganiatáu i gasglu trethi datganoledig

- 1.2 Fel y nodwyd yn ein hadroddiadau blaenorol, gwnaeth Deddf Cymru 2014, Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016, Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017 sefydlu'r sylfeini ar gyfer cyfundrefn ar gyfer trethi datganoledig yng Nghymru, gan sefydlu ACC i gasglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi.
- 1.3 Wedyn mae deddfwriaeth eilaidd wedi dod ag elfennau allweddol o'r deddfau hyn i rym. Rhwng mis Hydref 2017 a mis Mawrth 2018, pasiodd y Cynulliad Cenedlaethol 19 darn o ddeddfwriaeth eilaidd a oedd yn cynnwys amrediad o faterion, o sefydlu cyfraddau a bandiau treth i gadarnhau pwerau ACC i ymchwilio i droseddau. Yn dilyn pasio'r ddeddfwriaeth hon, roedd gan ACC y pwerau cyfreithiol i gasglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi o 1 Ebrill 2018.

Cafodd Asesiad o Barodrwydd ar y cyd gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, a Llythyr Cylch Gwaith a Dogfen Fframwaith gan Lywodraeth Cymru eu cadarnhau a'u rhoi ar waith

- 1.4 Cyn y gallai ACC gasglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, roedd angen i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru gytuno ar Asesiad o Barodrwydd ar y cyd i ddatgymhwyso dwy dreth flaenorol y DU yng Nghymru, sef treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi. Roedd yr Asesiad o Barodrwydd hwn yn ystyried parodrwydd Trysorlys EM, CThEM, Llywodraethu Cymru ac ACC mewn meysydd megis deddfwriaeth, systemau a phrosesau, staffio ac adnoddau, cyfathrebu ac ymgysylltu, a llywodraethu a sicrwydd.
- 1.5 Gwnaeth Llywodraeth Cymru gwrdd â chymheiriaid o Drysorlys EM ac CThEM ym mis Ionawr 2018 i gadarnhau bod yr holl feini prawf gofynnol o dan yr asesiad hwn wedi cael eu bodloni. Wedyn gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Phrif Ysgrifennydd Trysorlys EM gadarnhau drwy gyfnewid llythyrau y gellid datgymhwyso treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yng Nghymru o 1 Ebrill 2018.

Tudalen y pecyn 117

- 1.6 Ym mis Rhagfyr 2017, cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid Lythyr Cylch Gwaith i ACC. Mae'r ddogfen hon yn gosod tair blaenoriaeth allweddol Gweinidogion Cymru ar gyfer y flwyddyn gyntaf o gasglu trethi datganoledig (fel y'u hamlinellir yn **Arddangosyn 5**), cynigion ar gyfer datblygu mesurau perfformiad ar gyfer ACC, a chyllidebau referniw gweithredol y sefydliad ar gyfer 2017-18 (£1.5 miliwn) a 2018-19 (£6.0 miliwn).

Arddangosyn 5: Blaenoriaethau Gweinidogion Cymru ar gyfer ACC yn 2018-19

Blaenoriaethau allweddol ar gyfer ACC yn 2018-19
Casglu trethi datganoledig – galluogi pobl i dalu'r swm cywir o dreth ar yr adeg gywir.
Rheoli'r system trethi datganoledig i helpu i atal a mynd i'r afael ag efadu trethi ac osgoi trethi.
Darparu gwasanaethau cyhoeddus – arwain gwelliannau i'r gwaith o weinyddu trethi datganoledig ledled Cymru.


Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)/Llywodraeth Cymru

- 1.7 Wedyn gweithiodd ACC gyda Llywodraeth Cymru i gadarnhau a chyhoeddi Dogfen Fframwaith ym mis Mawrth 2018. Mae'r ddogfen hon yn tanategu'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru ac ACC. Mae'n cadarnhau rolau a chyfrifoldebau'r ddau gorff, prosesau ar gyfer rheoli ac adrodd ariannol, a threfniadau ar gyfer rhannu data.
- 1.8 Yn ein hadroddiad yn 2017, gwnaethom nodi, fel Adran Anweinidogol gyntaf Llywodraeth Cymru, fod dryswch yn bosibl ynghylch y ffordd mae ACC yn cael ei reoli a'i lywodraethu. Mae'r Llythyr Cylch Gwaith a'r Ddogfen Fframwaith, ynghyd â Chynllun Corfforaethol ACC ar gyfer 2018-19 (sy'n amlinellu sut y bydd y tair blaenoriaeth allweddol yn y Llythyr Cylch Gwaith yn cael eu cyflawni), yn helpu i egluro rôl ACC, yn ogystal â'i drefniadau gwaith gyda Llywodraeth Cymru.

Cafodd strwythurau llywodraethu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) eu sefydlu'n briodol

1.9 Mae Arddangosyn 6 yn rhoi trosolwg o strwythur llywodraethu mewnol ACC:

Arddangosyn 6: strwythur llywodraethu mewnol ACC



■ Sefydlwyd cyn 18 Hydref 2017

■ Sefydlwyd rhwng 18 Hydref 2017 ac 1 Ebrill 2018

■ Sefydlwyd ar ôl 1 Ebrill 2018

Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)

1.10 Fel y gwnaethom adrodd yn 2017, cafodd cryn waith ar drefniadau llywodraethu ACC ei gwblhau cyn iddo gael ei sefydlu ar 18 Hydref 2017. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys penodi cadeirydd (Chwefror 2017), prif weithredwr (Gorffennaf 2017) ac aelodau anweithredol bwrdd ACC (Medi 2017). Mae ACC wedyn wedi sefydlu ei strwythurau llywodraethu.

- 1.11 Mae'r bwrdd yn cynnwys y cadeirydd anweithredol, y dirprwy gadeirydd, pedwar aelod anweithredol, y prif weithredwr, dau swyddog gweithredol ac (o Hydref 2018) aelod wedi'i ethol gan staff. Mae'r aelodaeth hon yn cydymffurfio â gofynion Deddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Mae'r bwrdd wedi cwrdd yn rheolaidd ers mis Hydref 2017 ac wedi sefydlu dau is-bwyllgor, sef Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) a Phwyllgor Pobl.
- 1.12 Mae ARAC yn cynnwys pedwar aelod bwrdd anweithredol ac mae hefyd yn cael ei fynychu gan bedwar cyngorydd gweithredol². Cwrddodd ARAC am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2017 ac mae ganddo gyfrifoldeb dirprwyedig am graffu ar drefniadau ACC ar gyfer risg, mesurau rheoli, trefniadau llywodraethu a chyfrifyddu, a chanlyniadau ac ymatebion i archwiliadau. Mae'r pwyllgor hefyd yn rhoi cyngor i'r prif weithredwr ynghylch y ffordd mae ACC yn defnyddio arian cyhoeddus a stiwardiaeth ei asedau.
- 1.13 Mae'r Pwyllgor Pobl yn cynnwys tri aelod bwrdd anweithredol ac mae'n cael ei fynychu gan dri aelod gweithredol³. Cwrddodd am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2018, ac mae'n gyfrifol am oruchwylio strategaeth taliadau cydnabyddiaeth ACC, yn ogystal â materion mewn perthynas â thelerau staff, recriwtio, perfformiad a rheoli dawn.
- 1.14 Mae ACC hefyd wedi sefydlu trefniadau llywodraethu i gynorthwyo'r prif weithredwr. Cyn 1 Ebrill 2018, sefydlodd Pwyllgor Gweithredol, sy'n cynnwys yr holl aelodau staff sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r prif weithredwr. Roedd y pwyllgor yn trafod materion a oedd yn cynnwys perfformiad sefydliadol, llywodraethu, polisiau a strategaethau. Hefyd cafodd Cynllun Dirprwyo Ariannol i gyflwyno i swyddogion ACC gan y prif weithredwr ym mis Mawrth 2018.
- 1.15 Roedd y trefniadau llywodraethu a sefydlwyd cyn 1 Ebrill 2018 i gynorthwyo'r bwrdd a'r prif weithredwr yn gweithredu'n effeithiol. Mae'r gwaith o ddatblygu trefniadau llywodraethu mewnol ACC wedi parhau ers 1 Ebrill 2018, fel y dangosir yn **Arddangosyn 6** uchod. Cynhaliodd archwilwyr mewnol ACC adolygiad o'i drefniadau llywodraethu ym mis Hydref 2018, gan ddod i'r casgliad eu bod 'wedi'u cynllunio'n briodol ac yn cael eu cymhwyso'n effeithiol', gyda sylwadau bach yn unig yn cael eu nodi.

2 Y prif weithredwr, y Prif Swyddog Cyllid, Pennaeth Archwilio Mewnol a'r Rheolwr Risg/ Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.

3 Y prif weithredwr, Pennaeth Adnoddau Dynol a'r Rheolwr Datblygu Sefydliadol/ Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor.

Gyda chymorth ei gyflenwyr, terfynodd ACC ei systemau digidol mewn pryd i gasglu trethi datganoledig o 1 Ebrill 2018

- 1.16 Ar adeg ein hadroddiad yn 2017, roedd y gwaith o gyflawni systemau digidol yn parhau i fod y maes a oedd yn peri'r risg uchaf i Raglen Gyflawni ACC. Roedd angen i ACC ddatblygu System Rheoli Trethi i gasglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi o 1 Ebrill 2018, yn ogystal â system gyllid i adrodd am y gwaith o weithredu ACC a'r trethi sy'n cael eu casglu. Gwnaeth gonaethio cyflenwr i adeiladu a phrofi'r System Rheoli Trethi, a gwblhaodd y gwaith yn ystod tri mis cyntaf 2018.
- 1.17 Mae'r System Rheoli Trethi wedi'i rhannu yn ddau brif faes – cofrestru a ffurflenni treth. Agorodd ACC gofrestrïadau ar gyfer defnyddwyr Treth Trafodiadau Tir ar 20 Chwefror 2018, gan ganiatáu i ymarferwyr megis cyfreithwyr a thrawsgludwyr gofrestru cyfrif ar y System Rheoli Trethi. Yn ôl ystadegau ACC, cofrestrodd dros 1,200 o ymarferwyr Treth Trafodiadau Tir ar y System Rheoli Trethi cyn i'r dreth ddechrau cael ei chasglu, gan gynyddu i dros 5,300 erbyn mis Hydref 2018. Cafodd lansiad cofrestrïadau ar gyfer Treth Trafodiadau Tir ei ategu gan agor desg gymorth ACC ar-lein a thros y ffôn, a agorodd i'r cyhoedd hefyd ar 20 Chwefror 2018.
- 1.18 O ystyried y ffaith nad oedd ond 18 gweithredwr safle tirlenwi yng Nghymru a bod y broses gofrestru mor gymhleth, roedd ACC wedi penderfynu'n flaenorol y byddai'n cofrestru talwyr Treth Gwarediadau Tirlenwi â llaw y tu allan i'r System Rheoli Trethi. Dechreuodd cofrestrïadau ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi ynghynt ar 23 Ionawr 2018.
- 1.19 Yn dilyn achredu diogelwch systemau ACC gan Lywodraeth Cymru ar 22 Mawrth 2018, agorodd ACC yr elfen ffurflenni treth o'r System Rheoli Trethi ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi o 27 Mawrth. O'r dyddiad hwnnw, roedd trethdalwyr yn gallu cael mynediad at y system a drafftio ffurflenni Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, ond nid oeddent yn gallu cyflwyno ffurflen tan 1 Ebrill 2018, pan gafodd y System Rheoli Trethi ei lansio'n llawn.
- 1.20 Cwblhaodd ACC gyfres o ddigwyddiadau ymgysylltu â defnyddwyr y System Rheoli Trethi cyn 1 Ebrill 2018, gan gynnwys sesiynau profi gan ddefnyddwyr, digwyddiadau teithiol ledled Cymru a Lloegr, a gweminarau ar-lein. Roedd y digwyddiadau hyn yn gynnwys arddangosiadau o sut i gofrestru a chyflwyno ffurflenni ar y system. Oherwydd yr amserlen derfynol dynn ar gyfer cyflwyno'r System Rheoli Trethi, rhoddodd ACC flaenoriaeth i'r gwaith ymgysylltu hwn ar elfen ffurflenni treth y system, gan y byddai ymarferwyr yn ffeilio ffurflenni treth yn barhaus, tra oedd cofrestru ar y system yn ymarfer symlach a oedd yn cael ei gynnal unwaith.

Tudalen y pecyn 121

1.21 Cafodd y system gyllid ei datblygu hefyd mewn pryd i ACC gasglu trethi datganoledig. Eto, gellir rhannu'r system hon yn ddwy ran – cyllid corfforaethol a threthi. Cafodd yr elfen cyllid corfforaethol (adrodd am weithrediadau ACC) ei therfynu ar 1 Mawrth 2018, gyda'r elfen treth (adrodd am gasglu trethi) yn mynd yn fyw ar 1 Ebrill 2018. Mae hefyd rhyngwyneb awtomataidd rhwng y System Rheoli Trethi a'r system cyllid treth, gan gadw ymyrraeth ddynol yn y gwaith o gasglu a phrosesu trethi cyn ised ag y bo modd.

Gwnaeth ACC flaenoriaethu'r gwaith o recriwtio staff allweddol, gan sicrhau bod yr holl swyddi hanfodol yn cael eu llenwi cyn 1 Ebrill 2018

1.22 Roedd gan ACC 49 aelod o staff cyfwerth ag amser llawn yn eu swyddi ym mis Ebrill 2018, 14 yn llai nag a gynlluniwyd yn wreiddiol. Cymerodd recriwtio yn hwy nag a gynlluniwyd, gan i'r gwiriadau diogelwch gymryd mwy o amser nag a ddisgwylid yn wreiddiol. Felly, diwygiodd ACC ei strategaeth recriwtio, gan flaenoriaethu'r gwaith o recriwtio i swyddi uwch-reolwyr (i ganiatáu iddynt lunio eu timau) a swyddi sy'n ymdrin â'r cyhoedd (i ganiatáu i'r ddesg gymorth agor ym mis Chwefror 2018). Roedd hyn yn sicrhau nad oedd yr oediadau hyn yn y recriwtio a gynlluniwyd yn rhwystro gweithrediadau allweddol cynnar ACC.

1.23 Mae ACC hefyd wedi llwyddo i recriwtio llawer o staff sy'n siarad Cymraeg, gyda siaradwyr Cymraeg yn cyfrif am tua un rhan o bob tair o'i weithlu ar hyn o bryd. Rydym yn adolygu'r gwaith o recriwtio staff ar ôl 1 Ebrill 2018, a'r cyfleoedd dysgu a datblygu sy'n cael eu darparu ar eu cyfer, o **baragraff 1.38** isod.

Roedd cyfanswm y gost o sefydlu Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) o fewn y gyllideb

1.24 Yn wreiddiol, roedd Llywodraeth Cymru wedi amcangyfrif y byddai'r gost o weithredu ACC rhwng £4.9 miliwn a £6.4 miliwn ar gyfer y cyfnod o dair blynedd rhwng 2016-17 a 2018-19. Yn ein hadroddiad yn 2017, gwnaethom adrodd bod y gyllideb ar gyfer costau gweithredu wedi cael ei haddasu, gyda chyfanswm cost amcangyfrifedig o £6.3 miliwn ar gyfer y cyfnod o ddwy flynedd rhwng 2016-17 a 2017-18.

1.25 Erbyn hyn, gellir cadarnhau'r gost derfynol o weithredu ACC. Fel y mae **Arddangosyn 7** isod yn dangos, cafodd ACC ei gyflawni o fewn y gyllideb ddiwygiedig hon:

Arddangosyn 7: dadansoddiad o'r gost o weithredu ACC

	Costau wedi'u cyllidebu	Alldro gwirioneddol
2016-17	£1.3 miliwn	£1.275 miliwn
2017-18	£5.0 miliwn	£4.971 miliwn
Cyfanswm	£6.3 miliwn	£6.246 miliwn

Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)

- 1.26 Mae llythyr cylch gwaith cyntaf ACC yn rhoi manylion cyllideb weithredol ACC ar gyfer ei gyfnod cyfrifyddu cyntaf. Y dyraniadau cyllid yw £1.5 miliwn ar gyfer 2017-18 a £6 miliwn ar gyfer 2018-19, ac maent yn ychwanegol at y costau gweithredu a nodwyd uchod.
- 1.27 Mae'r alldro a'r data ar y rhagolygon sydd ar gael yn dangos y disgwylir i ACC fodloni'r dyraniadau hyn. Roedd gwariant gweithredol ACC yn 2017-18 o fewn y gyllideb, sef £1.497 miliwn, ac roedd ei gyfrifon rheoli ar gyfer mis Awst 2018 yn rhagfynegi y bydd ACC hefyd yn gweithredu o fewn ei ddyraniad ar gyfer 2018-19.

I raddau helaeth, roedd canllawiau gweithredol ACC ar waith ar 1 Ebrill 2018

- 1.28 Mae canllawiau gweithredol ar gyfer trethdalwyr ac ymarferwyr ar gael drwy wefan ACC⁴. Roedd yr holl ganllawiau ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi wedi cael eu drafftio a'u cymeradwyo erbyn 1 Ebrill 2018, ond gwnaeth oediadau wrth eu cyhoeddi arwain at rai dogfennau canllaw nad oeddent wedi cael eu cynhyrchu'n ffurfiol tan Ebrill 2018. Felly, rhoddodd ACC flaenoriaeth i gyhoeddi'r canllawiau yr oedd yn fwy tebygol y byddai eu hangen ar ymarferwyr ym mis Ebrill, gyda defnyddwyr yn gallu cysylltu â desg gymorth ACC i ofyn am fersiynau drafft o unrhyw ganllawiau nad oeddent wedi cael eu cyhoeddi. Mae ACC wedi cynhyrchu un fersiwn o ganllawiau gweithredol, i'w defnyddio gan staff ac ymarferwyr fel ei gilydd, i leihau'r posibilrwydd o gamddealltwriaeth.

4 <https://beta.llyw.cymru/awdurdod-cyllid-cymru/canllawiau-gwasanaethau>

1.29 Wrth iddo ddatblygu ei ganllawiau gweithredol, ceisiodd ACC adborth gan randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas y Gyfraith a chwmnïau gwasanaethau proffesiynol ar gyfer Treth Trafodiadau Tir, a gweithredwyr safleoedd tirlenwi ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi. I sicrhau bod y ganllawiau yn adlewyrchu ystyr yr holl ddeddfwriaeth berthnasol yn gywir, gwnaeth ACC hefyd weithio'n agos gyda swyddogion Trysorlys Cymru a oedd wedi datblygu biliau gwreiddiol Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi.

Ers 1 Ebrill 2018, mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi bod yn gweinyddu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi mewn modd priodol

Mae System Rheoli Trethi ACC wedi bod yn gweithio'n effeithiol ers 1 Ebrill 2018

- 1.30 Mae'r System Rheoli Trethi wedi bod yn gweithio'n effeithiol ers 1 Ebrill 2018, heb unrhyw amhariadau sylweddol ar ei hargaeledd. Yn ogystal, yn ôl pob golwg mae'r rhyngwyneb rhwng y System Rheoli Trethi yn gweithio'n dda, gyda data'n cael ei drosglwyddo rhwng y ddwy system bob awr.
- 1.31 Mae nifer y bobl sydd wedi'u cofrestru i ddefnyddio'r System Rheoli Trethi wedi cynyddu gydag amser, gan gynyddu o 1,200 o ddefnyddwyr cofrestredig ym mis Ebrill 2018 i dros 5,300 ym mis Hydref 2018. Mae dros 97% o ffurflenni Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi bellach yn cael eu ffeilio ar-lein.
- 1.32 Mae ACC wedi contractio'r un cyflenwr ag a ddatblygodd y System Rheoli Trethi i ddarparu cymorth system parhaus o Ebrill 2018. O ystyried yr amserlenni tynn ar gyfer datblygu'r System Rheoli Trethi, a'r ffaith fod y system wedi cael ei dylunio i'r pwrpas, byddai'r risg wedi bod yn rhy uchel pe bai ACC wedi dewis cyflenwr arall. Fodd bynnag, gellir canslo'r contract cymorth ar unrhyw adeg ar fyr rybudd, gan roi hyblygrwydd i ACC benderfynu ynghylch ei anghenion cymorth yn y dyfodol. Bydd yn bwysig i ACC ddatblygu partneriaethau strategol priodol â chyflenwyr digidol, i sicrhau bod systemau'n cael eu datblygu a'u cynnal a'u cadw'n effeithlon ac effeithiol yn y dyfodol.

1.33 Ers mis Ebrill 2018, mae ACC a'i gyflenwr wedi gwneud diweddariadau bach i'r System Rheoli Trethi i wella ymarferoldeb neu gywiro problemau. Mae ACC wedi cynllunio rhaglen waith ar gyfer y cyflenwr i ddatblygu newidiadau manylach i'r system, wedi'i seilio'n rhannol ar yr adborth a gasglwyd gan ddefnyddwyr ar y ffordd mae wedi cael ei gweithredu hyd yn hyn. Mae ACC wedi aros i weithredu newidiadau sylweddol i'r system o fwriad (o gymharu â'r newidiadau hynny a oedd eu hangen i gadw'r system yn weithredol) i sicrhau y gallai'r system weithredu'n effeithiol yn y tymor byr, ac i sicrhau bod adborth a oedd yn cael ei gasglu yn cynrychioli'r rhan fwyaf o'i defnyddwyr.

Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi ymateb yn briodol i adborth mewnol ac allanol drwy wneud newidiadau perthnasol i'w brosesau a'i ganllawiau

- 1.34 Mae'r adborth y mae ACC wedi'i dderbyn ar ei weithrediadau o gyfarfodydd y Fforwm Trethi a chysylltiadau eraill â chwsmeriaid wedi bod yn gadarnhaol at ei gilydd. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod cwsmeriaid yn fodlon ar ansawdd y cymorth a ddarparwyd gan y ddesg gymorth, a'u bod yn derbyn ymatebion manwl i'w hymholiadau.
- 1.35 Mae ACC wedi sefydlu dulliau i gynllunio diwygiadau i'w systemau a'i brosesau. Mae staff ACC yn cofnodi adborth mewnol ac allanol ar ei brosesau, yn ystyried unrhyw themâu cyson sy'n codi o'r adborth, ac yn codi 'ceisiadau am newid' pan fydd angen. Fel y mae **Arddangosyn 8** yn dangos, mae'r ceisiadau am newid hyn yn cael eu hystyried fel sy'n briodol:

Arddangosyn 8: ystyried ceisiadau am newid

Enw	Camau gweithredu wedi'u hawdurdodi
Y Tîm Newid	Mae'r tîm hwn yn derbyn yr holl geisiadau am newid ac yn awdurdodi newidiadau pan y'u hystyrir yn fuddiol ac y gellir eu gweithredu heb gost ychwanegol.
Y Grŵp Rheoli Newid	Mae'r grŵp hwn yn derbyn ceisiadau am newid sydd wedi cael eu hatgyfeirio gan y Tîm Newid ac y mae angen eu hystyried ymhellach, a gall gymeradwyo ceisiadau am newid nad ydynt yn cynnwys cost ychwanegol.
Pwyllgor y Portffolio Newid	Mae'r pwyllgor hwn yn adolygu unrhyw geisiadau am newid eraill sydd wedi cael eu hatgyfeirio gan y Grŵp Rheoli sy'n cynnwys cost ychwanegol, ac yn eu blaenoriaethu yn unol â'i strategaeth a'r cyllid sydd ar gael.








Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

- 1.36 Mae ACC wedi ymateb yn brydlon i adborth gan gwsmeriaid. Er enghraifft, ym mis Mai 2018, dywedodd llawer o weithredwyr safleoedd tirlenwi wrth ACC nad oedd uwchbridd yn gymwys ar gyfer rhyddhad adfer safle o dan y gyfraith, er bodolaeth rheoliadau amgylcheddol yn gwneud ei ddefnyddio'n ofynnol. Ym mis Hydref 2018, cytunodd y Cynulliad Cenedlaethol i ddiwygio Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, gan ganiatáu hawlio'r rhyddhad hwn am uwchbridd yr eir ag ef i safle tirlenwi.
- 1.37 Mewn ymateb i adborth defnyddwyr, mae ACC hefyd wedi ystyried eu gweithrediadau a, lle bo hynny'n briodol, wedi'u diwygio. Er enghraifft, nododd ACC fod cyfran uchel o'r ymholiadau roedd yn eu derbyn yn gysylltiedig â thrafodiadau cyfradd uwch Treth Trafodiadau Tir. Mewn ymateb, mae ACC wedi trefnu tair gweminar ar gyfraddau uwch Treth Trafodiadau Tir i ddarparu cyngor a rhoi cymorth i ymarferwyr.

Mae recriwtio wedi parhau ar gyflymder priodol er mwyn cynnal gweithrediadau ACC

- 1.38 Mae strategaeth recriwtio ACC wedi parhau i fod yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion y busnes, gydag amcangyfrif o 30% o'r holl staff yn cael eu cyflogi ar sail benthyg ar ôl i recriwtio cychwynnol gael ei gwblhau. Mae ACC yn disgwyl y bydd y gwaith o recriwtio ar gyfer yr holl swyddi sydd ar ôl wedi'i gwblhau erbyn 31 Mawrth 2019. Ar adeg ein gwaith maes, roedd 11 o swyddi gwag ar ôl o gyfanswm o 77 swydd yn y sefydliad (cyfartal â 75 o staff cyfwerth ag amser llawn), fel y dangosir yn **Arddangosyn 9** isod

Arddangosyn 9: cyfran y swyddi wedi'u llenwi ar bob lefel ACC

	<u>Uwch Wasanaeth Sifil</u>	100%	3 Swydd	
	<u>Gradd 6</u>	100%	8 Swydd	
	<u>Gradd 7</u>	100%	15 Swydd	
	<u>Uwch-swyddog Gweithredol (SEO)</u>	68%	19 Swydd	6 i'w llenwi
	<u>Swyddog Gweithredol Uwch (HEO)</u>	92%	12 Swydd	1 i'w llenwi
	<u>Swyddog Gweithredol</u>	70%	10 Swydd	3 i'w llenwi
	<u>TS</u>	90%	10 Swydd	1 i'w llenwi

Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)

1.39 Nid yw ACC wedi cael llawer o anhawster wrth ddenu recriwtiaid. Ar gyfartaledd, derbyniodd ACC 18 o geisiadau am bob swydd, gydag un ymgyrch recriwtio yn derbyn 241 o geisiadau. Mae ACC yn sefydliad bach ac arbenigol ac mae ganddo bobl sy'n cynrychioli 16 o'r 28 'proffesiwn llywodraethol' yn y Gwasanaeth Sifil o fewn ei weithlu cyfredol⁵.

5 Mae 'proffesiynau llywodraethol' yn broffesiynau a gydnabyddir o fewn Gwasanaeth Sifil y DU, o gyfathrebwyr a pheirianwyr, i reolwyr caffael a chyfreithwyr.

Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi darparu hyfforddiant ar gyfer staff un unol â chynllun y cytunwyd arno er mwyn cynnal gweithrediadau allweddol

1.40 Mae ACC wedi blaenoriaethu'r gwaith o ddarparu hyfforddiant ar gyfer ei staff i gyd-fynd â datblygiad parhaus y sefydliad. Mae ACC wedi datblygu dull fesul cam ar gyfer darparu hyfforddiant (ar wahân i hyfforddiant ymsefydlu ar gyfer staff newydd), fel yr amlinellir yn **Arddangosyn 10**.

Arddangosyn 10: blaenoriaethau hyfforddiant ar gyfer ACC

Cam â blaenoriaeth	Hyfforddiant i'w ddarparu
Cam un	Darparu staff gweithredol sy'n meddu ar y wybodaeth i weinyddu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi o 1 Ebrill 2018.
Cam dau	Rhoi sylw i unrhyw fylchau sgiliau sydd gan recriwtiaid newydd yn erbyn gofynion y swydd.
Cam tri	Galluogi ACC i gyflawni ei gyfrifoldebau corfforaethol mewn meysydd megis diogelu data a rhyddid gwybodaeth.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.41 Bydd cam pedwar yn dechrau cyn bo hir, gyda rhagor o bwyslais ar anghenion datblygu personol. Bydd y cam hwn yn bwysig i ACC gan y dylai datblygu pobl a thimau'n effeithiol sicrhau ei fod yn gallu parhau i recriwtio a chadw staff o'r radd flaenaf, a bydd yn faes allweddol i'r sefydliad ganolbwyntio arno wrth iddo symud ymlaen. Fel rhan o hyn, bydd angen i ACC ddatblygu mecanwaith i werthuso canlyniadau rhaglenni dysgu a datblygu y mae'n eu darparu neu eu comisiynu.

Mae trefniadau priodol wedi cael eu gwneud i rannu data sy'n codi o drafodiadau Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi â rhanddeiliaid

1.42 Mae data ystadegol ar Dreth Trafodiadau Tir yn cael ei gyhoeddi'n fisol, ynghyd ag adroddiadau naratif bob chwarter. Mae adroddiadau a data ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi yn cael eu cyhoeddi bob chwarter. Mae'r data sy'n cael ei gyhoeddi'n ymwneud â'r dreth sy'n daladwy gan weithgareddau trethadwy sy'n gysylltiedig â'r cyfnod perthnasol.


- 1.43 Mae ACC yn rhoi'r data hwn i Drysorlys Cymru yn yr un fformat ag y mae'n cael ei gyhoeddi ar ei wefan. Mae ACC a Thrysorlys Cymru wedi gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod y data sy'n cael ei gynhyrchu yn bodloni anghenion rhagfynegi Llywodraeth Cymru, wrth sicrhau bod cyfrinachedd trethdalwyr yn cael ei ddiogelu drwy gyfuno data ar gyfer Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi a pheidio â rhoi manylion trafodiadau trethdalwyr unigol.
- 1.44 Roedd arwyddion cynnar yn awgrymu bod data ACC yn darparu mewnwelediad defnyddiol ar gyfer Trysorlys Cymru. Er enghraifft, mae'r data ar Dreth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer chwarter cyntaf 2018-19 yn dangos lefel o gyllid treth a oedd cryn dipyn yn uwch nag a ragfynegwyd. Mae data ACC yn rhoi'r wybodaeth gyntaf am gyllid i Drysorlys Cymru sy'n ymwneud â safleoedd tirlenwi yng Nghymru, gan nad oedd unrhyw ddata penodol i Gymru ar gael o dan dreth dirlenwi'r DU. Wrth adolygu'r data hwn, penderfynodd Trysorlys Cymru ddiwygio ei ragolygon ar gyfer cyllid Treth Gwarediadau Tirlenwi ar gyfer 2019-20, gan ei godi £14 miliwn.
- 1.45 Mae ACC a Thrysorlys Cymru hefyd yn adolygu'r ffordd orau o rannu data yn y modd mwyaf effeithiol. Roedd data ar Dreth Trafodiadau Tir yn arfer cael ei gyhoeddi tua phythefnos ar ôl diwedd pob mis, ond roedd y cyflymder hwn yn arwain at ddiwygiadau sylweddol i'r data hwn yn y misoedd dilynol (oherwydd bod gan dalwyr Treth Trafodiadau Tir hyd at 30 diwrnod i gyflwyno ffurflen ar ôl trafodiadau). O ganlyniad, mae ACC bellach yn cyhoeddi data ar Dreth Trafodiadau Tir tua wythnos yn hwyrach, gan leihau'r diwygiadau i ddata i lefel resymol ar gyfer Trysorlys Cymru. Mae ACC hefyd yn bwriadu cyhoeddi crynodebau data blynyddol ar gyfer Treth Gwarediadau Tirlenwi a Threth Trafodiadau Tir ym mis Mai 2019 a mis Mehefin 2019 yn y drefn honno, ar gyfer Trysorlys Cymru a'r cyhoedd.
- 1.46 Mae CThEM yn derbyn data ar Dreth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi gan ACC bob wythnos, i'w ddefnyddio mewn gwaith cydymffurfio ac yn ei gyhoeddiadau ystadegol ei hun. Mae ACC hefyd yn cysylltu â rhanddeiliaid posibl eraill i nodi pa ddata y byddai'n ddefnyddiol ei rannu yn y dyfodol. Yn bennaf, mae ACC wedi canolbwyntio ar ddatblygu a mireinio ei setiau data ei hun, wrth hefyd sicrhau bod cyfrinachedd y trethdalwr yn cael ei ddiogelu. Yn y dyfodol, mae ACC yn bwriadu sefydlu grŵp defnyddwyr data gyda holl dderbynyddion ei ddata er mwyn dysgu gwersi, rhannu materion perthnasol a derbyn adborth.

Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi cymryd camau priodol i'w alluogi i ymateb i ddatblygiadau yn y dyfodol, gan gynnwys gweithio gyda Thrysorlys Cymru pan fo hynny'n briodol, ac mae ganddo feysydd allweddol eraill i ganolbwyntio arnynt wrth iddo barhau i ddatblygu

Mae Trysorlys Cymru ac Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi mabwysiadu strwythur cydlywodraethu ar gyfer datganoli cyllidol yng Nghymru sy'n caniatáu i'r ddau gorff nodi ac ymateb i ddatblygiadau posibl

1.47 Mae Trysorlys Cymru ac ACC wedi gweithio gyda'i gilydd i sefydlu strwythur cydlywodraethu, gan sicrhau bod y berthynas weithio a ddatblygwyd o dan Raglen Gyflawni ACC yn parhau wrth i ACC esblygu, wrth gynnal lefel briodol o annibyniaeth. Mae'r strwythur 'cydadrodd a phartneriaeth' hwn yn cael ei grynhoi yn **Arddangosyn 11** isod.

Arddangosyn 11: strwythur cydlywodraethu ACC / Trysorlys Cymru



Ffynhonnell: Awdurdod Cyllid Cymru (ACC)/Llywodraeth Cymru

- 1.48 Fel yr amlinellir yn y Ddogfen Fframwaith, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn cwrdd â chadeirydd ACC o leiaf pedair gwaith y flwyddyn i ystyried perfformiad ACC ac i asesu sut mae'r bartneriaeth â Thrysorlys Cymru yn datblygu.
- 1.49 Wedyn mae grŵp partneriaeth yn cwrdd sy'n cynnwys Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru, cyfarwyddwr Trysorlys Cymru, a chadeirydd a phrif weithredwr ACC. Cytunodd y grŵp ar ei gylch gorchwyl ym mis Gorffennaf 2018 ac mae'n cwrdd bob chwarter i drafod perfformiad a strategaeth ACC, gan geisio cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac ACC a manteision y gwaith partneriaeth hwnnw. Gall y grŵp hefyd weithredu fel llwybr uwchgyfeirio pan fo hynny'n angenrheidiol ac yn briodol – er enghraifft, wrth adolygu'r gwasanaethau mae Llywodraeth Cymru yn eu darparu ar gyfer ACC.
- 1.50 Mae pum gweithgor yn bwydo i'r grŵp partneriaeth, fel y'u rhestrir yn **Arddangosyn 12** isod.

Arddangosyn 12: gweithgorau ar y cyd rhwng ACC a Thrysorlys Cymru

Gweithgor	Swyddogaeth
Y Grŵp Llywio Partneriaeth	Goruchwylio'r pedwar is-grŵp isod, gan sicrhau eu bod yn cyflawni rhaglen briodol o waith ar y cyd rhwng ACC a Thrysorlys Cymru.
Polisi	Ystyried, gwneud sylwadau a rhoi cyngor ar bolisiau treth ar draws ACC, Trysorlys Cymru ac Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol.
Cyfathrebu	Sicrhau bod cyfathrebu mewnol ac allanol y ddau gorff yn gyson, a gwerthuso gweithgareddau cyfathrebu.
Partneriaeth Gorfforaethol	Gwneud y trefniadau llywodraethu a gweithredol sydd eu hangen i sicrhau bod gweithio ar y cyd yn llwyddiant.
Data	Darparu fforwm ar gyfer rhannu materion data a'r arferion gorau, gan gynnwys sut y gellir casglu data mewn modd mwy cyson.

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

1.51 Mae'r strwythur hwn yn galluogi'r ddau gorff i weithio gyda'i gilydd, yn enwedig ar ddatblygu meysydd megis polisïau treth a rhannu data. Mae ACC a Thrysorlys Cymru yn parhau i egluro'r trefniadau cydlywodraethu wrth i'r ddau sefydliad esblygu. Dylai'r ymagwedd hon tuag at weithio ar y cyd ac mewn modd agored sicrhau bod y ddau barti yn cadw eu hannibyniaeth ond yn parhau i fod mewn sefyllfa dda i ymateb mewn partneriaeth i ddatblygiadau neu newidiadau mewn trethi yn y dyfodol.

Mae Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) wedi dylunio systemau a phrosesau hyblyg a fydd yn ei gynorthwyo i ymateb i newidiadau neu ddatblygiadau yn y dyfodol

1.52 Mae ACC wedi sefydlu prosesau priodol i alluogi risgiau strategol i gael eu hasesu yn rheolaidd ac yn fanwl. Mae'r Tîm Arwain (a adwaenid fel y Pwyllgor Gweithredol yn flaenorol) yn paratoi ac yn monitro Cofrestr Risg Gorfforaethol ACC, sy'n cael ei hadolygu'n gyfnodol gan fwrdd a Phwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ACC.

1.53 Mae systemau TG ACC yn seiliedig yn llawn ar y cwmwl, heb unrhyw seilwaith ffisegol o gwbl. Ar yr amod fod gan staff fynediad at gysylltiad diogel â'r rhyngwyd, gallant weithio mewn lleoliadau gwahanol os oes angen. Mae'r system hon eisoes wedi cael ei phrofi gan dywydd gwael a chan yr angen i wacáu swyddfa yn gynnar yn 2018. Ar y ddau achlysur, roedd staff yn gallu gweithredu cynlluniau wrth gefn drwy weithio mewn lleoliadau gwahanol, gan barhau i ddarparu gwasanaeth ar gyfer cwsmeriaid.

1.54 Mae natur system gyllid ACC yn hyblyg hefyd. Gweithiodd ACC gyda chyflenwr arbenigol i ddatblygu ei feddalwedd gyllid ei hun, gan fapio anghenion cyfredol y system ac anghenion posibl ar gyfer y dyfodol – cafodd y rhain eu hymgorffori wrth iddi gael ei datblygu. Mae bellach gan ACC gontract cymorth parhaus gyda datblygwr y system, sy'n ei ganiatáu i wneud y newidiadau i'r system sydd eu hangen yn gyflym ac yn hawdd.

1.55 Mae'r System Rheoli Trethi yn system a adeiladwyd i'r pwrpas wedi'i dylunio yn benodol at ddibenion gweithredol ACC. Mae datblygwr y system bellach yn darparu cymorth parhaus i ACC, ac mae wedi gwneud newidiadau priodol i gywiro problemau bach yn y system ers 1 Ebrill 2018. Yn yr un modd â'r system gyllid, mae'r contract cymorth gyda'r chyflenwr yn caniatáu i ACC wneud newidiadau i'r system pan fydd angen.

1.56 O ystyried maint cymharol fach ACC, mae staff ar fenthyg yn darparu sgiliau a phrofiad gwerthfawr. Pan fydd y broses recriwtio wedi'i chwblhau, mae ACC yn amcangyfrif y bydd yn cyflogi 30% o'i staff ar sail benthyg. Mae ACC yn gyfforddus o ran cadw'r gyfran hon i sicrhau bod ei strwythur staffio'n ddigon hyblyg.

Tudalen y pecyn 132

1.57 Mae bwrdd ACC wedi sefydlu Pwyllgor Pobl, sy'n canolbwyntio ar y gwaith o recriwtio a chadw staff. Mae staff ACC bellach yn rhannu rhai cyfrifoldebau rhwng rolau swyddi i drosglwyddo gwybodaeth ac i alluogi cynllunio ar gyfer olyniaeth. Mae rhannu cyfrifoldebau rhwng staff yn y ffordd hon wedi helpu ACC i reoli cynllunio ar gyfer olyniaeth a dilyniant busnes, ac mae wedi darparu cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol.

Mae angen i Awdurdod Cyllid Cymru (ACC) ystyried rhai materion pwysig wrth symud ymlaen wrth iddo ddatblygu ei Gynllun Corfforaethol tair blynedd

1.58 Roedd Cynllun Corfforaethol ACC ar gyfer 2018-19 yn amlinellu sut roedd yn bwriadu cyflawni ei flaenoriaethau yn ystod ei flwyddyn gyntaf o weithredu. Mae deddfwriaeth bellach yn ei gwneud yn ofynnol i ACC gynhyrchu Cynllun Corfforaethol tair blynedd sy'n cynnwys 2019-2022, y mae'n rhaid iddo gael ei gyflwyno i'w gymeradwyo gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid erbyn 31 Mawrth 2019. Bydd gwaith ACC wrth ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig hwn yn hanfodol wrth ffurfio ei ddull strategol.

1.59 Rydym wedi nodi rhai meysydd pwysig y bydd yn rhaid i Gynllun Corfforaethol 2019-2022 eu cynnwys, fel y'u hamlinellir yn **Arddangosyn 13** isod:

Arddangosyn 13: meysydd i Gynllun Corfforaethol ACC ar gyfer 2019-2022 roi sylw iddynt

Maes o dan sylw	Manylion
Diffinio diben ACC	Mae ACC wedi gweithio i gadarnhau ei ddiben sefydliadol. Bydd gwneud hyn yn pennu cwmplas ei strategaeth a'i weithgareddau ar gyfer y cyfnod o dair blynedd nesaf, ac ar hyn o bryd mae ACC yn cynnal gwaith ymgysylltu ehangach ar ei ddatganiad o ddiben.
Nodi mesurau perfformiad ar gyfer ACC	Gwnaeth y Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2018-19 amlinellu mesurau perfformiad posibl ar gyfer ACC. Mae ACC yn datblygu fframwaith perfformiad i asesu cynnydd ac i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon dros y blynyddoedd nesaf. Mesur nodedig o fewn y fframwaith fydd 'lleihau risg treth', lle mae ACC yn ceisio mesur ei effeithiolrwydd wrth helpu trethdalwyr i dalu'r maint cywir o dreth ar yr adeg gywir. Byddai hyn yn fesur perfformiad arloesol ar gyfer awdurdod treth a byddai angen ei gynllunio'n ofalus.

Tudalen y pecyn 133

Maes o dan sylw	Manylion
Dull ar gyfer ymdrin â 'risg treth'	Gydag ACC bellach yn casglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi, bydd yn rhaid iddo ddatblygu strategaeth ar gyfer 'risg treth' (y risg nad yw trethdalwyr yn talu'r maint cywir o dreth ar yr adeg gywir). Byddai dull o'r fath yn unol â'r 'dull ACC' a amlinellir yn ei Gynllun Corfforaethol ar gyfer 2018-19.
Costio gweithgareddau ACC	<p>Mae cyllideb ACC ar gyfer 2019-20 wedi cael ei gosod ar £6 miliwn. Yn ystod y cyfnod cynnar hwn o'i ddatblygiad, mae ACC yn parhau i fireinio ei ddealltwriaeth o'i sylfaen gostau. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau'n rhoi pwysau ariannol ar ACC, megis dyfarniadau cyflog sydd ar y gweill, symudiadau yn y raddfa gyflog, a chyfraniadau uwch at bensiynau gan gyflogwyr.</p> <p>Bydd angen i ACC nodi ei sylfaen gostau ar gyfer 2019-22 cyn gynted ag y bo modd a chytuno ar ba weithgaredd (os oes un) a fydd yn cael blaenoriaeth fel rhan o'i Gynllun Corfforaethol, a'r gyllideb a wneir ar gael gan Lywodraeth Cymru ar ôl 2019-20.</p>
Strategaeth ar gyfer datblygu a chymorth digidol	Mae ACC yn dyheu am gynyddu ei gapasiti digidol. Fel sefydliad bach, ni all gyflogi'r holl arbenigwyr digidol sydd angen arno'n uniongyrchol. Bydd angen i ACC sefydlu strategaeth sy'n cyfuno arbenigedd mewnol â mewnbyn gan gyflenwyr allanol, i sicrhau bod ei systemau'n parhau i fod yn weithredol ac y gellir gwneud datblygiadau yn ôl yr angen.
Datblygu fframwaith polisi mewnol	<p>Mae ACC wedi mabwysiadu'r rhan fwyaf o'i bolisïau gweithredol mewnol yn uniongyrchol o bolisïau cyfatebol yn Llywodraeth Cymru. Mae wedi bod yn ymarferol wrth ddatblygu ei bolisïau pwrpasol ei hun, gan flaenoriaethu meysydd gwaith sy'n benodol i ofynion ACC neu weithrediadau casglu trethi'n gynnar.</p> <p>Bydd angen i ACC gadarnhau sut mae'n bwriadu datblygu a chadarnhau ei fframwaith polisi wrth i'r sefydliad esblygu.</p>

Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Rhan 2

Mae gan Drysorlys Cymru drefniadau priodol ar waith i dderbyn sicrwydd ynghylch y ffordd mae CThEM yn gweithredu cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC)



- 2.1 Mae'r adran hon o'r adroddiad yn adolygu trefniadau Trysorlys Cymru i gael sicrwydd ynghylch y ffordd mae CThEM yn gweithredu CTIC. Nid yw'n ystyried gwaith CThEM i weithredu CTIC yn uniongyrchol – mae'r mater hwnnw yn destun adroddiad arall gan y Swyddfa Archwilio Gwladol.
- 2.2 Bydd adroddiad y Swyddfa Archwilio Gwladol yn cynnwys trosolwg o weithgareddau prosiect CTIC yn ystod 2017-18, gan gynnwys y gwaith o lywodraethu'r prosiect a'r cynnydd a wnaed ar weithgareddau allweddol megis nodi trethdalwyr, cyfathrebu a darparu gwasanaethau TG. Bydd hefyd yn ceisio rhoi sicrwydd ynghylch y costau yr aethpwyd iddynt gan CThEM, sydd wedi cael eu trosglwyddo i Lywodraeth Cymru.

Mae cynlluniau ar waith i basio'r cynnig Cymreig sydd ei angen i gyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC), gyda'r mwyafrif o ddeddfwriaeth y DU eisoes wedi cael ei phasio

Mae'r rhan fwyaf o ddeddfwriaeth y DU sydd ei hangen i sefydlu ac i gyflwyno cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) eisoes wedi cael ei phasio

- 2.3 Yn rhannol yn unig y mae CTIC wedi cael eu datganoli i Gymru, ac, o ganlyniad, mae treth incwm yn parhau i gael ei gweinyddu gan Lywodraeth y DU. Felly, mae'r rhan fwyaf o'r ddeddfwriaeth a oedd ei hangen i weithredu CTIC wedi cael ei phasio gan Lywodraeth y DU.
- 2.4 Mae Deddf Cymru 2014, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cymru 2017, yn cadarnhau bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i basio cynnig i bennu CTIC. Mae'r ddeddf hon yn diffinio trethdalwr Cymru, gan amlinellu mesurau i asesu a yw unigolyn yn preswyllo yng Nghymru at ddibenion treth incwm. Mae wedyn yn sefydlu'r broses ar gyfer pennu CTIC ar gyfer cyfraddau treth sylfaenol, uwch ac ychwanegol.
- 2.5 Er y ffaith fod Deddf Cymru 2014 wedi sefydlu'r cysyniad o CTIC a diffinio eu prosesau, mae angen rhagor o newidiadau technegol i ddeddfwriaeth y DU. Mae'r newidiadau hyn yn adlewyrchu lle mae pwerau newydd y Cynulliad Cenedlaethol i bennu cyfraddau'n rhyngweithio â rhannau eraill o'r system treth incwm (megis Rhodd Cymorth a rhyddhad treth ar bensynau). Yn dilyn proses ymgynghori technegol ar y meysydd hyn, cyflwynodd CThEM ddau offeryn statudol ym mis Rhagfyr 2018 y disgwylir iddynt gael eu pasio gan Lywodraeth y DU ym mis Ionawr 2019:
 - a Gorchymyn Cyfraddau Treth Incwm Datganoledig (Diwygiad Canlyniadol) 2018
 - b Rheoliadau Treth Incwm (Talu Wrth Ennill) (Diwygiad Rhif 2) 2018

Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn ystyried cynnig i gymeradwyo cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) ym mis Ionawr 2019


- 2.6 Mae Deddf Cymru 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad Cenedlaethol basio cynnig i bennu CTIC bob blwyddyn ariannol. O dan Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru, rhaid i'r cynnig i bennu CTIC gael ei basio cyn y cytunir ar Gynnig y Gyllideb Flynyddol bob blwyddyn. O ganlyniad, ar gyfer 2019-20 bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn ystyried cynnig i bennu CTIC mewn Cyfarfod Llawn ym mis Ionawr 2019, yn uniongyrchol cyn pleidleisio ar Gynnig y Gyllideb Flynyddol. Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid gynneg cyfraddau cyntaf Cymru fel rhan o'r gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 2 Hydref 2018.
- 2.7 Bydd y cynnig hwn, os yw'n cael ei gymeradwyo, yn gweithredu CTIC yn ffurfiol o 6 Ebrill 2019 ac ni fydd angen deddfwriaeth bellach, oni bai fod newidiadau eraill i ddeddfwriaeth treth ar gyfer y DU gyfan. Er nad yw Trysorlys Cymru yn rhagweld unrhyw oediadau wrth gymeradwyo'r cynnig hwn ar hyn o bryd, gallai unrhyw broblemau gael effaith ar brosiect CThEM ar gyfer CTIC, drwy gyfyngu'r amser sydd ar gael i brosesu newidiadau i CTIC ar ei systemau ei hun.

Mae Trysorlys Cymru yn cymryd rhan weithredol yn y trefniadau llywodraethu i drosglwyddo'r cyfrifoldebau am gyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) i Gymru

Mae CThEM wedi sefydlu prosiect i sefydlu CTIC ac mae Trysorlys Cymru yn mynychu bwrdd y prosiect

- 2.8 Sefydlodd Trysorlys Cymru a CThEM Fwrdd Rhaglen Datganoli Trethi Cymru ym mis Gorffennaf 2017. Roedd y bwrdd hwn yn darparu goruchwyliaeth uwch ar gyfer byrddau trawsnewid treth dir y dreth stamp a'r dreth dirlenwi yn ystod y paratodau ar gyfer cyflwyno Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi ac mae'n parhau i oruchwyllo bwrdd prosiect CTIC. Nid yw ACC yn cymryd rhan yn y gwaith o lywodraethu neu weinyddu CTIC.
- 2.9 Ym mis Rhagfyr 2017, cytunwyd ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Llywodraeth Cymru a CThEM, gan amlinellu'r gwahanol weithdrefnau, prosesau a chyfrifoldebau ar gyfer sefydlu a gweithredu CTIC. Mae'r strwythur llywodraethu a sefydlwyd ar gyfer prosiect CTIC yn cael ei ddangos yn **Arddangosyn 14** isod.

Arddangosyn 14: strwythur llywodraethu prosiect CTIC



Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 2.10 Ar ôl i Fwrdd Rhaglen Datganoli Trethi Cymru gadarnhau bod bwrdd prosiect CTIC wedi cyflawni ei amcanion, bydd CThEM a Thysorlys Cymru yn cymeradwyo'r trosglwyddiad i CTIC yng ngwanwyn 2019, gyda llythyrau Gweinidogion yn cael eu cyfnewid wedyn.
- 2.11 Pan fydd CTIC yn barod i gael eu sefydlu ym mis Ebrill 2019, bydd Trysorlys Cymru a CThEM yn cadarnhau cytundeb lefel gwasanaeth sy'n amlinellu'r trefniadau ar gyfer gweinyddu CTIC yn barhaus. Mae bwrdd prosiect CTIC wedi dechrau ystyried gofynion manwl y cytundeb lefel gwasanaeth hwn, y bydd yn rhaid iddo gael ei derfynu erbyn 6 Ebrill 2019. Bydd angen cadarnhau hefyd y strwythur llywodraethu ar gyfer gweinyddu CTIC yn y dyfodol, o 2019-20.

Mae Trysorlys Cymru yn defnyddio strwythur llywodraethu'r prosiect i ddylanwadu ar drafodaethau ac i godi materion sy'n peri pryder

- 2.12 Mae bwrdd prosiect CTIC yn cwrdd bob mis ac mae'r cyfarfod yn cael ei fynychu gan swyddogion o CThEM, Trysorlys Cymru, Swyddfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod y gwaith manwl a'r ffordd y mae'r prosiect yn cael ei gyflawni'n cael eu goruchwyllo, ac yn darparu cyfleoedd i bob parti sy'n gysylltiedig adolygu'r cynnydd, craffu a herio fel sy'n briodol.

- 2.13 Ers mis Mehefin 2018, mae Trysorlys Cymru wedi cyflwyno papur diweddarau fel eitem sefydlog ar gyfer cyfarfodydd bwrdd prosiect CTIC. Mae'r papurau hyn yn amlinellu'r datblygiadau diweddaraf ers y cyfarfod blaenorol, gan gynnwys unrhyw gyfathrebu ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Cynulliad Cenedlaethol ac adborth ganddynt. Mae'r eitem sefydlog hon yn sicrhau bod Trysorlys Cymru yn gallu codi problemau a meysydd sy'n peri pryder a bod camau gweithredu'n cael eu cofnodi ac yn derbyn sylw.
- 2.14 Gall bwrdd prosiect CTIC uwchgyfeirio unrhyw broblemau risg uchel neu faterion sy'n peri pryder i Fwrdd Rhaglen Datganoli Trethi Cymru i'w hystyried ymhellach neu i gymryd camau. Mae'r cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru a dirprwy gyfarwyddwr yr Is-adran Drethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu yn mynychu'r cyfarfodydd hyn, a gallant godi unrhyw bryderon gan Drysorlys Cymru yn y fforwm hwn.
- 2.15 Yn ogystal â chyfarfodydd a drefnir, mae swyddogion o CThEM a Thysorlys Cymru yn cysylltu'n rheolaidd yn anffurfiol i godi unrhyw bryderon uniongyrchol ac i gydlynu prosiect CTIC yn gyffredinol. Mae swyddogion Trysorlys Cymru o'r farn fod perthnasau gweithio da wedi cael eu sefydlu ar bob lefel i ategu'r gwaith o drosglwyddo i CTIC mewn modd esmwyth.

Mae Trysorlys Cymru yn ceisio sicrwydd priodol ynghylch prosesau CThEM ar gyfer nodi trethdalwyr Cymru

Mae CThEM wedi sefydlu dulliau ar gyfer nodi trethdalwyr Cymru ac wedi'u rhannu â Thrysorlys Cymru

- 2.16 Gyda'r awdurdod cyffredinol i weinyddu treth incwm, mae CThEM yn gyfrifol am nodi trethdalwyr Cymru o 6 Ebrill 2019 a'r tu hwnt. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud bod nodi trethdalwyr Cymru yn gywir yn un o'i blaenoriaethau er mwyn gweithredu CTIC yn llwyddiannus.
- 2.17 Nid ymarfer a gynhaliwyd unwaith yn unig cyn 6 Ebrill 2019 yw nodi trethdalwyr. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn amcangyfrif bod tua 57,000 o bobl yn symud i Gymru bob blwyddyn, gyda nifer tebyg yn gadael. Mae hyn o'i gymharu â thua 40,000 ym mhob cyfeiriad ar gyfer yr Alban. Gyda niferoedd uchel o'r fath yn symud dros y ffin, mae angen i brosiect CTIC sicrhau bod gan CThEM systemau ar waith i nodi talwyr treth incwm Cymru'n gywir dros gyfnod o amser.

- 2.18 Mae CThEM wedi sefydlu dull ar gyfer nodi trethdalwyr sy'n dod o fewn cwmpas CTIC, ac wedi nodi dros ddwy filiwn o bobl y mae'n bosibl y bydd cyfraddau treth incwm Cymru yn berthnasol iddynt (65% o boblogaeth Cymru). Mae hyn yn cynnwys pobl sy'n talu treth incwm ar hyn o bryd, a phobl nad ydynt ond y mae'n bosibl y gallai CTIC fod yn berthnasol iddynt pe bai eu hamgylchiadau'n newid. Mae'r dull hwn yn cynnwys pedwar cam:
- a adolygu ansawdd data CThEM ar gyfeiriadau i sicrhau bod 91,123 o godau post Cymru yn cael eu dyrannu i'r wlad gywir yn ei systemau. Bydd hyn yn cynnwys chwynnu data i gael gwared ar godau post sydd wedi cael eu dyblygu, dod o hyd i rai sydd ar goll a chywiro rhai sy'n anghywir.
 - b dadansoddi 98 cod post trawsffiniol yn fanwl, i sicrhau bod y 1,090 o adeiladau yn y codau post hynny'n cael eu dyrannu i'r wlad gywir. Mae data Arolwg Ordnans wedi cael ei ddefnyddio i wirio'r wlad gywir i'w defnyddio ym mhob achos.
 - c paru cofnodion cwsmeriaid CThEM â chyfeiriadau'n gywir, i sicrhau bod trethdalwyr Cymru yn cael eu nodi'n gywir. Mae hyn yn cynnwys adolygu data o ffynonellau megis cofrestrï etholiadol, data cyflogwyr a chofnodion y dreth gyngor i gadarnhau a yw trethdalwr o fewn cwmpas CTIC.
 - ch cadw'r cofnodion cwsmeriaid hyn yn gyfredol dros gyfnod o amser. Bydd angen i CThEM adolygu ei ddata ar gyfeiriadau cwsmeriaid yn rheolaidd, er nad oes penderfyniad ynglŷn â pha mor aml y bydd angen gwneud hyn ar hyn o bryd.
- 2.19 Pan oedd yn gweithredu cyfraddau treth incwm yr Alban, i ddechrau roedd CThEM wedi methu nodi 420,000 o drethdalwyr yr Alban. Cododd y broblem hon wrth i CThEM gynnal y trydydd cam o'r ymarfer hwn (paru cofnodion cwsmeriaid â chyfeiriadau) gan sganio ei systemau'n awtomatig. Nid oedd y sgan hwn yn nodi ond cyfeiriadau preswyl a oedd wedi cael eu mewnbynnu mewn fformatau safonol y cytunwyd arnynt, ac roedd yn hepgor y rhai a allai fod wedi eu mewnbynnu â llaw neu drwy ddulliau eraill.
- 2.20 Mae CThEM wedi cadarnhau wrth Drysorlys Cymru a bwrdd prosiect CTIC na ddylai'r broblem hon ddigwydd eto ar gyfer CTIC, gan fod paramedrau'r sgan hwn wedi cael eu gosod i nodi codau post yng Nghymru wedi'u mewnbynnu ym mhob fformat.

Mae Trysorlys Cymru wedi ceisio ac wedyn derbyn cyngor a sicrwydd ynghylch y dulliau a ddefnyddir i nodi trethdalwyr Cymru

- 2.21 Mae'n anodd i Drysorlys Cymru gael sicrwydd cadarn fod dull CThEM ar gyfer nodi trethdalwyr Cymru yn briodol. Mae systemau a data CThEM yn y maes hwn yn rhai pwrpasol ac maent yn sylweddol o ran maint a chymhlethdod – mae'r angen i ddiogelu cyfrinachedd trethdalwyr yn golygu bod gwybodaeth allanol am y systemau yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae Trysorlys Cymru wedi ceisio cyngor a sicrwydd priodol ynghylch y dulliau a gynigiwyd gan CThEM i nodi talwyr treth incwm yng Nghymru.
- 2.22 Mae Trysorlys Cymru yn cymryd rhan weithredol yn strwythurau rheoli prosiect CThEM ar gyfer CTIC. Mae tîm prosiect CTIC Trysorlys Cymru yn mynychu cyfarfodydd bwrdd prosiect CThEM ar gyfer CTIC bob mis, lle y cânt herio a chraffu'n uniongyrchol ar ddulliau CThEM ar gyfer nodi trethdalwyr Cymru. Mewn modd tebyg, caiff y cyfarwyddwr, Trysorlys Cymru a dirprwy gyfarwyddwr yr Is-adran Drethi: Polisi, Strategaeth ac Ymgysylltu godi broblemau neu gwestiynau ar lefel uwch yng nghyfarfodydd rheolaidd Bwrdd y Rhaglen Datganoli Trethi.
- 2.23 Yn ogystal â hyn, mae Trysorlys Cymru wedi ymgynghori ag uned y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi, adran ymchwil ystadegol a dadansoddol Llywodraeth Cymru. Ar ran Trysorlys Cymru, mae'r Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi wedi adolygu dulliau arfaethedig CThEM ar gyfer nodi talwyr treth incwm yng Nghymru. Mae Trysorlys Cymru yn cadarnhau na wnaeth y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi nodi unrhyw bryderon sylfaenol ynghylch y ffyrdd a ddefnyddir i nodi trethdalwyr Cymru.
- 2.24 Mae Trysorlys Cymru hefyd wedi ceisio sicrwydd allanol ychwanegol ynghylch y dull a gynigiwyd gan CThEM yn hyn o beth. Cynhaliwyd Adolygiad Gwirio lechyd CThEM ym mis Mawrth 2018, wedi'i ddilyn ag Adolygiad Sicrwydd Prosiect annibynnol ym mis Hydref 2018. Dyfarnodd yr Adolygiad Sicrwydd Prosiect sgôr 'oren/gwyrdd' i brosiect CTIC ac ni chododd unrhyw bryderon penodol ynghylch dull arfaethedig CThEM ar gyfer nodi trethdalwyr Cymru.

Mae'r dulliau a ddefnyddir i ragfynegi cyllid sy'n daladwy i Gymru drwy gyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) yn briodol, ac mae Trysorlys Cymru yn ymchwilio i ffyrdd o wella data sylfaenol

Gwnaeth Trysorlys Cymru ragfynegi'r cyllid sy'n daladwy drwy gyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) ar gyfer blwyddyn ariannol 2019-20 mewn pryd i'w gynnwys yng nghyllideb Llywodraeth Cymru

- 2.25 Roedd Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2018, yn cynnwys amcangyfrif o gyllid drwy CTIC o £2.1 biliwn. Mae'r amcangyfrif hwn yn seiliedig ar fodel a gafodd ei ddatblygu a'i fireinio gan Drysorlys Cymru i'w ddefnyddio wrth benderfynu ynglŷn â pholisiau a rhagfynegi cyllidebau. Mae model rhagfynegi CTIC yn defnyddio data ar gyfer Cymru o Arolwg CThEM o Incwm Personol, a rhagolygon y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol o dwf mewn cyflogau a chyflogaeth ar gyfer y DU. Mae cyfraddau twf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cael eu cymhwyso i ddata'r Arolwg o Incwm Personol i gyfrifo'r rhagolygon ar gyfer cyllid drwy CTIC. Gan nad oes unrhyw ddata ar ragfynegi twf sy'n benodol i Gymru, defnyddir y rhagolygon ar gyfer y DU gyfan.
- 2.26 Mae gan y model a ddefnyddir ar gyfer rhagfynegi CTIC y gallu i ystyried effaith newidiadau ymddygiadol pan fydd cyfraddau treth yn newid. Gan fod Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwmo i gynnal CTIC ar yr un lefel â chyfraddau treth incwm y DU ar gyfer 2019-20, mae'n disgwyl y bydd unrhyw newidiadau ymddygiadol sy'n codi yn sgil cyflwyno CTIC ar gyfer y flwyddyn honno'n fach iawn. Bydd angen i Drysorlys Cymru ystyried newidiadau ymddygiadol os yw CTIC yn dargyfeirio o weddill y DU. Gallai rhagfynegi effaith newidiadau i ymddygiad ar gyllidau CTIC fod yn anodd, yn enwedig yn ystod y blynyddoedd cynnar, gan fod y dystiolaeth empeiraidd yn gyfyngedig. Yn ogystal, mae'r llifioedd economaidd trawsffiniol presennol yn y ddau gyfeiriad rhwng Cymru a Lloegr yn uwch o lawer na'r rhai rhwng Lloegr a'r Alban.

Mae Prifysgol Bangor wedi darparu sicrwydd ynghylch y rhagolygon ar gyfer y cyllid sy'n daladwy drwy gyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) yn ystod 2019-20

- 2.27 Dyma'r ail flwyddyn y mae Prifysgol Bangor wedi darparu sicrwydd annibynnol ynghylch rhagolygon cyllidol Trysorlys Cymru, ond y flwyddyn gyntaf mae'r rhagolygon hynny wedi cynnwys CTIC. Ym mis Hydref 2018, gwnaeth Prifysgol Bangor gyhoeddi ei hadroddiad craffu ochr yn ochr â Chyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20, gan ddod i'r casgliad 'fod y rhagolygon yn seiliedig ar fethodolegau a thybiaethau cadarn a phriodol'.
- 2.28 Ym mis Gorffennaf 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid y byddai'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn cynhyrchu rhagolygon annibynnol o gyllidau treth o 2020-21, gan gynnwys CTIC, ar gyfer cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn unol â'r Fframwaith Cyllidol y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Fodd bynnag, fel rhan o'r berthynas â'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, bydd swyddogion Trysorlys Cymru yn parhau i chwarae rôl bwysig yn y gwaith o baratoi rhagolygon cychwynnol ar gyfer trethi Cymru. Mae Trysorlys Cymru yn bwriadu cytuno ar Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol ar gyfer trefniadau ar gyfer darparu'r rhagolygon hyn erbyn mis Mawrth 2019.

Mae Trysorlys Cymru yn defnyddio'r data diweddaraf sydd ar gael yn ei ragolygon ar gyfer CTIC, ac mae'n archwilio i ffyrdd o wella'r data hwnnw

- 2.29 Fel y nodwyd ym [mharagraff 2.24](#), mae modelau rhagfynegi CTIC yn defnyddio data sy'n benodol i Gymru o Arolwg CThEM o Incwm Personol. Mae swyddogion Trysorlys Cymru wedi cadarnhau mai dyma'r ffynhonnell ddata orau sydd ar gael at ddibenion dadansoddi. Mae'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol yn defnyddio data'r Arolwg o Incwm Personol ar lefel y DU gyfan i baratoi ei rhagolygon ar gyfer Llywodraeth y DU. Ym mis Hydref 2018, cadarnhaodd CThEM wrth Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei fod yn bwriadu sicrhau bod gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU fynediad at yr un data at ddibenion dadansoddi polisïau a rhagamcanu.

- 2.30 Mae'r data diweddaraf o'r Arolwg o Incwm Personol o 2015-16, ac mae cyfraddau twf y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol wedyn yn cael eu cymhwyso i gyfrifo'r cyllid treth a ragfynegir o 2015-16 i ddiwedd y cyfnod rhagfynegi. Mae oedi o ran argaeledd yr Arolwg o Incwm Personol oherwydd natur y gwaith o gasglu data o hunanasesiadau. Wedyn, nid yw'r data ar gael i Drysorlys Cymru ar unwaith, gan fod CThEM yn creu fersiwn o'r Arolwg o Incwm Personol sy'n diogelu cyfrinachedd trethdalwyr.
- 2.31 Mae swyddogion Trysorlys Cymru wedi pwysleisio pwysigrwydd caffael data cywir ar dreth incwm cyn gynted ag y bo modd, ac argymhellodd Prifysgol Bangor hyn yn eu hadroddiad ym mis Hydref 2018. Felly, mae Trysorlys Cymru yn parhau i gysylltu â CThEM i nodi ffyrdd o wella'r Arolwg o Incwm Personol a chael gafael arno cyn gynted ag y bo modd. Mae hefyd yn ystyried sut i ddefnyddio ffynonellau data newydd posibl yn ei ragolygon, megis gwybodaeth amser real am Dalu Wrth Ennill gan CThEM pan fydd codau treth 'C' wedi cael eu cyflwyno.

Nid yw cyfanswm y gost o weithredu cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) wedi cael ei derfynu hyd yn hyn

Amcangyfrifir bod cyfanswm y gost o weithredu cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) rhwng £7.7 miliwn a £9.7 miliwn, gyda'r rhan fwyaf o'r gost honno yn ymwneud â gweithgareddau CThEM

- 2.32 Mae'r Fframwaith Cyllidol, wedi'i lofnodi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, yn cadarnhau'r canlynol: 'fel y nodwyd yn y Datganiad o Bolisi Cyllido, bydd Llywodraeth Cymru yn cwrdd â'r holl gostau net o ddatganoli[,] gan gynnwys gweithredu a rhedeg cyfraddau treth incwm Cymreig'. Mae Llywodraeth Cymru, felly, yn gyfrifol am dalu holl gostau uniongyrchol ac anuniongyrchol gweithredu CTIC. Mae hyn yn cael ei gadarnhau ymhellach mewn Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng Trysorlys Cymru a CThEM.
- 2.33 O ganlyniad, mae Trysorlys Cymru yn monitro holl gostau gweithredu CTIC mewn modd gweithredol. Ym mis Tachwedd 2018, amcangyfrifwyd bod cyfanswm y gost o weithredu CTIC rhwng £7.7 miliwn a £9.7 miliwn, gyda chostau gwirioneddol o £4.1 miliwn wedi'u cronni hyd yn hyn. Mae hyn yn gadael rhwng £3.6 miliwn a £5.6 miliwn o gostau i'w talu yn ystod gweddill 2018-19 a 2019-20. Mae'r rhan fwyaf o'r cyfanswm hwn yn gysylltiedig â gwaith CThEM ar y prosiect hwn, fel yr amlinellir yn [Arddangosyn 15](#) isod.

Arddangosyn 15: crynodeb o gyfanswm costau prosiect CTIC sy'n daladwy gan Drysorlys Cymru

Costau prosiect yr aethpwyd iddynt gan:	Isafswm cost amcangyfrifedig	Uchafswm cost amcangyfrifedig
CThEM	£7,500,000	£9,500,000
Yr Adran Gwaith a Phensiynau	£189,000	£189,000
Trysorlys Cymru	£36,000	£41,000
Cyfanswm cost prosiect CTIC	£7,725,000	£9,730,000

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

2.34 Dechreuodd CThEM ei brosiect CTIC ym mis Ebrill 2017. Ym mis Medi 2017, rhoddodd amcangyfrif cychwynnol o'i gostau prosiect o rhwng £5 miliwn i £10 miliwn i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad Cenedlaethol. Eglurodd CThEM fod yr amrediad hwn o gostau'n cynnwys cynllun wrth gefn i ystyried y risgiau a'r ansicrwydd sy'n gysylltiedig ag amcangyfrif yn ystod cyfnod mor gynnar yn y prosiect. Ym mis Hydref 2018, mireiniodd CThEM yr amcangyfrif hwn o gyfanswm cost y prosiect i rhwng £7.5 miliwn a £9.5 miliwn, fel y cofnodwyd uchod.

2.35 Mae'r costau ar gyfer yr Adran Gwaith a Phensiynau'n gysylltiedig â'i systemau a'i phrosesau ei hun sy'n codi yn sgil CTIC, tra bo costau mewnol Trysorlys Cymru yn gysylltiedig â gweithgareddau ymgysylltu ac ymwybyddiaeth. Mae CThEM wedyn yn mynd i amryw gategorïau o gostau prosiect CTIC fel y'u hamlinellir yn **Arddangosyn 16**.

Arddangosyn 16: crynodeb o gostau CThEM ar gyfer prosiect CTIC

Cost	Disgrifiad
Costau staff	Cost adnoddau staff CThEM a oedd eu hangen i gyflawni prosiect CTIC, wedi'i chyfrifo gan ddefnyddio canllawiau Trysorlys EM yn 'Rheoli Arian Cyhoeddus'.
Costau eraill nad ydynt yn gostau TG	Cost gweithgareddau i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o CTIC (yn bennaf argraffu a phostio llythyrau hysbysu at drethdalwyr).

Cost	Disgrifiad
Costau gweithredu TG	Costau'r newidiadau TG a oedd eu hangen i adnabod trethdalwyr Cymru, i nodi newidiadau cyfeiriad, ac i bennu cyfraddau treth Cymru.
Costau busnes	Cost adnoddau staff CThEM a oedd eu hangen i ymdrin â chwsmeriaid yn cysylltu o ganlyniad i weithgareddau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd.

Ffynhonnell: Cyllid a Thollau EM

- 2.36 Er bod ystod yr amcangyfrif wedi culhau, roedd rhywfaint o ansicrwydd ynghylch rhai costau yn y dyfodol o hyd. Er enghraifft, roedd cwmplas y gwaith a oedd ei angen i ymgorffori CTIC mewn systemau cyfredol ar gyfer meysydd megis Rhodd Cymorth a rhyddhad treth ar gyfer pensiynau heb ei gwblhau eto.
- 2.37 Yn ogystal, bydd angen gweithredu rhai o'r newidiadau y mae angen eu gwneud i systemau treth incwm CThEM ar gyfer cyfundrefnau treth incwm Cymru a'r Alban. Bydd angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban, ynghyd â CThEM, gytuno ar ffordd o rannu'r costau hyn ac, o ganlyniad, nid yw'n bosibl cadarnhau eto'r costau terfynol i Gymru o ganlyniad i'r newidiadau hyn. Dylai'r costau hyn fod yn gyfran gymharol fach o'r holl gostau gweithredu.
- 2.38 Ar ôl 6 Ebrill 2019, ar hyn o bryd mae CThEM yn amcangyfrif y bydd ei gostau parhaus ar gyfer gweinyddu CTIC yn £0.3 miliwn y flwyddyn. Mae'r costau hyn yn gysylltiedig â CThEM yn sefydlu a chynnal cyfundrefn gydymffurfio barhaus ar gyfer CTIC.

Mae Trysorlys Cymru wedi ceisio cyngor a sicrwydd priodol ynghylch amcangyfrifon Cyllid a Thollau EM o gostau

- 2.39 Mae'n anodd i Drysorlys Cymru gadarnhau rhesymoldeb amcangyfrifon CThEM o gostau yn uniongyrchol, gan fod y costau'n gysylltiedig â systemau a phrosesau addasedig iawn CThEM ei hun. Oherwydd gofynion cyfreithiol i CThEM ddiogelu cyfrinachedd trethdalwyr, mae unrhyw wybodaeth allanol o'i systemau a'i brosesau'n gyfyngedig. Er hyn, mae wedi cymryd camau rhesymol i gael sicrwydd ynghylch yr amcangyfrifon o gost a roddwyd gan CThEM.

- 2.40 Yn gyntaf, mae'r strwythur llywodraethu a sefydlwyd gan CThEM i oruchwylio'r gwaith o weithredu CTIC yn galluogi Trysorlys Cymru i graffu yn uniongyrchol ar yr amcangyfrifon o gost y mae CThEM yn eu cynnig a herio'r costau hynny. Er enghraifft, ar ôl i'r amcangyfrif diwygiedig gael ei gynhyrchu ar gyfer mis Hydref 2018, cafodd aelodau o dîm prosiect CTIC Trysorlys Cymru y cyfle i drafod yr amcangyfrif hwn yng nghyfarfod bwrdd prosiect CTIC ym mis Hydref. Gellir cynnig lefel uwch o her hefyd yng nghyfarfodydd Bwrdd y Rhaglen Datganoli Trethi a gynhelir ar wahân.
- 2.41 Gwnaeth Trysorlys Cymru ymgynghori ag Awdurdod Cynllunio Atebion TG Llywodraeth Cymru (grŵp strategol sy'n goruchwylio'r holl wariant TGCh/digidol) ynghylch ffordd briodol o graffu ar y newidiadau a'r costau cysylltiedig a gynigiwyd gan CThEM. Nododd y cyngor a roddwyd y byddai cost a chymhlethdod cyflogi arbenigwyr mewn pensaernïaeth dechnegol i graffu ar waith a wneir gan CThEM yn gyfyngol, ac na fyddai'n ychwanegu llawer o werth, yn enwedig o ystyried bod tîm CTIC Trysorlys Cymru eisoes wedi ychwanegu arbenigwr TGCh.
- 2.42 Yn ogystal â chryfhau gallu ei dîm CTIC, mae Trysorlys Cymru wedi ceisio sicrwydd mewnol ac allanol ynghylch y prosesau a ddilynwyd gan CThEM i nodi ac i amcangyfrif ei gostau ar gyfer prosiect CTIC. Cynhaliodd CThEM Adolygiad Gwirio lechyd mewnol ym mis Mawrth 2018, a gafodd ei ddilyn gan Adolygiad Asesu Prosiect annibynnol a oedd yn cynnwys CThEM a Thrysorlys Cymru ym mis Hydref 2018. Ni chododd yr Adolygiad Asesu Prosiect diweddaraf unrhyw broblemau penodol ynghylch rhesymoldeb neu gywirdeb y costau prosiect a amcangyfrifir gan CThEM.
- 2.43 Gwnaeth CThEM hefyd ddilyn prosesau sicrwydd mewnol manwl i graffu ar ei gostau prosiect a sicrhau eu bod yn cynrychioli'r gwaith a oedd wedi'i gwblhau. Mae'r broses hon wedi cael ei rhannu'n agored â Thrysorlys Cymru, i'w ganiatáu i gwestiynu a herio'r dull a ddefnyddiwyd. Ymhlith mesurau eraill, mae proses sicrwydd CThEM yn cynnwys:
- a adolygiad o wybodaeth am y farchnad a thueddiadau, a threfniadau cytundebol;
 - b tair lefel o adolygiad mewnol ar gyfer pob 'hysbysiad newid', gan hysbysu Trysorlys Cymru am y costau yr aethpwyd iddynt ar brosiect CTIC; a
 - c chymeradwyaeth derfynol o'r holl hysbysiadau newid gan Fwrdd Adolygu Pensaernïaeth CThEM.

Mae cynlluniau i ymgysylltu â'r cyhoedd yn glir ac yn gymesur ac yn nodi mesurau llwyddiant yn glir

Mae Trysorlys Cymru a Chyllid a Thollau EM yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i gyfathrebu ynghylch cyfraddau treth incwm Cymru (CTIC)

- 2.44 Mae Gweithgor Cyfathrebu CTIC yn gweithredu fel is-grŵp bwrdd prosiect CTIC. Yn cynnwys swyddogion o CThEM, Trysorlys Cymru a rhanddeiliaid eraill, mae'r grŵp hwn yn cwrdd bob mis i gydlynu a monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau cyfathrebu CTIC ar wahân sy'n cael eu cynhyrchu gan Drysorlys Cymru a CThEM. Mae'r gweithgor yn ceisio cydlynu'r cynlluniau ar wahân hyn i osgoi dyblygu ymdrechion.
- 2.45 Ym mis Mehefin 2018, gwnaeth Trysorlys Cymru derfynu ei Gynllun Cyfathrebu ar gyfer CTIC. Mae hon yn ddogfen fyw, sy'n cael ei diweddarau'n rheolaidd gan dîm cyfathrebu Trysorlys Cymru i adlewyrchu'r penderfyniadau a wnaed a'r camau gweithredu a gwblhawyd. Mae'n amlinellu'r negeseuon allweddol sydd i'w lledaenu, y cynulleidfaoedd i ganolbwyntio arnynt, ac amserlen o weithgareddau cyfathrebu.
- 2.46 Mae'r Cynllun Cyfathrebu yn nodi meysydd ar gyfer gweithio ar y cyd gyda phartneriaid, megis tîm cyfathrebu a swyddfa'r wasg Llywodraeth Cymru, i rannu negeseuon am CTIC â rhanddeiliaid yn y ffordd fwyaf priodol. Hefyd, ymgynghorwyd ag ACC i sicrhau, os yw trethdalwyr yn cysylltu ag ef ynghylch CTIC, y dywedir wrthynt am gysylltu â CThEM yn uniongyrchol.

Bydd canlyniadau arolwg yn caniatáu i Drysorlys Cymru fesur ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyfraddau treth incwm Cymru (CTIC) dros gyfnod o amser, a chynllunio gweithgareddau cyfathrebu ar gyfer y dyfodol

- 2.47 Gwnaeth Trysorlys Cymru gomisiynu Beaufort Research i gynnal arolwg sylfaenol, gan ei ganiatáu i asesu effaith ei gynllun cyfathrebu dros gyfnod o amser. Gwnaeth yr arolwg hwn sefydlu gwaelodlin o ymwybyddiaeth o dirwedd treth Cymru a CTIC, yn seiliedig ar 1,006 o gyfweliadau a gynhaliwyd ym mis Mehefin 2018. Dangosodd y canlyniadau fod 24% o boblogaeth Cymru yn ymwybodol fod CTIC yn cael eu cyflwyno, a bod ymwybyddiaeth yn uwch ymhlith pobl hŷn.

2.48 Gwnaeth uned Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi Llywodraeth Cymru adolygu'r ymchwil hon, gan ei chyfuno â data o ffynonellau megis Arolwg Cenedlaethol Cymru i gyhoeddi adroddiad gwaelodlin ar yr ymwybyddiaeth o CTIC, a fydd yn cael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2019. Mae'r ymchwil hon wedi cael ei hystyried fel rhan o gynllun cyfathrebu Trysorlys Cymru ar gyfer CTIC, o ran monitro llwyddiant y gwaith cyfathrebu a nodi cynulleidfaoedd allweddol ar gyfer gweithgareddau yn y dyfodol. Bydd Beaufort Research yn cynnal arolwg newydd ym mis Mawrth 2019, gan roi cyfle i asesu a yw ymwybyddiaeth y cyhoedd o CTIC wedi codi yng Nghymru.

Mae mesurau i ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru yn rhesymol ac yn gydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau a chost

2.49 Ym mis Tachwedd 2018, anfonodd CThEM llythyr hysbysu dwyieithog at dros ddwy filiwn o unigolion yng Nghymru y gallai CTIC effeithio arnynt. Roedd y llythyr yn cadarnhau y byddai CTIC yn cael eu cyflwyno o 6 Ebrill 2019, ac na fyddai angen i unigolion gymryd unrhyw gamau oni bai eu bod yn symud cartref neu fod eu prif breswylfa y tu allan i Gymru.

2.50 Roedd taflen ddwyieithog gyda'r llythyr hwn gan Drysorlys Cymru a oedd yn rhoi rhagor o wybodaeth am CTIC. Cynhaliodd tîm cyfathrebu Llywodraeth Cymru brofion gan ddefnyddwyr ar y daflen hon, gan ganolbwyntio ar dri grŵp demograffig gwahanol i gadarnhau bod fformat a lefel y manylder yn briodol. Gwnaeth Gweithgor Cyfathrebu CTIC adolygu'r llythyr a'r daflen ar ôl iddynt gael eu drafftio i sicrhau bod y negeseuon a oedd yn cael eu cyfleu gan CThEM a Thrysorlys Cymru yn gyson.

2.51 Gwnaeth Trysorlys Cymru hefyd gontractio asiantaeth allanol i reoli ymgyrch cyfryngau cymdeithasol i gynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd o CTIC, yn seiliedig ar y thema 'Fy Nhreth Fy Nghymru'. Mae'r ymgyrch yn cynnwys dau hwrdd o weithgarwch ar blatfform cyfryngau cymdeithasol Twitter: un ym mis Hydref 2018 (tuag adeg cyhoeddi'r gyllideb ddrafft) a'r ail un ym mis Chwefror 2019. Mae gwerthusiadau cychwynnol o'r hwrdd cyntaf o weithgarwch cyfryngau cymdeithasol yn dangos bod yr ymgyrch hon wedi cyrraedd tua 60,000 o ddefnyddwyr Facebook a 30,000 o ddefnyddwyr Twitter.

- 2.52 Yn ogystal, mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid wedi cysylltu ag Aelodau'r Cynulliad i godi ymwybyddiaeth o CTIC. Mae aelodau wedi derbyn taflen Trysorlys Cymru, manylion yr ymgyrch cyfryngau cymdeithasol, a dogfen sy'n cynnwys cwestiynau cyffredin i'w helpu i ymateb i ymholiadau gan y cyhoedd. Mae Trysorlys Cymru hefyd wedi ymgynghori â rhanddeiliaid eraill megis grwpiau cyflogwyr i gynyddu cyrhaeddiad ei negeseuon allweddol cymaint ag y bo modd.
- 2.53 Mae'r gost a ragfynegir ar gyfer y gweithgarwch hwn yn gymharol fach, sef rhwng £36,000 a £41,000, fel y nodwyd yn **Arddangosyn 15** uchod. Mae maint y cynllun cyfathrebu yn gymharol fach, gan nad oes angen i drethdalwyr Cymru gymryd unrhyw gamau ar ôl i CTIC gael eu cyflwyno, oni bai fod angen iddynt hysbysu CThEM fod eu cyfeiriad wedi newid. Mae'n bosibl y gallai ymgyrch gyfathrebu fwy helaeth gael effaith negyddol, gan gynyddu costau ar gyfer Trysorlys Cymru a CThEM drwy ragor o gwsmeriaid yng Nghymru yn cysylltu oherwydd eu bod yn pryderu. Felly, at ei gilydd, mae lefel y gweithgareddau cyfathrebu a gynlluniwyd gan Drysorlys Cymru i'w gweld yn briodol, ond bydd angen monitro effeithiolrwydd y gwaith hwn wrth iddo fynd yn ei flaen.

Atodiadau

Atodiad 1 – cefndir datganoli cyllidol
yng Nghymru

Atodiad 2 – Dulliau




Atodiad 1 – cefndir datganoli cyllidol yng Nghymru

Gwnaeth Deddf Cymru 2014 ddatganoli rhai pwerau trethu o Senedd y DU i'r Cynulliad Cenedlaethol, a rhoi pwerau benthyg cyfyngedig i Lywodraeth Cymru. Rhoddodd y ddeddf bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol ddeddfu ar gyfer trethi ar drafodiadau a oedd yn cynnwys buddiannau mewn tir a gwaredu gwastraff i safleoedd tirlenwi am y tro cyntaf. Roedd hefyd yn caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol gynyddu neu ostwng cyfraddau treth incwm yn rhannol (yn ddarostyngedig i refferendwm ar yr adeg honno), yn estyn yr amgylchiadau lle y gallai Gweinidogion Cymru fenthycu er mwyn rheoli cyllideb Llywodraeth Cymru, ac yn rhoi pwerau newydd i Weinidogion Cymru i fenthycu ar gyfer gwariant cyfalaf. Mae **Arddangosyn 17** yn amlinellu'r newidiadau i amgylchedd ariannol Cymru yn sgil y ddeddf hon.


Arddangosyn 17: pwerau trethu a benthyg a ddatganolwyd o dan Ddeddf Cymru 2014

Cyn



Deddf Cymru 2014
(a'r ddeddfwriaeth ddilynol)

Wedyn



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Tudalen y pecyn 152

Dilynwyd Deddf Cymru 2014 gan gyfres o ddeddfau a basiwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol, wedi'u harwain gan Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016. Ynghyd â Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, sefydlodd y ddeddfwriaeth hon y sylfeini ar gyfer cyfundrefn trethi datganoledig yng Nghymru. Sefydlodd o ddeddfwriaeth hon ACC, y corff sy'n casglu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi.

Nesaf, pasiodd Senedd y DU Ddeddf Cymru 2017. Ynghyd â mesurau eraill, diwygiodd y ddeddfwriaeth hon elfennau eraill o'r Ddeddf Gymreig flaenorol, gan gynyddu'r uchafswm a oedd ar gael i Weinidogion Cymru ei fenthyca at ddibenion cyfalaf o £0.5 biliwn i £1 biliwn. Gwnaeth hefyd dynnu'r angen i gynnal refferendwm er mwyn cymeradwyo datganoli pwerau trethu cyfyngedig i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae amserlen y ddeddfwriaeth berthnasol a basiwyd mewn perthynas â datganoli cyllidol yng Nghymru yn cael ei hamlinellu yn **Arddangosyn 18** isod.

Arddangosyn 18: cerrig milltir deddfwriaethol allweddol ar gyfer datganoli cyllidol yng Nghymru



Ffynhonnell: Swyddfa Archwilio Cymru

Tudalen y pecyn 153

Ym mis Rhagfyr 2016, gwnaeth Ysgrifennydd Cabinet Cymru dros Gyllid a Phrif Ysgrifennydd Trysorlys y DU gytuno ar Fframwaith Cyllidol ar gyfer Cymru. Cadarnhaodd y cytundeb hwn fwriad Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i ddatganoli pwerau treth incwm yn rhannol i Gymru o flwyddyn ariannol 2019-20. Yn dilyn pasio Deddf Cymru 2017, cyflwynodd Trysorlys EM orchymyn cychwyn statudol ym mis Gorffennaf 2018, a oedd yn cadarnhau yng nghyfraith y DU y byddai cyfraddau treth incwm Cymru yn berthnasol am y tro cyntaf o 6 Ebrill 2019.

Atodiad 2 – dulliau

Gwnaethom dderbyn cyflwyniad cychwynnol gan ACC a oedd yn cynnwys:

- y gwaith a wnaed i drosglwyddo o Raglen Gyflawni ACC i ACC rhwng mis Hydref 2017 a mis Mawrth 2018;
- y strwythurau llywodraethu cyfredol sydd ar waith o fewn ACC, a'r ffordd mae perthnasau gweithio â Thrysorlys Cymru yn cael eu sefydlu;
- dull ACC ar gyfer recriwtio a hyfforddi staff;
- crynodeb o sefyllfa ariannol ACC; a
- meysydd allweddol o weithgarwch ers mis Ebrill, a'r heriau mae'r sefydliad yn eu hwynebu yn y dyfodol.

Gwnaethom hefyd dderbyn cyflwyniad cychwynnol gan Drysorlys Cymru, a oedd yn cynnwys:

- crynodeb o'r dulliau a ddefnyddiwyd i ddatblygu polisïau treth yng Nghymru;
- deddfwriaeth a oedd ei hangen i weithredu Treth Trafodiadau Tir a Threth Gwarediadau Tirlenwi a sefydlu CTIC;
- sut mae perthnasau gweithio ag ACC yn cael eu sefydlu; a'r
- gwaith o weithredu CTIC a'r meysydd y canolbwyntiwyd arnynt, gan gynnwys dulliau ar gyfer nodi talwyr treth incwm Cymru, costau gweithredu a rhagfynegi derbyniadau treth.

Gwnaethom adolygu amrediad o wybodaeth yn ystod ein harchwiliad, gan gynnwys:

- amryw ddarnau o ddeddfwriaeth, gan gynnwys Deddf Cymru 2014, Deddf Cymru 2017, a darnau eraill o is-ddeddfwriaeth Cymru a'r DU;
- gwybodaeth sydd ar gael i'r cyhoedd am ddatganoli cyllidol yng Nghymru a'r Alban;
- dogfennau cyhoeddedig gan Lywodraeth Cymru a Gweinidogion Cymru;
- cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer 2019-20;
- yr adroddiad sicrwydd ar ragolygon treth gan Brifysgol Bangor;

- adroddiadau gan CThEM ar brosiect CTIC, gan gynnwys manylion yr effaith ar ei systemau TG ac amcangyfrifon o gostau'r prosiect;
- cofnodion a phapurau o gyfarfodydd bwrdd prosiect CThEM ar gyfer CTIC, wedi'u mynychu gan gynrychiolwyr Trysorlys Cymru; a
- chofnodion a phapurau o gyfarfodydd rhwng aelodau allweddol strwythurau llywodraethu o fewn ACC a Thrysorlys Cymru.

Dros gyfnod o bythefnos, gwnaethom hefyd gyfweld â chynrychiolwyr a swyddogion o Drysorlys Cymru (gan gynnwys y cyfarwyddwr a'r dirprwy gyfarwyddwr) ac ACC (gan gynnwys y cadeirydd a'r prif weithredwr).

Tudalen y pecyn 157

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Grŵp yr Ysgrifennydd Parhaol
Permanent Secretary's Group

Mr Adrian Crompton
Archwilydd Cenedlaethol Cymru
Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
CAERDYDD
CF11 9LJ



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

9 Ionawr 2019

Annwyl Archwilydd Cenedlaethol Cymru

Ymateb i'r adroddiad *Datganoli Cyllidol yng Nghymru: trethi datganoledig a chyfraddau treth incwm Cymru (20 Rhagfyr 2018)*

Hoffwn ddiolch ichi am yr adroddiad hwn. Rwy'n falch fod y cynnydd rydym wedi ei wneud dros y deuddeg mis diwethaf wedi'i gydnabod ac rwy'n croesawu'n fawr y meysydd ffocws sydd wedi'u pennu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Rydym yn hyderus bod cyfeiriad ein hymdrechion at y dyfodol yn gywir.

Mae ymgysylltu amlwg ac adeiladol wedi digwydd rhwng Swyddfa Archwilio Cymru a Llywodraeth Cymru yn ystod y tri adolygiad sydd wedi'u cynnal hyd yma, ac rydym yn ddiolchgar am y berthynas gydweithredol yr ydym wedi'i chael gyda'r Swyddfa Archwilio drwy gydol y cyfnod hwn.

Fel y mae'r adroddiad yn nodi'n gywir, rydym wedi cyflawni llawer iawn dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae gwaith Swyddfa Archwilio Cymru, drwy eu hadolygiadau ffurfiol a'u hymgysylltu parhaus, wedi cyfrannu mewnbyn allanol gwerthfawr i faes newydd ac uchel ei broffil o ran galluedd Cymru.

Yn gywir

Andrew Jeffreys
Cyfarwyddwr
Trysorlys Cymru

- c.c. Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
- Cadeirydd Pwyllgor Cyllid Cynullid Cenedlaethol Cymru
- Cadeirydd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad
- Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru
- Uned Llywodraethiant Corfforaethol Llywodraeth Cymru
- Cadeirydd Awdurdod Cyllid Cymru
- Prif Weithredwr Awdurdod Cyllid Cymru

Ymateb i Adroddiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Adroddiad Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cymru ar Systemau Gwybodeg GIG Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod canfyddiadau'r adroddiad ac yn cynnig yr ymatebion canlynol i'r pum argymhelliad a geir ynddo.

Argymhelliad 1 – Rydym yn argymhell bod y Pwyllgor yn derbyn diweddariadau chwe misol gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd wrth weithredu'r argymhellion digidol yn yr Adolygiad Seneddol ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn ein galluogi i ailystyried y materion hyn yn ddiweddarach.

Derbyn – Rydym yn cydnabod pryderon y Pwyllgor a chymerwyd camau gweithredu i gyflymu'r ddarpariaeth; roedd y mwyafrif ar waith cyn adroddiad terfynol y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi dechrau casglu tystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad tua 2 flynedd yn ôl, ac ers hynny, gwnaed nifer o welliannau i'n prosesau llywodraethu system gyfan ar ran y rhaglenni gwybodeg a newid digidol.

Ad-drefnwyd y Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol er mwyn canolbwyntio ar ddulliau cydweithio'r Byrddau Iechyd a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru er mwyn gwella'r ffordd y cyflawnwyd *Iechyd a Gofal Gwybodus: strategaeth ddigidol ar gyfer Iechyd a gofal* y cytunwyd arni, ac adlewyrchwyd hyn yn y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor. Yn ogystal, bydd y Pwyllgor yn ymwybodol o'r ymrwymiad i gynyddu'r buddsoddiad, a'r ffocws ar wasanaethau digidol a gwybodeg a geir yn y cynllun *Cymru Iachach* a gyhoeddwyd yn gynharach eleni fel cynllun hirdymor iechyd a gofal cymdeithasol ar y cyd i Gymru. Roedd hyn mewn ymateb i sylwebaeth fanwl yn yr Adolygiad Seneddol ynglŷn â chyfleoedd a chynnydd o ran gwasanaethau digidol a chafodd ei lywio drwy ymgysylltu â'r holl ddefnyddwyr gwasanaethau a'r darparwyr.

Disgwyliaf y bydd adroddiadau rheolaidd yn rhoi cyfle i'r Pwyllgor i weld cynnydd mewn perthynas ag argymhellion yr Adolygiad Seneddol ac adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol. Yn ogystal â Llywodraeth Cymru yn cynyddu'r buddsoddiad sydd ar gael, o fewn chwech mis bydd y Cynllun Gwybodeg Cenedlaethol tair blynedd wedi'i sefydlu, a bydd adolygiadau o'r saernïaeth ddigidol a threfniadau llywodraethu gwybodeg yn GIG Cymru wedi'u cwblhau.

Argymhelliad 2 – Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu'n fawr am y dystiolaeth a glywsom ar fethiannau systemau, seilwaith a chydnerthedd. O ystyried tystiolaeth ddiweddar o fethiannau pellach ers i ni dderbyn tystiolaeth, hoffem gael sicrwydd pellach gan Lywodraeth Cymru bod y systemau yn gadarn. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cyflwyno amserlen eglur ar gyfer sefydlogi seilwaith digidol GIG Cymru.

Derbyn – Fel y disgwylid, gallaf eich sicrhau bod y systemau hollbwysig yn cael eu profi'n gyson fel mater o drefn i sicrhau eu bod yn addas at y diben. Darperir gwasanaethau canolfannau data yng Nghymru mewn amgylchedd o ansawdd sy'n derbyn achrediad annibynnol i sicrhau bod y safonau'n diwallu anghenion ISO. Cynhaliwyd yr achrediad diwethaf ym mis Medi 2018 ac mae'r holl achrediadau ISO wedi'u diweddarau.

Bydd y Pwyllgor yn awyddus i wybod bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn rhoi mwy o ffocws ar gynnal a chadw fel mater o drefn (e.e. uwchraddio cadarnwedd) a chynnal gweithgareddau uwchraddio y tu allan i oriau gwaith craidd. Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, darparodd Llywodraeth Cymru £9.3 miliwn o gyllid ychwanegol i ariannu amnewidiadau hanfodol. Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn datblygu achos busnes i sicrhau cyllid ychwanegol i leihau'r tebygolrwydd o fwy o amser segur. Rydym hefyd yn disgwyl i bob Bwrdd lechyd ac Ymddiriedolaeth roi cynlluniau parhad busnes priodol ar waith, gan gynnwys defnyddio'r Egwyddorion Rhyngweithredu Cydwasaethau Brys i reoli achosion digwyddiadau mawr yn ymwneud â TGCh neu seiberddiogelwch.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i flaenoriaethu darparu cyllid tuag at systemau hanfodol, ac adlewyrchir hyn yng Nghynllun Gwybodeg Cenedlaethol Cymru Gyfan dros dair blynedd a fydd yn mynd gerbron y Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol ym mis Rhagfyr. Bydd hwn yn cael ei lywio ymhellach gan allbwn o'r adolygiad saerïol a fydd yn cychwyn yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Disgwyliwn i Gynllun Tymor Canolig Integredig pob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth lechyd adlewyrchu'r agenda hon y cytunwyd arni'n genedlaethol.

Argymhelliad 3 – Yn y trafodaethau ar y defnydd o gyfrifiadura Cwmwl ac effaith methiannau diweddar, roedd yn peri pryder mawr iawn, pan ymddengys bod gan lawer o systemau defnyddwyr berfformiad ac amser gweithredol cadarn, bod GIG Cymru yn cael trafferth yn rhedeg ei ganolfannau data ei hun gydag 21 o fethiannau yn ystod 6 mis cyntaf 2018 - un methiant bob 9 diwrnod. Mae'r Pwyllgor yn argymhell adolygiad o'r gallu uwch arweinyddiaeth o ran set sgiliau a llywodraethu yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Thîm Digidol ehangach y GIG.

Derbyn – Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen "Defnydd o'r Cwmwl" wedi datblygu canllawiau ar gyfer y defnydd o'r gwasanaethau Cwmwl yn GIG Cymru. Mae'r canllawiau'n annog y defnydd o'r gwasanaethau cwmwl ochr yn ochr â meddalwedd traddodiadol a modelau defnyddio seilwaith o fewn y broses achos busnes ac ym mis Ebrill 2018, cymeradwyodd y Bwrdd Rheoli Gwybodeg Cenedlaethol, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru, Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a phob

bwrdd iechyd ac ymddiriedolaeth yng Nghymru, i'r ddogfen canllawiau gael ei chyhoeddi.

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi gweithio ar fabwysiadu gwasanaethau cwmwl newydd ers nifer o flynyddoedd, ac ar hyn o bryd mae'n cefnogi mwy na 10,000 o ddefnyddwyr, gan ddefnyddio gwasanaethau cwmwl Microsoft Office 365 ar gyfer e-byst, storio ffeiliau, Skype a gwasanaethau eraill. Yn ogystal, mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn cefnogi'r Byrddau Iechyd sy'n gweithio ar ddefnyddio PowerBI (Gwasanaethau Deallusrwydd Busnes) gan ddefnyddio'r Cwmwl. Mae un o gyflenwyr systemau Meddygon Teulu GIG Cymru yn defnyddio 'UKCloud' i letya'r systemau ar gyfer ei bractisau Meddygon Teulu.

Yn ogystal â hyn, cydweithiodd Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru â Microsoft a sefydliadau GIG Cymru dros y 18 mis diwethaf i roi'r systemau sylfaenol ar waith sy'n caniatáu i sefydliadau GIG Cymru ddefnyddio gwasanaethau cwmwl Microsoft Azure.

Rydym wedi ymrwmo i gynyddu'n sylweddol y buddsoddiad mewn seilwaith digidol, technolegau a chapasati'r gweithlu, gyda chefnogaeth arweinyddiaeth ddigidol genedlaethol a threfniadau cyflenwi, yn unol â'r addewid yn y cynllun *Cymru Iachach*.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn ymwybodol o ymrwymiad *Cymru Iachach* i adolygu swyddogaethau cenedlaethol sy'n cael eu lletya, sy'n cynnwys Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru, gyda'r nod o gydgrynhoi'r gweithgareddau cenedlaethol ac egluro trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd. Trafodwyd hyn yn y dystiolaeth i'r Pwyllgor.

Mae'r anghenion llywodraethu ar draws y system gyfan yn nodwedd o'r adolygiad i lywodraethu gwybodeg a fydd yn adrodd i Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr. Mae'r adolygiad, a gychwynwyd yn gynharach eleni, wedi cyfweld ag oddeutu cant o bobl sy'n gysylltiedig ag arweinyddiaeth ddigidol a rheoli gwybodeg, gan gynnwys clinigwyr, ar draws y GIG gyda'r bwriad o baratoi adroddiad yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd. Roedd y cam gweithredu hwn eisoes ar waith cyn derbyn argymhellion y Pwyllgor, a grëwyd gan yr Adolygiad Seneddol. Mae'n bwysig nodi mai adolygiad system gyfan fydd hwn ac ni fydd yn gyfyngedig i adolygiad o alluogrwydd a chapasiti Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru.

Argymhelliad 4 – Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi'i or-ymestyn ar hyn o bryd, ac mae gwella yn golygu llawer mwy na thywallt mwy o arian i mewn i'r sefydliad presennol, sy'n annhebygol o gyflawni canlyniadau sylweddol gwahanol. Rydym yn argymhell y dylai unrhyw gyllid ychwanegol a ddyrennir i Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru fod yn gysylltiedig ag ad-drefnu i gyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol.

Derbyn – Rydym bob amser wedi cydnabod y cymhlethdodau a'r heriau sy'n gysylltiedig â chyflawni ein gweledigaeth o gofnod electronig unigol, ac eisoes wedi derbyn argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru yn gynharach eleni i gomisiynu adolygiad o'n dull i adeiladu saerniaeth ddigidol i gefnogi hyn. Mae'r gwaith hwn yn mynd rhagddo a bydd yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i'r datblygiadau yn y farchnad bresennol yn ogystal â darparu trosolwg o'r sail resymegol dros systemau lleol o'u cymharu â rhai cenedlaethol. Bydd hyn yn adeiladu ar y penderfyniadau a

wnaed y llynedd, gan gynnwys y cytundeb i wneud systemau storfa digidol cenedlaethol yn orfodol, sefydlu Bwrdd Safonau Technegol Cymru a datblygu cynlluniau ar gyfer “Adnodd Data Cenedlaethol” a fydd yn ein galluogi i wneud newidiadau sylweddol o ran sut rydym yn cipio, rheoli a defnyddio'r data sydd gennym ar draws ein systemau iechyd a gofal.

Bydd y camau gweithredu hyn, yn ogystal â'r adolygiad llywodraethu a sefydlu Gweithrediad y GIG, fel nodwyd yn y cynllun *Cymru Iachach*, yn dylanwadu ar ffurf a strwythur gwybodeg GIG Cymru yn y dyfodol, ac yn ein helpu i ymateb yn eglur i bryderon y Pwyllgor. Bydd y cynnydd yn y buddsoddiad digidol a ymrwymwyd iddo yn y cynllun *Cymru Iachach* yn cael ei lywio gan y Cynllun Gwybodeg Cenedlaethol dros dair blynedd.

Hyderaf y bydd y Pwyllgor yn cydnabod yr angen i barhau i fuddsoddi yng Ngwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o ran y cymorth a'r datblygiadau hollbwysig i fusnes, a ddarperir yn genedlaethol, y mae'n gyfrifol amdanynt, tra bod y camau gweithredu hyn yn mynd rhagddynt.

Bydd y Pwyllgor hefyd yn awyddus i nodi fod y mentrau yn ymwneud â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru wedi arwain at fanteision o ran cost, yn ogystal â manteision gweithredol. Er enghraifft: arweiniodd y negodiadau rhwng Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru a Microsoft dair blynedd yn ôl at arbedion o 40% ar gostau trwyddedu Cytundeb Menter; arbedwyd £15 miliwn drwy gaffael y System Archifo Lluniau a Chyfathrebu (PACS) – yn erbyn y costau contract presennol ar lefel Bwrdd Iechyd; mae caffael gwasanaethau a systemau Meddygon Teulu yn arbed £1 filiwn y flwyddyn ar gostau cytundeb craidd; a rhagwelir y bydd adleoli gwasanaeth argraffu a reolir ar draws y practisau Meddygon Teulu i gyd yn golygu arbedion o tua £4 miliwn dros saith mlynedd. Rwy'n fodlon rhannu rhagor o fanylion am werth am arian mewn perthynas â gweithrediadau TGCh Cenedlaethol.

Mae'n bwysig cydnabod bod cyfrifoldeb ar bob Bwrdd ac Ymddiriedolaeth Iechyd i weithio ochr yn ochr â Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru o ran datblygu a darparu systemau cenedlaethol sy'n cyd-fynd a'u cynlluniau buddsoddi lleol i gyflawni'r weledigaeth genedlaethol y cytunwyd arni am gofnod claf electronig integredig.

Argymhelliad 5 – Rydym yn argymhell bod Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn ceisio cynyddu ei waith gyda chyrrff cyhoeddus eraill, gan gynnwys y rhai o Lywodraeth y DU. Gallai'r dull hwn weithio ar nifer o lefelau, o rannu arferion recriwtio da i greu Gwasanaeth Digidol Llywodraeth a allai weithio ar draws asiantaethau lluosog.

Derbyn – Rydym yn cydnabod bod rhannu arferion da yn hanfodol wrth i'r GIG yng Nghymru barhau i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel. Mae hyn yn bwysig wrth fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig ag recriwtio'r staff gorau yn y gofod digidol ac mae cyfleoedd i rannu, dysgu ac addasu.

Mae Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru yn gweithio mwy ac yn rhannu mwy o wybodaeth gyda chyrrff cyhoeddus eraill yng Nghymru a'r tu allan i Gymru, er enghraifft Awdurdodau Lleol, yn arbennig wrth roi'r System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) ar waith, a chyda'r Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol ar lefel y DU.

Yn ogystal, rydym wedi dweud wrth y Pwyllgor am ymgysylltiad Llywodraeth Cymru ag NHS Digital, yr Adran Iechyd, Llywodraeth yr Alban a Gogledd Iwerddon. Byddwn yn hwyluso ac yn annog mwy o ymgysylltu, gan adeiladu ar y cytundebau sydd eisoes yn bodoli ac enghreifftiau o arloesi. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu ag Ecosystem Iechyd Digidol Cymru, yr endid sydd â llawer o randdeiliaid, gan gynnwys iechyd, academia a diwydiant, a sefydlwyd yn sgil *Iechyd a Gofal Gwybodus*. Mae cymuned gwybodeg glinigol GIG hefyd yn cael ei chynrychioli'n uniongyrchol ar Banel Trawsnewid Digidol Llywodraeth Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio ar draws amryfal asiantaethau drwy weithio'n agos â Swyddfa'r Prif Swyddog Digidol i rannu'r gwersi a ddysgwyd ar draws y sector cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

Fel y nodir uchod, mae Bwrdd Safonau Technegol Cymru'r GIG wedi derbyn Egwyddorion Dylunio Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth a Safonau Gwasanaeth Digidol Llywodraeth Cymru i sicrhau dull cyson o ddatblygu gwasanaethau newydd.

Mr Nick Ramsay AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Cathedral Road / 24 Heol y Gadeirlan
Cardiff / Caerdydd
CF11 9LJ
Tel/Ffôn: 029 2032 0500
Fax / Ffacs: 029 2032 0600
Textphone / Ffôn testun: 029 2032 0660
info@audit.wales / post@archwilio.cymru
www.audit.wales / www.archwilio.cymru

Cyfeirnod: AC/074/caf
Dyddiad cyhoeddi: 9 Ionawr 2018

Annwyl Nick

Ymateb Llywodraeth Cymru: Systemau Gwybodeg yn GIG Cymru

Gofynnodd y clercod am fy nghyngor ynghylch ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar Wybodeg y GIG. Rwyf yn deall bod dadl wedi ei threfnu mewn cyfarfod llawn i drafod yr adroddiad.

Ar y cyfan, mae'r ymateb yn gadarnhaol, gyda Llywodraeth Cymru yn derbyn argymhellion y Pwyllgor. Mae Llywodraeth Cymru wedi cychwyn amryw o adolygiadau yn ymwneud â gwybodeg y GIG ac mae yn y broses o ddatblygu Cynllun Gwybodeg Cenedlaethol newydd. Er bod yr ymateb yn canolbwyntio'n bennaf ar yr hyn sy'n cael ei adolygu, mae'n tynnu sylw at ddatblygiadau cadarnhaol, megis mabwysiadu egwyddorion cynllunio Gwasanaeth Digidol y Llywodraeth. Yn gyffredinol, mae lled a dyfnder yr adolygiadau a'r gweithgaredd yn ymddangos fel pe baent yn adlewyrchu cydnabyddiaeth fod angen newidiadau sylweddol i fynd i'r afael â'r pryderon a nodwyd gan fy rhagflaenydd a'r Pwyllgor.

Mae Llywodraeth Cymru wedi addo diweddariad pellach ymhen chwe mis. Erbyn hynny, dylai'r adolygiadau fod wedi eu cwblhau a bydd Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu'r Cynllun Gwybodeg Cenedlaethol newydd. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno trefnu sesiwn gyda Llywodraeth Cymru yn ystod mis Gorffennaf 2019 i dderbyn rhagor o dystiolaeth ar sail y diweddariad hwnnw. Yn ddiamau, bydd ar y Pwyllgor eisiau sicrwydd pellach, yn dilyn yr hyn sydd bellach wedi mynd yn gyfnod hir o adolygu, y bydd Llywodraeth Cymru a'r GIG ehangach yn gweithredu ar fyrder i roi'r adnoddau a'r newidiadau ymarferol yn eu lle fel sydd angen i wella gwybodeg ar draws y system gyfan. Efallai y bydd ar y Pwyllgor hefyd eisiau gwirio gyda Llywodraeth Cymru a yw'n bwriadu cyhoeddi casgliadau ac argymhellion yr adolygiadau neu eu rhannu gyda'r Pwyllgor.

Nododd y Pwyllgor bryderon sylweddol ynghylch diffoddiadau data. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno gofyn i Lywodraeth Cymru ddarparu gwybodaeth gymharol, yn dangos a yw nifer/difrifoldeb diffoddiadau data wedi lleihau, fel rhan o'i ddiweddariad ymhen chwe mis.

Yn gywir



ADRIAN CROMPTON
Archwilydd Cyffredinol Cymru

Eitem 5

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 7

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Eitem 8

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Cymorth Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer Busnesau



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Mae'r adroddiad hwn wedi'i baratoi i'w gyflwyno i'r Cynulliad Cenedlaethol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2006.

Roedd tîm astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnwys Alastair McQuaid, Chris Pugh, Philippa Fido a James Ralph dan gyfarwyddyd Matthew Mortlock.

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol o'r Cynulliad Cenedlaethol ac o lywodraeth. Mae'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus sy'n gysylltiedig â hi ac a noddir ganddi, gan gynnwys cyrff y GIG. Mae ganddo'r pŵer i gyflwyno adroddiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ddarbodaeth, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, mae'n cynnal astudiaethau gwerth am arian mewn llywodraeth leol ac yn arolygu cydymffurfiaeth gydag anghenion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sydd yn fwrdd statudol wedi'i sefydlu ar gyfer y nod hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2018

Cewch aildefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Os byddwch yn ei aildefnyddio, rhaid i chi ei aildefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei aildefnyddio.

Am fwy o wybodaeth, neu os ydych angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau mewn ffurf ac/neu iaith wahanol, cysylltwch â ni drwy ffonio 029 2032 0500 neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru. Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Gallwch ysgrifennu atom hefyd, yn Gymraeg neu'n Saesneg, a byddwn yn ymateb yn yr iaith rydych chi wedi ei defnyddio. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

This document is also available in English.

Tudalen y pecyn 210

Cynnwys

Crynodeb	5
Argymhellion	10
1 Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi trosi'n llwyr ei gweledigaeth ar gyfer adnewyddu'r economi yn rhaglen gydgysylltiedig o gymorth ariannol i fusnesau	13
Roedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu strwythur timau sector, ond, am nifer o resymau, nid oedd wedi gweithredu'n llawn agweddau eraill ar ei gweledigaeth ar gyfer adnewyddu'r economi mewn perthynas â darparu cymorth ariannol i fusnesau	14
Bu diffyg eglurder ar gyfer busnesau ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, a'r ffyrdd o gael gafael arno	18
Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu dull o gydbwysu'r risgiau a'r manteision posibl a fyddai'n sail i'r broses gyffredinol o reoli'r rhaglen a dethol prosiectau unigol	21
2 Mae Llywodraeth Cymru wedi monitro prosiectau unigol ar wahân, ond nid yw wedi llwyddo i reoli cymorth ariannol i fusnesau fel rhaglen	25
Mae gwybodaeth reoli am gymorth ariannol i fusnesau yn cael ei chadw ar systemau gwahanol, ac mae'n cynnwys bylchau a chyfeiliornadau; mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd llunio darlun amserol, cywir a chynhwysfawr a fyddai'n cefnogi gwaith monitro ar lefel y rhaglen	26
Mae tîm Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru wedi gwella rhai agweddau ar reolaeth ariannol ar gyfer prosiectau unigol, ond o ran ei rhaglen o gymorth ariannol i fusnesau, mae'r rhagolygon o ran y gyllideb a'r cymariaethau o ran gwariant gwirioneddol yn parhau i fod yn aneglur	28

3 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi dangos yn glir y modd y mae ei chymorth ariannol ar gyfer busnesau wedi cyfrannu at yr amcanion o ran adnewyddu'r economi a nodwyd ganddi yn 2010 30

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi systemau a phrosesau ar waith i gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer llunio adroddiadau cyhoeddus ynghylch a yw ei gymorth ariannol ar gyfer busnesau, yn gyffredinol, wedi cyfrannu at gyflawni ei chanlyniadau bwriadedig 31

Roedd Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar greu a diogelu swyddi, ond nid oedd wedi monitro'r canlyniadau economaidd ehangach yn erbyn y fframwaith eang o ddangosyddion yr oedd wedi ymgymryd i lunio adroddiad yn eu cylch 32

4 Mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth economaidd newydd, ac mae bellach yn dechrau ailwampio ei dull o ddarparu cymorth ariannol i fusnesau 34

Yn ddiweddar, lansiodd Llywodraeth Cymru fframwaith strategaeth economaidd newydd ar gyfer darparu cymorth ariannol i fusnesau 35

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi tri sector thematig cenedlaethol a phedwar sector sylfaen er mwyn helpu i roi ffocws ar ei gwaith rhagweithiol gyda busnesau 37

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau buddion economaidd eang, hirdymor trwy ei dull newydd o ddarparu cymorth ariannol i fusnesau 38

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth ariannol i fusnesau wedi cael ei hadolygu i ystyried prosiectau o dan ei 'Chynllun Gweithredu ar yr Economi', ond mae'n parhau i fod yn seiliedig ar ymrwymadau hysbys 39

Atodiadau

Dulliau archwilio 42

Dadansoddiad fesul sector o ymrwymadau mewn perthynas â chymorth ariannol 44

Astudiaethau achos o brosiectau 46

Adnewyddu'r economi: Fframwaith ar gyfer mesur llwyddiant 50

Tudalen y pecyn 212

Adroddiad cryno


Crynodeb

- 1 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd** ('Adnewyddu'r Economi') ym mis Gorffennaf 2010. Roedd 'Adnewyddu'r Economi' yn amlinellu dull ehangach Llywodraeth Cymru o ymdrin ag economi Cymru, ac, o fewn hyn, ei dull strategol o ddarparu cymorth ariannol i fusnesau. Byddai Llywodraeth Cymru yn targedu cyllid grantiau cyhoeddus ac, yn gynyddol, fenthyciadau, at gwmnïau a nodwyd ganddi yn gwmnïau a allai gael effaith sylweddol ar naw sector economaidd allweddol.
- 2 Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi amlygu prosiectau penodol y bu'n eu hariannu, sydd wedi llwyddo i greu neu ddiogelu swyddi yng Nghymru (**Atodiad 3**). Fodd bynnag, mae'r Archwilydd Cyffredinol, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a'r cyfryngau wedi amlygu enghreifftiau o brosiectau a gafodd gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru ond na lwyddodd i sicrhau'r buddion bwriadedig¹. Mae achosion unigol o'r fath wedi annog yr Archwilydd Cyffredinol i gynnal adolygiad archwilio ehangach, a hynny er mwyn cynnig darlun cyffredinol o ba mor dda y mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol i fusnesau.
- 3 Mae gwahanol rannau o Lywodraeth Cymru yn darparu ffurfiau gwahanol o gymorth ariannol a chymorth arall i fusnesau, a hynny i amrywiaeth o ddibenion² (**Ffigur 1**).

1 Yn ystod ein gwaith archwilio cyffredinol, byddwn yn mynd ar drywydd argymhellion blaenorol, ac, o bosibl, yn ymgymryd â gwaith penodol i brofi i ba raddau y mae'r mesurau i fynd i'r afael â'r argymhellion hynny yn gweithio yn ymarferol. Nid yw'r adroddiad hwn yn mynd ar drywydd argymhellion blaenorol a wnaed gan yr Archwilydd Cyffredinol na chan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus gan fod Llywodraeth Cymru yn adolygu ei dulliau o ddarparu cymorth ariannol i fusnesau.

2 Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi adolygu gwahanol agweddau ar y cyllid a roddwyd i fusnesau yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru a'r UE at ddibenion gwahanol, ac wedi adrodd ar yr agweddau hynny. Yn fwyaf diweddar, cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol adroddiad ar gyllid yr UE, sef **Rheoli effaith Brexit ar Gronfeydd Strwythurol yr UE**, Awst 2018.

Ffigur 1: y ffyrdd gwahanol y mae Llywodraeth Cymru yn darparu cymorth ariannol i fusnesau



Nodwch:

Yn ystod y gwaith, aeth Llywodraeth Cymru ati i ailenwi Cyllid Cymru yn Fanc Datblygu Cymru. Mae Banc Datblygu Cymru yn cefnogi economi Cymru trwy ddarparu cyllid buddsoddi i gefnogi busnesau trwy gyfrwng nifer o opsiynau cyllido. Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld yn <https://developmentbank.wales/cy>

Ffynhonnell: Dadansoddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru

- 4 Mae'r tîm Sectorau a Busnes yn nhîm Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol Llywodraeth Cymru yn gweinyddu llawer o'r cyllid ar gyfer prosiectau y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu'n uniongyrchol i fusnesau unigol er mwyn creu neu ddiogelu swyddi. Roeddem wedi canolbwyntio ein gwaith archwilio ar y tîm hwn ac wedi adolygu'r canlynol:
- a yr hyn yr oedd Llywodraeth Cymru am ei gyflawni, ynghyd â faint o gymorth ariannol a roddwyd i fusnesau gan y tîm Sectorau a Busnes;
 - b y modd y cafodd y cymorth ariannol hwn ei reoli, a'r mathau o fusnesau a gafodd gymorth;
 - c yr hyn a gyflawnwyd gan y cymorth ariannol, ynghyd â'r hyn y mae Llywodraeth Cymru wedi nodi am ei effaith; a hefyd
 - ch yr hyn y mae Llywodraeth Cymru am ei wneud nesaf o ran sicrhau newidiadau i gefnogi'r strategaeth economaidd newydd.

O blith y cymorth ariannol a adolygwyd gennym, nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar bron £219 miliwn o gymorth newydd i fusnesau ar gyfer swyddi rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2017, ac wedi gwario ychydig dros £167 miliwn gyda'r nod o greu neu ddiogelu swyddi (Ffigur 2).

Ffigur 2: ymrwymiadau ariannol a thaliadau a wnaed i fusnesau gan dîm y Sectorau a Busnes er mwyn cefnogi swyddi yn y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2017

Ymrwymiadau

£218.65M



Cyfanswm gwerth y cynigion a neilltuwyd



443

o brosiectau
wedi'u neilltuo

404

(yn fras)

o fusnesau unigryw â
phrosiectau wedi'u neilltuo



Gwariant



£167.5M

Wedi'i wario ar fusnesau

530

(yn fras)

o fusnesau unigryw
wedi cael eu talu



Nodiadau:

1. Ystyr ymrwymiadau newydd yw pan fo Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo cyllid ar gyfer prosiect a phan fo'r busnes yn derbyn y cynnig hwnnw. Gallai'r prosiect ymestyn y tu hwnt i 2017.
2. Ystyr gwariant yw'r gwariant gwirioneddol yn ystod y cyfnod; gwariwyd peth ohono ar brosiectau a ddechreuodd cyn 2014.
3. Mae'r busnesau unigryw a gefnogwyd wedi'u cynnwys fel brasamcan, gan nad oedd yr wybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn ein galluogi i sefydlu union nifer y busnes unigryw a oedd wedi cael cymorth ariannol.

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

5 Daethom i'r casgliadau canlynol:

Hyd yma, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar reoli prosiectau unigol sy'n cefnogi busnesau, ac nid yw wedi trosi ei gweledigaeth ar gyfer adnewyddu'r economi yn rhaglen gydgysylltiedig, sydd wedi'i chefnogi gan wybodaeth gynhwysfawr, ac sy'n dangos ei chyfraniad at amcanion y weledigaeth yn glir. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn dechrau diwygio ei hagwedd at y modd y bydd yn darparu cymorth ariannol i fusnesau yn y dyfodol.

6 Yn 'Adnewyddu'r Economi', mae Llywodraeth Cymru yn nodi ei gweledigaeth ar gyfer cefnogi ac ysgogi economi Cymru ynghyd â'i bwriad i dargedu adnoddau cyhoeddus at flaenoriaethau economaidd, gan gynnwys trwy ddarparu cymorth i fusnesau. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cytuno i adrodd yn gyhoeddus ar ei chynnydd tuag at y weledigaeth a nodwyd yn 'Adnewyddu'r Economi', gan ddefnyddio amrywiaeth o fesurau a dangosyddion i ddangos effaith yr hyn a gyflawnodd.

7 Canfuasom nad yw Llywodraeth Cymru wedi adrodd ar ei chymorth ariannol ar gyfer busnesau, ledled y sectorau economaidd a'r dulliau ariannu, yn unol â'r amcanion eang o ran adnewyddu'r economi a nodir yn 'Adnewyddu'r Economi'.

8 Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'n llawn y trefniadau a nodwyd ganddi yn rhai angenrheidiol i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau yng nghyd-destun y weledigaeth a nodir yn 'Adnewyddu'r Economi'. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi awgrymu bod newidiadau mewn blaenoriaethau Gweinidogol ac effaith barhaus y dirywiad economaidd yn gofyn am dull gwahanol mewn rhai ffyrdd, gan gynnwys llai o bwyslais ar gyllid ad-daladwy. Roedd Llywodraeth Cymru wedi penodi sectorau diwydiant â blaenoriaeth y byddai'n eu targedu â chymorth. Fodd bynnag, mae hefyd yn darparu cymorth ariannol i fusnesau y tu allan i'r meysydd hyn, ac mae busnesau wedi bod yn ansicr ynghylch y cymorth sydd ar gael iddynt gan Lywodraeth Cymru, ynghyd â'r modd i gael gafael ar y cymorth hwnnw.

9 Nid yw Llywodraeth Cymru yn casglu'r wybodaeth yr oeddem yn disgwyl y byddem yn gallu ei hadolygu. Nid yw ei systemau gwybodaeth cyfredol yn darparu cyfanswm cynhwysfawr yn rhwydd, na chwaith fanylion cyson am y cymorth ariannol a roddwyd gan y tîm Sectorau a Busnes, a fyddai'n rhoi darlun llawn o faint o gymorth ariannol sy'n cael ei roi, y modd y caiff ei roi, a'r hyn y mae'n ei gyflawni. Byddai darlun o'r fath yn sail i drefniadau rheoli cyffredinol, yn cefnogi gwaith craffu effeithiol ac atebolrwydd, a hefyd yn helpu o ran llunio adroddiadau allanol.

- 10 Ar hyn o bryd, mae'r gwaith o werthuso effaith rhaglen Llywodraeth Cymru o gymorth ariannol i fusnesau, ac eithrio ar lefel prosiectau unigol, yn cael ei lesteirio gan y canlynol:
- a gwybodaeth a gedwir ar systemau anghydnaws na ellir ei chyfuno'n rhwydd i lunio adroddiadau amserol, cywir a chynhwysfawr;
 - b prosesau cyllidebu sy'n sicrhau hyblygrwydd ledled y sectorau ond nad ydynt yn hwyluso'r gwaith arferol o fonitro a llunio adroddiadau ar lefel y sector neu'r rhaglen, na chwaith y broses o lunio adroddiad o wariant prosiectau unigol hyd yn hyn; a hefyd
 - c yr angen i weithredu dull o reoli risgiau ar lefel y rhaglen, y mae Llywodraeth Cymru wrthi'n ei ddatblygu.
- 11 Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio gweledigaeth economaidd newydd ar gyfer Cymru yn lle 'Adnewyddu'r Economi', sef **Ffyniant i Bawb**, a gefnogir gan gynllun gweithredu newydd³. Yn rhan o'r dull newydd hwn, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gweithredu fframwaith diwygiedig i ddarparu cymorth ariannol i fusnesau, sy'n cynnwys dulliau ariannu symlach a llai o flaenoriaethau.
- 12 Roedd cyllideb bedair blynedd gychwynnol Llywodraeth Cymru, a bennwyd yn 2016-17, wedi'u seilio'n bennaf ar ymrwymadau hysbys, sy'n lleihau wrth i brosiectau presennol gael eu cwblhau. Nid yw'n cynnwys amcangyfrif o'r gwariant yn y dyfodol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllideb ddiwygiedig ddrafft ym mis Hydref 2018, er bod hon yn wedi'i seilio'n bennaf ar ymrwymadau hysbys o hyd.

Argymhellion

- 13 Mae'r argymhellion isod yn adlewyrchu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn datblygu dull gweithredu diwygiedig o ran y modd y mae'n darparu cymorth ariannol i fusnesau, a hynny mewn ymateb i 'Ffyniant i Bawb' a'r ddogfen gyfatebol, 'Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi'. Nod yr argymhellion yw bod yn sail i waith Llywodraeth Cymru wrth iddi weithredu 'Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi'.

3 Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol** (<https://beta.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2017-10/ffyniant-i-bawb-y-strategaeth-genedlaethol.pdf>) i gefnogi ei blaenoriaethau allweddol o ran polisiau ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad. Mae'r ddogfen **Ffyniant i Bawb: y Cynllun Gweithredu ar yr Economi** yn cynnwys dull newydd ar gyfer adfywio'r economi. (<https://llyw.cymru/docs/det/publications/171213-economic-action-plan-cy.pdf>).

- 14 Yn ystod yr archwiliad, bu i ni wynebu anawsterau o ran cael gwybodaeth amserol, gynhwysfawr a chywir am y cymorth ariannol a ddarperid gan y tîm Sectorau a Busnes i greu neu ddiogelu swyddi. Mae'r anawsterau hyn yn amlygu pa mor bwysig yw sicrhau bod systemau a phrosesau rheoli gwybodaeth ar waith, sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i adrodd ar y costau sy'n gysylltiedig â'r cymorth ariannol a roddir i fusnesau, yn ogystal â chyfraniad y cymorth hwn (yn ogystal â dulliau ariannu eraill nas cynhwysir yn yr adolygiad archwilio hwn) tuag at gyflawni dyheadau 'Ffyniant i Bawb' ac amcanion y cynllun newydd, 'Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi'.

Eitem 1: argymhellion

Argymhellion

A1 Rheoli risgiau

Mae Tîm Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru yn asesu risgiau ar gyfer prosiectau unigol yn unig, a hynny ar wahân, ac nid oes ganddo archwaeth risg ddiffiniedig ledled ei raglenni ar gyfer darparu cymorth ariannol i fusnesau. Fodd bynnag, mae'r Tîm Sectorau a Busnes wedi dweud wrthym ei fod yn datblygu dull o reoli risgiau ar y cyd â Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru.

Rydym yn argymhell bod y Tîm Sectorau a Busnes yn cadarnhau ac yn gweithredu dull o ymdrin â'i broses rheoli risgiau a'i archwaeth risg a fydd yn sail i'w broses gyffredinol o reoli'r rhaglen a dethol prosiectau unigol.

A2 Systemau

Mae'r Tîm Sectorau a Busnes yn defnyddio nifer o systemau i reoli ei raglen ar gyfer darparu cymorth ariannol i fusnesau trwy ei dimau sector. Fodd bynnag, mae i'r systemau hyn nifer o wendidau sylfaenol, ac mae'n anodd olrhain gwybodaeth am y rhaglen cymorth ariannol trwy'r holl systemau er mwyn llunio un cofnod cynhwysfawr.

Rydym yn argymhell bod y Tîm Sectorau a Busnes yn darparu gwybodaeth reoli gynhwysfawr, sy'n gyson â'r holl systemau, i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei raglen ar gyfer darparu cymorth ariannol i fusnesau, a hynny'n rheolaidd ac mewn modd amserol. Dylai'r wybodaeth reoli hon gynnwys y canlynol:

- Prosiectau sydd â gwybodaeth am gymeradwyaeth
- Dyraniad y gyllideb wreiddiol
- Y gwariant hyd yn hyn
- Rhagolwg o'r gwariant ar gyfer y flwyddyn gyfredol
- Y gwariant ar gyfer y flwyddyn gyfredol
- Gwybodaeth am ganlyniadau

Argymhellion

A3 Rheolaeth a Rhagolygon Ariannol

Mae Tîm Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru wedi gwella rhai agweddau ar reolaeth ariannol. Fodd bynnag, mae yna rai meysydd i'w gwella o hyd, sy'n gysylltiedig â'r broses gyffredinol o ragweld cyllidebau a chymharu gwariant.

Rydym yn argymhell bod y Tîm Sectorau a Busnes yn datblygu cyllidebau yn y dyfodol i ddarparu mwy o eglurder o ran y gwariant disgwylidig, gan gynnwys yr ymrwymadau hysbys a hefyd amcangyfrifon o'r cyllid sydd ar gael i gefnogi prosiectau newydd.

A4 Adrodd ar ganlyniadau

Hyd yma, nid yw Tîm Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r fframwaith ar gyfer mesur ac adrodd ar effaith ei gymorth ariannol i fusnesau a'r modd y mae hyn yn cyfrannu at ei nodau strategol newydd.

Rydym yn argymhell bod y Tîm Sectorau a Busnes yn llunio adroddiadau perfformiad cynhwysfawr ac amserol a fydd yn hwyluso'r prosesau monitro a chraffu mewnol ac allanol, a hynny ar lefel y prosiectau ac ar lefel y rhaglen, fel ei gilydd.

Rhan 1

Nid oedd Llywodraeth Cymru wedi trosi'n llwyr ei gweledigaeth ar gyfer adnewyddu'r economi yn rhaglen gydgysylltiedig o gymorth ariannol i fusnesau



Roedd Llywodraeth Cymru wedi sefydlu strwythur timau sector, ond, am nifer o resymau, nid oedd wedi gweithredu'n llawn agweddau eraill ar ei gweledigaeth ar gyfer adnewyddu'r economi mewn perthynas â darparu cymorth ariannol i fusnesau

- 1.1 Yn 2010, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Adnewyddu'r Economi: Cyfeiriad Newydd', a oedd yn nodi ei bwriad i gefnogi ac ysgogi economi Cymru mewn ymateb i'r dirywiad economaidd a ddeilliodd o'r argyfwng ym myd bancio yn 2008. Nod 'Adnewyddu'r Economi' oedd ceisio cyflawni'r heriau a oedd yn wynebu economi Cymru, a hynny trwy ffocysu adnoddau cyhoeddus ar nifer o flaenoriaethau economaidd allweddol; un o'r blaenoriaethau hyn oedd targedu cymorth at fusnesau, gan gynnwys darparu cyllid a chyngor gyda'r bwriad o sicrhau'r canlynol:
- a lleihau swm y cymorth ariannol uniongyrchol;
 - b symud tuag at ddiwylliant buddsoddi sy'n seiliedig ar gyllid ad-daladwy yn hytrach na chyllid grant;
 - c mabwysiadu dull sectoraidd sy'n canolbwyntio ar ddiwydiannau â blaenoriaeth;
 - ch meithrin perthnasoedd strategol â chwmnïau 'angori'⁴;
 - d cynnig cymorth arbenigol cyfyngedig i fusnesau; a
- dd gwella'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda busnesau.
- 1.2 Roedd Llywodraeth Cymru yn anelu at gyflawni ei gweledigaeth ar gyfer adnewyddu'r economi trwy dargedu cymorth at fusnesau sy'n cael effaith fawr ar naw sector allweddol⁵ (Ffigur 3).

4 Disgrifir 'cwmnïau angori' yn 'Adnewyddu'r Economi' fel cwmnïau sy'n tyfu'n gyflym ac sydd â'r potensial i gynyddu cyflogaeth mewn modd dramatig, ynghyd â chwmnïau mawr sy'n gwmnïau cenedlaethol pwysig neu'n gyflogwyr lleol sydd â chadwyni cyflenwi helaeth yng Nghymru.

5 Roedd 'Adnewyddu'r Economi' yn nodi chwe sector allweddol a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar economi Cymru, ym marn Llywodraeth Cymru; ychwanegwyd tri sector arall wedi hynny.

Ffigur 3: sectorau Llywodraeth Cymru

Sectorau



Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch

Modurol, awyrfod, gweithgynhyrchu gwerth uchel



Adeiladu

Y gwasanaethau adeiladu, gan gynnwys adeiladu cyffredinol, fframio, ynysu, a gosodiadau



Y Diwydiannau Creadigol

Ffilm a theledu, amgueddfeydd, hysbysebu a marchnata, y celfyddydau gweledol



Ynni a'r Amgylchedd

Cynhyrchu a defnyddio ynni, ynni adnewyddadwy, technolegau carbon isel



Gwasanaethau Ariannol a Phroffesiynol

Bancio manwerthu, yswiriant, cyfrifyddiaeth, gwasanaethau corfforaethol



Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Gwasanaethau TG, meddalwedd, telathrebu, electroneg



Gwyddorau Bywyd

Technoleg feddygol, diagnosteg, e-iechyd, gwasanaethau fferyllol



Twristiaeth

Gwestai a bwytai, tafarndai a chaffis, gweithgareddau awyr agored, safleoedd hanesyddol ac ymddiriedolaethau



Bwyd a Diod

Prosesu a gweithgynhyrchu bwyd, gan gynnwys cig, cynnyrch llaeth, dofednod ac wyau, pobi, a ffrwythau a llysiau

Gweithgynhyrchu diodydd, gan gynnwys dŵr mwynol, cwrw, gwin a gwirodydd

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 1.3 Mae strwythurau sefydliadau Llywodraeth Cymru a'r modd y mae'n dyrannu meysydd cyfrifoldeb wedi newid sawl gwaith ers cyhoeddi 'Adnewyddu'r Economi', ac maent yn parhau i esblygu. Grŵp yr Economi, Sgiliau a Chyfoeth Naturiol oedd yn bennaf cyfrifol am 'Adnewyddu'r Economi'. Nid yw'r ddogfen hon yn 'fyw' mwyach, ond nid yw'r strwythurau a'r prosesau i gefnogi'r ddogfen sydd wedi ei disodli, sef 'Ffyniant i Bawb', ar waith eto (**Rhan 4**). Mae gan y tîm Sectorau a Busnes rôl allweddol o hyd wrth reoli cymorth ariannol Llywodraeth Cymru i fusnesau yn y sectorau diwydiant â blaenoriaeth.
- 1.4 Mae timau pwrpasol ar gyfer pob sector yn cyflawni rôl datblygu busnesau. Mae'r timau hyn yn amlygu gwybodaeth weithredol dda am eu sectorau, yn ogystal â phrofiad gweithredol ohono, ac yn mynd ati i feithrin perthnasoedd â busnesau. Mae gan bob tîm sector strategaeth, a ddatblygwyd ar y cyd â phaneli ymgynghorol⁶, sy'n nodi'r modd y mae'r timau'n anelu at gynnal twf yn eu priod sectorau. Fodd bynnag, roedd yna ddiffyg manylion yn strategaethau'r sectorau ynghylch y modd y targedir cymorth ariannol yn y sector. O ganlyniad, mae'r cymorth ariannol gwirioneddol a roddwyd i fusnesau yn y sectorau wedi bod yn fwy ymatebol na rhagweithiol a strategol, fel y rhagwelwyd yn 'Adnewyddu'r Economi'.
- 1.5 Nid bwriad Llywodraeth Cymru oedd i'r holl gyllid ar gyfer busnesau gael ei sianelu trwy'r timau sector. Fodd bynnag, mae'n anodd cyflwyno darlun llawn a chywir o'r cymorth ariannol a roddwyd i fusnesau gan y tîm Sectorau a Busnes mewn cyfnod penodol. Er enghraifft:
- a ariennir rhai prosiectau trwy ddyraniad ariannol y tîm Sectorau a Busnes, ond ni chânt eu rheoli gan y tîm hwnnw. Er enghraifft, rhoddir rhai benthyciadau i fusnesau trwy'r tîm, ond Banc Datblygu Cymru sy'n llunio'r adroddiadau chwarterol ar ran y timau sector.
 - b caiff rhai dyfarniadau cyllid i fusnesau yn y sectorau diwydiant eu sianelu trwy dîm Atebion o ran Busnes ar wahân, sy'n rhoi darparu cymorth ar gyfer y timau sector, yn enwedig mewn perthynas â benthyciadau.

6 Roedd gan bob un o'r sectorau banel cynghori annibynnol. Roedd y panel yn cynnwys cynrychiolwyr o fyd busnes, ac roedd yn gweithio gyda'r timau sector i benderfynu ar gyfeiriad strategol a chynnig cyngor arbenigol annibynnol. Bellach, mae Llywodraeth Cymru wedi ffurfio un panel sy'n cynnig cyngor, a hynny yn lle'r naw panel sectoraidd.

1.6 Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r holl flaenoriaethau sy'n rhan o'i gweledigaeth yn y ddogfen 'Adnewyddu'r Economi' ar gyfer targedu ei chymorth at fusnesau. Mae **Blwch 1** yn nodi'r graddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu blaenoriaethau 'Adnewyddu'r Economi'. Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi awgrymu bod newidiadau o ran blaenoriaethau'r Gweinidogion, yn fuan ar ôl cyhoeddi'r strategaeth honno, ynghyd ag effaith barhaus y dirywiad economaidd, yn golygu bod angen dull gweithredu gwahanol, i ryw raddau. Er enghraifft, yr angen i ddarparu cyllid i fusnesau, na fydd angen iddynt ei ad-dalu. Fodd bynnag, ni all Llywodraeth Cymru ddarparu unrhyw ddogfennau sy'n cofnodi'r newid o ran ffocws y polisi oddi ar rai agweddau ar 'Adnewyddu'r Economi'.

Blwch 1: Cynnydd Llywodraeth Cymru mewn perthynas â blaenoriaethau 'Adnewyddu'r Economi'

Blaenoriaeth	Cynnydd
Lleihau swm y cymorth uniongyrchol ⁷	Mae'r cymorth uniongyrchol i fusnesau wedi amrywio. Roedd y gwariant yn ystod y cyfnod o dair blynedd rhwng 2014-15 a 2016-17 fel a ganlyn: <ul style="list-style-type: none"> • 2014-15: £106 miliwn • 2015-16: £126 miliwn • 2016-17: £117 miliwn
Symud tuag at ddiwylliant buddsoddi	Yn ystod y cyfnod rhwng 2014-15 a 2016-17, nid oedd unrhyw ofyniad i ad-dalu'r rhan helaeth o'r cyllid a ddyfarnwyd i fusnesau. Felly, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu'r flaenoriaeth hon yn llawn.
Mabwysiadu dull sectoraidd	Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull sectoraidd. Fodd bynnag, mae'n cefnogi prosiectau nad ydynt yn perthyn i'r sectorau, ac mae hefyd yn darparu cymorth y tu allan i strwythur y timau sector, a hynny i brosiectau mewn sectorau diwydiant. Mae'r dull hwn yn bragmatig, ond mae'n tanseilio'r rhesymeg dros ddynodi'r sectorau.
Meithrin perthnasoedd strategol â chwmnïau 'angori'	Mae'r timau sector wedi meithrin perthnasoedd â chwmnïau 'angori'.
Cynnig cymorth arbenigol cyfyngedig i fusnesau	Cynigir peth cymorth arbenigol i fusnesau allweddol trwy berthnasoedd y timau sector â nhw.
Gwella'r ffordd y mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda busnesau	Nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwerthuso'n llawn a yw ei hymagwedd at 'Adnewyddu'r Economi' wedi gwella'r modd y mae'n gweithio gyda busnesau.

⁷ Yng nghyd-destun 'Adnewyddu'r Economi', mae cymorth uniongyrchol yn cyfeirio at gymorth ariannol a roddir i fusnesau trwy gyfrwng grantiau, cyllid ad-daladwy a benthyciadau; nid yw pob un o'r rhain yn rhan o'r adolygiad hwn.

1.7 Yn 'Adnewyddu'r Economi' a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gyhoeddi adroddiadau a fyddai'n amlygu cynnydd o ran ei gweledigaeth, ynghyd â'r effaith a gyflawnwyd ganddi mewn perthynas â fframwaith o ddangosyddion. Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud hyn mewn modd cynhwysfawr ([paragraffau 3.1 i 3.3](#)). Mae diffyg rhaglen eglur ar gyfer darparu cymorth ariannol a methiant i lunio adroddiadau cynhwysfawr yn 'gwanhau atebolrwydd am gymorth ariannol i gefnogi cyfraniad busnesau tuag at gyflawni amcanion economaidd Llywodraeth Cymru.

Bu diffyg eglurder ar gyfer busnesau ynghylch y cymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru, a'r ffyrdd o gael gafael arno


- 1.8 Yn 2013, nododd Ffederasiwn y Busnesau Bach ddiffyg ymwybyddiaeth ymhlith ei aelodau yng Nghymru⁸ o'r cymorth ariannol sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, nid yw gwybodaeth y Ffederasiwn yn cymharu lefelau ymwybyddiaeth busnesau yn sectorau diwydiant Llywodraeth Cymru a'r tu allan iddynt. Nid yw Llywodraeth Cymru ei hun wedi gwerthuso a yw ei hymagwedd at 'Adnewyddu'r Economi' wedi gwella ymwybyddiaeth ymhlith y sectorau diwydiant a busnesau a dargedir, ynghyd â'r modd yr ymgysylltir â nhw.
- 1.9 Roedd cefnogi busnesau sy'n cael effaith fawr mewn sectorau economaidd â blaenoriaeth yn rhan allweddol o weledigaeth Llywodraeth Cymru yn 'Adnewyddu'r Economi'. Mae timau sector yn ymgysylltu â'u diwydiant sector, gan weithio'n bennaf gyda Chwmnïau Angori a Chwmnïau o Bwys Rhanbarthol⁹. Mae tîm Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru yn darparu cyfran fawr o gymorth ariannol i fusnesau y mae ganddo berthynas â nhw eisoes. Nid yw mor rhwydd i fusnesau nad oes ganddynt eisoes berthynas â Llywodraeth Cymru gael cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru trwy'r Tîm Sectorau a Busnes.

8 Small Businesses in Priority Sectors, Ffederasiwn y Busnesau Bach. Cyhoeddwyd yn 2013.

9 Ystyrir bod cwmni o bwys rhanbarthol yn bwysig iawn i'r rhanbarth o Gymru lle y mae wedi'i leoli, a hynny o ganlyniad, er enghraifft, i nifer y cyflogeion, yr ymrwymiad i weithlu medrus, y gwaith o ddatblygu'r gadwyn gyflenwi, a'r buddsoddiad mewn safle yng Nghymru. (Gweler Troednodyn 5 am esboniad o 'gwmnïau angori').

1.10 Cafodd tua hanner y cyllid a ddyfarnwyd gan dîm Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru yn y flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2017, ei ddyfarnu i fusnesau a oedd yn bodloni diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o fusnesau bach a chanolig (BBaChau)¹⁰. Mae **Ffigur 4** yn nodi'r ymrwymïadau o ran cymorth ariannol ar gyfer busnesau trwy gydol y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2017, wedi'u dadansoddi yn ôl maint y cwmni¹¹.

Ffigur 4: ymrwymïadau i gymorth ariannol ar gyfer busnesau trwy gydol y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2017, wedi'u dadansoddi yn ôl maint y cwmni



Nodiadau:


1. Nid yw'r ffigurau'n cynnwys cyllid mynediad agored; Cronfa Twf Economaidd Cymru na'r Gronfa Twf a Ffyniant.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

1.11 Mae cyfran y busnesau sy'n bodloni diffiniad y Comisiwn Ewropeaidd o BBaCh yn amrywio ledled y timau sector. Mae'r sectorau llai (er enghraifft Twristiaeth) yn gweithio'n bennaf gyda BBaChau, ac mae'r sectorau mwy (er enghraifft Deunyddiau a Gweithgynhyrchu Uwch) yn gweithio gyda busnesau nad ydynt yn BBaChau. Mae **Ffigur 5** yn dangos dosbarthiad yr ymrwymïadau ariannol i fusnesau rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2017, yn ôl sector.

- 10 Mae Canllaw i Ddefnyddwyr y Comisiwn Ewropeaidd yn diffinio busnesau micro, bach a chanolig (BBaChau) yn gwmnïau sydd â llai na 250 o weithwyr a throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 50 miliwn Ewro, a/neu gyfanswm ar y fantolen flynyddol nad yw'n fwy na 43 miliwn Ewro.
- 11 Mewn perthynas â Ffigurau 4 a 5, roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi ariannu dau brosiect a oedd yn gysylltiedig â busnesau a ddosberthid naill ai'n fusnesau cyn cychwyn neu'n unig fasnachwyr. Gofynnodd Llywodraeth Cymru am i fusnesau cyn cychwyn gael eu cynnwys yn y categori canolig (gyda chyllid o £128,913), ac i unig fasnachwyr gael eu cynnwys yn y categori micro (gyda chyllid o £1,676).

Ffigur 5: ymrwymadau i gymorth ariannol ar gyfer busnesau rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2017, wedi'u dadansoddi yn ôl sector a maint y cwmni



Nodiadau:

Nid yw'r ffigurau'n cynnwys cyllid mynediad agored; Cronfa Twf Economaidd Cymru a'r Gronfa Twf a Ffyniant.

Ffynhonnell: Dadansoddiad Swyddfa Archwilio Cymru o ddata Llywodraeth Cymru

- 1.12 Nid yw Llywodraeth Cymru yn hyrwyddo'r cymorth ariannol i fusnesau sydd ar gael trwy'r timau sector mewn modd gweithredol. Fodd bynnag, o bryd i'w gilydd, bydd yn hysbysebu'n agored er mwyn gwahodd ceisiadau gan fusnesau ar gyfer cynlluniau ariannu penodol; er enghraifft, Cronfa Twf Economaidd Cymru a'r Gronfa Twf a Ffyniant. Fodd bynnag, dim ond cyfran fach o gyfanswm y cymorth ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddarparu a gynrychiolir gan gynlluniau o'r fath.
- 1.13 Cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol ei adroddiad ei hun¹² yn dilyn adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Kancoat Cyf¹³ (**Atodiad 3, Ffigur A4**). Yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn argymhell mwy o eglurder ar gyfer busnesau o ran y mathau o gyllid a gynigir; yn ogystal ag ar gyfer swyddogion Llywodraeth Cymru o ran canllawiau ar p'un a ddylai'r cyllid fod yn ad-daladwy ai peidio. Dylai dull diwygiedig Llywodraeth Cymru o ddarparu cymorth ariannol i fusnesau fynd i'r afael ag argymhellion blaenorol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, ond mae'r agwedd hon yn parhau i gael ei datblygu (**Rhan 4**).

Hyd yma, nid yw Llywodraeth Cymru wedi gweithredu dull o gydbwyso'r risgiau a'r manteision posibl a fyddai'n sail i'r broses gyffredinol o reoli'r rhaglen a dethol prosiectau unigol

- 1.14 Mae'n anochel bod yna elfen o risg ynghlwm wrth ddarparu cymorth ariannol a ariennir yn gyhoeddus i fusnesau. Mae'r broses o benderfynu ynghylch pa fusnesau i'w cefnogi yn cynnwys cydbwyso risgiau gwleidyddol a masnachol â'r manteision posibl. Pan fo prosiectau a gefnogwyd yn cyflawni canlyniadau o ran polisi na fyddent wedi'u cyflawni fel arall, heb gymorth, mae cymorth ariannol Llywodraeth Cymru wedi ychwanegu gwerth¹⁴.

12 Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – Cynulliad Cenedlaethol Cymru, **Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Cyf**, Chwefror 2017.

13 Archwiliwr Cyffredinol Cymru, **Llywodraeth Cymru yn ariannu Kancoat Cyf**, 14 Gorffennaf 2016.

14 Mae cyfraith yr UE yn atal llywodraethau'r aelod-wladwriaethau rhag darparu cymorthdaliadau gwrthgystadleuol i fusnesau (Cymorth Gwladwriaethol anghyfreithlon). Ar hyn o bryd, nid yw'n glir i ba raddau y bydd y rheoliadau hyn yn parhau i gael eu cymhwyso gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig wedi i Brydain adael yr UE.

- 1.15 Gall lefel y risg dderbyniol i gyllid cyhoeddus fod yn wahanol ar gyfer cychwyn, ehangu, adleoli neu gynnal busnesau, a gall fod yn wahanol hefyd ar gyfer grantiau, cyllid ad-daladwy a benthyciadau. Mae'n arfer cyffredin i fanciau a buddsoddwyr preifat ymdrin â risgiau trwy ddull rhaglen ledled eu portffolio buddsoddi, a hynny er mwyn rheoli'r risgiau cyffredinol sy'n eu hwynebu. Gall ymagwedd gydlynol at gymryd risgiau ar draws sectorau a dulliau ariannu, sy'n gysylltiedig ag amcanion a blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru, helpu Llywodraeth Cymru i sicrhau bod benthyciadau a ad-delir a manteision i brosiectau yn lliniaru methiannau o ran prosiectau a cholledion ariannol o fewn amserlen resymol, a hynny ar lefel y rhaglen.
- 1.16 Mae penderfyniadau Llywodraeth Cymru ynghylch ariannu prosiectau unigol yn cael eu llywio gan asesiadau o'r risgiau perthnasol yn ystod y broses ymgeisio. Adolygir yr asesiadau hyn yn gyson gan y gall risgiau newid yn ystod prosiect am resymau sydd y tu hwnt i reolaeth y busnes dan sylw. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, mae Llywodraeth Cymru yn asesu risgiau ar lefel prosiectau unigol. Nid oes yna brosesau ar waith i adolygu risgiau prosiectau unigol yn unol â fframwaith, nac i gyfuno'r wybodaeth hon ar lefel y rhaglen. Felly, ni all Llywodraeth Cymru gyfleu'r lefelau risg sy'n dderbyniol ar gyfer pob sector, ar gyfer y math o brosiect, ar gyfer dulliau ariannu gwahanol, nac ar gyfer y rhaglen ariannu busnesau gyfan.
- 1.17 Yn ystod archwiliad o gymorth ariannol i fusnesau, a gynhaliwyd ym mis Mai 2016, lluniodd archwilwyr mewnol Llywodraeth Cymru adroddiad ar gyllid busnes, gan nodi gradd sicrwydd cyfyngedig¹⁵. Canfu'r adroddiad nad oedd yna archwaeth risg¹⁶ sefydledig i gynlluniau buddsoddi unigol osod goddefiannau a chyfeiriadau strategol clir mewn perthynas â'r rheolyddion a oedd ar waith. Mewn ymateb i'r canfyddiad hwn, cytunodd tîm Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru ar gam gweithredu i ddatblygu templed archwaeth risg priodol ac i ystyried y modd y byddent yn cynnwys y gwaith o asesu risgiau ym mhob cynllun ariannu, a hynny erbyn mis Awst 2016. Ystyriodd adolygiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus o Kancoat hefyd yr angen i Lywodraeth Cymru gryfhau ei hymagwedd at risgiau¹⁷. Hyd yma, nid oes yna archwaeth risg ddiffiniedig ar waith mewn perthynas â chymorth ariannol Llywodraeth Cymru i fusnesau. Fodd bynnag, dywed y tîm Sectorau a Busnes wrthym eu bod wrthi'n datblygu ffordd o ymdrin â'r broses o reoli risgiau, a hynny ar y cyd â Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru.


15 Diffinnir fel a ganlyn: gall y rheolwyr fod yn weddol sicr bod y trefniadau i sicrhau trefn lywodraethol, prosesau rheoli risg a rheolaeth fewnol, a hynny yn y meysydd dan sylw, wedi'u cynllunio'n addas ac yn cael eu cymhwysu mewn modd effeithiol. Mae rhai materion arwyddocaol yn gofyn am sylw'r rheolwyr, a bydd y sefydliad yn weddol agored neu'n agored iawn i risgiau hyd nes i'r materion gael eu datrys.

16 Lefel y goddefiant o ran wynebu risgiau. Er enghraifft, mae penderfyniadau'r banciau ynghylch rhoi benthyciadau i fusnesau unigol yn seiliedig ar safbwynt ehangach o ran wynebu risgiau.

17 Gweler hefyd baragraff 1.13.

- 1.18 Er gwaethaf diffyg archwaeth risg gyffredinol, dengys ffigurau Llywodraeth Cymru, yn gyffredinol, fod y gyfradd methu ar gyfer prosiectau neu fusnesau a gafodd cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2017, yn isel. Mae cyfran y cyllid sydd dan sylw hefyd yn gymharol isel. Mae nifer y prosiectau a gafodd gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru (530) ac a oedd yn llwyddiannus yn llawer mwy na nifer y prosiectau neu fusnesau a fethodd (Ffigur 6). Mae Atodiad 3 yn nodi enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus a gafodd gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru.
- 1.19 O blith y prosiectau a'r busnesau a fethodd yn ystod 2014-17, roedd Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo rhai ohonynt yn ystod y cyfnod hwn, ac eraill cyn y cyfnod hwn. Mae'r cyfansymiau ar gyfer prosiectau a busnesau a fethodd, ynghyd â chyllid na chafodd ei adennill, yn fach o gymharu â chyfanswm y cymorth a ddarparwyd yn ystod y cyfnod hwn (Ffigur 2). Rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2017, llwyddodd Llywodraeth Cymru i adennill 47% o'r cyllid a dalodd i brosiectau a fethodd yn ddiweddarach, ynghyd â 0.3% o'r cyllid a dalodd i fusnesau a fethodd yn ddiweddarach (Ffigur 6). Yn ystod yr un cyfnod, neilltuodd y tîm Sectorau a Busnes gyfanswm o £218.65 miliwn ar gyfer 443 o brosiectau newydd, a gwariodd gyfanswm o £167.5 miliwn ar draws tua 530 o fusnesau.

Ffigur 6: prosiectau a busnesau a fethodd yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2014 a mis Mawrth 2017.



Nodwch:

Ystyr busnes a fethodd yw bod y busnes wedi mynd i'r wal. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae Llywodraeth Cymru yn annhebygol o adfer unrhyw ddyled ddiwarant. Ystyr prosiect a fethodd yw nad yw'r prosiect yn cyflawni ei amcanion, ac nid yw o reidrwydd yn golygu bod busnes wedi methu.

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

Tudalen y pecyn 231

1.20 Gallai diffinio archwaeth risg ledled y rhaglen o gymorth ariannol i fusnesau gynyddu lefel y risg y bydd Llywodraeth Cymru yn ei derbyn ar gyfer mathau arbennig o brosiectau, y sector diwydiant neu ddulliau ariannu, gan gynyddu'r gyfradd methu, yn ogystal â'r symiau a gollir gan brosiectau risg uchel o'r fath. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r cyfleoedd a'r manteision gydbwysu'r risgiau; efallai fod rhai risgiau yn werth eu cymryd. Trwy reoli risgiau ar lefel y rhaglen a chyfyngu ar nifer y prosiectau risg uchel mewn portffolio y mae Llywodraeth Cymru yn eu hwynebu yn ariannol, gallai'r effeithiau economaidd cadarnhaol a gyflawnir gan brosiectau llwyddiannus eraill ar draws y rhaglen gyfan wrthbwysu colledion o'r fath.

Rhan 2

Mae Llywodraeth Cymru wedi monitro prosiectau unigol ar wahân, ond nid yw wedi llwyddo i reoli cymorth ariannol i fusnesau fel rhaglen



Mae gwybodaeth reoli am gymorth ariannol i fusnesau yn cael ei chadw ar systemau gwahanol, ac mae'n cynnwys bylchau a chyfeiliornadau; mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd llunio darlun amserol, cywir a chynhwysfawr a fyddai'n cefnogi gwaith monitro ar lefel y rhaglen

- 2.1 Ni all y tîm Sectorau a Busnes lunio adroddiadau rheoli amserol, cynhwysfawr a chywir, sy'n cysylltu cyfanswm y cymorth ariannol a roddwyd i fusnesau â'r canlyniadau a gyflawnwyd, a hynny ar lefel y prosiect a'r rhaglen. Mae hyn yn wir oherwydd bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio systemau amrywiol, ar wahân i reoli gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'i chymorth ariannol ar gyfer busnesau. Ni chaiff codau neu ddynodwyr cyson eu cymhwyso ledled yr holl systemau hyn, ac nid ydynt yn rhyngweithio â'i gilydd. O ganlyniad, mae angen gwneud tipyn o waith cysoni rhyngddynt.
- 2.2 Mae **Blwch 2** yn nodi'r systemau a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i reoli gwybodaeth mewn perthynas â'r cymorth ariannol a roddir i fusnesau, ynghyd â'u gwendidau.

Blwch 2: mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio nifer o systemau gwahanol i reoli'r cymorth ariannol a roddir i fusnesau

Y System Cyfrifon Busnes

Y System Cyfrifon Busnes yw system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid y tîm Sectorau a Busnes.

Mae'r System Cyfrifon Busnes yn system Rheoli Perthnasoedd Cwsmeriaid pwrpasol, a brynwyd yn 2016 gan y tîm Sectorau a Busnes i gefnogi'r modd y maent yn ymwneud â busnesau, gan gynnwys y rhai sy'n cael cymorth ariannol. Mae'r System Cyfrifon Busnes yn dal gwybodaeth am fusnesau a phrosiectau, ond nid yw'n rhyngwynebu â systemau ariannol Llywodraeth Cymru i gynhyrchu data cynhwysfawr mewn perthynas â busnesau a phrosiectau.

Nid oes gan y tîm Sectorau a Busnes hyder yn yr adroddiadau rheoli sy'n cael eu llunio o'r wybodaeth a ddelir ar y System Cyfrifon Busnes, ac ni fu'n defnyddio'r wybodaeth honno'n rheolaidd i lunio adroddiadau sy'n cynnwys gwybodaeth reoli gynhwysfawr y gofynnwyd amdanynt yn ein hastudiaeth. Mae'r tîm bellach wedi cydnabod manteision gwella'r wybodaeth a llunio adroddiadau rheoli manylach.

Blwch 2: mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio nifer o systemau gwahanol i reoli'r cymorth ariannol a roddir i fusnesau

Grantiau Cyflog

Grantiau Cyflog yw system bwrpasol Llywodraeth Cymru ar gyfer cymeradwyo taliadau grantiau, a ddefnyddir gan y tîm Sectorau a Busnes i gymeradwyo taliadau grant, a rhai benthyciadau, i fusnesau.

Mae Canolfan Ragoriaeth Grantiau Llywodraeth Cymru yn argymhell y dylid sefydlu cynlluniau ariannu ar wahân ar y system Grantiau Cyflog. Fodd bynnag, nid yw'r tîm Sectorau a Busnes yn gwneud hyn mewn modd cyson, ac mae hyn yn rhwystro'r gwaith o fonitro'r cynllun yn gywir.

Y Gyriant R

Prif offeryn y tîm Sectorau a Busnes ar gyfer cofnodi gwybodaeth ariannol am brosiectau yw taenlen Excel flynyddol ar gyfer pob sector, y cyfeirir ati fel y Gyriant R.

Ar gyfer pob prosiect, mae'r taenlenni'n cynnwys y gwariant disgwylidig ar gyfer y flwyddyn honno, ynghyd â'r taliadau gwirioneddol a wnaed. Er bod y Gyriant R yn cofnodi nifer y swyddi a grëir gan brosiectau unigol, nid yw'n cynnwys cyfanswm y cyllid a ddyfarnwyd na chyfanswm y gwariant cronus. Felly, nid yw'r Gyriant R yn rhoi gwybodaeth sy'n cysylltu'r broses o greu swyddi â chyfanswm cyllid y prosiect, ac nid yw'n cynhyrchu adroddiadau rheoli ar lefel y rhaglen.

Nid yw'r taenlenni'n cael eu diweddarau'n awtomatig â gwybodaeth o systemau eraill, ac mae angen mewnbynnu'r wybodaeth hon â llaw. Dywedodd y tîm Sectorau a Busnes wrthym ei fod yn cynnal taenlenni'r Gyriant R ar wahân oherwydd cyfyngiadau'r systemau SAP a Grantiau Cyflog.

SAP

SAP yw system cyfrifo ariannol gorfforaethol Llywodraeth Cymru, a ddefnyddir gan y tîm Sectorau a Busnes i wneud taliadau i fusnesau.

Mae SAP yn defnyddio system godio i nodi ac olrhain taliadau. Fodd bynnag, nid yw'r system godio a weithredir gan Lywodraeth Cymru yn cysylltu taliadau â phrosiectau unigol, nac â dulliau ariannu gwahanol, mewn modd cyson. Felly, nid yw SAP yn darparu adroddiadau rheoli ar lefel y rhaglen.

Mae tîm Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru wedi gwella rhai agweddau ar reolaeth ariannol ar gyfer prosiectau unigol, ond o ran ei rhaglen o gymorth ariannol i fusnesau, mae'r rhagolygon o ran y gyllideb a'r cymariaethau o ran gwariant gwirioneddol yn parhau i fod yn aneglur

- 2.3 Mae yna ddiffyg eglurder ynghylch cyllidebau a rhagolygon ar gyfer cymorth ariannol i fusnesau, a hefyd ynghylch cyfanswm y gwariant gwirioneddol ar draws cyfnodau ariannol. Gall gwaith cynllunio ariannol ac adrodd mewn perthynas â darparu cymorth ariannol i fusnesau fod yn gymhleth am y rhesymau canlynol:
- a gall y broses ymgeisio ymestyn dros gyfnodau ariannol;
 - b gall prosiect a gymeradwyir gymryd sawl mis i gael ei gwblhau;
 - c gall prosiect sy'n mynd rhagddo brofi oedi annisgwyl, ac felly ni chaiff taliadau cyllido eu gwneud yn ôl y disgwyl, o bosibl;
 - ch gall taliadau ymestyn y tu hwnt i amser cwblhau'r prosiect yn ymarferol, er mwyn sicrhau bod yr amodau ariannu yn cael eu bodloni a bod y manteision bwriadedig yn cael eu cyflawni cyn i'r cyllid gael ei ryddhau; a
 - d gallai cyfleoedd annisgwyl godi.
- 2.4 Mae angen gwybodaeth gywir a chynhwysfawr, yn ogystal â systemau a phrosesau cadarn ond hyblyg, er mwyn rheoli'r cymhlethdodau hyn yn effeithiol. Fodd bynnag, canfuasom y canlynol:
- a anghywirdebau a bylchau o ran yr wybodaeth a roddwyd i ni;
 - b gwendidau o ran systemau gwybodaeth Llywodraeth Cymru ([paragraff 2.2](#)); a
 - c diffyg rhyngweithio clir rhwng systemau gwybodaeth.
- 2.5 Yn ystod 2017-18, cafodd y tîm Sectorau a Busnes ddyraniad pedair blynedd dangosol hyd at 2020-21 ar gyfer darparu ei raglenni cyffredinol, a hynny yn seiliedig ar gael £110 miliwn ar gyfer 2017-18. Gall y swm yn y dyraniad hwn, sydd ar gael ar gyfer cymorth ariannol i fusnesau, gael ei ymestyn yn y flwyddyn, yn ddibynnol ar argaeledd cyllid ychwanegol yn rhannau eraill o gyllideb is-adran yr Economi a Thrafnidiaeth.

- 2.6 Mae gwaith cynllunio ariannol y tîm Sectorau a Busnes ar gyfer darparu cymorth i fusnesau wedi'i seilio ar ymrwymadau presennol i brosiectau a gymeradwywyd mewn unrhyw flwyddyn benodol. Mae'r tîm Sectorau a Busnes hefyd yn cynnal rhestr o 'brosiectau arfaethedig' yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r prosiectau 'arfaethedig' hyn wedi'u cynnwys yn y gyllideb ar gyfer gwariant yn y dyfodol (**paragraff 4.9**).
- 2.7 Ym mis Gorffennaf 2017, daeth adolygiad gan wasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru o brosesau rhagweld cyllid busnes i'r casgliad bod yna 'sicrwydd rhesymol o ran y rheolaeth sydd ar waith ar gyfer y broses o Ragfynegi Cyllid Busnes'. Fodd bynnag, nododd yr adroddiad ddiffyg tystiolaeth i gefnogi prosesau monitro a rhagweld cyllidebau. Nododd yr Archwiliad Mewnol hefyd gyfeiliornadau yn y cofnodion, gan nodi nad oedd yr wybodaeth yn gyfredol mewn rhai achosion.¹⁸
- 2.8 Yn dilyn adolygiad y gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Gorffennaf 2017, aeth y tîm Sectorau a Busnes ati i gyflwyno prosesau ychwanegol ar gyfer monitro a rhagweld cyllidebau. Bellach, mae'r tîm Sectorau a Busnes, trwy eu harweinwyr cyllid lleol, yn diweddarau'r Gyriant R yn rheolaidd â gwybodaeth gan Reolwyr Datblygu Busnes a gwybodaeth o gyfarfodydd misol â'r Pennaeth Sector perthnasol. Mae'r tîm Sectorau a Busnes hefyd yn cynnal proses hanner blwyddyn fwy ffurfiol, lle cynhelir cyfarfod rhwng y tîm gweithrediadau, Pennaeth Sectorau a Busnes, a swyddogion perfformiad a chyllid. Trafodir pob prosiect arwyddocaol er mwyn cymharu gwariant gwirioneddol y prosiect â'r rhagolygon gwariant, yn ogystal â'r rheiny yr ystyrir eu bod 'mewn perygl'¹⁹, a hynny er mwyn pennu'r canlyniadau tebygol ar gyfer y prosiect a nodi unrhyw gamau lliniaru sy'n ofynnol. Er bod y broses adolygu hanner blwyddyn hon yn cryfhau'r gwaith monitro a rhagweld ar gyfer prosiectau unigol, nid yw'r systemau gwybodaeth yn cefnogi gwaith rheoli rhaglen cywir ac amserol o hyd (gweler **Blwch 2**).

18 Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru, **Rhagweld Cyllid Busnes**, Gorffennaf 2017.

19 Mae'r tîm Sectorau a Busnes yn nodi bod prosiect 'mewn perygl' os yw'n annhebygol o gyflawni ei broffil rhagolygon gwariant.

Rhan 3

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi dangos yn glir y modd y mae ei chymorth ariannol ar gyfer busnesau wedi cyfrannu at yr amcanion o ran adnewyddu'r economi a nodwyd ganddi yn 2010



Nid yw Llywodraeth Cymru wedi rhoi systemau a phrosesau ar waith i gynhyrchu gwybodaeth ar gyfer llunio adroddiadau cyhoeddus ynghylch a yw ei gymorth ariannol ar gyfer busnesau, yn gyffredinol, wedi cyfrannu at gyflawni ei chanlyniadau bwriadedig

- 3.1 Cafodd ymrwymiad Llywodraeth Cymru i lunio adroddiadau cyhoeddus am y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'i hamcanion o ran adnewyddu'r economi ei chefnogi gan y **Fframwaith ar gyfer Mesur Llwyddiant**, a gyhoeddwyd yn 2011. Roedd y fframwaith hwn yn nodi amrywiaeth o ddangosyddion a mesurau ar gyfer olrhain cynnydd ac adrodd amdano, wedi'i gefnogi gan gynllun gweithredu. Fodd bynnag, ni sefydlwyd systemau na phrosesau i gefnogi'r gwaith o fonitro a llunio adroddiadau mewn perthynas â'r fframwaith. Gan nad yw Llywodraeth Cymru wedi adrodd mewn perthynas â'r fframwaith, ni all ddangos a yw ei chymorth ariannol i fusnesau yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion cyffredinol o ran adnewyddu'r economi a nodir yn 'Adnewyddu'r Economi'.
- 3.2 Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru'r rhifyn diweddaraf o'r hyn a ddisgrifir ganddi yn 'datganiad blynyddol' o amrywiaeth o weithgareddau sydd wedi'u hanelu at gefnogi busnesau ar gyfer y cyfnod 2014-15²⁰. Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym ei bod wedi llunio 'datganiad blynyddol' bob blwyddyn oddi ar ddechrau Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru 2011-2016. Fodd bynnag, yr adroddiad a luniwyd yn 2015 yw'r unig un sydd ar gael i'r cyhoedd ar hyn o bryd. Nod adroddiad y 'datganiad blynyddol' oedd cynnig cipolwg mewn amser. Cefnogwyd datganiad blynyddol 2015 gan adroddiadau ar berfformiad y sector ar gyfer yr un cyfnod. Fodd bynnag, nid oedd yr adroddiad hwn yn adrodd ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r 'Fframwaith ar gyfer Mesur Llwyddiant', ac ni fwriadwyd iddo wneud hynny.
- 3.3 Ni all y tîm Sectorau a Busnes gyfannu'r wybodaeth y mae'n ei dal am brosiectau unigol yn rhwydd er mwyn darparu trosolwg o'i raglen gyffredinol o gymorth ariannol i fusnesau. Ni all y tîm gysoni gwybodaeth a dynnir oddi ar systemau gwahanol yn rhwydd, ac nid oes ganddo'r hyder yng nghywirdeb yr wybodaeth a fyddai'n ei alluogi i lunio adroddiadau arferol am gymorth ariannol i fusnesau ar lefel rhaglen. O ganlyniad, ni all Llywodraeth Cymru fynd ati'n rhwydd i lunio adroddiadau amserol, cyflawn a chywir ar gymorth ariannol i fusnesau ar gyfer y cyfnod 2014-17, sy'n cysylltu'r cyllid â'r canlyniadau a gyflawnwyd ([paragraffau 2.1 i 2.2](#)).


20 **Cefnogi Busnesau a'r Economi, Datganiad Blynyddol gan Lywodraeth Cymru 2015.** Adroddiad a luniwyd i fodloni dangosydd a oedd yn rhan o Raglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2011-2016.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar greu a diogelu swyddi, ond nid oedd wedi monitro'r canlyniadau economaidd ehangach yn erbyn y fframwaith eang o ddangosyddion yr oedd wedi ymgymryd i lunio adroddiad yn eu cylch

- 3.4 Mae 'Fframwaith ar gyfer Mesur Llwyddiant' Llywodraeth Cymru yn cynnwys amrywiaeth o ddangosyddion a mesurau i nodi a yw blaenoriaethau 'Adnewyddu'r Economi' yn cael eu cyflawni (**Atodiad 4**). Yn ymarferol, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ei dull o ddarparu cymorth ariannol i fusnesau yn 'Adnewyddu'r Economi', yn gulach, ar greu a diogelu swyddi. Mae'r broses o gymeradwyo dyfarniadau cyllid ar gyfer prosiectau unigol yn ystyried a all prosiect gynnig manteision economaidd ehangach i'r ymgeisydd neu fusnesau cysylltiedig (er enghraifft, datblygu technolegau newydd a meithrin sgiliau), yn ogystal â swyddi uniongyrchol.
- 3.5 Mae Llywodraeth Cymru yn monitro nifer y swyddi a grëir neu a ddiogelir gan brosiectau unigol gan ei bod yn ofynnol i fusnesau ddarparu tystiolaeth eu bod yn gwneud hyn i Lywodraeth Cymru wrth gyflwyno ceisiadau am daliadau cyllid. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi adrodd yn ffurfiol ar gyfanswm y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd ers y 'Datganiad Blynyddol ar Gymorth i Fusnesau' diwethaf yn 2015²¹, ac nid oedd wedi dadansoddi'r swyddi yn ôl y dull ariannu yn rhan o'r adroddiad hwnnw. Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud datganiadau cyhoeddus am ffigurau sy'n ymwneud â swyddi, ond mae'r rhain naill ai'n berthnasol i brosiectau penodol neu i weithgarwch cyffredinol Llywodraeth Cymru. Nid yw Llywodraeth Cymru yn dosbarthu ffigurau o'r fath yn 'ystadegau swyddogol' gan nad ydynt yn cael eu paratoi gan ei thîm ystadegau.
- 3.6 Mae'r diffyg targedau penodol neu adroddiadau ffurfiol mewn perthynas ag Adnewyddu'r Economi yn ei gwneud hi'n anodd asesu'r modd y mae'r ffrydiau cyllido gwahanol yn cyfrannu at nodau strategol Llywodraeth Cymru. Mae **Ffigur 7** yn dangos yr hyn a luniwyd gan Lywodraeth Cymru ar ein cyfer mewn adroddiad pwrpasol i ddangos nifer y swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd gan y tîm Sectorau a Busnes yn ystod y cyfnod o dair blynedd, 2014-2017.

21 2015 oedd y flwyddyn ddiwethaf i Lywodraeth Cymru gyhoeddi ei Datganiad Blynyddol ar Gymorth i Fusnesau, a oedd yn cynnwys gwybodaeth am nifer y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd ym mhob rhan o Lywodraeth Cymru.

Ffigur 7: cyfanswm bras y swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd mewn perthynas â'r cymorth ariannol a ystyrir yn yr adolygiad hwn (paragraffau 3 a 6) ar gyfer y cyfnod o fis Ebrill 2014 i fis Mawrth 2017



Sylwch:

Mae'r swyddi yn Ffigur 7 yn ffigurau bras gan fod y niferoedd wedi cael eu cyfrifo â llaw, a gallant gynnwys rhai swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd trwy ddulliau ariannu nas cwmpesir yn yr adolygiad hwn. Mae Ffigur A2 (Atodiad 2) yn dangos gwybodaeth fanylach mewn perthynas â swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd, wedi'i dadansoddi fesul sector.

Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

3.7 Mae uwch-reolwyr y tîm Sectorau a Busnes yn monitro cyfanswm y swyddi sy'n cael eu creu a'u diogelu trwy gyllid busnes. Fodd bynnag, mae'r tîm Sectorau a Busnes yn paratoi'r wybodaeth hon â llaw gan na all ei chynhyrchu o unrhyw un o'r systemau a ddefnyddir i reoli ei gymorth ariannol i fusnesau (**Blwch 2**).

Rhan 4

Mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth economaidd newydd, ac mae bellach yn dechrau ailwampio ei dull o ddarparu cymorth ariannol i fusnesau



Yn ddiweddar, lansiodd Llywodraeth Cymru fframwaith strategaeth economaidd newydd ar gyfer darparu cymorth ariannol i fusnesau

- 4.1 Er mwyn cefnogi ei rhaglen lywodraethu ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad²², cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Ffyniant i Bawb'. I ategu at hyn, a llywio'r gwaith o gyflawni ei nodau economaidd o ddatblygu'r economi a lleihau anghydraddoldebau economaidd, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi 'Cynllun Gweithredu ar yr Economi' ac wedi sefydlu grŵp llywio i oruchwylio'r broses o roi'r cynllun ar waith.
- 4.2 Trwy ei 'Chynllun Gweithredu ar yr Economi', mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno model gweithredu newydd ar gyfer darparu cymorth ariannol i fusnesau, ac mae'n anelu at feithrin perthynas wahanol â'r busnesau y mae'n eu cefnogi, perthynas y mae'n cyfeirio ati fel ei Chontract Economaidd (Blwch 3). Bydd yn rhaid i fusnesau sy'n ceisio cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru amlygu nifer gofynnol o arferion busnes a bennir yn y Contract Economaidd, a bydd yn rhaid iddynt sicrhau bod y cynigion am gymorth ariannol yn cyd-fynd ag o leiaf un o bum maes, a elwir yn 'Feysydd Gweithredu' (Ffigur 8).

Blwch 3: Diffiniadau o'r Contract Economaidd a'r meysydd gweithredu

Contract Economaidd	Y Contract Economaidd yw ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barhau i ddarparu buddsoddiad cyhoeddus er mwyn galluogi busnesau i dyfu ochr yn ochr â'r disgwyliad y bydd y busnesau'n cyfrannu at ei hamcanion yn gyfnewid am gymorth ariannol. Mae'n meithrin perthynas newydd rhwng busnesau a'r llywodraeth. Bydd busnesau'n glir o ran yr union gymorth y bydd y llywodraeth yn ei roi er mwyn paratoi pobl a busnesau ar gyfer y dyfodol.
Maes Gweithredu	Disgwylir i fusnesau sy'n ceisio cymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru gyfrannu at o leiaf un o'i Meysydd Gweithredu, a gynlluniwyd i'w cefnogi i oresgyn heriau'r dyfodol. Bydd busnesau'n gallu gweld yn glir lle y bydd y llywodraeth yn ceisio darparu cymorth, a bydd pobl yn gallu elwa ar fusnesau sy'n paratoi ar gyfer newid yn y dyfodol.

22 Symud Cymru Ymlaen yw Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016-2021, sy'n amlinellu'r ymrwymadau y mae'n bwriadu eu cyflawni yn ystod y cyfnod hwnnw. Mae'r strategaeth 'Ffyniant i Bawb' a'r 'Cynllun Gweithredu ar yr Economi' yn nodi'r modd y bydd ymrwymadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r economi yn cael eu cyflawni.


Ffigur 8: model gweithredu cynlluniedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ystyried cymorth ariannol i fusnesau, yn unol â'i 'Chynllun Gweithredu ar yr Economi'



Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi tri sector thematig cenedlaethol a phedwar sector sylfaen er mwyn helpu i roi ffocws ar ei gwaith rhagweithiol gyda busnesau

4.3 Mae'r model gweithredu newydd yn agored i bob busnes ym mhob sector. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi tri sector thematig cenedlaethol a phedwar sector sylfaen, er mwyn helpu i sianeli ei chymorth i fusnesau (Ffigur 9). Er bod peth gwaith cychwynnol wedi cael ei wneud, nid yw Llywodraeth Cymru wedi newid ei strwythur mewnol eto, ac mae'n parhau i weithredu trwy'r timau sector blaenorol. Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod amserlen ddangosol ar gyfer newid sefydliadol, i'w gweithredu erbyn gwanwyn 2019.

Ffigur 9: sectorau thematig cenedlaethol a sylfaen Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth ariannol i fusnesau.



Ffynhonnell: dogfen Llywodraeth Cymru, Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu ar yr Economi
Tudalen y pecyn 245

4.4 Mae Llywodraeth Cymru yn symleiddio'r ffordd y mae'n darparu cymorth ariannol i fusnesau, a hynny trwy ddarparu un gronfa, sef Cronfa Dyfodol yr Economi, yn lle gwahanol ffrydiau cyllid grant. Mae'r gronfa wrth wraidd model gweithredu newydd y 'Contract Economaidd' a'r 'Meysydd Gweithredu' (gweler **Ffigur 8**). Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn parhau i gynnig cyllid ad-daladwy, er enghraifft benthyciadau gan gynnal hyblygrwydd o ran pa ddull i'w ddefnyddio wrth ystyried ffactorau economaidd cyffredinol. Fodd bynnag, mae'n bwriadu datblygu sail resymegol gliriach ar gyfer penderfynu a dylid sicrhau cymorth ariannol trwy ei phroses ariannu uniongyrchol ei hun, neu trwy Fanc Datblygu Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau buddion economaidd eang, hirdymor trwy ei dull newydd o ddarparu cymorth ariannol i fusnesau

- 4.5 Er mwyn i Lywodraeth Cymru gyflawni ei dyheadau hirdymor, mae'n bwysig bod ffocws y cymorth ariannol a'r cymorth anariannol i fusnesau yn ehangu y tu hwnt i niferoedd y swyddi yn unig. Bydd angen i Lywodraeth Cymru ystyried arferion busnes a chyflogaeth foesebol yn llawnach, a hynny nid yn unig o ran y busnesau y mae'n eu cefnogi yn uniongyrchol, ond hefyd o ran eu cadwyni cyflenwi a dosbarthu. Mae materion tebyg i le y caiff elw ei ddatgan a threthi eu talu hefyd yn gynyddol bwysig i'r cyhoedd.
- 4.6 Yn ôl 'Cynllun Gweithredu ar yr Economi' Llywodraeth Cymru, nid creu a diogelu swyddi fydd prif amcan ei rhaglen o gymorth ariannol i fusnesau mwyach. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu canolbwyntio ar ganlyniadau targed ehangach, fel y nodir yn y 'Meysydd Gweithredu', yn ogystal â dangosyddion i fesur llwyddiant. Ar hyn o bryd, nid yw Llywodraeth Cymru wedi pennu eto y modd y mae'n bwriadu monitro'r gwaith o ddarparu'r rhaglen ac adrodd amdano.
- 4.7 Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod angen iddi sicrhau nad yw ffocws y cymorth ariannol i fusnesau yn rhy gul, a'i fod yn sicrhau buddion ehangach ar gyfer busnesau yng Nghymru, yn ogystal ag economi Cymru yn gyffredinol. Mae 'Cynllun Gweithredu ar yr Economi' Llywodraeth Cymru yn amlygu ei dyhead hirdymor am dwf economaidd yng Nghymru, gan gydnabod yr angen i ystyried yr effaith ar genedlaethau'r dyfodol. Nod cyflwyno'r 'Contract Economaidd' a'r 'Meysydd Gweithredu' (**Ffigur 8**) oedd helpu busnesau i ddatblygu mewn modd cynhwysol ac i'w paratoi eu hunain ar gyfer y dyfodol er mwyn iddynt allu cyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o economi gynaliadwy yng Nghymru, sy'n tyfu.

- 4.8 Mae ‘Cynllun Gweithredu ar yr Economi’ Llywodraeth Cymru hefyd yn nodi'r modd y mae wedi ystyried Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac wedi defnyddio saith o'i hamcanion llesiant (**Blwch 4**) wrth lunio ei gweledigaeth ar gyfer twf economaidd yng Nghymru. Mae gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn hwyluso economi sy'n cyflawni twf cynaliadwy a chynhwysol, ynghyd â chyfleoedd i bawb, ac sy'n hybu llesiant unigol ac ar y cyd.


Blwch 4: Amcanion Llesiant Llywodraeth Cymru a ddefnyddiwyd i lunio ei gweledigaeth ar gyfer twf economaidd yng Nghymru

- Cefnogi pobl a busnesau i lywio ffyniant
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau rhanbarthol a hyrwyddo gwaith teg
- Ysgogi twf cynaliadwy a mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd
- Meithrin uchelgais ac annog dysgu gydol oes
- Arfogi pawb â'r sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig
- Hyrwyddo ac amddiffyn lle Cymru yn y byd

Mae cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer cymorth ariannol i fusnesau wedi cael ei hadolygu i ystyried prosiectau o dan ei ‘Chynllun Gweithredu ar yr Economi’, ond mae'n parhau i fod yn seiliedig ar ymrwymadau hysbys

- 4.9 Yn 2017-18, gosododd Llywodraeth Cymru gyllideb bedair blynedd ar gyfer darparu cymorth ariannol i fusnesau o dan ei dull strategol blaenorol, ‘Adnewyddu'r Economi’. Fodd bynnag, nid oedd y gyllideb ond yn ystyried y prosiectau hynny lle roedd cyllid wedi cael ei ddynodi, ac nid oedd yn ystyried ymrwymadau posibl yn y dyfodol (**paragraff 2.6**). Mewn gwirionedd, rhestr o daliadau rhagweledig yn unig yw'r ‘gyllideb’, yn hytrach na chyllideb y gellir ei dyrannu er mwyn cyflawni blaenoriaethau newydd. Mae **Ffigur 10** yn dangos y gyllideb bedair blynedd a gymeradwywyd yn 2016-17.

Ffigur 10: cyllideb bedair blynedd tîm Sectorau a Busnes Llywodraeth Cymru o 2017-18 ymlaen



Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

4.10 Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyllideb ddiwygiedig ar gyfer darparu cyllid busnes ym mis Hydref 2018. Mae'r gyllideb ddiwygiedig hon yn cynnwys yr ymrwymadau hysbys a wnaed ers i Lywodraeth Cymru lansio ei Chynllun Gweithredu ar yr Economi, ond nid yw'n ystyried ymrwymadau yn y dyfodol. Yn y cyfamser, mae yna rai ffynonellau penodol o gyllid ychwanegol y gall y tîm Sectorau a Busnes dynnu arnynt, o bosibl, os bydd y prosiect yn bodloni gofynion y cynllun o ran ariannu. Lle na fydd prosiect gwerth chweil yn bodloni gofynion cynlluniau neu gyllidebau presennol, bydd Llywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd o ganfod y cyllid angenrheidiol i'w gefnogi. Gellid gweld hyblygrwydd yn y cyllid ar gyfer prosiectau newydd yn ystod y flwyddyn wrth i brosiectau sy'n bodoli, ac y mae cyllid wedi'i neilltuo ar eu cyfer, fethu cadw at eu hamserlenni disgwylidig.

Atodiadau

Atodiad 1 – Dulliau archwilio

Atodiad 2 – Dadansoddiad fesul sector o ymrwymïadau mewn perthynas â chymorth ariannol

Atodiad 3 – Astudiaethau achos o brosiectau

Atodiad 4 – Adnewyddu'r Economi: Fframwaith ar gyfer mesur llwyddiant



Atodiad 1 – Dulliau archwilio

Gwybodaeth archwilio bresennol

Aethom ati i adolygu gwybodaeth bresennol, gan gynnwys adroddiadau perthnasol gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad Cenedlaethol a Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru.

Dadansoddi data

Aethom ati i ddadansoddi data ariannol a data ar berfformiad o nifer o systemau Llywodraeth Cymru ar hyd y cyfnod o dair blynedd, 2014-15, 2015-16 a 2016-17. Fodd bynnag, cafodd rhychwant ein dadansoddiad ei gyfyngu i set ddata gul, a hynny oherwydd cyfyngiadau systemau Llywodraeth Cymru, na allent gynhyrchu data amserol, cywir a chynhwysfawr ([paragraffau 2.1 a 2.2](#))²³.

At hynny, mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio ar swyddi heb fonitro'r economi ehangach yn erbyn y fframwaith eang o ddangosyddion mewn perthynas ag 'Adnewyddu'r Economi', yr oedd wedi ymgymryd i lunio adroddiad yn eu cylch yn 2010.

Adolygu dogfennau

Aethom ati i adolygu amrywiaeth eang o ddogfennau, gan gynnwys:

- Dogfennau strategaeth a dogfennau polisi Llywodraeth Cymru a oedd yn ymwneud â darparu cymorth ariannol i fusnesau.
- Dogfennau canllaw Llywodraeth Cymru ar gyfer y systemau a ddefnyddiwyd i reoli ei gwybodaeth ariannol a'i gwybodaeth am berfformiad.
- Cofnodion cyfarfodydd amrywiol, gan gynnwys cyfarfodydd panel buddsoddi Llywodraeth Cymru, Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol, ac Uwch-reolwyr y Tîm Sectorau a Busnes.
- Ceisiadau am gymorth ariannol gan fusnesau.

²³ Pan gychwynwyd ar yr archwiliad, data 2016-17 oedd y data mwyaf diweddar a oedd ar gael. Fodd bynnag, o ganlyniad i anawsterau a wynebwyd wrth gael y data a ddarparwyd i ni gan Lywodraeth Cymru, a'u dilysu, ni aethom ati i ehangu'r cyfnod i gynnwys data 2017-18, sydd bellach ar gael, cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Cyfweliadau

Rydym wedi trafod darpariaeth Llywodraeth Cymru o ran cyllid busnes trwy gyfres o gyfweliadau ag amrywiaeth o swyddogion.

Arsylwadau

Roeddem yn bresennol yn y cyfarfodydd canlynol i arsylwi arnynt:

- Paneli buddsoddi Llywodraeth Cymru ar 1 Awst 2017 a 26 Medi 2017.
- Bwrdd Cynghorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol ar 5 Medi 2017.
- Uwch-reolwyr y Tîm Sectorau a Busnes ar 26 Medi 2017 a 24 Hydref 2017.

Atodiad 2 – Dadansoddiad fesul sector o ymrwymïadau mewn perthynas â chymorth ariannol

Mae **Ffigur A1** yn nodi swm y cymorth ariannol a gynigiwyd i fusnesau, ac a dderbyniwyd ganddynt, yn ystod y cyfnod o dair blynedd, 2014-15, 2015-16 a 2016-17, wedi'i ddadansoddi fesul sector. Mae busnesau unigryw yn cyfeirio at nifer y busnesau unigol sy'n cael cymorth ariannol, gan fod rhai busnesau yn cael cymorth ar gyfer mwy nag un prosiect. Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod busnes wedi derbyn cynnig o gymorth ariannol pan ddaw llythyr derbyn i law, wedi'i lofnodi.

Ffigur A1: y cymorth ariannol a gynigiwyd ac a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod o dair blynedd, 2014-15, 2015-16 a 2016-17




Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

Tudalen y pecyn 252

Swyddi a grëwyd neu a ddiogelwyd, fesul sector, ar gyfer y tair blynedd, 2014-15, 2015-16 a 2016-17

Mae Ffigur A2 yn ehangu ar y swyddi cyffredinol a grëwyd ac a ddiogelwyd, fel y'u nodir yn Ffigur 7, paragraff 3.6, gan ddadansoddi'r swyddi fesul sector.

Ffigur A2: y swyddi a grëwyd ac a ddiogelwyd



Ffynhonnell: Data Llywodraeth Cymru

Atodiad 3 – Astudiaethau achos o brosiectau


Mae **Ffigurau A3 ac A4** yn enghreifftiau o brosiectau llwyddiannus ac aflwyddiannus (yn eu tro), a gafodd gymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru trwy ei thîm Sectorau a Busnes. Prosiectau llwyddiannus yw'r rheiny a gyflawnodd y disgwyliadau ac a greodd neu a ddiogelodd swyddi yn ôl y disgwyl. Prosiectau aflwyddiannus yw'r rheiny na chreodd na ddiogelodd unrhyw swyddi yn ôl y bwriad. Mewn rhai achosion, aeth y cwmnïau a oedd yn ymwneud â'r prosiectau i ddwylo'r gweinyddwyr neu i'r wal.

Ffigur A3: prosiectau llwyddiannus

Dr Beynon's Bug Farm Cyf.



Mae **Dr Beynon's Bug Farm** yn atyniad i dwristiaid, yn ganolfan ymchwil, ac yn fferm weithredol sydd wedi'i lleoli yn Nhyddewi, Sir Benfro. Mae'r fferm yn cynnal amrywiaeth o weithgareddau sy'n anelu at addysgu'r cyhoedd am bryfed.

Cafodd y cwmni  **£36,400** gan y Cynllun Cymorth Buddsoddi mewn Twristiaeth ym mis Mehefin 2015, gyda'r bwriad o greu/diogelu chwe swydd lawn-amser.



Cwblhawyd y prosiect yn foddhaol, ac mae'r busnes wedi mynd ymlaen i fod yn llwyddiannus iawn, gan gael llawr o

sylw yn y cyfryngau ac ennill nifer o wobrau yn y diwydiant.

TrakCel Cyf.



Cwmni technoleg feddygol yw **TrakCel Cyf.** sydd wedi'i leoli yng Nghaerdydd. Mae'n darparu llwyfannau meddalwedd ar gyfer rheoli ac olrhain cadwyni cyflenwi clinigol yn niwydiant y therapïau sy'n seiliedig ar gelloedd.

Cafodd y cwmni ddau gynnig ar wahân o gyllid: **£125,000** o gyllid ad-daladwy yn 2014 ar gyfer datblygu a chynnal treialon, a **£125,000** o gyllideb busnes nad oedd angen ei ad-dalu yn 2015 ar gyfer masnacheiddio.

Rhagorodd y cwmni ar ei dargedau trwy greu **29 o swyddi cyfwerth ag amser llawn**, ac erbyn hyn mae wedi ehangu ei weithrediadau yn UDA, gan ddod yn brif ddarparwr meddalwedd ar gyfer rheoli cadwyn gyflenwi therapïau sy'n seiliedig ar gelloedd.

Festive Productions Limited (FPL)



Mae **FPL** yn gwmni a arweinir gan ddylunio, sy'n cynnig amrywiaeth o gynhyrchion ar gyfer y farchnad addurniadau Nadolig. Mae cwsmeriaid nodedig y cwmni yn cynnwys ASDA, Sainsbury's, John Lewis, House of Fraser, a Harrods. Mae prif swyddfa'r cwmni wedi'i lleoli yng Nghwm-brân, lle mae'n cyflogi 60 o bobl yn llawn-amser, ynghyd â 130 o weithwyr dros dro yn flynyddol.

Grant cyllid busnes ad-daladwy gwerth **£150,000** i gyfrannu at gostau atgyweirio ar safle'r cwmni yng Ngwm-brân. Roedd y difrod i do'r safle yn bygwth hyfywedd gweithrediad y cwmni yng Nghymru, felly byddai'r gwaith atgyweirio yn diogelu'r **60 o swyddi llawn-amser** a'r **130 o swyddi rhan-amser** yng Ngwm-brân.

Cwblhawyd y prosiect yn foddhaol, gan ddiogelu'r swyddi ar y safle yn llwyddiannus.


Dechreuodd y cwmni **ad-dalu'r** grant ym mis **Mai 2017**.



Tenneco



Tenneco Inc yw un o gwmnïau mwyaf y byd o ran dylunio, gweithgynhyrchu a dosbarthu cynhyrchion aer glân, cynhyrchion perfformiad reidiau, a systemau ar gyfer cerbydau modur a mashachol a pheiriannau mawr.

Dyfarwyd  **£3.7M** o gyllid busnes nad oedd angen ei ad-dalu ym mis Rhagfyr 2013. Defnyddiwyd y grant i gyfrannu at gostau agor cyfleuster newydd yn Nowlais Uchaf, Merthyr Tudful, wrth i'r safle gael ei ddatblygu'n gyfleuster cynhyrchu ac yn warws. Byddai gwaith cynhyrchu ar y safle yn cyflenwi cwmnïau modur nodedig, gan gynnwys Jaguar, Renault, GM a Nissan. Roedd cyfanswm o 224 o swyddi i gael eu creu a 36 o swyddi eraill i gael eu diogelu.

Cwblhawyd y gwaith o ariannu'r prosiect, a rhagorodd Tenneco ar ei dargedau o ran swyddi, gan greu **226 o swyddi newydd** a **diogelu 36**.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Ffigur A4: prosiectau aflwyddiannus

Griffin Place Communications Cyf.



Canolfan gyswilt oedd **Griffin Place Communications Cyf.** a sefydlwyd yng Ngwm-brân yn 2014. Roedd y cwmni'n darparu gwasanaethau i gwsmeriaid i'w prynu i mewn, gan ddefnyddio meddalwedd cwmwl soffistigedig i sicrhau bod data'n cael eu diogelu i'r eithaf.

Dyfarwyd **£600,000** o gyllid busnes i'r cwmni (roedd £100,000 o'r swm hwn yn ad-daladwy) i greu 121 o swyddi yng Nghwm-brân.

Talwyd ychydig o dan **£589,000** i'r cwmni, gan greu **127 o swyddi**. Fodd bynnag, cafwyd gwybod nad oedd y staff yn cael eu talu. Bu ymdrechion i gysylltu â'r cwmni yn aflwyddiannus, ac, yn y pen draw **peidiodd y cwmni â masnachu, ac aeth i'r wal**. Nid oes unrhyw wybodaeth annibynnol i ddilysu'r rheswm dros fethiant y busnes hwn.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn aros am adroddiad terfynol y diddymwr, ond nid yw'n disgwyl adennill yr arian.

Mainport Engineering (1990) Cyf.



Roedd **Mainport Engineering (1990) Cyf.** yn gwmni saernïo a pheiriannu wedi'i leoli yn Noc Penfro.

Dyfarwyd **£650,000** i'r cwmni gan Gronfa Twf Economaidd Cymru er mwyn iddo ehangu ei weithrediad trwy adeiladu cyfleuster newydd, gan greu 30 o swyddi newydd a diogelu 140 o swyddi a oedd yn bodoli.

Methodd y cwmni â chyflawni'r targed o ran swyddi, a hynny o drwch blewyn, gan greu **27 o swyddi newydd a diogelu 140 o swyddi**. Cafwyd effaith negyddol ar referniw'r cwmni wedi i **brif gleient gau**. Ni lwyddodd i sicrhau contractau amgen i liniaru'r diffyg yn y referniw, ac ni fu modd talu costau sylfaen y cwmni. O ganlyniad i hyn, ynghyd â dadl barhaus â CThEM, aeth y cwmni i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Hydref 2016.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn aros am adroddiad terfynol y diddymwr, ond nid yw'n disgwyl adennill yr arian.

Oysterworld Cyf.



Roedd **Oysterworld Cyf.** yn ddatblygwr ac yn ddsbarthwr gemau digidol ar-lein a gemau i'w lawrlwytho.

Cafodd y cwmni ddau gylch o gyllid busnes ar gyfer dau brosiect ar wahân: i) **gwerth £1 miliwn o gyllid busnes ad-daladwy** (yn ad-daladwy ar yr amod bod y trosiant ariannol yn £25 miliwn) ar gyfer sefydlu hwb i ddatblygu a chyhoeddi gêm amlchwaraewr ar-lein i blant, a ii) **gwerth £415,000 o gyllid busnes nad oedd angen ei ad-dalu** i ddatblygu gemau posau i blant. Rhagwelwyd y byddai'r prosiectau hyn, gyda'i gilydd, yn creu 85 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ar safle yn Nhrefforest.

Cyflawnodd y cwmni ei darged o **greu 85 o swyddi**; fodd bynnag, dechreuodd brofi **anawsterau sylweddol o ran llif arian**.

Cymhlethwyd hyn gan nifer o ffactorau, gan gynnwys oedi difrifol o ran y prosiectau gemau, a methiant i sicrhau contractau newydd. Nid oedd y cwmni yn gallu talu ei gredydwy'r na'i staff, ac aeth i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Awst 2016.

Ar adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, mae'r broses ddiddymu yn mynd rhagddi, a rhagwelir y bydd yn para am ddeunaw mis arall. Mae'r diddymwr wedi rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru ei fod yn ansicr p'un a fydd yna unrhyw arian ar gael i'w adfer ai peidio.

Ffigur A5: ein canfyddiadau blaenorol mewn perthynas ag ariannu Kencoat Cyf gan Lywodraeth Cymru

Kancoat Cyf.



Roedd **Kancoat Cyf.** yn gwmni cyfyngedig a sefydlwyd yn gynnar yn 2012 i ysgwyddo cyfrifoldeb am linell gynhyrchu ar gyfer araenu coiliau metel yn safle Alcoa ar ystad Waunarlywydd yn Abertawe.

Rhoddodd Llywodraeth Cymru becyn ariannu gwerth **£3.4 miliwn i Kancoat Cyf.** er mwyn prynu a gweithredu llinell gynhyrchu ar gyfer araenu coiliau metel, a hynny gyda'r bwriad o greu twf a swyddi cynaliadwy. Dywedodd Kancoat Cyf y byddai cymorth Llywodraeth Cymru **yn ei helpu i greu 32 o swyddi dros dair blynedd** ac i ddiogelu un swydd arall mewn maes o bwys economaidd. Darparwyd y pecyn ariannu trwy gyfuniad o grant, benthyciadau a chymorth eiddo.

Methodd y fenter, ac aeth y cwmni i ddwylo'r gweinyddwyr ym mis Medi 2014. Roedd **arno £2.6 miliwn i Lywodraeth Cymru, a dim ond 12 o swyddi** a gafodd eu **creu**.


Diddymwyd **Kancoat Cyf.** ar 11 Mawrth 2018, ac mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu proses dileu dyled ar gyfer yr arian sy'n ddyledus.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

Atodiad 4 – Adnewyddu'r economi: Fframwaith ar gyfer mesur llwyddiant

Ffigur A6 yw Fframwaith Llywodraeth Cymru ar gyfer mesur llwyddiant, a hynny yn rhan o 'Adnewyddu'r Economi'. Mae dogfen Llywodraeth Cymru hefyd yn manylu ar sail resymegol ategol ar gyfer pob blaenoriaeth sydd ynddi.

Ffigur A6: Adnewyddu'r Economi: Fframwaith ar gyfer mesur llwyddiant



Sylwch:

Mae Adnewyddu'r Economi: Fframwaith ar gyfer mesur llwyddiant yn cynnwys sail resymegol ategol ar gyfer pob un o'i flaenoriaethau.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru.

Tudalen y pecyn 258

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon